Llywodraeth Cymru
Welsh Government


CYMRU'R DYFODOL –
Y Cynllun Cenedlaethol 2040

Dogfen Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Drafft Gweithio: Fersiwn Medi 2020

Ym mis Medi 2020, gosododd y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Drafft (FfDC) gerbron y Senedd ar gyfer y cyfnod craffu 60 diwrnod. Roedd y dogfennau a osodwyd yn cynnwys adroddiad ar y Rhestr o Newidiadau, sy'n nodi'r newidiadau y mae'r Gweinidog yn bwriadu eu gwneud i'r FfDC drafft a oedd yn destun ymgynghoriad yn 2019. Mae'r ddogfen hon yn gyflwyniad ffurfiol i'r Senedd o'r newidiadau y bwriada'r Gweinidog eu gwneud.

Mae'r ddogfen hon yn Ddogfen Weithredol o'r FfDC ac fe'i lluniwyd ym mis Medi 2020 i helpu'r Senedd i graffu ar y FfDC. Nid yw wedi'i gosod yn y Senedd. Mae'r ddogfen yn dangos y newidiadau a nodwyd yn adroddiad y Rhestr o Newidiadau yn yr un arddull a fformat â fersiwn y FfDC drafft a oedd yn destun ymgynghoriad. Mae hyn yn caniatáu bod modd cymharu ochr yn ochr FfDC drafft yr ymgynghoriad a'r FfDC fel y bwriada'r Gweinidog ei addasu; ac mae'n caniatáu i'r newidiadau gael eu deall yng nghyd-destun y FfDC yn ei gyfanrwydd.

Lluniwyd y Fersiwn Weithredol hon cyn proses craffu'r Senedd. Nid yw'n fersiwn newydd neu derfynol o'r FfDC. Mae'n cynnwys nodiadau drafftio, yn fersiwn weithredol ac fe'i lluniwyd ar adeg benodol ym mhroses y FfDC i gynorthwyo'r gwaith craffu. Bydd y ddogfen hon yn newid ar ôl i'r Senedd graffu arni ac ni ddylid ei defnyddio fel ffynhonnell polisi.



OGL © Hawlfraint y Goron 2020 WG40647 ISBN digidol 978-1-80082-192-7

Lluniwyd y ddogfen hon ym mis Medi 2020 i helpu'r Senedd i graffu ar y FfDC. Mae'n fersiwn weithredol ac nid yw'n derfynol. Bydd yn newid ar ôl i'r Senedd graffu arni.

Cynnwys

1.	Cyflwyniad	4
2.	Cymru: Trosolwg	16
3.	Gosod a chyflawni ein huchelgeisiau	52
4.	Dewisiadau Strategol a Gofodol: Strategaeth ofodol Cymru'r Dyfodol	60
5.	Y Rhanbarthau	100
	Y Gogledd	106
	Y Canolbarth	126
	Y De-orllewin	142
	Y De-ddwyrain	160

Lluniwyd y ddogfen hon ym mis Medi 2020 i helpu'r Senedd i graffu ar y FfDC. Mae'n fersiwn weithredol ac nid yw'n derfynol. Bydd yn newid ar ôl i'r Senedd graffu arni.

1 Cyflwyniad

Mae rheoli newid a chynllunio datblygiadau a fydd yn para am genedlaethau yn un o gyfrifoldebau pwysicaf llywodraeth. Mae'r ddogfen hon yn cynnwys cynllun ugain mlynedd Llywodraeth Cymru ar gyfer llywio twf a datblygiad ein gwlad yn y dyfodol.

Beth yw'r ddogfen hon?

Cymru'r Dyfodol – y cynllun cenedlaethol 2040 yw ein fframwaith datblygu cenedlaethol sy'n pennu cyfeiriad datblygu yng Nghymru hyd at 2040. Mae'n gynllun datblygu â strategaeth ar gyfer mynd i'r afael â blaenoriaethau cenedlaethol allweddol drwy'r system gynllunio, gan gynnwys cynnal a datblygu economi sy'n ffynnu, datgarboneiddio a sicrhau hinsawdd gadarn, datblygu ecosystemau cryf a gwella iechyd a llesiant ein cymunedau.

Wynebwn argyfwng hinsawdd sy'n trawsnewid ein hamgylchedd ac yn cael effaith uniongyrchol ar gymunedau; rydym mewn argyfwng ecolegol, lle mae'r penderfyniadau y mae pobl yn eu gwneud, a'r ffordd y maent yn ymddwyn, yn niweidio cadernid ecosystemau a rhywogaethau; rydym wedi dioddef effeithiau pandemig iechyd byd-eang a rhaid inni ailfywiogi'r economi mewn ffordd gynaliadwy, gan ddangos ein bod wedi dysgu gwersi o'r trachwant a fu, sydd wedi creu byd lle mae bwlch enfawr rhwng y tlawd a'r cyfoethog, a lle na chaiff pawb chwarae teg wrth gael gafael ar wasanaethau. Bydd Llywodraeth Cymru yn wynebu'r heriau hyn ac yn achub ar bob cyfle posibl i greu Cymru well. Yn y cyd-destun hwn, mae ein fframwaith datblygu yn sbardun pwysig i gyflawni'r newid sydd ei angen.

Mae *Cymru'r Dyfodol* yn gynllun *gofodol,* sy'n golygu ei fod yn pennu cyfeiriad ar gyfer ble y dylem fod yn buddsoddi mewn seilwaith a gwaith datblygu er budd Cymru a'i phobl. Mae Cymru'r Dyfodol yn gosod yr her o sicrhau'r gwelliannau hyn i'r sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector. Mae'n tanlinellu pwysigrwydd cynllunio seilwaith a gwaith datblygu newydd mewn ffordd sy'n golygu eu bod yn flaenoriaethau ategol yn hytrach na chroes, gan sicrhau y manteisir i'r eithaf ar gyfleoedd ac y sicrheir buddiannau lluosog.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn dylanwadu ar y ffordd rydym yn cynllunio ar gyfer datblygiadau newydd; mae'n gofyn bod gwaith datblygu a defnydd tir yn cyfrannu at lesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. O dan yr ymrwymiad i sicrhau datblygu cynaliadwy, byddwn yn sicrhau ein bod yn gwneud y cyfraniad mwyaf posibl at gyflawni pob un o'r nodau llesiant. Mae dewis ble i fuddsoddi neu ystyried a yw datblygiad yn addas mewn lle penodol yn benderfyniadau anodd lle mae angen sicrhau cydbwysedd yn aml rhwng blaenoriaethau croes. Rhaid inni geisio dod o hyd i atebion sy'n golygu ein bod yn gwneud y cyfraniad mwyaf posibl at gyflawni'r nodau a'r amcanion llesiant. Mae Cymru'r Dyfodol yn rhoi arweiniad a chyfeiriad strategol ar gyfer gwneud y penderfyniadau hyn.

Lluniwyd y ddogfen hon ym mis Medi 2020 i helpu'r Senedd i graffu ar y FfDC. Mae'n fersiwn weithredol ac nid yw'n derfynol. Bydd yn newid ar ôl i'r Senedd graffu arni.




Lluniwyd y ddogfen hon ym mis Medi 2020 i helpu'r Senedd i graffu ar y FfDC. Mae'n fersiwn weithredol ac nid yw'n derfynol. Bydd yn newid ar ôl i'r Senedd graffu arni.

Fel y fframwaith datblygu cenedlaethol, Cymru'r Dyfodol yw'r haen uchaf o gynllun datblygu ac mae'n canolbwyntio ar atebion i faterion a heriau ar lefel genedlaethol. Mae ei natur strategol yn golygu nad yw'n dyrannu datblygiadau i bob rhan o Gymru, ac nid yw'n cynnwys polisïau ar bob math o ddefnydd tir ychwaith. Mae'n fframwaith yr adeiledir arno gan Gynlluniau Datblygu Strategol ar lefel ranbarthol a Chynlluniau Datblygu Lleol ar lefel awdurdod lleol. Bydd y cynlluniau hyn yn nodi lleoliad seilwaith a datblygiadau newydd. Mae'n ofynnol i Gynlluniau Datblygu Strategol a Lleol gydymffurfio â Cymru'r Dyfodol a rhaid iddynt gael eu diweddaru'n rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod nhw a Cymru'r Dyfodol yn cydweithio'n effeithiol. Rhaid i benderfyniadau cynllunio ar bob lefel o'r system gynllunio yng Nghymru gael eu gwneud yn unol â'r cynllun datblygu yn gyffredinol. Mae Cymru'r Dyfodol yn disodli Cynllun Gofodol Cymru.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Cymru'r Dyfodol

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ('y Ddeddf') yn cyflwyno diben cyffredin sy'n gyfreithiol gyfrwymol – y saith nod llesiant – i lywodraeth genedlaethol, llywodraeth leol, byrddau iechyd lleol a chyrff cyhoeddus penodedig eraill. Mae'n nodi'r ffyrdd y mae'n rhaid i'r cyrff hyn weithio, a chydweithio, er mwyn gwella llesiant Cymru. Drwy'r Ddeddf y bydd Cymru yn gwneud ei chyfraniad at gyflawni 17 o Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig.

Wrth ddatblygu Cymru'r Dyfodol, rydym wedi cydnabod ein rhwymedigaethau o dan y Ddeddf. Mae ymgorffori egwyddorion y Ddeddf, gan gynnwys y pum ffordd o weithio (meddwl hirdymor, atal, cydweithio, integreiddio a chynnwys), yn ein meddwl strategol a'n gwaith datblygu polisi, wedi llywio Cymru'r Dyfodol ac wedi dylanwadu arno. Rydym wedi ystyried yn ofalus sut mae Cymru'r Dyfodol yn adlewyrchu'r nodau a'r amcanion llesiant a'r ffyrdd o weithio, yn cyd-fynd â nhw ac yn sicrhau ei fod yn gwneud y cyfraniad mwyaf posibl at eu cyflawni.




Lluniwyd y ddogfen hon ym mis Medi 2020 i helpu'r Senedd i graffu ar y FfDC. Mae'n fersiwn weithredol ac nid yw'n derfynol. Bydd yn newid ar ôl i'r Senedd graffu arni.

Arfarniad o Gynaliadwyedd Integredig

Er mwyn asesu Cymru'r Dyfodol dilynir y dull sefydledig a chydnabyddedig a ddefnyddir ar gyfer Asesiad Amgylcheddol Strategol ac Arfarniad Cynaliadwyedd, sydd wedi cael ei ehangu i integreiddio nifer o asesiadau effaith eraill, fel y dangosir yn Ffigur A. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol wedi chwarae rhan ganolog wrth ddatblygu'r dull hwn. Mae wedi golygu y gellir ymgorffori'r egwyddorion datblygu cynaliadwy ar bob cam ac mae'n sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'n gofynion statudol. Rydym wedi cynnwys rhanddeiliaid i gefnogi'r cynllun, gan sicrhau yr aed ati i gydweithio, rhannu gwybodaeth a chydnabod y cysylltiadau rhwng pynciau. Drwy sicrhau bod effeithiau yn cael eu cydnabod ar y cam cynharaf ac yr ymgysylltir â rhanddeiliaid drwy gydol y broses hon, ceisir sicrhau bod Cymru'r Dyfodol mor gynaliadwy â phosibl.

Ffigur A



Lluniwyd y ddogfen hon ym mis Medi 2020 i helpu'r Senedd i graffu ar y FfDC. Mae'n fersiwn weithredol ac nid yw'n derfynol. Bydd yn newid ar ôl i'r Senedd graffu arni.

Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd o Cymru'r Dyfodol

O dan Erthygl 6 o'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd (a Rheoliad 105 o'r Rheoliadau Cynefinoedd), rhaid cynnal Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd lle gallai cynllun neu brosiect effeithio ar safleoedd dynodedig Ewropeaidd a safleoedd RAMSAR (a elwir, gyda'i gilydd, yn safleoedd Natura 2000). Mae Polisi Cynllunio Cymru a Nodyn Cyngor Technegol 5 hefyd yn darparu canllawiau ar safleoedd Natura 2000, gan gynnwys gwrthod caniatâd datblygu lle ceir effeithiau andwyol ar nodweddion dynodedig safle. Datblygwyd mesurau lliniaru penodol o fewn yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd a fydd yn darparu canllaw cryf ar gyfer cynlluniau a phrosiectau haen is (gweler tabl 6 ac Atodiad A o adroddiad yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd). Bydd angen i waith datblygu ar gam haen is cynllun neu brosiect ddangos nad oes unrhyw effeithiau andwyol ar nodweddion dynodedig safle Natura 2000, ac nid yw Cymru'r Dyfodol yn cefnogi cynlluniau na phrosiectau haen is lle na ddeuir i'r casgliad hwn. Felly, mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i ganfyddiadau'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd gael eu hystyried wrth baratoi a gweithredu pob Cynllun Strategol a Datblygu Lleol. Daw'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd i'r casgliad, gan dybio y caiff canfyddiadau'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd eu mabwysiadu ar gyfer cynlluniau neu brosiectau haen is, y gellir osgoi cael effeithiau andwyol ar uniondeb safleoedd Natura 2000 o ganlyniad i weithredu'r polisïau yn Cymru'r Dyfodol.

Sut mae Cymru'r Dyfodol yn cyd-fynd â pholisïau ehangach Llywodraeth Cymru?

Mae Cymru'r Dyfodol yn un o nifer o ddogfennau sy'n ymwneud â seilwaith a gwaith datblygu yng Nghymru. Diben penodol Cymru'r Dyfodol yw sicrhau bod pob agwedd ar y system gynllunio yn gyson â nodau strategol a pholisïau Llywodraeth Cymru, a'i bod yn cefnogi'r gwaith o'u cyflawni.

Diffinnir rôl Cymru'r Dyfodol gan ddeddfwriaeth a'r Rhaglen Lywodraethu – Ffyniant i Bawb: y strategaeth genedlaethol. Noda fod iddo rôl bwysig wrth ysgogi twf cynaliadwy a mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd drwy lywio gwaith datblygu strategol dros yr 20 mlynedd nesaf.


Mae nifer o strategaethau a pholisïau Llywodraeth Cymru wedi llywio a helpu i greu Cymru'r Dyfodol, gan gynnwys Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru, y Strategaeth Drafnidiaeth, y Polisi Cenedlaethol ar Adnoddau Naturiol a Chynllun Carbon Isel Cymru. Mae'n berthynas ddwyffordd gyda Cymru'r Dyfodol yn cymryd eu cyfeiriad strategol ac yn darparu dull cyflawni a fframwaith ar gyfer manteisio i'r eithaf ar y canlyniadau posibl. Wrth i ddogfennau eraill gael eu hadolygu a'u diweddaru, byddant yn adlewyrchu ac yn ystyried y blaenoriaethau gofodol a nodir yn Cymru'r Dyfodol. Mae uchelgeisiau'r ddogfen hon yn adlewyrchu'r prif themâu a nodwyd gan Gomisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru yn 2019 yn ei adroddiad blynyddol cyntaf, ac maent yn mynd i'r afael â nhw. Bydd fersiynau pellach o Cymru'r Dyfodol yn elwa ar asesiad seilwaith y Comisiwn – disgwylir y cyntaf o'r rhain ym mis Tachwedd 2021. Defnyddir Cymru'r Dyfodol i lywio buddsoddiad cyhoeddus a phreifat. Ein nod yw sicrhau bod buddsoddiadau mewn seilwaith a gwaith datblygu – p'un a ydynt yn fawr neu'n fach – yn cyfrannu at ein huchelgeisiau ehangach o ran gwell llesiant a chreu gwell lleoedd.

Byddwn yn arwain y ffordd gyda'n buddsoddiadau ein hunain. Bydd Cymru'r Dyfodol yn ategu Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru a Fframweithiau Economaidd Rhanbarthol drwy alluogi gwaith datblygu sy'n sicrhau bod ein buddsoddiad yn cael yr effaith fwyaf posibl. Mae maint yr uchelgais i sicrhau newid a nodir yn Cymru'r Dyfodol yn adlewyrchu gallu'r sector cyhoeddus i gyflawni datblygiadau newydd. Bydd strategaeth ofodol Cymru'r Dyfodol yn llywio'r Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru drwy nodi ein blaenoriaethau ar gyfer buddsoddi cyfalaf, gan gysoni'r rhaglen arfaethedig o fuddsoddiadau yn seilwaith Cymru â dull gweithredu gofodol Cymru'r Dyfodol.



Lluniwyd y ddogfen hon ym mis Medi 2020 i helpu'r Senedd i graffu ar y FfDC. Mae'n fersiwn weithredol ac nid yw'n derfynol. Bydd yn newid ar ôl i'r Senedd graffu arni.

Model o Ddylanwad Cymru'r Dyfodol



Lluniwyd y ddogfen hon ym mis Medi 2020 i helpu'r Senedd i graffu ar y FfDC. Mae'n fersiwn weithredol ac nid yw'n derfynol. Bydd yn newid ar ôl i'r Senedd graffu arni.

Cymru'r Dyfodol a ...

Y Polisi Cenedlaethol ar Adnoddau Naturiol

Mae'r Polisi ar Adnoddau Naturiol yn nodi'r prif flaenoriaethau, risgiau a chyfleoedd er mwyn mynd ati i reoli adnoddau naturiol mewn ffordd gynaliadwy, gan gynnwys mynd i'r afael â'r argyfwng newid yn yr hinsawdd a gwrthdroi dirywiad mewn bioamrywiaeth. Ei amcanion yw cynnal a gwella cadernid ecosystemau a'r manteision a gynigir ganddynt. Mae Polisi Cynllunio Cymru yn amlinellu'r ffordd y dylai'r system gynllunio gyfrannu at y nodau hyn ac mae Cymru'r Dyfodol yn adeiladu ar y polisi hwn drwy nodi polisïau penodol sy'n gwneud y canlynol:

- diogelu ardaloedd at ddibenion gwella cadernid rhwydweithiau ecolegol a gwasanaethau ecosystemau, er mwyn nodi ardaloedd i ddarparu seilwaith gwyrdd ac i sicrhau bod bioamrywiaeth yn gwella (mantais net);
- sicrhau y gwneir dewisiadau cadarn o ran lleoliad a dyluniad drwy hyrwyddo strategaeth twf cynaliadwy, yn ogystal â sicrhau bod ystyried adnoddau naturiol ac iechyd a llesiant yn rhan o'r broses o ddewis safle a dyluniad;
- hwyluso'r broses o ddatgarboneiddio'r economi, gan gynnwys dewisiadau o ran ynni a thrafnidiaeth, a hyrwyddo egwyddorion economi gylchol.

Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru

Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru yw'r cyntaf o'i fath i Gymru ac mae'n ddechrau ar broses o lunio cynlluniau morol i gyflawni amcanion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol. Bydd cynllunio morol yn llywio datblygu cynaliadwy yn ein hardal forol drwy nodi sut y caiff cynigion eu hystyried gan y rhai sy'n gwneud penderfyniadau.

Mae'r Cynllun Morol wedi llywio'r gwaith o baratoi Cymru'r Dyfodol a, lle y bo'n berthnasol, dylai lywio Cynlluniau Datblygu Strategol a Lleol a phenderfyniadau cynllunio. Mae'r amserlenni ar gyfer llunio'r Cynllun Morol a Cymru'r Dyfodol wedi gorgyffwrdd, gan olygu bod modd llunio'r ddau gynllun gyda'i gilydd. Bydd y cysylltiad hwn yn parhau wrth i'r ddau gynllun gael eu rhoi ar waith a'u hadolygu.

Mae Cymru'r Dyfodol a'r Cynllun Morol yn cydweithio i ddarparu fframwaith ar gyfer rheoli newid o amgylch ein harfordir. Mae cydgysylltu rhwng gwaith cynllunio morol a daearol yn bwysig i gynnal busnesau a mentrau cysylltiedig mewn porthladdoedd, harbyrau a marinas; cymunedau arfordirol; cyfleoedd twristiaeth; safleoedd cynhyrchu ynni; a morluniau, a hwyluso'r gwaith o'u datblygu.

Strategaeth Drafnidiaeth Cymru

Rhydd Strategaeth Drafnidiaeth Cymru y fframwaith ar gyfer gweithgareddau sy'n ymwneud â thrafnidiaeth a noda flaenoriaethau strategol system drafnidiaeth ddiogel, integredig, gynaliadwy, effeithlon a darbodus i Gymru. Darpara'r cyd-destun ar gyfer nod Llywodraeth Cymru i leihau'r angen i deithio, yn enwedig mewn car preifat, a chefnoga newid dulliau teithio i gerdded, beicio a defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus. Adlewyrchir hyn ym Mholisi Cynllunio Cymru a Cymru'r Dyfodol, sy'n gosod creu lleoedd wrth wraidd y system gynllunio. Cefnogir y newid hwn i ddulliau teithio gan yr hierarchaeth trafnidiaeth gynaliadwy, sy'n rhoi blaenoriaeth i gerdded, seiclo a thrafnidiaeth gyhoeddus.

Cyhoeddwyd Strategaeth Drafnidiaeth gyfredol Cymru, Cymru'n Un: Cysylltu'r Genedl, yn 2008. Ers hynny cyflwynwyd Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013, sy'n dylanwadu fwyfwy ar y ffordd rydym yn integreiddio teithio llesol â gwaith datblygu newydd. Mae hyn yn hanfodol er mwyn galluogi pobl i gerdded a beicio fel rhan o fywyd pob dydd. Mae cynlluniau metro hefyd yn cael eu datblygu yn y De-ddwyrain, y De-orllewin a'r Gogledd, a gefnogir gan fuddsoddiad sylweddol

Lluniwyd y ddogfen hon ym mis Medi 2020 i helpu'r Senedd i graffu ar y FfDC. Mae'n fersiwn weithredol ac nid yw'n derfynol. Bydd yn newid ar ôl i'r Senedd graffu arni.

gan Lywodraeth Cymru a'i phartneriaid cyflawni. Bydd y prosiectau metro yn cynnig cyfleoedd sylweddol i gymunedau a gwaith datblygu newydd gael eu cefnogi gan drafnidiaeth gyhoeddus o ansawdd da. Mae technolegau trafnidiaeth hefyd wedi datblygu'n sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf, gyda cherbydau allyriadau isel iawn yn gallu cael effaith drawsnewidiol ar ddatgarboneiddio trafnidiaeth.

Mae Strategaeth Drafnidiaeth newydd i Gymru yn cael ei datblygu a fydd yn cydnabod y newidiadau hyn ac yn ceisio achub ar gyfleoedd a mynd i'r afael â heriau'r dyfodol. Mae Strategaeth Drafnidiaeth bresennol Cymru a'r un sy'n cael ei datblygu, ynghyd â'r polisïau a'r prosiectau trafnidiaeth cysylltiedig, wedi cyfrannu'n uniongyrchol at strategaeth ofodol, canlyniadau a pholisïau Cymru'r Dyfodol.

Strwythur system gynllunio Cymru

System a arweinir gan gynlluniau

Caiff ein system gynllunio ei harwain gan gynlluniau datblygu. Paratoir cynlluniau datblygu ar lefelau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol, gyda'r tair haen hyn gyda'i gilydd yn creu'r 'cynllun datblygu'. Drwy lunio Cymru'r Dyfodol mae Llywodraeth Cymru yn cyfrannu haen genedlaethol y cynllun datblygu. Mae Cynlluniau Datblygu Strategol yn ymdrin â materion ar lefel ranbarthol ac isranbarthol ac mae Cynlluniau Datblygu Lleol yn ystyried materion ar lefel leol.

Dylai tair haen y cynllun datblygu fod yn gyson ac yn ategu ei gilydd. Mae'n ofynnol i Gynlluniau Datblygu Strategol, nad ydynt wedi cael eu paratoi mewn unrhyw ranbarth eto, gydymffurfio â Cymru'r Dyfodol. Yn yr un modd, rhaid i Gynlluniau Datblygu Lleol gydymffurfio â Cymru'r Dyfodol a'r Cynllun Datblygu Strategol ar gyfer eu hardal. Mae'n rhaid i Gynlluniau Datblygu Strategol a Lleol gael eu diweddaru'n rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod nhw a Chymru'r Dyfodol yn cydweithio'n effeithiol. Rhaid i benderfyniadau cynllunio ar bob lefel o'r system gynllunio yng Nghymru gael eu gwneud yn unol â'r cynllun datblygu yn gyffredinol.

Lluniwyd Cymru'r Dyfodol a'i strategaeth ofodol yng nghyd-destun y system cynllun datblygu tair haen. Nid yw Cymru'r Dyfodol yn ceisio gwneud penderfyniadau y mae'n fwyaf priodol eu gwneud ar lefel ranbarthol neu leol. Rhydd gyfeiriad strategol ar gyfer gwaith cynllunio o bob maint a noda bolisïau a materion allweddol i'w datblygu'n rhanbarthol. Nid yw'n ceisio nodi'r union leoliad ar gyfer datblygiadau newydd na maint y twf mewn aneddiadau unigol. Yr haenau rhanbarthol a lleol yw'r lefel fwyaf priodol i wneud y penderfyniadau hyn, gyda chymunedau yn cael eu cynnwys yn y prosesau gwneud penderfyniadau.

Polisi Cynllunio a'r Cynllun Datblygu

Mae Polisi Cynllunio Cymru yn dylanwadu'n fawr ar gynnwys a pholisïau tair haen y cynllun datblygu. Hon yw'r ddogfen polisi cynllunio defnydd tir gyfan ar gyfer Cymru. Mae'n cynnwys datganiadau polisi ar bob prif ddefnydd tir ac felly mae'n sail i'r holl bolisïau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol.

Nid oes angen i bob haen o'r cynllun datblygu fynd i'r afael â'r polisïau defnydd tir a nodir ym Mholisi Cynllunio Cymru; mae i rai materion oblygiadau ar lefel Cymru gyfan, ond dylid ymdrin â materion eraill ar lefel ranbarthol a lleol. Mae gan bob awdurdod sy'n paratoi cynllun datblygu gyfrifoldeb i ystyried pa elfennau o Bolisi Cynllunio Cymru y mae angen mynd i'r afael â nhw o fewn ei haen ef o'r cynllun datblygu. Nid yw rhai o'r polisïau ym Mholisi Cynllunio Cymru yn ofodol; nid oes angen ailadrodd y rhain mewn cynlluniau datblygu.

Ffigur B: Sut mae gwahanol haenau o'r cynllun datblygu, gyda'i gilydd, yn mynd i'r afael â materion a nodir ym Mholisi Cynllunio Cymru

Y **System Gynllunio** sy'n rheoli sut y caiff tir ei ddatblygu a'i ddefnyddio er budd y cyhoedd, gan roi blaenoriaeth i les tymor hir cymdeithas a cheisio cyfaddawd rhwng buddiannau gwahanol.

Polisi Cynllunio Cymru sy'n nodi egwyddorion sylfaenol y system gynllunio.

Mae **nodiadau cyngor technegol** yn ategu PCC. PPC a'r TANs gyda'i gilydd yw'r polisïau y mae'r system gynllunio yn delio â nhw. Mae PCC yn nodi **BETH** y mae'n rhaid i gynlluniau a phenderfyniadau datblygu'r system gynllunio eu cyflawni a **PHA** ffurf y dylai datblygiad ei gymryd i sicrhau'r canlyniadau gorau posibl.

Mae **Cynlluniau Datblygu** yn rhoi egwyddorion sylfaenol y PCC ar waith yn eu hardaloedd, ar sail y dystiolaeth. Mae cynlluniau datblygu'n nodi **LLE** dylai datblygiadau gael eu cynnal dros y 15 i 20 mlynedd nesaf. Drwyddyn nhw rydym yn penderfynu sut y dylai lleoedd dyfu a newid.


Mae cynlluniau datblygu'n cael eu paratoi ar raddfeydd gwahanol:



Cymru Gyfan:
Fframwaith Datblygu Cenedlaethol



Rhanbarthol:
Cynlluniau Datblygu Strategol



Lleol:
Cynlluniau Datblygu Lleol

Mae'r **broses Rheoli Datblygu** yn asesu ac yn penderfynu ar geisiadau cynllunio unigol o bob maint yn unol â'r cynlluniau datblygu. Yr awdurdodau lleol a'r Parciau Cenedlaethol sy'n penderfynu ar y mwyafrif lleol. Bydd Llywodraeth Cymru yn penderfynu ar geisiadau o arwyddocâd cenedlaethol.

Lluniwyd y ddogfen hon ym mis Medi 2020 i helpu'r Senedd i graffu ar y FfDC. Mae'n fersiwn weithredol ac nid yw'n derfynol. Bydd yn newid ar ôl i'r Senedd graffu arni.

Nid yw Cymru'r Dyfodol yn cynnwys datganiadau am bob mater cynllunio defnydd tir a nodir ym Mholisi Cynllunio Cymru. Mae'n cynnwys polisïau ar faterion lle mae Llywodraeth Cymru o'r farn eu bod yn flaenoriaeth genedlaethol ar yr adeg hon, neu faterion sy'n amlwg yn ofodol ac sydd angen arweinyddiaeth genedlaethol. Er enghraifft, credwn fod tai fforddiadwy yn fater hanfodol bwysig ledled Cymru ar hyn o bryd, ac mae penderfynu ble i leoli technoleg cynhyrchu ynni adnewyddadwy yn fater gofodol sydd mor bwysig fel na fydd uchelgeisiau cenedlaethol yn debygol o gael eu cyflawni heb bolisïau cynllunio cenedlaethol.

Polisi cynllunio a chynlluniau datblygu – pwys mewn penderfyniadau

Rhaid penderfynu ar geisiadau cynllunio yn unol â'r cynllun datblygu. Nid yw Polisi Cynllunio Cymru yn rhan o'r cynllun datblygu, ond fel y prif ddatganiad o bolisi cynllunio cenedlaethol mae iddo bwys mawr yn y broses gynllunio. Rhaid i gynlluniau datblygu fod yn gyson â pholisi cenedlaethol ac, os bydd cynllun datblygu yn absennol neu wedi dod i ben, mae i'r polisïau cenedlaethol hyn gryn bwys wrth wneud penderfyniadau cynllunio; mae hyn yn golygu bod Polisi Cynllunio Cymru yn 'ystyriaeth berthnasol'. Caiff cynlluniau datblygu eu profi er mwyn sicrhau eu bod yn gyson â Pholisi Cynllunio Cymru.

Er mwyn helpu i ddangos y cysylltiad â pholisi cynllunio cenedlaethol, croesgyfeirir holl bolisïau Cymru'r Dyfodol yn erbyn rhannau perthnasol o Bolisi Cynllunio Cymru, gan ddefnyddio eiconau i ddynodi penodau allweddol a chyfeiriadau at adrannau penodol. Dylai Polisi Cynllunio Cymru a Cymru'r Dyfodol gael eu hystyried yn llawn. Mae'r croesgyfeiriadau yn helpu i nodi cysylltiadau rhwng y ddwy ddogfen ond nid dyma'r unig gysylltiadau a gall y gydberthynas rhwng Polisi Cynllunio Cymru a Cymru'r Dyfodol fod yn ehangach na'r hyn a nodwyd.



Dewisiadau Strategol a Gofodol



Lleoedd Actif a Chymdeithasol



Lleoedd cynhyrchiol a mentrus



Lleoedd unigryw a naturiol



Cadwch y cyrchwr dros y symbol ar gyfer croesgyfeiriad penodol at Bolisi Cynllunio Cymru i ddod o hyd i'r paragraff penodol.

Strwythur y Ddogfen

Mae i'r ddogfen strwythur dilyniannol, gyda phob adran yn adeiladu ar yr un flaenorol.



Yn y bennod gyntaf ragarweiniol eglurwyd diben Cymru'r Dyfodol a sut mae'n cyd-fynd ag amcanion polisi ehangach Llywodraeth Cymru. Nodir yr heriau a'r cyfleoedd allweddol sy'n wynebu Cymru dros yr 20 mlynedd nesaf ym Mhennod 2. Hefyd ym Mhennod 2 cyflwynir pedwar rhanbarth Cymru.

Y Gogledd | Y Canolbarth | Y De-orllewin | Y De-ddwyrain

Mae'r heriau a'r cyfleoedd yn llywio Canlyniadau Cymru'r Dyfodol, sydd gyda'i gilydd yn weledigaeth ar gyfer newid dros yr 20 mlynedd nesaf. Mae'r Canlyniadau hyn, a nodir ym Mhennod 3, yn sail i'r penodau sy'n weddill ac yn rhoi'r cyd-destun ar eu cyfer. Mae Pennod 3 hefyd yn egluro sut y caiff effaith Cymru'r Dyfodol ei mesur a'i hasesu.

Cyflwynir strategaeth ofodol ym Mhennod 4. Mae'r strategaeth yn canolbwyntio ar y prif ardaloedd newid y bydd y system gynllunio ar lefel genedlaethol yn canolbwyntio arnynt er mwyn cyflawni Canlyniadau Cymru'r Dyfodol. Y strategaeth ofodol yw'r fframwaith cyffredinol ar gyfer penderfynu ble i leoli datblygiadau o arwyddocâd cenedlaethol er mwyn sicrhau eu bod yn gwneud y cyfraniad mwyaf posibl at gyflawni'r nodau llesiant. Dengys diagram strategol brif elfennau'r strategaeth ofodol.

Mae Pennod 4 hefyd yn darparu fframwaith polisi ar gyfer materion o bwys cenedlaethol sy'n ymwneud â Chymru gyfan, gan gynnwys datblygu trefol a gwledig, tai fforddiadwy, trafnidiaeth, cyfathrebu digidol, rhwydweithiau ecolegol ac ynni carbon isel.

Mae Pennod 5 yn nodi uchelgeisiau a pholisïau Llywodraeth Cymru ar gyfer twf a datblygiad o bwys cenedlaethol yn y pedwar rhanbarth. Mae'n nodi'r lleoliadau allweddol ar gyfer datblygiadau a chyfleoedd ar gyfer datblygu seilwaith ac yn sefydlu fframwaith ar gyfer gwaith cynllunio rhanbarthol a lleol.


Lluniwyd y ddogfen hon ym mis Medi 2020 i helpu'r Senedd i graffu ar y FfDC. Mae'n fersiwn weithredol ac nid yw'n derfynol. Bydd yn newid ar ôl i'r Senedd graffu arni.

2 Cymru: Trosolwg

Mae Cymru yn wlad â hanes hir a balch a threftadaeth gymdeithasol a diwylliannol gyfoethog. Rydym yn wynebu heriau a chyfleoedd ac rydym yn ymrwymedig i ddiogelu llesiant cenedlaethau'r dyfodol.

Ein Poblogaeth

Mae mwy na 3 miliwn o bobl yn byw yng Nghymru. Mae poblogaeth y wlad wedi cynyddu 8% rhwng 1997 a 2017 a rhagamcenir y bydd yn cynyddu 3.7% arall erbyn 2043. Mae 698,400 o bobl yn byw yn y chwe ardal awdurdod lleol yn y gogledd, 205,000 yn y ddwy ardal awdurdod lleol yn y canolbarth a 2,232,000 yn y 14 o awdurdodau lleol ledled y de.



Lluniwyd y ddogfen hon ym mis Medi 2020 i helpu'r Senedd i graffu ar y FfDC. Mae'n fersiwn weithredol ac nid yw'n derfynol. Bydd yn newid ar ôl i'r Senedd graffu arni.

Rydym yn wlad sy'n heneiddio. Rhwng 1998 a 2018, cynyddodd cyfran y boblogaeth 65 oed a throsodd o 17.4% i 20.8% a gostyngodd cyfran y boblogaeth 15 oed ac iau o 20.6% i 17.9%. Erbyn 2043 bydd gennym 30.6% yn fwy o bobl 65 oed a throsodd, a 64.9% yn fwy o bobl 75 oed a throsodd.


Gwasgariad y boblogaeth yng Nghymru yn ôl oed a rhyw, 2018



Lluniwyd y ddogfen hon ym mis Medi 2020 i helpu'r Senedd i graffu ar y FfDC. Mae'n fersiwn weithredol ac nid yw'n derfynol. Bydd yn newid ar ôl i'r Senedd graffu arni.

Ein Iechyd


Rydym yn byw'n hirach ond mae disgwyliad oes islaw'r DU yn gyffredinol. Mae gan fenywod a anwyd yng Nghymru rhwng 2016 a 2018 ddisgwyliad oes o 82.3 o flynyddoedd a 78.3 o flynyddoedd i ddynion o gymharu ag 82.9 o flynyddoedd i fenywod a 79.3 o flynyddoedd i ddynion ledled y DU. Dengys adroddiadau iechyd cyffredinol wahaniaethau gofodol amlwg ledled Cymru, gyda Gwynedd yn nodi'r cyfraddau uchaf o iechyd cyffredinol da neu dda iawn a Blaenau Gwent yn nodi'r isaf.



Lluniwyd y ddogfen hon ym mis Medi 2020 i helpu'r Senedd i graffu ar y FfDC. Mae'n fersiwn weithredol ac nid yw'n derfynol. Bydd yn newid ar ôl i'r Senedd graffu arni.

Ardaloedd Adeiledig ac Aneddiadau yng Nghymru


Lleolir cymunedau ledled Cymru. Mae'r canolbarth a'r rhan orllewinol o Gymru yn fwy tenau eu poblogaeth ac yn wledig eu natur, ac mae'r ardaloedd deheuol a gogleddol yn llai tenau ac yn fwy trefol.



Lluniwyd y ddogfen hon ym mis Medi 2020 i helpu'r Senedd i graffu ar y FfDC. Mae'n fersiwn weithredol ac nid yw'n derfynol. Bydd yn newid ar ôl i'r Senedd graffu arni.

Ein Hiaith


Mae'r Gymraeg yn iaith fyw, gyda mwy na 562,000 o siaradwyr ym mhob rhan o'r wlad. Ein huchelgais ar gyfer y Gymraeg yw cyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg, yn ogystal â chynyddu canran y bobl sy'n siarad Cymraeg bob dydd i 10% erbyn 2050.



Ein Hadnoddau Naturiol

Rydym yn ymrwymedig i fyw o fewn yr adnoddau sydd gennym, gan ddefnyddio ein cyfran ni o adnoddau'r blaned yn unig a'u defnyddio'n effeithlon. Mae adnoddau naturiol a bioamrywiaeth ac ecosystemau cadarn yn cefnogi ein llesiant a'n ffyniant. Maent wedi llywio ein gorffennol a byddant yn llywio ein dyfodol.

Mae'r map hwn yn dynodi ardaloedd cyffredinol lle gall fod rhwydweithiau ecolegol o bwys cenedlaethol. Rhydd arwydd o gysylltedd rhwydweithiau ecolegol ar lefel strategol lle mae cysylltedd rhwng amrywiaeth o gynefinoedd a rhwng llecynnau cyfoethog o ran bioamrywiaeth yn darparu arwydd posibl o gadernid ecosystemau. Yr ardaloedd tywyll sydd fwyaf cadarn a'r ardaloedd golau sydd leiaf cadarn.




Lluniwyd y ddogfen hon ym mis Medi 2020 i helpu'r Senedd i graffu ar y FfDC. Mae'n fersiwn weithredol ac nid yw'n derfynol. Bydd yn newid ar ôl i'r Senedd graffu arni.



Lluniwyd y ddogfen hon ym mis Medi 2020 i helpu'r Senedd i graffu ar y FfDC. Mae'n fersiwn weithredol ac nid yw'n derfynol. Bydd yn newid ar ôl i'r Senedd graffu arni.

Cyflymder y gwynt


Glo, dur a haearn o Gymru a yrrodd y chwyldro diwydiannol ac mae ein hadnoddau gwynt, solar a llanwol yn cyfleu dyfodol glân, cynaliadwy.



Lluniwyd y ddogfen hon ym mis Medi 2020 i helpu'r Senedd i graffu ar y FfDC. Mae'n fersiwn weithredol ac nid yw'n derfynol. Bydd yn newid ar ôl i'r Senedd graffu arni.

Map o Adnoddau Mwynol Cymru


Rydym yn dibynnu ar adnoddau naturiol o ansawdd uchel i gynnal ein diwydiannau, darparu ein bwyd, ein haer glân a'n dŵr a chreu swyddi a chyfoeth. Rhaid inni reoli'r defnydd a wneir o'n hadnoddau naturiol yn ofalus a sicrhau y gwneir y defnydd gorau ohonynt a'u bod yn gwneud y cyfraniad gorau posibl at gymdeithas, a hynny drwy economi gylchol gref.



Lluniwyd y ddogfen hon ym mis Medi 2020 i helpu'r Senedd i graffu ar y FfDC. Mae'n fersiwn weithredol ac nid yw'n derfynol. Bydd yn newid ar ôl i'r Senedd graffu arni.

Tir Amaethyddol


Mae ein tir cynhyrchiol yn adnodd hanfodol. Mae amaethyddiaeth wedi creu ein tirluniau a chefnogi ein trefi gwledig a marchnad ers cenedlaethau. Rhaid inni barhau i werthfawrogi a diogelu ein tir amaethyddol a sicrhau y gall ein bwydo a'n cynnal.



Lluniwyd y ddogfen hon ym mis Medi 2020 i helpu'r Senedd i graffu ar y FfDC. Mae'n fersiwn weithredol ac nid yw'n derfynol. Bydd yn newid ar ôl i'r Senedd graffu arni.

Cyforgronfa Ddŵr Fawr

Mae ein hinsawdd a'n daearyddiaeth yn sicrhau bod gennym ddŵr ac y gallwn ei gasglu a'i reoli. Wrth i'n hinsawdd newid, bydd angen inni sicrhau ein bod yn defnyddio ac yn rheoli ein hadnoddau'n effeithlon.




Lluniwyd y ddogfen hon ym mis Medi 2020 i helpu'r Senedd i graffu ar y FfDC. Mae'n fersiwn weithredol ac nid yw'n derfynol. Bydd yn newid ar ôl i'r Senedd graffu arni.



Lluniwyd y ddogfen hon ym mis Medi 2020 i helpu'r Senedd i graffu ar y FfDC. Mae'n fersiwn weithredol ac nid yw'n derfynol. Bydd yn newid ar ôl i'r Senedd graffu arni.

Ein Tirlun a'n Hecoleg


Mae ein tirweddau ymhlith y gorau yn y byd ac maent yn adrodd hanes ein cenedl o losgfynyddoedd, rhewlifau, mynyddoedd a dyffrynnoedd afonydd i gestyll, ffermydd, treftadaeth ddiwydiannol a phorthladdoedd.



Lluniwyd y ddogfen hon ym mis Medi 2020 i helpu'r Senedd i graffu ar y FfDC. Mae'n fersiwn weithredol ac nid yw'n derfynol. Bydd yn newid ar ôl i'r Senedd graffu arni.

Ein Tirlun a'n Hecoleg


Mae chwarter ein gwlad wedi'i gorchuddio â'n tri pharc cenedlaethol a'n pum ardal o harddwch naturiol eithriadol.



Lluniwyd y ddogfen hon ym mis Medi 2020 i helpu'r Senedd i graffu ar y FfDC. Mae'n fersiwn weithredol ac nid yw'n derfynol. Bydd yn newid ar ôl i'r Senedd graffu arni.

Treftadaeth

Mae gennym nifer o Safleoedd Treftadaeth y Byd ac ardaloedd cadwraeth natur ac mae ein harfordir ar dair ochr yn cysylltu cymunedau a phobl â'r môr.




Lluniwyd y ddogfen hon ym mis Medi 2020 i helpu'r Senedd i graffu ar y FfDC. Mae'n fersiwn weithredol ac nid yw'n derfynol. Bydd yn newid ar ôl i'r Senedd graffu arni.



Lluniwyd y ddogfen hon ym mis Medi 2020 i helpu'r Senedd i graffu ar y FfDC. Mae'n fersiwn weithredol ac nid yw'n derfynol. Bydd yn newid ar ôl i'r Senedd graffu arni.

Ein Heconomi

Newidiodd ein heconomi yn ddirfawr ar ddiwedd yr 20fed ganrif a bydd yn newid eto yn ystod yr 21ain ganrif. Roedd cysylltiad cryf rhwng prif ganolfannau poblogaeth Cymru yn y de a'r gogledd â'r diwydiannau trwm traddodiadol y gwnaethant dyfu o'u hamgylch, ac felly hefyd yr economïau a'r cymunedau lleol a ddibynnai arnynt.




Lluniwyd y ddogfen hon ym mis Medi 2020 i helpu'r Senedd i graffu ar y FfDC. Mae'n fersiwn weithredol ac nid yw'n derfynol. Bydd yn newid ar ôl i'r Senedd graffu arni.


Er gwaethaf gwelliannau cyson, mae gweithgarwch economaidd, cyflogau a chynhyrchiant yng Nghymru yn is na chyfartaledd y DU.

Erbyn hyn mae ein heconomi yn dibynnu'n fwy ar wasanaethau. Y sectorau a dyfodd gyflymaf rhwng 2008 a 2018 oedd Gwasanaethau proffesiynol, gwyddonol a thechnegol, dyletswyddau gweinyddol a chymorth; a Gweinyddu cyhoeddus, amddiffyn, addysg ac iechyd.

GVA (£ y pen yng Nghymru a'r DU, 1998–2018)



Newid i gyflogaeth y gweithle yng Nghymru yn ôl sector (cyfrif), 2008–2018




a	Proffesiynol, gwyddonol a thechnegol; gweinyddol a gwasanaethau cymorth
b	Gweinyddiaeth gyhoeddus, amddiffyn, addysg ac iechyd
c	Cyfanwerthu, adwerthu, trafnidiaeth, gwestai a bwyd
ch	Gwasanaethau eraill
d	Gweithgareddau eiddo tirol
dd	Gwybodaeth a chyfathrebu
e	Amaethyddiaeth, coedwigaeth a physgota
f	Cyllid ac yswiriant
ff	Adeiladu
g	Cynhyrchu

Lluniwyd y ddogfen hon ym mis Medi 2020 i helpu'r Senedd i graffu ar y FfDC. Mae'n fersiwn weithredol ac nid yw'n derfynol. Bydd yn newid ar ôl i'r Senedd graffu arni.


Mae busnesau bach a chanolig yn rhan bwysig o'n heconomi a gwnaethant dyfu'n fwy yng Nghymru yn 2018 nag yn y DU yn gyffredinol. Sefydlwyd 14,045 o fusnesau newydd yng Nghymru yn 2018, sef cyfradd o 13.3%, a'r drydedd gyfradd uchaf o blith y 12 o wledydd a rhanbarthau yn y DU. O'r busnesau a ddechreuodd yng Nghymru yn 2013, goroesodd 93.6% eu blwyddyn gyntaf, goroesodd 60.6% eu trydedd flwyddyn, ac roedd 42.0% yn dal i weithredu ar ôl pum mlynedd.

Yn 2019, ledled Cymru, roedd gan y rhan fwyaf o fusnesau lai na 10 cyflogai. Roedd tua 64% o fusnesau mawr yn perthyn i ddau sector: Cyfanwerthu, manwerthu, trafnidiaeth, gwestai, bwyd a Chyfathrebu a gwasanaethau ariannol a busnes. Y sector â'r gyfran uchaf o fusnesau yn y band maint micro oedd Amaethyddiaeth, coedwigaeth a physgota. Lleolir hanner swyddi'r gweithle yn y de-ddwyrain.

Cyfraddau goroesi busnesau yng Nghymru a sefydlwyd yn 2013 (data 2018)



Cyflogaeth yn y gweithle (yn ôl rhanbarth, 2018)



Lluniwyd y ddogfen hon ym mis Medi 2020 i helpu'r Senedd i graffu ar y FfDC. Mae'n fersiwn weithredol ac nid yw'n derfynol. Bydd yn newid ar ôl i'r Senedd graffu arni.

Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben Medi 2019 roedd allforion yn werth £17.8 biliwn i Gymru, £0.8 biliwn (4.9%) yn uwch na'r flwyddyn flaenorol. Bu cynnydd o £503 miliwn (4.9%) mewn allforion i wledydd yr UE a bu cynnydd o £333 miliwn (5.0%) mewn allforion i wledydd y tu allan i'r UE, o gymharu â'r flwyddyn a ddaeth i ben Medi 2018.

Roedd allforion i'r UE yn cyfrif am 60.9% o allforion Cymru, o gymharu â 48.8% ar gyfer y DU. Yr Almaen oedd y prif gyrchfan allforio i Gymru o hyd, gan gyfrif am 16.6% o allforion. Dominyddir allforion Cymru gan 'Beirianwaith ac Offer Cludiant', sy'n cyfrif am 49.7% o allforion.


Yn 2019 roedd mewnforion i Gymru yn werth £18.1 biliwn, £232 miliwn (1.3%) yn is na 2018. Bu gostyngiad o £372 miliwn (5.2%) mewn mewnforio nwyddau o'r UE a bu cynnydd o £140 miliwn (1.2%) i wledydd y tu allan i'r UE. Roedd mewnforion o'r UE yn cyfrif am 37.6% o allforion Cymru yn 2019, o gymharu â 54.3% ar gyfer y DU. UDA oedd prif wlad bartner Cymru ar gyfer mewnforion o hyd, gan gyfrif am 17.6% o fewnforion nwyddau Cymru. Parhaodd 'Peirianwaith ac Offer Cludiant' i ddominyddu mewnforion i Gymru, gan gyfrif am 37.4% o fewnforion.

Mae gwerth mwynau a deunyddiau a'r diwydiant a gefnogir gan hyn yn bwysig yn lleol, yn rhanbarthol ac ar lefel y DU. Yn 2015 roedd y diwydiant cynhyrchion mwynol yn cefnogi 3,800 o swyddi'n uniongyrchol, bron £650 miliwn o werthiannau/trosiant a mwy na £220 miliwn o GYG yng Nghymru. Mae'r diwydiant yn chwarae rôl hanfodol wrth gefnogi'r sector adeiladu yng Nghymru, sy'n cynrychioli 6% o economi Cymru, yn darparu 88,000 o swyddi, gyda throsiant o £3 biliwn.



Cymudo


Mae patrymau cymudo yn elfen nodedig o'n heconomïau rhanbarthol, gyda chryn nifer o bobl yn teithio i'w gweithle bob dydd. Mae'r patrymau hyn yn adlewyrchu hierarchaethau rhanbarthol a chanolfannau cyflogaeth hirsefydledig, sydd wedi datblygu'n dda.



Lluniwyd y ddogfen hon ym mis Medi 2020 i helpu'r Senedd i graffu ar y FfDC. Mae'n fersiwn weithredol ac nid yw'n derfynol. Bydd yn newid ar ôl i'r Senedd graffu arni.

Mae pobl yng Nghymru yn teithio 16.7 milltir ar gyfartaledd i'r gwaith, gyda'r rhai mewn ardaloedd mwy gwledig yn teithio dros 22 o filltiroedd ar gyfartaledd.

Pellter teithio i'r gwaith ar gyfartaledd (mewn cilomedr, yn ôl gweithwyr 16-74 oed yn 2011, yn ôl awdurdod lleol preswyl)




Lluniwyd y ddogfen hon ym mis Medi 2020 i helpu'r Senedd i graffu ar y FfDC. Mae'n fersiwn weithredol ac nid yw'n derfynol. Bydd yn newid ar ôl i'r Senedd graffu arni.



Lluniwyd y ddogfen hon ym mis Medi 2020 i helpu'r Senedd i graffu ar y FfDC. Mae'n fersiwn weithredol ac nid yw'n derfynol. Bydd yn newid ar ôl i'r Senedd graffu arni.

Ein Seilwaith Digidol

Mae Cymru yn wlad fwyfwy cysylltiedig. Ym mis Medi 2019 roedd gan 93% o gartrefi a busnesau fynediad i fand eang cyflym iawn ac roedd gan 31% fynediad i wibgyswllt. Ar y cyfan rydym yn debyg i'r DU o ran mynediad i fand eang cyflym iawn (94%) ond rydym ar ei hôl hi'n sylweddol o ran gwibgyswllt (54%). Mae hyn i'w briodoli i'n haneddiadau gwasgaredig a thopograffi unigryw ac mae cynyddu'r ddarpariaeth yn nod allweddol.




Lluniwyd y ddogfen hon ym mis Medi 2020 i helpu'r Senedd i graffu ar y FfDC. Mae'n fersiwn weithredol ac nid yw'n derfynol. Bydd yn newid ar ôl i'r Senedd graffu arni.



Lluniwyd y ddogfen hon ym mis Medi 2020 i helpu'r Senedd i graffu ar y FfDC. Mae'n fersiwn weithredol ac nid yw'n derfynol. Bydd yn newid ar ôl i'r Senedd graffu arni.

Ein Cysylltiadau

Rydym yn byw ochr yn ochr â'n cymdogion, gyda chysylltiadau agos ar draws y ffin yng ngogledd, canolbarth a de Cymru. Mae bron 8 miliwn o bobl yn byw o fewn 50 milltir i ffin Cymru a Lloegr. Ganed mwy nag un rhan o bump o'n poblogaeth yn Lloegr. Mae pobl yn teithio bob dydd i'r ddau gyfeiriad i weithio, siopa, cymdeithasu a defnyddio gwasanaethau a sefydliadau.




Lluniwyd y ddogfen hon ym mis Medi 2020 i helpu'r Senedd i graffu ar y FfDC. Mae'n fersiwn weithredol ac nid yw'n derfynol. Bydd yn newid ar ôl i'r Senedd graffu arni.

Rydym yn ymweld ac yn masnachu ag Iwerddon, Ewrop a thu hwnt ac mae ein porthladdoedd, ein ffyrdd a'n rheilffyrdd yn gysylltiadau allweddol i mewn i rwydweithiau Ewropeaidd ehangach. Gostyngodd cyfanswm y traffig cludo nwyddau mewn porthladdoedd yng Nghymru 4.8% yn 2018 i 49.2 miliwn o dunnelli, sef ei lefel isaf ers dechrau cadw cofnodion cymaradwy yn 1976. Mae ein porthladdoedd yn diwallu ein hanghenion morgludo gwahanol. Olew crai, cynhyrchion olew a nwy naturiol hylifedig a drafodir yn bennaf yn Aberdaugleddau. Mwyn haearn a glo ar gyfer y gwaith dur cyfagos gaiff ei fewnforio'n bennaf ym Mhort Talbot. Caergybi yw'r prif borthladd ar gyfer cludo nwyddau a theithwyr môr ag Iwerddon, gydag Aberdaugleddau a Phenfro yn darparu cysylltiadau allweddol o ran cludo teithwyr a nwyddau rhwng de Cymru a de Iwerddon.

Roedd teithiau i Gymru gan ymwelwyr rhyngwladol uwchlaw miliwn yn y blynyddoedd diwethaf. Mae ymwelwyr rhyngwladol yn cyfrif am ryw 10% o ymwelwyr dros nos ond 20% o wariant am eu bod yn gwario mwy. Mae'r gwariant cyfartalog fesul taith dros ddwbl lefel ymwelwyr o Brydain. Iwerddon sy'n darparu'r nifer mwyaf o ymweliadau â Chymru, ac yna'r Almaen, UDA a Ffrainc. Mae gwariant o'r holl farchnadoedd hyn oddeutu £30-40 miliwn bob blwyddyn. Mwynhau'r tirlun a'r dreftadaeth yw'r prif reswm dros ymweld â Chymru ymhlith teithwyr rhyngwladol.

Ledled Cymru cyrhaeddwyd a gadawyd gorsafoedd trenau 52.5 miliwn o weithiau yn 2017/18, gan gyfrif am 1.8% o gyfanswm y DU. Cynyddodd nifer y teithiau trên yng Nghymru 30% rhwng 2007/08 a 2017/18. Gwelwyd y rhan fwyaf o'r cynnydd hwn gyda theithiau'n dechrau a/neu'n gorffen yn y de-ddwyrain. Mae Llwybr Cymru, sy'n cyfrif am 11% o rwydwaith rheilffyrdd y DU, ond wedi derbyn ychydig dros 1% o welliannau i reilffyrdd dros y blynyddoedd diwethaf.

Teithiau ar y trên (Newid net, yn ôl rhanbarth, 2007/08 i 2017/18)



Roedd teithiau i Gymru gan ymwelwyr rhyngwladol uwchlaw miliwn yn y blynyddoedd diwethaf.

Lluniwyd y ddogfen hon ym mis Medi 2020 i helpu'r Senedd i graffu ar y FfDC. Mae'n fersiwn weithredol ac nid yw'n derfynol. Bydd yn newid ar ôl i'r Senedd graffu arni.



Lluniwyd y ddogfen hon ym mis Medi 2020 i helpu'r Senedd i graffu ar y FfDC. Mae'n fersiwn weithredol ac nid yw'n derfynol. Bydd yn newid ar ôl i'r Senedd graffu arni.

Cymru rhwng 2020 a 2040: Heriau a Chyfleoedd

Rydym yn wynebu nifer o heriau a chyfleoedd ac mae'r rhain wedi llywio Cymru'r Dyfodol.

Newid yn yr Hinsawdd

Mae'r hinsawdd eisoes yn newid ac, yn adroddiad mwyaf diweddar Cyflwr Hinsawdd y DU 2017, dengys tueddiadau fod hinsawdd y DU yn parhau i gynhesu a bod lefelau morol yn parhau i godi. O ran y dyfodol, daw'r rhagolygon hinsawdd diweddaraf ar gyfer Cymru o Ragolygon Hinsawdd y DU 2018. Defnyddir proses fodelu o'r radd flaenaf i ddarparu rhagamcanion manwl o newid yn yr hinsawdd hyd at 2100 (a hyd at 2300 ar gyfer codi lefelau morol). Dengys y rhagamcanion y bydd mwy o siawns o aeafau gwlypach a mwynach a hafau poethach a sychach, ynghyd â lefelau morol uwch a chynnydd o ran amlder a dwyster tywydd eithafol.

Bydd newidiadau i'n hinsawdd a phatrymau tywydd yn cael effaith sylweddol ar lesiant cenedlaethau presennol a chenedlaethau'r dyfodol. Mae tymereddau uwch a thywydd eithafol yn sgil newid yn yr hinsawdd yn rhoi pwysau ar ecosystemau, seilwaith, yr amgylchedd adeiledig a'n tirlun unigryw a threftadaeth ddiwylliannol, sydd oll yn cyfrannu at gadernid cymdeithasol, economaidd ac ecolegol.

Mae newid yn yr hinsawdd yn fater cydraddoldeb oherwydd bydd yn cael effaith anghymesur ar y cymunedau mwyaf agored i niwed yng Nghymru a thu hwnt. Mae hyn er gwaethaf y ffaith mai'r cymunedau mwyaf agored i niwed yn hanesyddol sy'n cyfrannu leiaf at broblem allyriadau newid yn yr hinsawdd. Mae cymunedau agored i niwed yn fwy tebygol o wynebu risgiau ac effeithiau newid yn yr hinsawdd heb allu ymdopi â nhw nac adfer y sefyllfa wedyn.

Rhagolygon Newid Hinsawdd yng Nghymru


		2050	2080
Rhagwelir y bydd tymereddau'r haf	yn cynyddu gan	**1.34°C**	**3.03°C**
Glawiad yng Nghymru yn y gaeaf	rhagamcanir i gynyddu gan	**5%**	**9%**
Glawiad yng Nghymru yn yr haf	rhagamcanir i gostwng gan	**16%**	**23%**
Rhagwelir y bydd **Lefelau'r Mor** wedi codi ar draws y wlad*	Er Enghraifft, yn:		
	Gogledd Cymru (Llandudno), gan	**19cm**	**34cm**
	Canolbarth Cymru (Aberystwyth), gan	**22cm**	**38cm**
	De Cymru (Caerdydd), gan	**24cm**	**42cm**

Mae'r holl ragolygon yn seiliedig ar linell Sylfaen 1981-2000, ar y 50fed canradd, sef eu bod yn cynrychioli canlyniad sydd yr un mor debygol o ddigwydd ag y mae o beidio â digwydd.

* Daw rhagolygon lefel y môr o senario allyriannau 4.5 (canolig-uchel) yr RCP. Daw'r holl ragolygon eraill o senario allyriadau 6.0 (uchel) yr RCP.


Mae'n hanfodol ein bod yn lleihau ein hallyriadau er mwyn diogelu ein llesiant ni'n hunain a dangos ein cyfrifoldeb byd-eang. Bydd Cymru'r Dyfodol ynghyd â Pholisi Cynllunio Cymru yn sicrhau bod y system gynllunio yn canolbwyntio ar sicrhau Cymru gydnerth sydd wedi'i datgarboneiddio drwy'r lleoedd rydym yn eu creu, yr ynni rydym yn ei gynhyrchu, yr adnoddau naturiol a'r deunyddiau rydym yn eu defnyddio a'r ffordd rydym yn byw ac yn teithio.

Cynnydd i gwrdd â thargedau Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr yng Nghymru



Lluniwyd y ddogfen hon ym mis Medi 2020 i helpu'r Senedd i graffu ar y FfDC. Mae'n fersiwn weithredol ac nid yw'n derfynol. Bydd yn newid ar ôl i'r Senedd graffu arni.

Allyriadau nwyon tŷ gwydr Cymru 2018



Lluniwyd y ddogfen hon ym mis Medi 2020 i helpu'r Senedd i graffu ar y FfDC. Mae'n fersiwn weithredol ac nid yw'n derfynol. Bydd yn newid ar ôl i'r Senedd graffu arni.

Covid-19

Pandemig COVID-19 yw'r argyfwng iechyd cyhoeddus mwyaf ers cenedlaethau. Mae'n parhau i effeithio ar bob rhan o'r byd a bydd ei waddol yn llywio trafodaethau cyhoeddus a phenderfyniadau am flynyddoedd i ddod. Yma yng Nghymru mae llawer o deuluoedd wedi colli anwyliaid ac mae'r pandemig wedi cael effaith ddramatig ar gymunedau, yr economi, yr amgylchedd a'r ffordd rydym yn byw. Mae wedi ein hatgoffa o natur fregus ein cymunedau a'r lleoedd rydym yn byw ynddynt.

Bu ansawdd a hygyrchedd ein hardaloedd lleol yn hynod bwysig i iechyd a llesiant pobl pan oedd y pandemig ar ei waethaf. Roedd pawb yn gwerthfawrogi parciau a llecynnau gwyrdd, llwybrau cerdded a beicio, siopau ac amwynderau lleol, a'r aer glanach a welwyd yn ystod y cyfyngiadau symud. Ymhlith yr heriau pwysig niferus yn ystod y cyfnod adfer bydd sicrhau y gall pob cymuned fwynhau'r pethau sylfaenol bwysig hyn.

Mae llawer o'r camau brys a gymerwyd a'r newidiadau mewn ymddygiad a gyflwynwyd mewn ymateb i'r pandemig yn dod yn nodweddion parhaol mewn bywyd. Mae i hyn oblygiadau i'r system gynllunio wrth i bobl ddefnyddio lleoedd yn wahanol, teithio llai a threulio mwy o amser yn gweithio o gartref. Rhaid i'r system gynllunio ymateb i'r newidiadau hyn a chyfrannu at adferiad cynaliadwy, gan greu lleoedd iach a chadarn yn unol â'r weledigaeth.

Economi Carbon Isel

Ar hyn o bryd, amcangyfrifir bod ein heconomi carbon isel yn cynnwys 9,000 o fusnesau, gan gyflogi 13,000 o bobl a chynhyrchu £2.4 biliwn o drosiant yn 2016. Dros yr 20 mlynedd diwethaf mae allyriadau nwyon tŷ gwydr carbon wedi gostwng, ac mae Gwerth Ychwanegol Gros wedi cynyddu. Er mwyn cynyddu ein ffyniant economaidd, rhaid inni ganolbwyntio ar gyflawni'r nod twf glân a pharatoi economi Cymru ar gyfer marchnadoedd y dyfodol a'r galw am nwyddau a gwasanaethau carbon isel.

Ynni Adnewyddadwy

Gall Cymru arwain y byd ym maes technolegau ynni adnewyddadwy. Mae ein hadnoddau gwynt a llanw, ein potensial i gynhyrchu ynni solar, ein cefnogaeth i brosiectau mawr a chymunedol a'n hymrwymiad i sicrhau bod y system gynllunio yn rhoi arweiniad cryf ar gyfer gweithgarwch datblygu ynni adnewyddadwy, yn golygu ein bod mewn sefyllfa dda i gefnogi'r sector adnewyddadwy, denu buddsoddiad newydd a lleihau allyriadau carbon.

Adnoddau Naturiol

Mae gan Gymru amrywiaeth eang o safleoedd cadwraeth natur sy'n cwmpasu amrywiaeth o gynefinoedd a rhywogaethau gwarchodedig pwysig ac unigryw. Mae ecosystemau yn sail i'n llesiant, ein hiechyd, ein heconomi, ein diwylliant a'n hunaniaeth. Rydym yn dibynnu arnynt i roi bwyd, deunyddiau crai a dŵr glân inni, ac i reoleiddio ein hinsawdd ac ansawdd ein haer. Mae'r angen i wrthdroi dirywiad mewn bioamrywiaeth a helpu byd natur i ymadfer o'r pwys mwyaf ynddo'i hun. Mae'r pwysau a roddir ar yr amgylchedd yn achosi dirywiad mewn bioamrywiaeth ledled y byd ar gyfraddau nas gwelwyd o'r blaen yn hanes dynol ryw ac mae'r graddau y mae rhywogaethau yn cael eu colli yn cyflymu.

Mae llawer o'n diwydiannau allweddol megis amaethyddiaeth, ein coedwigoedd, ein pysgodfeydd, ein hynni, ein dŵr a'n twristiaeth yn dibynnu ar ecosystemau iach gweithredol i ffynnu a chynnal cymunedau ledled Cymru. Rhaid inni gysoni'r ymateb i'r argyfwng hinsawdd â'r angen i fynd i'r afael â'r her i fioamrywiaeth. Bydd sicrhau bod ein hecosystemau yn gadarn yn gwrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth ac yn cynnig cyfle i hyrwyddo twf gwyrdd ac arloesedd i greu swyddi cynaliadwy a chynnal economi sy'n defnyddio adnoddau yn fwy effeithlon a chymunedau iach, egnïol, cynaliadwy a chysylltiedig. Bydd Cymru'r Dyfodol yn helpu i gefnogi ein strategaeth genedlaethol ar gyfer coetiroedd a choed.

Lluniwyd y ddogfen hon ym mis Medi 2020 i helpu'r Senedd i graffu ar y FfDC. Mae'n fersiwn weithredol ac nid yw'n derfynol. Bydd yn newid ar ôl i'r Senedd graffu arni.

Mae agregau yn sail i dwf economaidd, am eu bod yn darparu cynhyrchion cysylltiedig ag adeiladu sy'n hanfodol i greu lleoedd, codi tai a datblygu seilwaith. Lle mae gwaith adeiladu yn arwain at gynnydd yn y galw am agregau, a achosir er enghraifft gan brosiectau seilwaith mawr, rhoddir pwysau ar y diwydiant mwynau i ddarparu'r deunyddiau sydd eu hangen. Mae gwaith cynllunio effeithiol yn sicrhau bod cyflenwad dibynadwy o fwynau, sy'n gallu ateb y galw ym mhob rhanbarth yng Nghymru ar yr un pryd, ar gael bob amser. Mae hyn yn hanfodol i'n heconomi a'n twf yn y dyfodol. Er y bydd Cymru yn parhau i ddibynnu ar y defnydd cynaliadwy o adnoddau mwynol crai, bydd angen gwneud mwy i gynyddu'r defnydd o ddeunyddiau eilaidd a deunyddiau wedi'u hailgylchu. Rhagorwyd ar darged Llywodraeth Cymru i gynyddu cyfran yr agregau a gynhyrchir yng Nghymru o ffynonellau crai ac wedi'u hailgylchu i 25% o leiaf o gyfanswm y cyflenwad o agregau, ond bydd angen gwneud mwy i fynd y tu hwnt i'r amcangyfrif presennol o 30% o gyflenwad yn deillio o ffynonellau o'r fath fel rhan o'r cynnydd tuag at economi wirioneddol gylchol.

Dŵr ac Arfordiroedd

Wrth i'n hinsawdd newid, rhagwelir y bydd y pwysau ar adnoddau dŵr yn cynyddu. Bydd cyflenwi a rheoli dŵr yn fwyfwy pwysig. Ar hyn o bryd, gall Cymru ddiwallu ei hanghenion o ran dŵr a gallwn gludo dŵr o'r ffynhonnell i ardaloedd lle mae galw amdano. Drwy nodi lleoliadau twf cenedlaethol a rhanbarthol mae cyfle i ystyried ble y bydd angen dŵr arnom a sut y gallwn ddiogelu ein hadnoddau yn y dyfodol. Gall canolbwyntio gwaith datblygu mewn ardaloedd adeiledig sy'n bodoli eisoes leihau'r tebygolrwydd y bydd angen ffynonellau newydd sylweddol o ddŵr, ond mae'n rhaid inni ystyried yr effaith y gallai'r holl batrymau datblygu yn y dyfodol a newid yn yr hinsawdd ei chael ar y cyflenwad o ddŵr a'i argaeledd.



Mae'r gwaith o reoli ein harfordiroedd yn bwysig i bob rhanbarth gan fod y mwyafrif o bobl yn byw yn yr ardaloedd arfordirol adeiledig. Mae Cynlluniau Rheoli Traethlin yn nodi cyfleoedd i wneud ecosystemau yn fwy cadarn ac yn helpu i sicrhau bod dewisiadau am leoliadau gwaith datblygu yn cael eu llywio gan erydiad a'r perygl o lifogydd yn y dyfodol.

Cymdeithas sy'n Newid

Mae ein cymdeithas yn heneiddio. Mae angen inni feddwl am y math o gartrefi y byddwn yn byw ynddynt yn y dyfodol; ble maent wedi'u lleoli; y gwasanaethau cymdeithasol a'r gwasanaethau gofal iechyd a fydd yn ein cefnogi; a'r math o leoedd yr hoffem ni, fel poblogaeth sy'n heneiddio, fyw ynddynt.

Hefyd, mae angen inni feddwl am y ffordd y gwnawn gadw a denu pobl ifanc i bob rhan o Gymru, cynnig cyfleoedd i gefnogi plant a phobl ifanc a hyrwyddo ffyrdd iach o fyw. Mae Cymru'r Dyfodol, ynghyd â Pholisi Cynllunio Cymru, yn canolbwyntio'n gryf ar y lleoedd rydym yn eu creu drwy ein system gynllunio. Nid yw adeiladu tai na seilwaith newydd yn nod ynddo'i hun ac rydym yn benderfynol o greu lleoedd sy'n cefnogi ein llesiant drwy gydol ein hoes.

Mae Cymru'r Dyfodol wedi'i lunio ar adeg pan fo'r DU yn newid ei chydberthynas ag Ewrop. Ers 2016, mae Brexit wedi bod wrth wraidd trafodaeth gyhoeddus ac mae wedi creu cryn dipyn o ansicrwydd ynglŷn â'n cydberthynas ag Ewrop yn y dyfodol ac wedi arwain at lunio amrywiaeth eang o fframweithiau polisi sefydledig, sy'n effeithio ar bob agwedd ar ein bywydau.

A ninnau wedi gadael yr Undeb Ewropeaidd, rydym yn agored iawn i effeithiau posibl trefniadau newydd yn y dyfodol. Mae cyllid amaethyddol a rhaglenni adfywio yn feysydd polisi cyhoeddus pwysig sydd wedi cael eu llywio gan bolisïau cyllid Ewropeaidd dros gyfnod hir.

Mewn ymateb i'r ansicrwydd hwn ac wrth feithrin cydberthnasau newydd, nod Cymru'r Dyfodol yw darparu fframwaith cadarnhaol, rhagweithiol er mwyn rhoi sicrwydd a chyfeiriad o ran ble bydd Cymru yn tyfu ac ymhle y byddwn yn buddsoddi. Mae hefyd yn darparu fframwaith sy'n ymateb i amgylchiadau sy'n newid er mwyn sicrhau y gallwn wneud penderfyniadau ar faterion polisi yn y dyfodol sydd eto i'w diffinio.

Tai

Tai fforddiadwy o ansawdd da yw conglfaen cymunedau ac maent yn darparu'r sail i unigolion a theuluoedd ffynnu ym mhob agwedd ar eu bywydau. Mae Cymru'r Dyfodol yn darparu tystiolaeth o'r angen am dai ledled Cymru yn genedlaethol ac yn rhanbarthol. Dengys y dystiolaeth hon fod angen canolbwyntio ar gynyddu nifer y cartrefi cymdeithasol a fforddiadwy a ddarperir. Mae Llywodraeth Cymru yn targedu ei hymyriadau tai a'i hymyriadau cynllunio at gyflawni'r nod hwn yng nghyd-destun ehangach cynyddu'r cyflenwad ac ymateb i anghenion gwahanol, gan gynnwys ein cymdeithas sy'n heneiddio a newid yn yr hinsawdd.

Ffyniant

Mae cyflymder y newid ym maes technoleg yn her ac yn gyfle i bob gwlad. Mae'n bosibl nad yw'r swyddi y bydd cenedlaethau'r dyfodol yn eu gwneud wedi'u dyfeisio eto. Bydd technolegau Awtomeiddio a Deallusrwydd Artiffisial yn effeithio ar bob galwedigaeth. Gallai datblygiadau mewn technolegau megis cerbydau trydanol, ar y cyd â chymwysiadau dyfeisiau symudol sy'n darparu gwasanaethau trafnidiaeth pwrpasol, ail-lunio'r ffordd rydym yn teithio, y cerbydau rydym yn berchen arnynt, trafnidiaeth gyhoeddus a'r lleoedd y byddwn yn byw ynddynt.

Lluniwyd y ddogfen hon ym mis Medi 2020 i helpu'r Senedd i graffu ar y FfDC. Mae'n fersiwn weithredol ac nid yw'n derfynol. Bydd yn newid ar ôl i'r Senedd graffu arni.

Gall ein prifysgolion chwarae rôl bwysig yn genedlaethol ac yn rhanbarthol, gan arwain arloesedd ac ymchwil a darparu cyfleoedd i fyfyrwyr o bob oed dyfu a datblygu. Maent yn chwarae rôl allweddol yn eu cymunedau lleol, gan ddenu myfyrwyr o bob cwr o'r byd i wahanol rannau o Gymru a chefnogi economïau a busnesau lleol.

Gallai patrymau gwaith newid hefyd, gan ddod yn fwy hyblyg o ran lleoliad ac oriau. Mae Cymru'r Dyfodol a Pholisi Cynllunio Cymru yn helpu i ddarparu'r seilwaith sydd ei angen i gefnogi technolegau newydd a sicrhau y gall y lleoedd y byddwn yn eu creu yn y dyfodol gynnal ein cymdeithas sy'n newid.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod ac yn cefnogi rôl bwysig busnesau o bob maint, o wneuthurwyr rhyngwladol mawr i ficrofusnesau, wrth atgyfnerthu, arallgyfeirio a chynyddu cadernid ein heconomi. Nid oes un ateb i bawb ac mae'n bwysig cymryd camau cadarnhaol i gefnogi busnesau newydd a busnesau sy'n bodoli eisoes o bob maint.

Mae ffyniant a lleihau anghydraddoldeb yn parhau'n flaenoriaethau i Lywodraeth Cymru. Nid yw pob rhan o'r wlad yn gweld yr un ffyniant. Mae iechyd yn amrywio ledled Cymru, gyda gwahaniaethau mawr rhwng canlyniadau iechyd ein cymunedau tlotaf a rhannau mwy cefnog. Mae Cymru'r Dyfodol yn darparu fframwaith i waith cynllunio rhanbarthol fynd i'r afael ag anghydraddoldebau rhanbarthol a sicrhau bod y rhannau mwyaf ffyniannus o Gymru yn chwarae rôl yn cefnogi eu rhanbarthau ehangach. Bydd yn sicrhau ein bod yn cymryd camau i ddiwallu anghenion y rhai sy'n ei chael hi'n anodd cael tai a bod y lleoedd rydym yn eu creu yn ein gwneud yn hapusach ac yn iachach.

Mae'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn dirfeddiannwr pwysig sydd â llawer o asedau strategol ledled Cymru sy'n darparu cryn nifer o swyddi ac yn cyfrannu at lawer o gymunedau lleol yn economaidd, yn gymdeithasol ac yn ddiwylliannol. Mae asedau milwrol yng Nghymru yn bwysig i systemau amddiffyn strategol y DU a nod Cymru'r Dyfodol yw diogelu'r ardaloedd hyn at y defnydd hwn a rhag effeithiau datblygu a allai amharu arnynt.

Teithio

Mae symud ledled Cymru yn cael ei lywio gan ein topograffi a'r pellter rhwng y prif ardaloedd adeiledig yn y gogledd a'r de. Mae'r cysylltiadau rhwng y gogledd a'r de yn dameidiog ac nid oes modd teithio yn y trên heb adael y wlad. Mae'r cysylltiadau rhwng y dwyrain a'r gorllewin yn well, ond gall y ffyrdd a'r rheilffyrdd fod dan eu sang.

Mae buddsoddi'n sylweddol mewn trafnidiaeth gyhoeddus, gan gynnwys y cynlluniau Metro a seilwaith teithio llesol, gan gynnwys y llwybrau cerdded a beicio sy'n cael eu datblygu o ganlyniad i'r Ddeddf Teithio Llesol, yn cynnig cyfle i ailystyried sut mae ein lleoedd yn gweithio. Dylai twf fod yn seiliedig ar ddulliau cynaliadwy o deithio a lleoedd sy'n ein gwneud ni a'r amgylchedd yn iachach. Mae'r Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol yn rhan bwysig o'n seilwaith cenedlaethol ac mae'r gwelliannau y bwriedir eu gwneud iddo yn cael eu cefnogi.

Ein pedwar rhanbarth

Mae gennym bedwar rhanbarth cryf, amrywiol a balch. Mae Cymru'r Dyfodol yn cefnogi rhanbarthau'r Gogledd, y Canolbarth, y De-orllewin a'r De-ddwyrain i lywio eu dyfodol a defnyddio'r system gynllunio yn rhagweithiol i greu Cymru well. Y ffordd orau o fynd i'r afael â llawer o'r cyfleoedd a'r heriau a wynebwn yw drwy gymryd camau cydgysylltiedig yn genedlaethol ac yn rhanbarthol. Gall pob rhanbarth, drwy waith cydgysylltiedig ac unedig a pharatoi Cynlluniau Datblygu Strategol, gynllunio a rheoli eu dyfodol gyda'i gilydd.

Lluniwyd y ddogfen hon ym mis Medi 2020 i helpu'r Senedd i graffu ar y FfDC. Mae'n fersiwn weithredol ac nid yw'n derfynol. Bydd yn newid ar ôl i'r Senedd graffu arni.



Lluniwyd y ddogfen hon ym mis Medi 2020 i helpu'r Senedd i graffu ar y FfDC. Mae'n fersiwn weithredol ac nid yw'n derfynol. Bydd yn newid ar ôl i'r Senedd graffu arni.

3 Gosod a chyflawni ein huchelgeisiau

Mae gennym weledigaeth glir ar gyfer Cymru yn 2040 a'r camau y mae angen inni eu cymryd er mwyn cyrraedd yno. Mae gan bawb rôl i'w chwarae i greu dyfodol cynaliadwy, iach, cyfiawn a theg.

Mae nodi'r hyn rydym am ei gyflawni yn gam pwysig yn y broses o baratoi strategaeth ar gyfer cynllun datblygu. Mae Canlyniadau Cymru'r Dyfodol yn uchelgeisiau cyffredinol sy'n seiliedig ar yr egwyddorion cynllunio cenedlaethol a'r canlyniadau creu lleoedd cynaliadwy cenedlaethol a nodir ym Mholisi Cynllunio Cymru. Gyda'i gilydd mae'r 11 o Ganlyniadau yn ddatganiad o ble yr hoffem fod ymhen 20 mlynedd. Mae pob rhan o Cymru'r Dyfodol, o'r strategaeth ofodol i bolisïau rhanbarthol, yn ymwneud â chyflawni'r Canlyniadau. Bydd y rhan fwyaf o feysydd polisi yn cyfrannu at nifer o Ganlyniadau.

Gellir cyflawni'r 11 o Ganlyniadau dros yr 20 mlynedd nesaf os bydd y system gynllunio – drwy Cymru'r Dyfodol a chynlluniau datblygu eraill – yn canolbwyntio ar yr hirdymor ac yn darparu datblygiadau o ansawdd uchel yn y lleoedd cywir am y rhesymau cywir. Mae'r Canlyniadau yn gydgysylltiedig ac yn rhyng-ddibynnol a byddant yn gwella lleoedd a llesiant ledled Cymru.

Byddwn yn mesur effaith Cymru'r Dyfodol yn barhaus. O fewn pum mlynedd i'w gyhoeddi, bydd angen inni benderfynu a oes angen diweddaru Cymru'r Dyfodol. Nodir y broses adolygu ar gyfer mesur effaith Cymru'r Dyfodol – asesu a yw'n llwyddiannus a phenderfynu a oes angen ei ddiweddaru – isod.

Mae nodi'r hyn rydym am ei gyflawni yn gam pwysig yn y broses o baratoi strategaeth ar gyfer cynllun datblygu.



Lluniwyd y ddogfen hon ym mis Medi 2020 i helpu'r Senedd i graffu ar y FfDC. Mae'n fersiwn weithredol ac nid yw'n derfynol. Bydd yn newid ar ôl i'r Senedd graffu arni.

Canlyniadau Cymru'r Dyfodol

Cymru lle mae pobl yn byw

1

… ac yn gweithio mewn lleoedd cysylltiedig, cynhwysol ac iach

Bydd ein dinasoedd, ein trefi a'n pentrefi yn lleoedd sydd wedi'u cysylltu'n dda yn ffisegol ac yn ddigidol a byddant yn cynnig ansawdd bywyd da i'w trigolion. Bydd cartrefi o ansawdd uchel sy'n diwallu anghenion cymdeithas mewn lleoliadau da mewn perthynas â swyddi, gwasanaethau a mannau gwyrdd ac agored hygyrch. Drwy gynnwys egwyddorion creu lleoedd ym mhob datblygiad, gellir sicrhau bod lleoedd yn diwallu anghenion poblogaeth amrywiol, gyda chyfleusterau a gwasanaethau cymunedol hygyrch.

2

… mewn llefydd gwledig llewyrchus lle y gallant gael cartrefi, gwaith a gwasanaethau

Mewn ardaloedd gwledig, caiff cyfleoedd gwaith a gwasanaethau cymunedol eu cefnogi, er mwyn helpu i ddenu a chadw pobl. Sicrheir cydbwysedd rhwng datblygu a diogelu cymeriad Cymru wledig, gan sicrhau y bydd i'n trefi a'n pentrefi bach ddyfodol disglair fel lleoedd deniadol i fyw a gweithio ynddynt. Bydd yr economi wledig yn ffynnu a bydd cymunedau wedi'u cysylltu'n dda yn ddigidol ac yn ffisegol. Caiff y sector amaethyddol a'i gadwyni cyflenwi eu cefnogi er mwyn eu gwneud yn fwy cadarn drwy arallgyfeirio.

3

… mewn rhanbarthau nodedig sy'n mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd ac anghydraddoldebau economaidd-gymdeithasol drwy dwf cynaliadwy

Bydd y dull gweithredu rhanbarthol yn cydnabod bod rhannau gwahanol o Gymru yn gweithio'n wahanol i'w gilydd, gyda'u nodweddion a'u heriau sylfaenol eu hunain. Eir i'r afael ag anghydraddoldebau yn y pedwar rhanbarth drwy feithrin cysylltiadau cryfach rhwng gwasanaethau cyhoeddus, cymunedau a busnesau. Caiff pob rhanbarth ei annog i adeiladu ar ei gryfderau presennol a manteisio ar gyfleoedd i sicrhau mwy o ffyniant a gwella llesiant.

4

… mewn lleoedd lle mae'r iaith Gymraeg yn ffynnu

Ein nod yw cael miliwn o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru erbyn 2050 – sef cynnydd o bron 80% o gymharu â'r lefelau presennol. Bydd yr iaith yn cael ei hystyried o fewn strategaeth ofodol pob cynllun datblygu. Os mai'r Gymraeg yw iaith bob dydd y gymuned, caiff gwaith datblygu ei reoli er mwyn sicrhau bod swyddi a chartrefi ar gael fel y gall yr iaith barhau'n ganolog i hunaniaeth y cymunedau hynny. Mewn mannau eraill bydd gwaith datblygu yn rym cadarnhaol i annog creu seilwaith addysgol a chymdeithasol er mwyn i'r iaith allu datblygu fel rhan naturiol, ffyniannus o gymunedau.

Lluniwyd y ddogfen hon ym mis Medi 2020 i helpu'r Senedd i graffu ar y FfDC. Mae'n fersiwn weithredol ac nid yw'n derfynol. Bydd yn newid ar ôl i'r Senedd graffu arni.

Canlyniadau Cymru'r Dyfodol

Cymru lle mae pobl yn byw

5

… ac yn gweithio mewn trefi a dinasoedd sy'n ganolbwynt ac yn sbardun i dwf cynaliadwy

Bydd dinasoedd a threfi mawr yn denu swyddi a buddsoddiad, tra bod pobl yn cael eu denu i fyw a gweithio yno oherwydd y cyfleoedd economaidd a chymdeithasol a gynigir ganddynt. Bydd cynlluniau datblygu yn cefnogi dyheadau trefi mawr a dinasoedd i dyfu a'u galluogi i wneud hynny, yn seiliedig ar egwyddorion cynaliadwyedd a dylunio trefol. Drwy fuddsoddi mewn teithio llesol, trafnidiaeth gyhoeddus, rheoli perygl llifogydd a seilwaith gwyrdd gellir sicrhau twf y boblogaeth a thwf economaidd, gan leihau llygredd a'r defnydd o garbon ar yr un pryd. Bydd ardaloedd y tu allan i'r canolfannau trefol yn elwa'n uniongyrchol ar gryfder ein trefi mawr a'n dinasoedd, drwy well cysylltedd a buddsoddiad ychwanegol mewn cartrefi, swyddi a gwasanaethau newydd.

6

… mewn lleoedd lle y caiff ffyniant, arloesedd a diwylliant eu hyrwyddo

Bydd gan gynlluniau datblygu agwedd flaengar, gadarnhaol at alluogi datblygu economaidd, buddsoddi ac arloesi. Y nod fydd sicrhau mwy o ffyniant a chynhyrchiant ym mhob rhan o Gymru, gan adeiladu ar y gweithgarwch presennol a hyrwyddo diwylliant o arloesedd, partneriaeth gymdeithasol, entrepreneuriaeth a datblygu sgiliau mewn diwydiannau a sectorau cynaliadwy. Bydd diwylliant, treftadaeth ac amgylchedd Cymru yn chwarae rôl fodern, gadarnhaol yn yr economi drwy ddenu diddordeb a gwariant twristiaid a darparu brand unigryw y gellir ymddiried ynddo i fusnesau yng Nghymru.

7

… mewn lleoedd lle mae teithio yn gynaliadwy

Dim ond effaith fach a gaiff pob dull o deithio ar yr amgylchedd a bydd ond yn creu lefelau isel o allyriadau, gyda mwy o ddefnydd o drafnidiaeth gyhoeddus a cherbydau ag allyriadau isel iawn yn disodli'r cerbydau petrol a diesel presennol. Bydd seilwaith trafnidiaeth cynaliadwy yn rhan o unrhyw ddatblygiad er mwyn ei gwneud hi'n hawdd ac yn gyfleus mynd o un man i'r llall i gymudwyr, teithwyr busnes, twristiaid a'r rhai sydd am fwynhau gweithgareddau hamdden. Bydd gwaith datblygu yn canolbwyntio ar deithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus, ynghyd â llai o ddibyniaeth ar gerbydau preifat.

8

… mewn lleoedd â seilwaith digidol o'r radd flaenaf

Bydd darpariaeth band eang yn datblygu, gan ddechrau gyda darpariaeth band eang cyflym iawn i Gymru gyfan a symud ymlaen i fand eang ffeibr gwibgyswllt, a fydd yn helpu busnesau i fod yn fwy cynhyrchiol, cadarn ac arloesol ac yn gwella ffordd o fyw cymunedau ac unigolion. Bydd gwell cyfathrebu digidol yn galluogi cynnydd economaidd a chymdeithasol ac yn sicrhau y gall Cymru gadw i fynd â'r datblygiadau technolegol byd-eang diweddaraf ac arwain datblygiadau o'r fath.

Lluniwyd y ddogfen hon ym mis Medi 2020 i helpu'r Senedd i graffu ar y FfDC. Mae'n fersiwn weithredol ac nid yw'n derfynol. Bydd yn newid ar ôl i'r Senedd graffu arni.

Canlyniadau Cymru'r Dyfodol

Cymru lle mae pobl yn byw

9

... mewn lleoedd sy'n rheoli eu hadnoddau naturiol yn gynaliadwy ac yn lleihau llygredd

Mae adnoddau naturiol Cymru, gan gynnwys ei mwynau, priddoedd a geoamrywiaeth, ei harfordir, ei dŵr, ei choedwigoedd a'i thirwedd yn cefnogi amrywiaeth o weithgareddau a sectorau ac maent yn asedau gwerthfawr yn eu rhinwedd eu hunain. Caiff gwerth amgylcheddol, cymdeithasol a diwylliannol ein hadnoddau eu rheoli, eu cynnal a'u gwella, tra caiff manteision economaidd eu defnyddio'n gynaliadwy ac yn briodol drwy hyrwyddo atebion ar sail natur ac economi gylchol. Ledled Cymru caiff perygl llifogydd ac erydu arfordirol ei reoli a'i liniaru'n effeithiol a chaiff y dewis gwell o adnoddau ei adlewyrchu mewn mannau mwy cynaliadwy. Bydd lleoedd yn cael budd o lai o lygredd a byddant yn iachach ac yn fwy deniadol i fyw ynddynt.

10

... mewn lleoedd ag ecosystemau bioamrywiol, cadarn a chysylltiedig

Mae'r amrywiaeth o fflora a ffawna a geir ledled Cymru yn gwneud Cymru yn lle arbennig. Mae bioamrywiaeth yn sail i weithrediad ecosystemau cadarn iach a'r buddiannau lluosog a ddarperir ganddynt. Er bod bioamrywiaeth wedi lleihau yn ystod y degawdau diwethaf, byddwn yn gwrthdroi'r colledion hyn ac yn gwneud ecosystemau yn fwy cadarn. Bydd y system gynllunio yn ei gwneud yn bosibl i fywyd gwyllt ffynnu mewn cynefinoedd iach ac amrywiol, mewn ardaloedd trefol a gwledig, gan gydnabod a gwerthfawrogi'r buddiannau lluosog i bobl a natur.

11

... mewn lleoedd sydd wedi'u datgarboneiddio ac sy'n gallu gwrthsefyll yr hinsawdd

Mae'r heriau sy'n gysylltiedig â newid yn yr hinsawdd yn gofyn am weithredu ar fyrder i fynd i'r afael ag allyriadau carbon ac mae'n rhaid i'r system gynllunio helpu Cymru i arwain y ffordd o ran hyrwyddo a chreu cymdeithas gystadleuol a chynaliadwy sydd wedi'i datgarboneiddio. Caiff ymrwymiadau datgarboneiddio a thargedau ynni adnewyddadwy eu trin fel cyfleoedd i sicrhau economi carbon isel gadarnach a thecach, datblygu seilwaith trafnidiaeth glân ac effeithlon, gwella iechyd y cyhoedd a chreu swyddi crefftus mewn sectorau newydd. Bydd cartrefi newydd yn ynni effeithlon ac yn helpu cymunedau i addasu i hinsawdd newidiol.



Lluniwyd y ddogfen hon ym mis Medi 2020 i helpu'r Senedd i graffu ar y FfDC. Mae'n fersiwn weithredol ac nid yw'n derfynol. Bydd yn newid ar ôl i'r Senedd graffu arni.

Adolygu Cymru'r Dyfodol

Bob pum mlynedd bydd Llywodraeth Cymru yn paratoi ac yn cyhoeddi adolygiad o Cymru'r Dyfodol. Bydd yr adolygiad yn nodi'r cynnydd o ran cyflawni Canlyniadau Cymru'r Dyfodol a chreu'r Gymru rydym am ei gweld erbyn 2040.

Bydd yr adolygiad yn seiliedig ar bedair ffynhonnell allweddol:

1 Y Dangosyddion Cenedlaethol

Mae 46 o Ddangosyddion Cenedlaethol sy'n helpu i adrodd hanes cynnydd yn erbyn y nodau llesiant a bennwyd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

2 Dangosyddion Cymru'r Dyfodol sy'n gysylltiedig â pholisïau

Mae dangosyddion Cymru'r Dyfodol sy'n gysylltiedig â pholisïau yn cwmpasu'r holl bynciau y mae polisïau Cymru'r Dyfodol yn mynd i'r afael â nhw. Bydd y dangosyddion hyn yn ein helpu i ddeall yn fanylach y tueddiadau a'r patrymau allweddol y mae Cymru'r Dyfodol yn ceisio dylanwadu arnynt.

3 Yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig

Mae'r Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig yn broses sydd wedi ategu'r gwaith o ddatblygu Cymru'r Dyfodol o'r cychwyn cyntaf. Mae iddo ei gyfres ei hun o amcanion, dangosyddion a data sylfaenol. Drwy ddadansoddi'r rhain gallwn fynd ati i feddwl am Ganlyniadau Cymru'r Dyfodol ac effaith Cymru'r Dyfodol ar ddata sylfaenol Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig.

4 Tystiolaeth gyd-destunol a ffactorau dylanwadol

Bydd tystiolaeth gyd-destunol a ffactorau dylanwadol yn cynnwys amrywiaeth eang o ddata economaidd, diwylliannol, amgylcheddol a chymdeithasol. Byddwn yn asesu ystadegau cenedlaethol a rhanbarthol ar faterion fel yr economi a chyflogaeth, y boblogaeth a'r amgylchedd. Dros bum mlynedd gyntaf Cymru'r Dyfodol, bydd newidiadau megis polisïau newydd Llywodraeth Cymru, ymchwil a chyhoeddiadau newydd i gyd yn darparu cyd-destun pwysig ar gyfer y Dangosyddion Cenedlaethol a dangosyddion Cymru'r Dyfodol sy'n gysylltiedig â pholisïau. Wrth inni gyrraedd y cam adolygu, byddwn hefyd yn gwahodd pobl i gyflwyno tystiolaeth y dylid ei hystyried yn eu barn nhw.

Lluniwyd y ddogfen hon ym mis Medi 2020 i helpu'r Senedd i graffu ar y FfDC. Mae'n fersiwn weithredol ac nid yw'n derfynol. Bydd yn newid ar ôl i'r Senedd graffu arni.

Gyda'i gilydd, bydd y wybodaeth hon a'n dadansoddiad ohoni yn helpu i benderfynu pa gamau newydd neu gamau pellach sydd angen eu cymryd i gyflawni Canlyniadau Cymru'r Dyfodol. Gallai'r adolygiad ddod i'r casgliad bod Cymru'r Dyfodol ar y trywydd cywir ac nad oes angen cymryd camau gweithredu sylweddol. Gallai nodi fod Cymru'r Dyfodol ar y trywydd cywir mewn rhai meysydd ond nad yw cystal mewn eraill. Byddwn yn penderfynu pa newidiadau fydd eu hangen er mwyn sicrhau y gwneir cynnydd ym mhob maes.

Os bydd newidiadau sylweddol i bolisi Llywodraeth Cymru, os caiff deddfwriaeth newydd berthnasol ei chyflwyno neu os penderfynir nad yw Cymru'r Dyfodol yn gwneud cynnydd tuag at ei Ganlyniadau, byddwn yn ystyried sut y dylai Cymru'r Dyfodol gael ei ddiwygio. Gall fod angen paratoi fframwaith datblygu newydd yn ei le. Os felly, fel yn achos y gwaith o baratoi Cymru'r Dyfodol, bydd ymgysylltu ac ymgynghori â'r cyhoedd a rhanddeiliaid yn nodwedd ganolog o'r broses.

Mae Cymru'r Dyfodol yn gynllun 20 mlynedd hirdymor a bydd yn cymryd amser i gyflawni'r newid strategol mae'n ei geisio. Rydym yn hyderus y bydd strategaeth ofodol a Chanlyniadau Cymru'r Dyfodol yn parhau i fod y rhai cywir drwy gydol cyfnod y cynllun a bydd yr adolygiad yn canolbwyntio'n bennaf ar y camau gweithredu y mae angen eu cymryd i gynnal ffocws ar gyflawni uchelgeisiau Cymru'r Dyfodol.

Fel y nodir ym Mhennod 1, mae Cymru'r Dyfodol ond yn un o nifer o gynlluniau a strategaethau sy'n llywio newid yng Nghymru. Ni all y system gynllunio fynd i'r afael â'r holl newidiadau rydym yn ceisio eu cyflawni ar ei phen ei hun. Bydd yr adolygiad o Cymru'r Dyfodol yn nodi ble mae'n rhaid i'r system gynllunio weithio gyda'r buddiannau cyhoeddus, preifat a chymunedol ehangach i gyflawni'r Canlyniadau.

Yr Adolygiad Cyntaf: Sut y byddwn yn gwybod a fu Cymru'r Dyfodol yn llwyddiannus?

Drwy gyflawni Canlyniadau Cymru'r Dyfodol bydd lleoedd yng Nghymru yn well eu byd. Caiff llwyddiant Cymru'r Dyfodol ei fesur yn ôl ei allu i gyflawni'r Canlyniadau.

Yn yr adolygiad cyntaf, bydd angen taro cydbwysedd rhwng camau gweithredu tymor canolig a thymor hwy. Ar gam cychwynnol Cymru'r Dyfodol mae saith cwestiwn allweddol a fydd yn ein helpu i benderfynu ar ei gynnydd, sef:

A yw Cymru'r Dyfodol wedi:

1. cefnogi datgarboneiddio?
2. cefnogi cwmpas llawn cynlluniau datblygu ar bob un o dair haen cynlluniau datblygu?
3. helpu i gyflenwi ynni adnewyddadwy?
4. helpu i ddiwallu anghenion tai yn y lleoedd cywir?
5. gwneud lleoedd yn iachach?
6. helpu i atgyfnerthu ecosystemau a chyfoethogi bioamrywiaeth?
7. cefnogi economi sy'n sicrhau ffyniant i bawb?

Lluniwyd y ddogfen hon ym mis Medi 2020 i helpu'r Senedd i graffu ar y FfDC. Mae'n fersiwn weithredol ac nid yw'n derfynol. Bydd yn newid ar ôl i'r Senedd graffu arni.

4 Dewisiadau Strategol a Gofodol: Strategaeth ofodol Cymru'r Dyfodol

Mae strategaeth ofodol yn nodi ac yn cysylltu canolfannau cenedlaethol a rhanbarthol allweddol, yn sail i fuddsoddi mewn seilwaith yn yr hirdymor, yn nodi blaenoriaethau ar gyfer y system gynllunio ac yn fframwaith ar gyfer rheoli adnoddau naturiol.

Mae strategaeth ofodol Cymru'r Dyfodol yn fframwaith arweiniol ar gyfer y lleoedd hynny y bydd newid ar raddfa fawr a datblygiadau o bwys cenedlaethol wedi'u canolbwyntio arnynt dros yr 20 mlynedd nesaf. Mae'r strategaeth yn cyfuno'r patrymau anheddu presennol a dosbarthiad swyddi a chartrefi â gweledigaeth i reoli newid a thueddiadau yn y dyfodol er budd pawb yng Nghymru.

Mae'r strategaeth ofodol yn helpu i gyflawni Canlyniadau Cymru'r Dyfodol. Bydd penderfyniadau a wneir ar lefel genedlaethol, gan gynnwys y buddsoddiadau y mae Llywodraeth Cymru yn dewis eu gwneud, yn adlewyrchu egwyddorion y strategaeth hon ac yn gwneud cyfraniadau cadarnhaol at gyflawni'r amcanion creu lleoedd cenedlaethol.

Ein strategaeth yw adeiladu ar gryfderau a manteision presennol. Mae'n annog patrymau datblygu cynaliadwy ac effeithlon, sy'n seiliedig ar gydleoli cartrefi â swyddi a gwasanaethau hanfodol a defnyddio adnoddau yn effeithlon. Mae'r strategaeth yn cyfrannu at gyflawni amcanion datgarboneiddio a bioamrywiaeth ac yn cefnogi uchelgeisiau cenedlaethol i wella iechyd. Mae'n galluogi creu cymunedau cynaliadwy, ffyniannus ac yn unol â nod ehangach miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 Llywodraeth Cymru.

Mae cydleoli cartrefi, swyddi a gwasanaethau yn golygu canolbwyntio ar ddinasoedd a threfi mawr fel y prif ardaloedd datblygu. Bydd datblygu ein hardaloedd trefol i wella eu perfformiad yn anodd ond rydym yn gryf o'r farn mai hon yw'r uchelgais gywir i Gymru a'i bod yn cefnogi ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gyfiawnder cymdeithasol. Petawn yn dewis datblygu trefi newydd neu'n galluogi datblygiadau gwasgarog ar feysydd glas, byddem yn anwybyddu potensial lleoedd sydd eisoes â chanol trefi, prifysgolion a cholegau, seilwaith trafnidiaeth gyhoeddus ac amrywiaeth dda o wasanaethau cyhoeddus, potensial na fanteisiwyd arno eto. Byddai hefyd yn gwastraffu asedau allweddol ar ffurf cefn gwlad cynhyrchiol ac adnoddau naturiol.


Bydd y ffocws ar ardaloedd trefol sy'n tyfu yn creu crynoadau o swyddi, gwasanaethau ac amwynderau a màs critigol o bobl i gynnal gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus da ac amrywiaeth o weithgareddau economaidd. Gall ffocws ar dwf trefol alluogi mwy o bobl i gerdded a beicio ar gyfer teithiau bob dydd ac, ynghyd â gwaith dylunio trefol da, gall gael effeithiau cadarnhaol ar iechyd y cyhoedd, ansawdd aer a llesiant.

Bydd twf cynaliadwy yn golygu cyflawni gwelliannau o ran bioamrywiaeth a seilwaith gwyrdd yn ein hardaloedd trefol. Bydd angen dod o hyd i atebion effeithiol ac arloesol yn seiliedig ar natur i'r heriau sy'n gysylltiedig â ffurf, dyluniad a dwysedd trefol er mwyn sicrhau'r manteision llesiant sy'n deillio o fyw a gweithio mewn aneddiadau rhagorol sy'n gadarn at y dyfodol.

Ym mhob rhan o Gymru, mae'r strategaeth hon yn cefnogi twf cynaliadwy. Nid oes gan unrhyw le heb swyddi, cartrefi, mannau cymunedol na bywyd gwyllt unrhyw obaith o gael cymuned nac economi ffyniannus na chydlynus ac ni fydd y Gymraeg yn ffynnu yno. Mae'r fath beth â gormod o ddatblygu neu'r math anghywir o ddatblygu, ond dylai datblygu cynaliadwy feithrin poblogaeth sefydlog neu boblogaeth sy'n tyfu er mwyn sicrhau amgylchedd naturiol iach a sefydlogrwydd economaidd a chymdeithasol.

Lluniwyd y ddogfen hon ym mis Medi 2020 i helpu'r Senedd i graffu ar y FfDC. Mae'n fersiwn weithredol ac nid yw'n derfynol. Bydd yn newid ar ôl i'r Senedd graffu arni.

Strategaeth Ofodol



Lluniwyd y ddogfen hon ym mis Medi 2020 i helpu'r Senedd i graffu ar y FfDC. Mae'n fersiwn weithredol ac nid yw'n derfynol. Bydd yn newid ar ôl i'r Senedd graffu arni.

Polisi 1 – Ble bydd Cymru'n tyfu

Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi twf cynaliadwy ledled Cymru. Mewn tair Ardal Dwf Genedlaethol gwelir twf cyflogaeth a thai a buddsoddi mewn seilwaith. Yr Ardaloedd Twf Cenedlaethol yw:

- Caerdydd, Casnewydd a'r Cymoedd
- Bae Abertawe a Llanelli
- Wrecsam a Glannau Dyfrdwy

Ategir yr Ardaloedd Twf Cenedlaethol gan Ardaloedd Twf Rhanbarthol a fydd yn tyfu, yn datblygu ac yn cynnig amrywiaeth o wasanaethau cyhoeddus a masnachol yn rhanbarthol. Ceir Ardaloedd Twf Rhanbarthol mewn tri rhanbarth:

- Y De-orllewin
- Y Canolbarth
- Y Gogledd

Dylai mesurau datblygu a thwf mewn trefi a phentrefi mewn ardaloedd gwledig fod yn briodol o ran maint a chefnogi dyheadau ac anghenion lleol.

Yr Ardaloedd Twf Cenedlaethol yw:

Yn hanesyddol mae tueddiadau o ran y boblogaeth yng Nghymru wedi adlewyrchu'r amgylchiadau economaidd, gyda phobl yn cael eu denu i ardaloedd lle roedd swyddi ar gael. Dros y canrifoedd mae hyn wedi arwain at ddatblygu tri phrif glwstwr trefol o ddinasoedd a threfi, sef::

- Caerdydd, Casnewydd a'r Cymoedd;
- Bae Abertawe a Llanelli;
- Wrecsam a Glannau Dyfrdwy.

Mae pob un o'r ardaloedd trefol hyn yn wahanol yn economaidd ac maent yn cynnal amrywiaeth o fusnesau, mentrau a phrifysgolion ac yn cynnig ffyrdd o fyw diwylliannol gyfoethog i'w trigolion ac ymwelwyr. Maent yn lleoedd o bwys rhyngwladol a chenedlaethol a nod y strategaeth hon yw eu helpu i barhau i dyfu ac adfywio. Ceir polisïau manwl ym Mhennod 5 ar bob un o'r Ardaloedd Twf Cenedlaethol sy'n nodi eu rôl mewn cyd-destun cenedlaethol a rhanbarthol.

Mae Cymru'r Dyfodol yn nodi amrywiaeth o Ardaloedd Twf Rhanbarthol pwysig a ddylai, drwy bolisïau penodol mewn Cynlluniau Datblygu Strategol a Lleol, gadw a gwella'r sail gwasanaethau masnachol a chyhoeddus sy'n eu gwneud yn ganolbwyntiau yn eu hardaloedd.

Yr Ardaloedd Twf Rhanbarthol yw:

Y De-orllewin

- Caerfyrddin
- Y Trefi Porthladd Sir Benfro, gan gynnwys:
  - Hwlffordd
  - Aberdaugleddau
  - Penfro a
  - Doc Penfro

Y Canolbarth

- Y Dyffryn Teifi, gan gynnwys:
  - Aberteifi
  - Castellnewydd Emlyn
  - Llandysul a
  - Llanbedr Pont Steffan
- Aberhonddu a'r Gororau
- Calon Gymru, gan gynnwys:
  - Llandrindod a
  - Llanfair ym Muallt
- Bro Hafren, gan gynnwys:
  - Y Trallwng a
  - Drenewydd
- Aberystwyth

Y Gogledd

- Caergybi
- Caernarfon a Bangor
- Llandudno a Bae Colwyn
- Y Rhyl a Phrestatyn



Lluniwyd y ddogfen hon ym mis Medi 2020 i helpu'r Senedd i graffu ar y FfDC. Mae'n fersiwn weithredol ac nid yw'n derfynol. Bydd yn newid ar ôl i'r Senedd graffu arni.

Y tu hwnt i'r Ardaloedd Twf Cenedlaethol a Rhanbarthol mae cymysgedd o drefi llai a phentrefi, ac ardaloedd mawr o gefn gwlad. Mae llawer o drefi yn drefi marchnad yn draddodiadol ac maent yn dal i weithredu fel mannau ymgasglu i bobl sy'n byw ac yn gweithio mewn lleoedd gwledig. Ar hyd yr arfordir mae ein trefi morol a'n trefi gwyliau yn dal i fod yn lleoedd poblogaidd i fyw ynddynt ac ymweld â nhw, er bod angen adfywio rhai lleoedd. Bydd gwaith datblygu mewn trefi a phentrefi mewn ardaloedd gwledig yn helpu i gyflawni dyheadau a diwallu anghenion pobl leol, gan ategu ymdrechion i dyfu ein dinasoedd a'n trefi yn hytrach na chystadlu â nhw. Mae polisïau 4 a 5 yn hynod berthnasol yn y lleoedd hyn.

Drwy ganolbwyntio twf ar raddfa fawr ar yr ardaloedd trefol gellir sianelu pwysau datblygu i ffwrdd oddi wrth gefn gwlad a diogelu tir amaethyddol cynhyrchiol. Mae ardaloedd gwledig yn chwarae rôl bwysig fel darparwyr bwyd, ynni ac adnoddau mwynol. Mae cefnogaeth gref i gymunedau mewn ardaloedd gwledig; y nod yw sicrhau twf economaidd a thwf o ran tai cynaliadwy sy'n canolbwyntio ar gadw a denu pobl o oedran gweithio a chynnal a gwella mynediad at wasanaethau. Yn achos ardaloedd sydd wedi'u dynodi oherwydd eu tirwedd neu eu pwysigrwydd ecolegol, mae mesurau i'w diogelu rhag datblygiadau amhriodol yn dal i fod ar waith.

Mae'r strategaeth ofodol yn grymuso llunwyr polisi a gwneuthurwyr penderfyniadau lleol i ddatblygu'r blaenoriaethau cenedlaethol drwy Gynlluniau Datblygu Strategol a Lleol a nodi meysydd a materion pwysig yn eu hardaloedd penodol.

Polisi 1 sy'n llywio'r gwaith o gyflawni Canlyniadau Cymru'r Dyfodol ac mae'n sicrhau bod polisïau Cymru'r Dyfodol a'r system gynllunio yn gyffredinol yn ymrwymedig i'w cyflawni. Mae materion allweddol, gan gynnwys datgarboneiddio, iechyd, ffyniant a'r Gymraeg yn elfennau craidd o bolisi 1 ac yn sail gyffredin i holl bolisïau Cymru'r Dyfodol.

Mae gweddill Pennod 4 yn nodi polisïau cenedlaethol sy'n hanfodol i gyflawni'r strategaeth ofodol yn llwyddiannus. Aiff y polisïau hyn i'r afael â natur datblygu mewn ardaloedd trefol a gwledig, yn yr Ardaloedd Twf a nodwyd a thu hwnt. Bydd y polisïau yn sicrhau bod lleoedd yn cael eu cynllunio'n dda a bod ganddynt strategaethau ar gyfer sicrhau y caiff ein hanghenion a'n gofynion eu diwallu a'u rheoli mewn ffordd gynaliadwy. Bydd y ffordd rydym yn llunio lleoedd yn pennu sut rydym yn ymateb i heriau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd ac yn defnyddio ein hadnoddau. Mae lleoedd sydd wedi'u cynllunio'n gynaliadwy yn lleihau'r angen i deithio yn y car; yn annog pobl i gerdded, beicio neu ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus; yn ymgorffori seilwaith gwyrdd; yn cymryd camau i sicrhau bod aer yn lân. Maent yn sicrhau bod cartrefi a busnesau wedi'u cysylltu â gwasanaethau hanfodol megis ynni, dŵr a band eang ac yn darparu mannau gwahanol ar gyfer ein holl weithgareddau bob dydd.

Lluniwyd y ddogfen hon ym mis Medi 2020 i helpu'r Senedd i graffu ar y FfDC. Mae'n fersiwn weithredol ac nid yw'n derfynol. Bydd yn newid ar ôl i'r Senedd graffu arni.

Polisi 2 – Llywio Twf ac Adfywio Trefol – Creu Lleoedd Strategol

Dylai tyfu ac adfywio trefi a dinasoedd wneud cyfraniad cadarnhaol at greu lleoedd cynaliadwy sy'n cefnogi bywydau egnïol ac iach, gyda chymdogaethau trefol cywasgedig a cherddedadwy, sydd wedi'u trefnu o amgylch canolfannau defnydd cymysg a thrafnidiaeth gyhoeddus ac wedi'u hintegreiddio â seilwaith gwyrdd.
Dylai twf ac adfywio trefol fod yn seiliedig ar yr egwyddorion creu lleoedd strategol canlynol::

- Creu cymysgedd cyfoethog o ddefnyddiau;
- Darparu amrywiaeth o fathau o dai a deiliadaethau;
- Adeiladu lleoedd cerddedadwy, gyda chartrefi, cyfleusterau lleol a thrafnidiaeth gyhoeddus o fewn pellter cerdded i'w gilydd;
- Cynyddu dwysedd y boblogaeth, gyda gwaith datblygu ar ddwyseddau trefol a all gefnogi trafnidiaeth gyhoeddus a chyfleusterau lleol;
- Sefydlu rhwydwaith hydraidd o strydoedd, gyda hierarchaeth sy'n llywio natur gwaith datblygu;
- Hyrwyddo gwaith datblygu seiliedig ar leiniau, sy'n cynnig cyfleoedd i ddatblygu lleiniau bach, gan gynnwys rhai ar gyfer tai ar archeb a hunanadeiladwyr;
- Integreiddio seilwaith gwyrdd, a gaiff ei lywio gan Asesiad Seilwaith Gwyrdd yr awdurdod cynllunio.

Dylai awdurdodau cynllunio ddefnyddio cynlluniau datblygu i bennu gweledigaeth ar gyfer pob tref a dinas. Dylai hyn gael ei ategu gan fframwaith gofodol sy'n arwain twf ac adfywio ac sy'n sefydlu strwythur lle gall trefi a dinasoedd dyfu, datblygu, arallgyfeirio a ffynnu dros amser.

Llywio twf ac adfywio trefol

Mae dyheadau Cymru'r Dyfodol o ran twf yn gyfle i adfywio ein trefi a'n dinasoedd a llywio eu maint, strwythur a dwysedd. Mae creu lleoedd wrth wraidd y system gynllunio yng Nghymru ac mae'r polisi hwn yn sefydlu dull strategol o greu lleoedd ac egwyddorion i alluogi awdurdodau cynllunio i lywio twf ac adfywio trefol.

Cyn gwneud penderfyniadau am ddyrannu safle neu gynnig datblygu, rhaid meddu ar ddarlun clir o natur newidiol lleoedd a datblygu gweledigaeth neu strategaeth at y dyfodol. Yn ogystal â nodi'r ffordd orau o ehangu trefi a dinasoedd, mae'n bwysig cynllunio ar gyfer cymdogaethau sy'n bodoli eisoes, yn enwedig y rhai sydd angen eu hadfywio.

Mae fframwaith gofodol yn pennu patrwm hirdymor defnydd tir, dwysedd, symudiad a seilwaith gwyrdd. Mae'n adnodd i nodi'r lleoliadau gorau ar gyfer twf ac adfywio a rhydd strwythur i alluogi newid dros amser.

Dylai'r gweledigaethau a'r fframweithiau gofodol ategol ar gyfer lleoedd lywio a chael eu cefnogi gan strategaethau gofodol, dyraniadau safle a pholisïau Cynlluniau Datblygu Strategol a Lleol. Hefyd, dylent fod yn sail i fesurau eraill i gefnogi camau gweithredu, megis uwchgynlluniau a chodau dylunio.

Ar lywio twf ac adfywio o fewn yr Ardaloedd Twf Cenedlaethol a Rhanbarthol y mae'r polisi hwn yn canolbwyntio'n bennaf. Mae'r dull a'r egwyddorion hefyd yn gymwys i drefi llai a dylent gael eu cymhwyso i adlewyrchu'r cyd-destun lleol. Ceir rhagor o ganllawiau ar greu lleoedd strategol a'r egwyddorion cysylltiedig yn y polisi hwn i gefnogi ei weithredu.

Egwyddorion Creu Lleoedd Strategol

Defnydd cymysg

Er mwyn creu gweithgarwch drwy'r dydd a galluogi pobl i gerdded a beicio, yn hytrach na dibynnu ar deithio mewn car, dylai fod gan leoedd gymysgedd gwych o ddefnyddiau preswyl, masnachol a chymunedol yn agos i'w gilydd. Dylai twf ac adfywio trefol integreiddio gwahanol ddefnydd mewn cymdogaethau.

Amrywiaeth o Dai

Er mwyn sicrhau bod lleoedd yn cynnwys cymysgedd cymdeithasol ac at ddant pawb, dylent gynnwys cymysgedd o fathau o dai a deiliadaethau, a lle i weithio gartref. Dylai twf ac adfywio trefol ddarparu ar gyfer teuluoedd, cyplau a phobl sengl o wahanol oedran, yn ogystal â darparu cymysgedd o dai fforddiadwy a phreifat.

Cerddedadwy

Er mwyn galluogi bywydau iach ac actif, dylai fod yn hawdd i bobl gerdded i gyfleusterau lleol a thrafnidiaeth gyhoeddus. Dylid rhoi pwyslais ar dwf ac adfywio trefol yng nghanol dinasoedd ac yng nghanol trefi, yn ogystal â mewn perthynas â chanolfannau lleol defnydd cymysg a thrafnidiaeth gyhoeddus. Mae hybiau cydweithio sy'n cynnig dewis amgen i weithio gartref yn nodwedd gymharol newydd, a chynyddol bwysig, o'r economi, a dylai'r rhain gael eu lleoli mewn trefi a chanolfannau lleol.

Dwysedd

Er mwyn cefnogi llwyddiant economaidd a chymdeithasol ein trefi a'n dinasoedd, gan gynnwys cynnal trafnidiaeth gyhoeddus a chyfleusterau, dylai twf ac adfywio trefol gynyddu dwysedd poblogaeth ein trefi a'n dinasoedd. Dylai datblygiadau newydd mewn ardaloedd trefol anelu at ddwysedd o 50 o anheddau fesul hectar (net) o leiaf, gyda dwyseddau uwch mewn lleoliadau mwy canolog a hygyrch. Gall fod angen ystyried gofynion cadw pellter cymdeithasol wrth ddylunio lleoedd cyhoeddus a chymunedol.

Rhwydwaith Strydoedd

Er mwyn darparu fframwaith ar gyfer integreiddio gwahanol ddefnydd a mathau o dai mewn cymdogaethau, dylai twf ac adfywio trefol fod yn seiliedig ar rwydwaith o strydoedd lle gellir cadw pellter cymdeithasol yn hawdd. Dylai'r rhwydwaith strydoedd fod yn hydraidd, gyda strydoedd yn bennaf yn cysylltu â strydoedd eraill ar y ddau ben ac yn darparu cysylltiadau i leoedd, allan ohonynt a thrwyddynt. Dylai fod hierarchaeth i'r rhwydwaith strydoedd, gyda strydoedd sydd â gwahanol nodweddion a swyddogaethau.

Datblygu sy'n seiliedig ar leiniau

Er mwyn creu lleoedd amrywiol a diddorol, a all gael eu datblygu a'u newid dros amser, a darparu cyfleoedd i bobl ddylunio ac adeiladu eu cartrefi a'u gweithfannau eu hunain, yn ogystal â gwneud y farchnad dai yn hygyrch i adeiladwyr bach a lleol, dylai twf ac adfywio trefol gynnig cyfleoedd i ddatblygu lleiniau bach. Dylid hyrwyddo dull datblygu sy'n seiliedig ar leiniau, gan gynnwys is-rannu safleoedd mwy i'w hadeiladu'n lleiniau bach neu'n grŵp o leiniau.

Seilwaith gwyrdd

Er mwyn galluogi ardaloedd trefol i chwarae eu rhan wrth gefnogi cadernid ecosystemau, dylai'r defnydd o atebion arloesol, yn seiliedig ar natur, fod yn rhan o strategaethau twf ac adfywio trefol. Drwy Asesiadau Seilwaith Gwyrdd, dylid nodi cyfleoedd penodol i sicrhau bod seilwaith gwyrdd wedi'i integreiddio'n llawn..

Lluniwyd y ddogfen hon ym mis Medi 2020 i helpu'r Senedd i graffu ar y FfDC. Mae'n fersiwn weithredol ac nid yw'n derfynol. Bydd yn newid ar ôl i'r Senedd graffu arni.

Polisi 3 – Cefnogi Twf ac Adfywio Trefol – Arweinyddiaeth y Sector Cyhoeddus

Bydd Llywodraeth Cymru yn chwarae rôl alluogi a gweithredol yn cefnogi twf ac adfywio trefol. Bydd Llywodraeth Cymru yn cydgasglu tir, yn buddsoddi mewn seilwaith ac yn paratoi safleoedd i'w datblygu. Byddwn yn gweithio gydag awdurdodau lleol a chyrff eraill yn y sector cyhoeddus i ddatgloi potensial eu tir a'u cefnogi i chwarae rôl ddatblygu gynyddol.

Rhaid i'r sector cyhoeddus ddangos arweinyddiaeth a rhoi egwyddorion creu lleoedd ar waith er mwyn cefnogi twf ac adfywio er budd cymunedau ledled Cymru. Rhaid i ddefnydd y sector cyhoeddus o dir, datblygiadau, buddsoddiadau a chamau gweithredu adeiladu lleoedd cynaliadwy sy'n gwella iechyd a llesiant.

Rhaid i awdurdodau cynllunio chwarae rôl ragweithiol a chydweithio â Llywodraeth Cymru a chyrff eraill yn y sector cyhoeddus i nodi'r lleoliadau gorau ar gyfer twf ac adfywio, a darparu sicrwydd ynghylch sut y dylid eu datblygu.

Cefnogi twf ac adfywio trefol

Mae rôl sector cyhoeddus gryfach ar gyfer cydgasglu tir a galluogi gwaith datblygu yn hanfodol er mwyn gwireddu ein dyheadau o ran twf ac adfywio.

Ar hyn o bryd caiff y diwydiant datblygu yng Nghymru, ynghyd â'r DU gyfan, ei ddominyddu gan nifer bach o ddatblygwyr mawr. Rhaid iddo ymateb yn gadarnhaol i'n polisïau creu lleoedd, ond mae hefyd angen i'r sector cyhoeddus chwarae mwy o rôl. Gall y sector cyhoeddus alluogi ystod ehangach o ddatblygwyr bach a lleol i sicrhau twf ac adfywio ledled Cymru, a chreu'r cartrefi a'r cymdogaethau a fydd yn creu cymunedau cynaliadwy ar gyfer y genhedlaeth hon a chenedlaethau'r dyfodol.

Blaenoriaeth Llywodraeth Cymru yw sicrhau budd i'r cyhoedd. Rydym am gynyddu nifer y tai cymdeithasol sydd ar gael, sicrhau bod y farchnad dai yn hygyrch i ystod ehangach o ddatblygwyr o wahanol faint, a chefnogi cymdogaethau bywiog a ddefnyddir mewn sawl ffordd a lle ceir gweithfannau fforddiadwy. Rhaid i'r sector cyhoeddus arwain drwy esiampl a rhoi egwyddorion creu lleoedd ar waith er mwyn creu datblygiadau sy'n dangos esiampl. Yn arbennig, rhaid i'r sector cyhoeddus flaenoriaethu gwaith dylunio o ansawdd, arloesedd a chynaliadwyedd. Dylid achub ar gyfleoedd i'r eithaf i greu rhwydweithiau ecolegol, darparu gwasanaethau ecosystemau a seilwaith gwyrdd. Dylai datblygiadau fod yn effeithlon o ran adnoddau ac adlewyrchu egwyddorion economi gylchol.

Lluniwyd y ddogfen hon ym mis Medi 2020 i helpu'r Senedd i graffu ar y FfDC. Mae'n fersiwn weithredol ac nid yw'n derfynol. Bydd yn newid ar ôl i'r Senedd graffu arni.

Polisi 4 – Cefnogi Cymunedau Gwledig



Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi cymunedau gwledig cynaliadwy a bywiog.

Rhaid i Gynlluniau Datblygu Strategol a Lleol nodi eu cymunedau gwledig, asesu eu hanghenion a gosod polisïau sy'n eu cefnogi. Dylai polisïau ystyried sut y gellir cyflawni cymunedau cytbwys o ran oedran, lle dylid gwrthdroi dadboblogi ac ystyried rôl tai fforddiadwy a marchnad newydd, cyfleoedd cyflogaeth, gwasanaethau lleol a mwy o symudedd wrth ateb yr heriau hyn.

Polisi 5 – Cefnogi'r economi wledig



Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi twf economaidd cynaliadwy, priodol a chymesur mewn trefi gwledig sydd wedi'i gynllunio ac a reolir drwy Gynlluniau Datblygu Strategol a Lleol.

Rhaid i Gynlluniau Datblygu Strategol a Lleol gynllunio'n gadarnhaol i ddiwallu anghenion cyflogaeth ardaloedd gwledig, gan gynnwys cyflogaeth yn deillio o'r economi sylfaenol; y sector amaethyddol a choedwigaeth, gan gynnwys cynigion i arallgyfeirio; busnesau newydd a microfusnesau.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn gefnogol iawn i ddatblygu sectorau a busnesau technoleg arloesol ac sy'n dod i'r amlwg, er mwyn helpu ardaloedd gwledig i wireddu eu potensial llawn, gan ehangu'r sail economaidd a chreu swyddi cyflog uwch.

Ardaloedd gwledig bywiog

Mae rhannau helaeth o Gymru yn wledig eu natur gyda 40% o'r boblogaeth yn byw mewn aneddiadau sydd â llai na 10,000 o bobl. Mae ardaloedd gwledig yn amrywio, gyda chymunedau ffyniannus a difreintiedig, busnesau arloesol, adnoddau hanfodol a hanes a diwylliannau unigryw. Maent yn denu ymwelwyr o bob cwr o'r byd ac maent yn chwarae rôl bwysig yn diwallu ein hanghenion dŵr, bwyd ac ynni.

Mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i weld ardaloedd gwledig bywiog lle ceir gwasanaethau sy'n diwallu anghenion y rhai sy'n byw yno mewn ffordd gynaliadwy. Rhaid i Gynlluniau Datblygu Strategol a Lleol ddatblygu polisïau sy'n cefnogi ardaloedd gwledig. Lle mae'r cynlluniau hyn yn nodi twf mewn ardaloedd gwledig, rhaid iddo fod yn briodol ac yn gymesur i anghenion yr anheddiad a'r ardal wledig ehangach a wasanaethir ganddynt.

Dylai awdurdodau cynllunio fod yn hyderus wrth nodi pa ardaloedd sy'n wledig, gan ddefnyddio'r hyn maent yn ei ddeall am faterion a daearyddiaeth ardal i baratoi diffiniadau priodol. Mae lleoliad gwledig sy'n agos at ardaloedd trefol mawr yn wynebu problemau gwahanol i leoliad gwledig mwy anghysbell. Efallai na fydd yn briodol dilyn yr un polisïau ar gyfer y ddau fath o leoliad.

Mae llawer o bentrefi a threfi gwledig yn rhan annatod o'u dalgylch. Nodweddir aneddiadau gwledig ffyniannus, cadarn a chynaliadwy gan gymysgedd cyfoethog o dai, swyddi,

gwasanaethau a seilwaith, a leolir yn y mannau cywir i ddiwallu anghenion a gwireddu dyheadau'r boblogaeth yn y dyfodol. Mae COVID-19 wedi dangos pa mor bwysig yw cyfleusterau o'r fath, a'r ffordd y maent yn helpu i wneud cymunedau gwledig yn gadarn. O fewn aneddiadau dylai gwahanol ddefnyddiau gael eu lleoli'n agos i'w gilydd, gan adlewyrchu'r egwyddorion creu lleoedd strategol, er mwyn helpu i greu lleoedd bywiog lle y gall pobl gerdded a beicio a lle maent yn llai dibynnol ar geir.

Lle na fydd tai, swyddi, gwasanaethau allweddol na seilwaith yn ddigonol i ddiwallu anghenion presennol nac anghenion y dyfodol, neu nad ydynt yn hygyrch iawn, gellir tanseilio cadernid a chynaliadwyedd ardal, a thrwy hynny, o bosibl arwain at ddirywiad economaidd a chymdeithasol. Gall hyn ddod i'r amlwg ar ffurf diboblogi gwledig, anghydbwysedd oedran, amddifadedd, anghydraddoldeb neu ynysu cymdeithasol. Os bydd pobl yn symud i ffwrdd i chwilio am gyfleoedd mewn mannau eraill, gellir peryglu ymarferoldeb gwasanaethau a chyfleusterau, yn enwedig mewn aneddiadau bach lle mae'r sail cwsmeriaid yn gyfyngedig.

Dylai awdurdodau cynllunio gydnabod yr heriau sy'n wynebu eu cymunedau gwledig ac amlinellu polisïau sy'n helpu i fynd i'r afael â nhw. Dylent ystyried y rôl y gall tai, ardaloedd cyflogaeth a gweithio gartref, gwasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, lleoliadau addysgol, gwasanaethau brys, siopau a seilwaith ei chwarae wrth fynd i'r afael â'r heriau hyn a helpu i greu lleoedd mwy cynaliadwy.

Mae aneddiadau gwledig cynaliadwy yn fannau hygyrch ac wedi'u cysylltu'n dda â'r ardaloedd gwledig maent yn eu gwasanaethu. Mae Llywodraeth Cymru yn gefnogol iawn i well trafnidiaeth gyhoeddus a dulliau teithio llesol ond mae'n cydnabod efallai mai teithio mewn car yw'r unig opsiwn realistig i rai, yn enwedig mewn ardaloedd anghysbell. Bydd Llywodraeth Cymru yn cefnogi buddsoddiad mewn trafnidiaeth gyhoeddus, teithio llesol a rhwydweithiau gwefru cerbydau er mwyn cefnogi cerbydau allyriadau isel iawn. Bydd hefyd yn cefnogi buddsoddiad yn y rhwydwaith ffyrdd lle mae hyn yn angenrheidiol er mwyn cynnal neu wella hygyrchedd ardaloedd gwledig, cynaliadwyedd a llesiant cymunedau.

Ym mhob rhanbarth dylai awdurdodau cynllunio gefnogi gwelliannau i gysylltedd o fewn a rhwng aneddiadau gwledig. Dylent asesu'r angen i wella cysylltedd rhwng rhanbarthau a bod yn hyderus i gysoni cynigion datblygu rhanbarthol a lleol â chyfleoedd mewn awdurdodau cyfagos.

Dylai rhanbarthau gydweithio i nodi ffyrdd o ddatblygu cysylltiadau trafnidiaeth strategol cryfach rhwng ardaloedd gwledig a threfi mawr a dinasoedd er budd economaidd y naill a'r llall. Mae'n bwysig bod cymunedau gwledig yn gallu cael mynediad priodol at farchnadoedd gwaith a marchnadoedd economaidd ehangach, a dylai penderfyniadau ynghylch datblygu economaidd rhanbarthol a seilwaith trafnidiaeth a gwasanaethau ystyried anghenion pob rhan o Gymru.

Mae'n bwysig bod cymunedau gwledig yn datblygu economïau cryf ac yn cefnogi mentergarwch lleol. Gall presenoldeb busnesau gwledig a chyfleoedd cyflogaeth lleol olygu nad oes angen i weithwyr deithio pellter hir ac mae'n lleihau'r ddibyniaeth ar ganolfannau economaidd mawr.

Mae'r ffaith nad oes cyfleoedd cyflogaeth yn rheswm allweddol dros ddiboblogi gwledig, yn enwedig ymhlith y gweithlu iau; gall hefyd gyfrannu at amddifadedd ac anghydraddoldeb. Mae datblygu cyfleoedd lleol, yn enwedig mewn sectorau cyflog uwch, yn bwysig er mwyn cadw gweithwyr, ehangu'r sail sgiliau a helpu i gynnal cymunedau. Dylai ardaloedd gwledig ddatblygu sail economaidd eang sy'n cefnogi sector sylfaenol cryf, y

Lluniwyd y ddogfen hon ym mis Medi 2020 i helpu'r Senedd i graffu ar y FfDC. Mae'n fersiwn weithredol ac nid yw'n derfynol. Bydd yn newid ar ôl i'r Senedd graffu arni.

diwydiant amaethyddol a choedwigaeth, busnesau technoleg arloesol sy'n dod i'r amlwg, busnesau newydd a microfusnesau.

Gall y gallu cynyddol i weithio o gartref ac o bell, heb orfod bod yn y brif swyddfa, arwain at fwy o alw i fyw mewn ardaloedd gwledig a chyfleoedd i gadw'r boblogaeth oedran gweithio. Gallai hyn fod o fudd mawr i fusnesau gwledig a'r economi sylfaenol. Mae gwasanaethau gofal ac iechyd, bwyd a diod, tai, ynni, adeiladu, twristiaeth a manwerthwyr ar y stryd fawr i gyd yn enghreifftiau o'r economi sylfaenol; mae'r sector hwn yn cyfrif am tua 40% o'r swyddi yng Nghymru.

Gweithgareddau economaidd sylfaenol yw asgwrn cefn yr economi wledig. Yn arbennig, cydnabyddir bod twristiaeth a hamdden yn gyflogwr mawr sy'n tyfu ac yn gwneud cyfraniad pwysig at economi wledig Cymru. Dylid archwilio twristiaeth gynaliadwy, gan gynnwys cyfleoedd ar gyfer twristiaeth actif, werdd a diwylliannol. Yn yr un modd, mae prosesu cynhyrchion amaethyddol a garddwriaethol o ran bwyd a diod lleol yn ddiwydiant sy'n tyfu. Dylai awdurdodau cynllunio gefnogi datblygiadau newydd a chyfleoedd i wella neu ddatblygu cadwyni cyflenwi a rhwydweithiau dosbarthu gwledig.

Cefnogir arallgyfeirio yn gryf er mwyn helpu i gynnal sector amaethyddol a choedwigaeth cynaliadwy a chadarn, yn enwedig yn wyneb heriau ymadael â'r Undeb Ewropeaidd i'r DU. Dylai polisïau a meini prawf i alluogi arallgyfeirio priodol gael eu hamlinellu mewn Cynlluniau Datblygu Strategol a Lleol.

Mae ardaloedd gwledig yn gartref i lawer o gwmnïau technoleg arloesol ac mae lle i ehangu'r agwedd hon ar yr economi. Mae'r sector yn cynnwys ymchwil a datblygu, amddiffyn a diogelwch, iechyd anifeiliaid a milfeddygaeth, biodechnoleg ac amaethdechnoleg, ac ynni. Dylid ymchwilio i asesiadau rhanbarthol o gyfleoedd clystyru posibl ar gyfer busnesau gwledig a all fanteisio ar y ffaith eu bod yn agos i'w gilydd.

Dylai Cynlluniau Datblygu Strategol a Lleol fynd i'r afael â'r angen a'r cyfle am bob math o gyflogaeth addas ledled ardaloedd gwledig, gan sicrhau y darperir safleoedd priodol a bod cysondeb â strategaethau cynaliadwy a thwf wedi'i gynllunio ar gyfer aneddiadau, gan gynnwys ar gyfer seilwaith, tai a gwasanaethau.

Mae cyfathrebu digidol yn y Gymru wledig yn cefnogi sail busnes mwyfwy amrywiol a bydd yn arbennig o bwysig i ddenu cwmnïau arloesol sy'n seiliedig ar dechnoleg. Mae telathrebu symudol a band eang llinell sefydlog yn hanfodol er mwyn cael gafael ar wasanaethau, galluogi rhyngweithio cymdeithasol ac economaidd, gwella addysg, a chefnogi llesiant, gan gynnwys mynd i'r afael â materion megis ynysu ac allgáu cymdeithasol.

Dylai awdurdodau cynllunio weithio gyda darparwyr cyfathrebu digidol er mwyn sicrhau y diwellir anghenion ardaloedd gwledig ac y cynllunnir ar eu cyfer drwy bolisïau mewn Cynlluniau Datblygu Strategol a Lleol. Mewn tirluniau sensitif ac ardaloedd dynodedig eraill, bydd seilwaith telathrebu digidol wedi'u lleoli'n ofalus er mwyn lleihau eu heffaith weledol. Trafodir cyfathrebu digidol yn fanylach ym mholisi 13.

Mae ardaloedd gwledig yn chwarae rôl hollbwysig wrth helpu i ddatgarboneiddio Cymru drwy ddarparu amgylcheddau addas ar gyfer gwahanol fathau o ynni adnewyddadwy. Mae polisïau 17 a 18 yn amlinellu dull Cymru'r Dyfodol o gynhychu ynni adnewyddadwy ledled Cymru a'i berthynas ag ardaloedd gwledig.

Lluniwyd y ddogfen hon ym mis Medi 2020 i helpu'r Senedd i graffu ar y FfDC. Mae'n fersiwn weithredol ac nid yw'n derfynol. Bydd yn newid ar ôl i'r Senedd graffu arni.

Polisi 6 – Rhoi Canol Trefi yn Gyntaf

Rhaid lleoli cyfleusterau masnachol, manwerthu, addysg, iechyd, hamdden a gwasanaethau cyhoeddus newydd sylweddol yng nghanol trefi a dinasoedd. Dylai fod ganddynt gysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus da, a hynny i'r dref neu'r ddinas gyfan ac allan ohoni, a, lle y bo'n briodol, y rhanbarth ehangach. Rhaid defnyddio dull dilyniannol o weithredu er mwyn llywio'r gwaith o ddod o hyd i'r lleoliad gorau ar gyfer y datblygiadau hyn a dylent gael eu nodi mewn Cynlluniau Datblygu Strategol a Lleol.

Rhoi Canol Trefi yn Gyntaf

Er mwyn adfywio canol trefi, mae Llywodraeth Cymru wedi mabwysiadu dull 'Rhoi Canol Trefi yn Gyntaf'. Mae'n rhoi iechyd a bywiogrwydd canol trefi wrth wraidd penderfyniadau lleoli. Mae hefyd yn sicrhau ei bod hi'n hawdd i ddefnyddwyr gyrraedd cyfleusterau a gwasanaethau drwy gerdded, beicio a/neu ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus. Yn unol â pholisi 3, bydd buddsoddiadau gan Lywodraeth Cymru yn adlewyrchu'r egwyddorion hyn.

Mae egwyddor 'Rhoi Canol Trefi yn Gyntaf' wedi hen ymsefydlu mewn polisi cynllunio mewn perthynas â datblygiadau manwerthu. Fodd bynnag, gall gwaith cynllunio da ein helpu i ailystyried dyfodol canol trefi a dinasoedd, sy'n symud i ffwrdd o'u rolau manwerthu traddodiadol. Mae effaith COVID-19 ar y sector manwerthu yn sbardun pellach i wneud canol trefi yn fwy amlswyddogaethol. Mae canol trefi yn dal yn ganolbwyntiau pwysig i gymunedau ac, yn fwyfwy, maent yn dod yn lleoedd i fyw ynddynt, yn ganolfannau gweithgarwch cymunedol a diwylliannol ac yn ffocws i wasanaethau cyhoeddus megis iechyd ac addysg. Maent yn fwy nag ardaloedd manwerthu dynodedig.

Dylid lleoli cyfleusterau masnachol, manwerthu, addysg, iechyd, hamdden a gwasanaethau cyhoeddus newydd sylweddol yng nghanol trefi a dinasoedd. Mae'r polisi hwn yn gymwys i ddatblygiadau sylweddol, y gellir eu diffinio'n fras fel cyfleuster a fydd yn gwasanaethu tref, dinas neu ddalgylch rhanbarth cyfan.

Mater i awdurdodau cynllunio yw penderfynu a fydd datblygiad yn un sylweddol. Mae Polisi Cynllunio Cymru yn nodi gofynion pellach o dan 'Rhoi Canol Trefi yn Gyntaf' ar gyfer datblygiadau manwerthu.

Anogir awdurdodau cynllunio i ddilyn trywydd tebyg ar gyfer datblygiadau bach. Mae'n bwysig bod cyfleusterau lleol yn rhan o gymdogaethau defnydd cymysg, cerddadwy, yn enwedig mewn canolfannau lleol neu'n agos atynt yn unol â pholisi 2.

Mae'r polisi'n ymwneud â datblygiadau newydd ac nid yw'n gymwys i estyniadau i gyfleusterau sy'n bodoli eisoes.

Mae'n bwysig bod datblygiadau sy'n gwasanaethu tref, dinas neu ddalgylch rhanbarth cyfan yn cael budd o seilwaith teithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus. Yn ddelfrydol defnyddir cyfleusterau trafnidiaeth gyhoeddus presennol, ond gellir cyflawni hyn drwy wella gwasanaethau neu greu llwybr bysiau neu orsaf drenau newydd.

Dull a arweinir gan gynllun yw'r ffordd orau o nodi'r lleoliad ar gyfer y cyfleusterau hyn. Fodd bynnag, heb ddyraniad cynllun datblygu, rhaid defnyddio dull dilyniannol i benderfynu ar geisiadau cynllunio. Gall Llywodraeth Cymru ymyrryd yn y broses gwneud cais cynllunio lle na ddilynir dull rhoi canol trefi yn gyntaf.

Lluniwyd y ddogfen hon ym mis Medi 2020 i helpu'r Senedd i graffu ar y FfDC. Mae'n fersiwn weithredol ac nid yw'n derfynol. Bydd yn newid ar ôl i'r Senedd graffu arni.

Polisi 7 – Darparu Cartrefi Fforddiadwy

Bydd Llywodraeth Cymru yn cynyddu nifer y cartrefi fforddiadwy a gyflenwir drwy sicrhau y caiff cyllid ar gyfer y cartrefi hyn ei ddyrannu a'i ddefnyddio'n effeithiol. Drwy eu Cynlluniau Datblygu Strategol a Lleol, dylai awdurdodau cynllunio ddatblygu fframweithiau polisi cryf sy'n seiliedig ar dystiolaeth er mwyn cyflenwi tai fforddiadwy, gan gynnwys gosod targedau ar gyfer cynlluniau datblygu yn seiliedig ar amcangyfrifon rhanbarthol o'r angen am dai ac asesiadau lleol. Mewn ymateb i anghenion lleol a rhanbarthol, dylai awdurdodau cynllunio nodi safleoedd ar gyfer datblygiadau a arweinir gan dai fforddiadwy ac ystyried pob cyfle i gynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy.

Darparu Cartrefi

Mae darparu tai yng Nghymru ar lefelau sy'n diwallu ein hanghenion yn flaenoriaeth allweddol i Lywodraeth Cymru. Rhaid i'r system gynllunio hwyluso'r broses o ddarparu tai marchnad a thai fforddiadwy ychwanegol. Mae darlun cymhleth o'r angen am dai a'u darpariaeth ac mae'r cyfleoedd sydd gan bobl yn amrywio'n sylweddol yn dibynnu ar incwm a ble maent yn byw yng Nghymru.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi amrediad o 'Amcangyfrifon o anghenion tai ychwanegol (yn seiliedig ar 2019)' dros gyfnod o 20 mlynedd hyd at 2038/39 (canol blwyddyn i ganol blwyddyn). Mae'r ffigurau ar gael ar lefel genedlaethol ac ar gyfer y pedwar rhanbarth (y Gogledd / y Canolbarth / yDe-orllewin / y De-ddwyrain). Mae amcangyfrifon o'r angen am dai yn llywio cynlluniau a strategaethau ar lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol.

Nid yw'r amcangyfrifon cenedlaethol na rhanbarthol o angen yn adlewyrchu polisïau na digwyddiadau yn y dyfodol ac nid ydynt yn nodi Gofyniad Tai i Gymru na'r rhanbarthau. Fodd bynnag, mae'r amcangyfrifon yn rhan o'r dystiolaeth a'r cyd-destun y gellir seilio polisi a gofynion tai arnynt. Dylai'r amcangyfrifon o'r angen am dai marchnad a thai fforddiadwy lywio'r gofynion tai a nodir mewn Cynlluniau Datblygu Strategol a Lleol a disgwylir i'r gofynion tai fod yn wahanol i'r amcangyfrifon o'r angen am dai.

Dros yr 20 mlynedd nesaf (2019-2039), mae'r amcangyfrif o'r angen am dai ychwanegol yng Nghymru, o dan yr amcangyfrif canolog, tua 110,000. Yn ystod y pum mlynedd cychwynnol (2019/20 i 2023/24) amcangyfrifir y bydd angen 7,400 o gartrefi ychwanegol ar gyfartaledd bob blwyddyn, gydag agos i ddau draean o'r tai sydd eu hangen yn y De-ddwyrain, ychydig dros un rhan o bump yn y De-orllewin a'r rhan fwyaf o weddill y tai ychwanegol sydd eu hangen yn y Gogledd, a nifer cymharol fach o dai sydd eu hangen yn y Canolbarth. (Gall cyfanswm yr amcangyfrifon ar gyfer tai ychwanegol sydd eu hangen newid ychydig o'r amcangyfrif ar gyfer Cymru).

Mae'r amcangyfrifon o'r angen am dai hefyd yn dangos y dylai darparu tai fforddiadwy fod yn ffocws allweddol ar gyfer cyflenwi tai.

Dros y pum mlynedd nesaf (2019/20 – 2023/24), o dan yr amcangyfrif canolog, amcangyfrifir bod y tai ychwanegol bob blwyddyn ar gyfartaledd yn cael eu rhannu'n gyfartal rhwng tai fforddiadwy (tai cymdeithasol neu dai rhent canolradd) a'r farchnad dai.

Mae hyn yn cynrychioli cyfartaledd o tua 3,500 (48%) o gartrefi fforddiadwy a 3,900 (52%) o gartrefi marchnad y flwyddyn dros gyfnod o bum mlynedd.

Lluniwyd y ddogfen hon ym mis Medi 2020 i helpu'r Senedd i graffu ar y FfDC. Mae'n fersiwn weithredol ac nid yw'n derfynol. Bydd yn newid ar ôl i'r Senedd graffu arni.


Dengys y siart isod y dirywiad yn nifer y cartrefi fforddiadwy a dynoda'r newid yn y cydbwysedd rhwng tai marchnad a fforddiadwy sydd ei angen dros y pum mlynedd nesaf.

Er bod tai marchnad yn dal i chwarae rôl hanfodol a phwysig wrth ymateb i'r angen am dai , er mwyn mynd i'r afael â'r angen am dai a nodwyd yng Nghymru, mae angen newid y model cyflenwi drwy adeiladu cartrefi fforddiadwy ar raddfa fawr ac yn gyflym. Fel y gwelir, mae nifer y cartrefi sydd ar gael wedi lleihau ers i fwy o ddibyniaeth gael ei rhoi ar y sector cyhoeddus i fynd i'r afael â'r angen dynol sylfaenol hwn. Er mwyn mynd i'r afael â hyn byddwn yn cefnogi dull gweithredu mwy cytbwys gydag awdurdodau lleol, landlordiaid cymdeithasol cofrestredig a chwmnïau adeiladu bach a chanolig yn cael eu hannog i adeiladu mwy o gartrefi. Bydd ailddefnyddio tir cyhoeddus yn bwysig i gyflenwi'r cartrefi hyn, yn enwedig darparu tai cymdeithasol (gweler polisi 3).

Mae gan y system gynllunio rôl hirsefydlog o ran cyflenwi tai fforddiadwy. Rydym yn ymrwymedig i sicrhau bod tai newydd yn diwallu anghenion pob aelod o gymdeithas, yn enwedig y rhai na allant fforddio prynu tŷ yn y farchnad agored. Gan ategu'r egwyddorion creu lleoedd strategol ar dudalen XX, mae lleoedd cynaliadwy yn gynhwysol ac yn croesawu pawb; nid ydynt yn allgáu rhannau o'r gymuned nac yn creu getoau o'r cyfoethog a'r tlawd. Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i gynyddu nifer y tai fforddiadwy, gan ganolbwyntio ar dai cymdeithasol. a gyflenwir yn yr ardaloedd lle mae eu hangen a bydd yn defnyddio ei chyllid, ei thir, ei pholisïau cynllunio a thai i lywio'r gwaith o'u cyflenwi. Rydym yn cydnabod bod fforddiadwyedd tai yn amrywio ledled Cymru ac y bydd angen ymatebion gwahanol mewn rhannau gwahanol o Gymru er mwyn diwallu anghenion cymunedau lleol.

Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda phawb sy'n ymwneud â chynllunio a chyflenwi tai fforddiadwy o'r sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector, er mwyn cyflawni'r nodau hyn.

Cyflenwad cartrefi newydd 1974-2019: Cymru



Ffynhonnell: Mae gwybodaeth am anheddau newydd yn ôl deiliadaeth yng Nghymru fesul blwyddyn ariannol yn seiliedig ar adroddiadau arolygwyr adeiladu awdurdodau lleol a'r Cyngor Adeiladu Tai Cenedlaethol (NHBC). Weithiau mae'n anodd i arolygwyr rheoli adeiladu sy'n cofnodi'r data i nodi deiliadaeth derfynol arfaethedig yr eiddo (sail y wybodaeth daliadaeth). Gall hyn arwain at dan-gyfrif o adeiladu tai newydd y sector cymdeithasol a gor-gyfrif ar gyfer y sector preifat. Felly'r dylid trin gwybodaeth y ddeiliadaeth yn ofalus.

Lluniwyd y ddogfen hon ym mis Medi 2020 i helpu'r Senedd i graffu ar y FfDC. Mae'n fersiwn weithredol ac nid yw'n derfynol. Bydd yn newid ar ôl i'r Senedd graffu arni.

Polisi 8 – Llifogydd

Cefnogir systemau rheoli perygl llifogydd sy'n galluogi ac yn cynnal twf ac adfywio strategol cynaliadwy mewn Ardaloedd Twf Cenedlaethol a Rhanbarthol. Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag Awdurdodau Rheoli Perygl Llifogydd a datblygwyr er mwyn cynllunio a buddsoddi mewn seilwaith newydd a gwell, gan hyrwyddo atebion yn seiliedig ar natur fel blaenoriaeth. Rhaid achub ar gyfleoedd i sicrhau manteision cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol wrth fuddsoddi mewn seilwaith rheoli perygl llifogydd. Rhaid sicrhau na fydd prosiectau yn cael effaith andwyol ar safleoedd rhyngwladol a chenedlaethol a ddynodwyd yn statudol at ddibenion cadwraeth natur na'r nodweddion y'u dynodwyd ar eu cyfer.

Dewisiadau datblygu cynaliadwy

Mae perygl llifogydd yn ffactor cyfyngol wrth feddwl am ddatblygu, yn enwedig am fod cynifer o'n trefi a'n dinasoedd ar yr arfordir neu wedi'u lleoli ar hyd afonydd mawr. Mae'r tebygolrwydd o lefelau morol cynyddol a mwy o law yn sgil newid yn yr hinsawdd yn golygu bod disgwyl i berygl llifogydd gynyddu dros oes gwaith datblygu a bydd angen atebion cynaliadwy. Gall llifogydd beryglu bywyd a gall gael effeithiau trychinebus ar fywoliaeth ac eiddo pobl. Felly, mae gan Lywodraeth Cymru bolisi cynllunio cadarn sy'n golygu na leolir gwaith datblygu mewn ardaloedd lle ceir perygl llifogydd.


Mae rhannau o'r tair Ardal Dwf Genedlaethol yn wynebu perygl llifogydd ac yn cynnwys cymunedau a leolir mewn ardaloedd sy'n agored i lifogydd o afonydd a'r môr. Bydd yr uchelgais i dyfu ac adfywio lleoedd o fewn yr Ardal Dwf Genedlaethol yn gofyn am benderfyniadau strategol am leoliad gwaith datblygu. Nid yw'n briodol datblygu seilwaith rheoli perygl llifogydd er mwyn gallu datblygu o'r newydd ar dir a fu'n segur. Bydd Llywodraeth Cymru ac awdurdodau rheoli perygl llifogydd yn canolbwyntio ar gyflwyno cynlluniau yn seiliedig ar natur a gwella amddiffynfeydd presennol, er mwyn diogelu ardaloedd datblygedig yn well. Gall hyn greu cyfleoedd i ailddatblygu tir llwyd mewn Ardaloedd Twf. Rhaid ystyried ymarferoldeb a chost gyhoeddus diogelu pobl ac eiddo yn y byrdymor a'r hirdymor, gan roi llesiant wrth wraidd y broses gwneud penderfyniadau. Mae'n bwysig sicrhau nad yw cynigion yn cael effeithiau annerbyniol ar yr amgylchedd naturiol amgylchynol.

Drwy nodi Ardaloedd Twf Cenedlaethol a Rhanbarthol, gall yr awdurdodau perthnasol fynd ati i ddethol ardaloedd i'w datblygu'n strategol. Bydd hyn yn golygu blaenoriaethu mannau nad ydynt yn wynebu perygl llifogydd, ac yna fannau lle gellir rheoli perygl llifogydd mewn ffordd dderbyniol. Mae buddsoddi mewn seilwaith rheoli perygl llifogydd pan gaiff ei gynllunio a'i ddatblygu'n strategol ac yn ôl dalgylch yn cynnig gwell gwerth a mwy o fanteision. Dylai amddifynfeydd arfordirol ac atebion yn seiliedig ar natur ar dir uchel yn arbennig gynnig manteision i ardal eang a dylai gael ei gynllunio a'i gyflawni ar sail amlasiantaethol.

Lluniwyd y ddogfen hon ym mis Medi 2020 i helpu'r Senedd i graffu ar y FfDC. Mae'n fersiwn weithredol ac nid yw'n derfynol. Bydd yn newid ar ôl i'r Senedd graffu arni.

Llifogydd

Mae Llywodraeth Cymru o blaid rheoli perygl llifogydd yn seiliedig ar natur yn hytrach na dewis atebion 'gwneud' lle bynnag y bo modd, gan sicrhau cytgord â dyheadau er mwyn datblygu seilwaith gwyrdd a sicrhau mantais net i fioamrywiaeth. Mae'n ofynnol i awdurdodau rheoli perygl llifogydd a datblygwyr eraill seilwaith rheoli perygl llifogydd achub ar gyfleoedd i ddatblygu buddiannau niferus i'r cyhoedd, gan gynnwys gwell tir y cyhoedd, cyfleusterau teithio llesol a diogelu seilwaith gwyrdd.



Lluniwyd y ddogfen hon ym mis Medi 2020 i helpu'r Senedd i graffu ar y FfDC. Mae'n fersiwn weithredol ac nid yw'n derfynol. Bydd yn newid ar ôl i'r Senedd graffu arni.

Polisi 9 – Rhwydweithiau Ecolegol Cadarn a Seilwaith Gwyrdd

Er mwyn gwella bioamrywiaeth, sicrhau bod ecosystemau yn gadarn a darparu seilwaith gwyrdd, bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda phartneriaid allweddol i wneud y canlynol:

- nodi ardaloedd y dylid eu diogelu a'u creu fel rhwydweithiau ecolegol am eu bod yn bwysig wrth addasu i newid yn yr hinsawdd, diogelu, adfer neu greu cynefinoedd, diogelu rhywogaethau, neu ddarparu gwasanaethau ecosystemau allweddol, er mwyn sicrhau na fydd gwaith datblygu yn y dyfodol yn amharu'n ormodol arnynt.
- nodi cyfleoedd lle y gellid manteisio i'r eithaf ar seilwaith gwyrdd presennol a phosibl fel rhan o greu lleoedd, lle mae angen defnyddio atebion yn seiliedig ar natur fel dull allweddol o sicrhau twf cynaliadwy, cysylltedd ecolegol, cydraddoldeb cymdeithasol a llesiant.

Dylai awdurdodau cynllunio gynnwys yr ardaloedd a/neu'r cyfleoedd hyn o fewn strategaethau a pholisïau eu cynlluniau datblygu er mwyn hyrwyddo a diogelu'r swyddogaethau a gyflawnir ganddynt a'r cyfleoedd a gynigir ganddynt.

Ym mhob achos, dylai camau gweithredu tuag at gynnal a gwella bioamrywiaeth (er mwyn sicrhau mantais net), gwneud ecosystemau yn gadarn ac asedau seilwaith gwyrdd gael eu dangos fel rhan o gynigion datblygu drwy ddulliau arloesol yn seiliedig ar natur o gynllunio safleoedd a dylunio'r amgylchedd adeiledig.

Mae Polisi Cynllunio Cymru yn nodi amrywiaeth o bolisïau i gynnal a gwella bioamrywiaeth, hyrwyddo cadernid ecosystemau, gan gynnwys dull 'stepwise', ac achub ar y cyfle i ddarparu seilwaith gwyrdd. Mae ffocws strategol Cymru'r Dyfodol ar dwf trefol yn galw am fwy o bwyslais ar wella bioamrywiaeth (mantais net) er mwyn sicrhau bod twf yn gynaliadwy.

Ar y cyd â'n partneriaid, gan gynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru ac awdurdodau lleol, gofynnwn am gamau strategol i ddiogelu rhwydweithiau ecolegol a sicrhau gwelliannau i fioamrywiaeth (mantais net). Cydnabyddwn yr angen i wneud y defnydd mwyaf o seilwaith gwyrdd ac atebion ar sail natur fel rhan o lywio twf trefol, cefnogi cymunedau gwledig ac ymateb i heriau deuol mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd a gwrthdroi dirywiad mewn bioamrywiaeth. Dylid cymryd camau gweithredu effeithiol ar lefel ranbarthol neu leol gan adlewyrchu cyfleoedd unigol.

Bydd camau cronnol i wella a datblygu rhwydweithiau ecolegol a seilwaith gwyrdd yn cyfrannu at well cadernid cenedlaethol.

Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i wrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth a sicrhau bod ein hecosystemau yn fwy cadarn. Mae rhwydweithiau ecolegol cadarn yn hanfodol i adfer byd natur ac maent yn rhwydweithiau o gynefin mewn cyflwr ecolegol da sy'n cysylltu safleoedd a ddiogelir a llecynnau cyfoethog o ran bioamrywiaeth a llesiant. Mae gan rwydweithiau o'r fath ecosystemau cadarn, iach yn barod, neu mae ganddynt y potensial am hynny, sy'n darparu amrywiaeth o wasanaethau ecosystemau pwysig yn ogystal â galluogi rhywogaethau i symud ar draws tirweddau mewn ymateb i newid yn yr hinsawdd. Maent yn amrywiol, yn ddigon mawr ac eang, mewn cyflwr swyddogaethol da ac yn rhan o rwydweithiau cysylltiedig, er mwyn galluogi rhywogaethau a chynefinoedd i addasu i unrhyw amharu a newid.

Mae angen ehangu safleoedd dynodedig a chreu cysylltiadau rhyngddynt er mwyn cynyddu gallu rhywogaethau ac ecosystemau i addasu i bwysau newid yn yr hinsawdd a llygredd. Er bod safleoedd a ddiogelir yn hynod bwysig i gadernid hirdymor ein hecosystemau, ni ddylid eu hystyried yn ynysoedd o fewn y dirwedd, ond yn hytrach dylent ffurfio nodau rhwydweithiau ecolegol cadarn a swyddogaethol mawr a seilwaith gwyrdd.

Dylai Cynlluniau Datblygu Strategol a Lleol ystyried sut mae safleoedd dynodedig yn cyd-fynd â'r rhwydwaith ehangach o gynefinoedd ac asesu pa gamau sydd angen eu cymryd i ddiogelu tir y gallai fod ei angen i gysylltu neu ymestyn y safleoedd hynny. Dylai unrhyw gamau wneud y canlynol:

- cyfrannu at eu cadernid hirdymor;
- cyfrannu at gadernid ehangach rhwydweithiau ecolegol;
- diogelu a gwella gwasanaethau ecosystemau;
- sicrhau y darperir seilwaith gwyrdd at ddibenion cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd.

Bydd mesurau diogelwch yn sicrhau na fydd gwaith datblygu yn amharu ar ddarnau o dir a allai fod yn bwysig i ymestyn neu gysylltu rhwydweithiau ecolegol ac addasu i newid yn yr hinsawdd neu bwysau eraill, neu sy'n darparu gwasanaethau ecolegol allweddol. Yn y lle cyntaf dylai mesurau diogelwch fod ar raddfa fawr, gan adlewyrchu'r dull maint tirwedd a gefnogir gan Bolisi Adnoddau Naturiol Llywodraeth Cymru. Nid yw mesurau diogelwch yn gwahardd datblygu, ond maent yn nodi gofyniad i ystyried anghenion tir hirdymor y cynefinoedd a'r rhywogaethau y bwriedir iddynt eu diogelu a'u gwella, a gwasanaethau a swyddogaethau ecosystemau sydd eu hangen nawr ac y rhagwelir y bydd eu hangen yn y dyfodol.

Mae mesurau diogelwch yn galluogi ymatebion dynamig a chamau gweithredu hirdymor. Mae hyn yn bwysig oherwydd nid yw bob amser yn bosibl bod yn sicr nac yn rhagnodol am y camau mwyaf cynaliadwy i'w cymryd mewn achos penodol. Mae mesurau diogelwch yn galluogi'r system gynllunio i weithredu a all ategu dulliau ehangach o hyrwyddo'r gwaith o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Ar y cyd â dyraniadau mwy penodol ar gyfer creu cynefin neu seilwaith gwyrdd, bydd yn golygu camau cadarnhaol i wrthdroi dirywiad mewn bioamrywiaeth, mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd a darparu manteision cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd ehangach ar bob lefel.

Gall ardaloedd gael eu diogelu am sawl rheswm. Yn eu plith mae cynyddu cadernid neu gysylltedd rhai mathau penodol o gynefinoedd, megis dolydd llawn rhywogaethau, neu greu cynefin megis coetir, neu ddarparu seilwaith gwyrdd. Ar y cyfan, dylai diogelu ardaloedd gyfrannu at gynaliadwyedd gwasanaethau ecosystemau allweddol megis rheoleiddio dŵr llifogydd, twristiaeth a hamdden, a llesiant corfforol a meddyliol. Fel rhan o asesiad o seilwaith gwyrdd, gall cyfleoedd eang i ddiogelu, adfer neu greu cynefinoedd a darparu seilwaith gwyrdd gael eu nodi fel rhan o'r broses o nodi ardaloedd i'w diogelu neu gallant fod ar ffurf dyraniadau mwy penodol. Gellir cyflawni hyn, er enghraifft, drwy ddarparu clustogfeydd o amgylch safleoedd a ddiogelir neu gerrig sarn sy'n cysylltu cynefinoedd neu drwy nodi seilwaith gwyrdd mewn ardaloedd trefol ac o'u hamgylch.

Wrth i boblogaeth Cymru ddod yn fwyfwy trefol, bydd y cyfle gorau i sicrhau'r manteision mwyaf o ran llesiant o seilwaith gwyrdd yn yr ardaloedd hyn ac o'u hamgylch. Gall y defnydd arloesol o atebion yn seiliedig natur ac integreiddio seilwaith gwyrdd mewn ardaloedd trefol ac o'u hamgylch helpu i adfer nodweddion a phrosesau naturiol mewn dinasoedd

Lluniwyd y ddogfen hon ym mis Medi 2020 i helpu'r Senedd i graffu ar y FfDC. Mae'n fersiwn weithredol ac nid yw'n derfynol. Bydd yn newid ar ôl i'r Senedd graffu arni.

a thirweddau. Mae darparu mannau a choridorau gwyrdd o ansawdd uchel, sy'n hygyrch yn lleol, yn helpu i gynnal a gwella swyddogaeth strategol ein hadnoddau naturiol a'n rhwydweithiau ecolegol, ac mae'n mynd i'r afael â llesiant corfforol a meddyliol. Dangoswyd pwysigrwydd gwirioneddol mannau gwyrdd trefol pan fu'n rhaid i bobl gadw'n heini mewn mannau gwyrdd lleol cyfagos yn ystod cyfyngiadau symud COVID-19.

Rhaid i awdurdodau lleol gydweithio ac, ar y cyd â Cyfoeth Naturiol Cymru a rhanddeiliaid, ddarparu seilwaith gwyrdd a diogelu safleoedd o fewn eu ffiniau gweinyddol a'r tu hwnt iddynt. Dylid nodi ardaloedd sy'n cael eu diogelu ac unrhyw ddyraniadau penodol drwy'r Asesiad Seilwaith Gwyrdd a'u cynnwys yn y cynllun datblygu perthnasol.

Rhwydweithiau ecolegol a mapio seilwaith gwyrdd

Mae mapiau dangosol a luniwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru yn dangos themâu adnoddau naturiol cenedlaethol, gan gynnwys rhwydweithiau ecolegol, llecynnau cyfoethog o ran bioamrywiaeth, gwasanaethau ecosystemau a chyfleoedd i greu cynefinoedd. Rhydd y mapiau y man cychwyn i ystyried cadernid rhwydweithiau ecolegol ar gyfer adfer a gwella byd natur (mantais net) fel rhan o asesiadau seilwaith gwyrdd. Maent yn ddull o sicrhau y cymerir camau cronnol er mwyn sicrhau gwelliannau fel rhan o gynnig twf cynaliadwy a chynigion datblygu.


Mae Datganiadau Ardal yn datblygu'r dull hwn o weithredu drwy nodi heriau a chyfleoedd allweddol i atgyfnerthu rhwydweithiau ecolegol a gwasanaethau ecosystemau. Maent yn darparu tystiolaeth leol a mapiau o themâu amgylcheddol allweddol ac yn nodi ardaloedd lle y gall cymryd camau ar y raddfa gywir sicrhau'r manteision mwyaf. Mae unrhyw ardaloedd â blaenoriaeth ar gyfer gweithredu a nodir mewn Datganiadau Ardal yn ystyriaeth gynllunio berthnasol a dylai cynlluniau datblygu nodi polisïau priodol i ddiogelu a chysylltu'r ardaloedd hyn. Dylai cynlluniau hefyd ddiogelu a gwella eu swyddogaethau a'u nodweddion ecolegol allweddol.

Mae ymyriadau rhanbarthol a lleol, ar y cyd, yn cyfrannu at wneud ein rhwydweithiau ecolegol cenedlaethol yn fwy cadarn. Rhaid i Gynlluniau Datblygu Strategol a Lleol gael eu llywio gan Asesiadau Seilwaith Gwyrdd a chyfrannu at y nodau hyn drwy bolisïau priodol.

Lluniwyd y ddogfen hon ym mis Medi 2020 i helpu'r Senedd i graffu ar y FfDC. Mae'n fersiwn weithredol ac nid yw'n derfynol. Bydd yn newid ar ôl i'r Senedd graffu arni.

Adnoddau Naturiol Cenedlaethol

1. Yn Eryri y ceir rhai o gynefinoedd mynydd pwysica'r DU. Mae'r cynefinoedd hyn yn storio a dal carbon, yn dal dŵr gan atal llifogydd ac yn darparu dŵr croyw glân. Maen nhw'n gartref i bryfed peillio ac yn ardaloedd hamddena allweddol.
2. Mae gorgorsydd a rhosydd yr ucheldir yng nghyffiniau Mynydd Hiraethog a Mynydd Llandegla ynghyd â'r coetiroedd hynafol yn darparu llawer o wasanaethau ecosystem, gan gynnwys dal a storio carbon gan helpu i arafu'r newid yn yr hinsawdd a gwella ansawdd dŵr.
3. Mae glennydd coediog a'r ardaloedd o goetir hynafol o gwmpas isafonydd Dyfrdwy yn bwysig iawn o ran sefydlogi'r afon ac yn helpu i rwystro'r pridd rhag erydu i'r nentydd. Mae cynhyrchu bwyd yn wasanaeth allweddol yma hefyd. Yma mae Fenn's and Whixall Moss.
4. Mae cefn gwlad Ceredigion yn cynnig llawer o wasanaethau. Rhai o'r safleoedd pwysicaf am ddarparu gwasanaethau ecosystem yw cyforgorsydd Cors Caron a Chors Fochno sy'n storio carbon a dŵr ac yn cynnal bioamrywiaeth.
5. Mae Mynyddoedd Cambria yn ardal bwysig o ran darparu dŵr croyw i Loegr, a hefyd fel storfa ddŵr. Mae'n ardal bwysig hefyd am ddal a storio carbon, yn ei phridd ac yn ei choetiroedd.
6. Mae cymoedd coediog a rhosydd ucheldir y Mynydd Du yn darparu llawer o wasanaethau ecosystem, gan gynnwys dal a storio carbon i helpu i liniaru effeithiau'r newid yn yr hinsawdd, gwella ansawdd dŵr ac mae'r cynefinoedd yn helpu i atal llifogydd.
7. Mae'r Preseli a'r coetiroedd yng ngogledd Sir Benfro yn darparu llawer o wasanaethau ecosystem, gan gynnwys atal llifogydd, dal a storio carbon, hamddena a bwyd.
8. Mae Bannau Brycheiniog yn cynnwys amrywiaeth o ecosystemau naturiol deinamig sy'n darparu llawer o fanteision gan gynnwys rheoli llif dŵr gan atal llifogydd a phuro dŵr.
9. Mae Gwastadeddau Gwent yn dirwedd hynafol ag iddi arwyddocâd diwylliannol arbennig. Mae'n ardal bwysig hefyd o ran ei bioamrywiaeth ac ar gyfer hamddena, atal llifogydd, storio carbon a chynhyrchu bwyd.



Polisi 10 – Cysylltedd Rhyngwladol

Mae Llywodraeth Cymru yn nodi'r Pyrth Strategol canlynol i hwyluso cysylltedd rhynglwadol:

- Maes Awyr Caerdydd;
- Porthladd Caergybi;
- Dyfrffordd y Ddau Gleddau, gan gynnwys Porthladdoedd Aberdaugleddau a Doc Penfro;
- Porthladd Abergwaun.

Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r gweithredwyr, y buddsoddwyr a'r awdurdodau lleol er mwyn cefnogi Pyrth Strategol a chynnal eu rolau cysylltedd rhyngwladol.

Dylai Cynlluniau Datblygu Strategol a Lleol gefnogi'r Pyrth Strategol drwy sicrhau eu bod mor fuddiol â phosibl i'w priod ranbarthau ac i Gymru. Dylid rheoli datblygiadau newydd o amgylch y Pyrth Strategol yn ofalus er mwyn sicrhau na chyfyngir ar eu gweithrediad na'i beryglu.

Cymdeithas ac economi gysylltiedig

Mae Strategaeth Drafnidiaeth newydd Cymru yn nodi gweledigaeth, blaenoriaethau a chanlyniadau dymunol Llywodraeth Cymru ar gyfer trafnidiaeth. Mae'n gyson â Cymru'r Dyfodol ac yn cefnogi'r strategaeth ofodol sy'n llywio ffocws buddsoddiadau newydd mewn gwaith datblygu a seilwaith. Bydd Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Cenedlaethol yn cefnogi'r gwaith o gyflawni Strategaeth Drafnidiaeth Cymru a Cymru'r Dyfodol.

Dylai Cymru'r Dyfodol a Strategaeth Drafnidiaeth Cymru gael eu defnyddio gyda'i gilydd a dylid cymryd camau integredig i'w rhoi ar waith ar lefel ranbarthol ac ar lefel leol. Mae hyn yn hanfodol er mwyn sicrhau bod gwaith datblygu newydd yn digwydd mewn lleoliadau cynaliadwy a'i fod yn cael ei gefnogi gan y seilwaith a'r gwasanaethau teithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus sydd eu hangen er mwyn galluogi pobl i fyw bywydau iach ac actif. Mae cymryd camau integredig hefyd yn allweddol er mwyn sicrhau bod gwaith datblygu newydd yn darparu'r holl bobl sydd eu hangen i helpu i ariannu a chynnal seilwaith a gwasanaethau, yn ogystal â sicrhau bod lefelau cyfartalog o lygredd yn yr awyr yn parhau i ostwng.

Cysylltu Cymru â'r Byd

Mae'r Pyrth Strategol yn hanfodol er mwyn symud pobl a llwythi'n effeithiol fel rhan o rwydweithiau neu gadwyni cyflenwi yn eu priod ranbarthau, Cymru a'r DU. Fe'u nodwyd oherwydd eu cysylltedd rhyngwladol, maint a'r rolau maent yn eu chwarae o fewn economi Cymru. Dylai Cynlluniau Datblygu Strategol a Lleol sicrhau bod cynifer o gyfleoedd â phosibl ar gael sy'n cefnogi twf ledled y priod ranbarthau a Chymru.

Bydd Llywodraeth Cymru yn cefnogi gwaith datblygu priodol a all wella cysylltedd rhyngwladol ac y gellir ei gyflawni o fewn targedau newid hinsawdd statudol a chyllidebau carbon. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod y fframwaith newid hinsawdd statudol yn awgrymu cymryd camau er mwyn mynd i'r afael â phob ffynhonnell o allyriadau nwyon tŷ gwydr, gan gynnwys teithio a chludo nwyddau rhyngwladol. Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi ymdrechion rhyngwladol i leihau allyriadau o deithiau hedfan a morgludo rhyngwladol. Mae cyfrif allyriadau net Cymru yn cynnwys cyfran Cymru o allyriadau o deithiau hedfan a morgludo rhyngwladol. Felly, bydd angen i benderfyniadau sy'n gysylltiedig â theithiau hedfan a morgludo rhyngwladol ddangos sut y gellir darparu ar eu cyfer o fewn y targedau newid hinsawdd statudol a chyllidebau carbon.

Lluniwyd y ddogfen hon ym mis Medi 2020 i helpu'r Senedd i graffu ar y FfDC. Mae'n fersiwn weithredol ac nid yw'n derfynol. Bydd yn newid ar ôl i'r Senedd graffu arni.



Lluniwyd y ddogfen hon ym mis Medi 2020 i helpu'r Senedd i graffu ar y FfDC. Mae'n fersiwn weithredol ac nid yw'n derfynol. Bydd yn newid ar ôl i'r Senedd graffu arni.

Maes Awyr Caerdydd

Mae Maes Awyr Caerdydd yn rhan hanfodol o seilwaith trafnidiaeth strategol Cymru. Mae'n borth rhyngwladol sy'n cysylltu Cymru â'r byd ac mae'n sbardun pwysig o fewn economi Cymru.

Lleolir Maes Awyr Caerdydd o fewn Ardal Fenter Maes Awyr Caerdydd a Bro Tathan sy'n cynnig cyfleoedd i fuddsoddi yn y safle a'r dalgylch. Mae'r Ardal Fenter yn cynnig ystod eang o safleoedd datblygu a llety busnes, gan gynnig cyfleoedd i ddatblygu cyfleusterau pwrpasol neu fuddsoddi mewn llety sy'n bodoli eisoes.

Porthladdoedd

Nodwyd Porthladd Caergybi, Dyfrffordd y Ddau Gleddau a Phorthladd Abergwaun yn Byrth Strategol oherwydd eu rolau hanfodol yn symud mewnforion ac allforion yn rhyngwladol, ac fel seilwaith trafnidiaeth allweddol rhwng tir a môr. Maent yn rhan hanfodol o'r economi leol, ranbarthol, genedlaethol a rhyngwladol, gan ddarparu cysylltedd rhyngwladol i Gymru a'r DU. Maent yn chwarae rôl strategol yn cludo pobl a nwyddau; yn darparu hybiau logistaidd a gwasanaeth i ddiwydiant; ac yn cynnig cyfleoedd twf pellach i dwristiaeth a gweithgareddau hamdden. Maent yn chwarae rôl weithredol yn y farchnad llongau pleser a gallant gynrychioli profiad cyntaf pobl o ymweld â Chymru.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod pwysigrwydd **Porthladd Caergybi** i Ynys Môn a'r rhanbarth, a hwn yw'r cyswllt strategol mwyaf uniongyrchol rhwng Cymru ac Iwerddon. Mae Porthladd Caergybi yn ased cenedlaethol pwysig ac yn borth rhyngwladol pwysig i nwyddau a theithwyr. Mae gan y Porthladd gyfleusterau porthladd dŵr dwfn, adeiladau sydd yno'n barod a chyfleoedd datblygu. Mae'r harbwr mewnol, Ynys Halen a'r harbwr allanol yn cynnig cyfleoedd busnes morol, hamdden, trafnidiaeth, ynni (gweler polisi 24), mordeithiau a chyfleoedd busnes eraill, gyda chysylltiadau ffyrdd a rheilffyrdd da ar draws y rhanbarth ac i mewn i Loegr.

Mae **Dyfrffordd y Ddau Gleddau**, sy'n cynnwys porthladdoedd Aberdaugleddau a Doc Penfro, yn ased cenedlaethol pwysig ac yn borth rhyngwladol pwysig i nwyddau a theithwyr. Mae gan y Ddyfrffordd gyfuniad unigryw o harbwr naturiol, diwydiannau hirsefydlog a'r potensial ar gyfer datblygiadau strategol newydd. Mae ganddi un o'r dyfrffyrdd dwfn gorau yn y byd ac mae'n gyswllt strategol bwysig o'r rhanbarth, Cymru a'r DU i Iwerddon a gweddill y byd.

Mae'r Ddyfrffordd yn un o'r pyrth morgludo pwysicaf yn y DU, gan ymdrin â chargoau hylif, swmp a thrwm, a chargoau i'w dadlwytho. Mae'n ymdrin â swm sylweddol o anghenion olew, nwy a thrydan y DU. Mae cadwyn gyflenwi fedrus ac amrywiol wedi datblygu'n lleol i gefnogi'r sector ynni, sy'n cynnwys y sector ynni adnewyddadwy fwyfwy, ac, yn arbennig, ynni'r môr (gweler polisi 32). Rhydd gyfleoedd datblygu amrywiol, gan gynnwys rhai diwydiannol ysgafn a thrwm, swyddfa a warws, gyda seilwaith rheilffordd da, gan gynnwys llinellau cludo nwyddau dynodedig i leoliadau ar y glannau.

Mae **Porthladd Abergwaun** yn borth rhyngwladol pwysig i nwyddau a theithwyr yn y De-orllewin a rhydd gyswllt fferi rholio ymlaen/rholio i ffwrdd allweddol. Mae iddo rôl strategol bwysig wrth gysylltu tir mawr Ewrop, y DU a Chymru ag Iwerddon.

Lluniwyd y ddogfen hon ym mis Medi 2020 i helpu'r Senedd i graffu ar y FfDC. Mae'n fersiwn weithredol ac nid yw'n derfynol. Bydd yn newid ar ôl i'r Senedd graffu arni.

Polisi 11 – Cysylltedd Cenedlaethol



Bydd Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r gwaith o wella cysylltedd cenedlaethol ac yn buddsoddi ynddo. Ein blaenoriaethau yw annog teithiau pellach ar drafnidiaeth gyhoeddus, a hefyd ei gwneud yn bosibl i deithio'n bellach mewn cerbydau trydan. Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Trafnidiaeth Cymru, awdurdodau lleol, gweithredwyr a phartneriaid er mwyn cefnogi'r gwaith o gyflawni'r mesurau canlynol i wella cysylltedd cenedlaethol:

- Rhwydwaith Rheilffyrdd – Trawsnewid y rhwydwaith rheilffyrdd a gwella ansawdd gwasanaethau rheilffyrdd i deithwyr.
- Rhwydwaith Bysiau – Buddsoddi yn y gwaith o ddatblygu'r rhwydwaith bysiau cenedlaethol, wedi'i integreiddio'n llwyr â rhwydweithiau bysiau rhanbarthol a lleol, er mwyn cynyddu nifer y teithiau ar fysiau a gwella mynediad ar fws i ystod ehangach o gyrchfannau.
- Rhwydwaith Ffyrdd Strategol – Buddsoddi mewn gwelliannau ffyrdd er mwyn lleihau amseroedd teithio, cyflwyno rhwydwaith ffyrdd mwy diogel a chadarn, a gwella ansawdd aer a sŵn. Creu rhwydwaith o fannau gwefru cyflym fel modd o deithio ymhellach mewn cerbydau trydan ledled Cymru.
- Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol – Adnewyddu'r Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol er mwyn creu rhwydwaith o lwybrau di-draffig sy'n cysylltu dinasoedd, trefi a chefn gwlad ledled Cymru.

Dylai awdurdodau cynllunio gefnogi datblygiadau sy'n gysylltiedig â gwelliannau i gysylltedd cenedlaethol a, lle y bo'n briodol, achub ar y cyfleoedd sy'n deillio ohonynt.

Rhaid i awdurdodau cynllunio sicrhau, lle y bo'n briodol, fod datblygiad newydd yn cyfrannu at wella a datblygu'r Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol a chysylltiadau allweddol iddo ac oddi wrtho.

Polisi 12 – Cysylltedd Rhanbarthol



Bydd Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r gwaith o wella cysylltedd rhanbarthol ac yn buddsoddi ynddo. Mewn ardaloedd trefol, er mwyn cefnogi twf ac adfywio cynaliadwy, ein blaenoriaethau fydd gwella ac integreiddio teithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus. Mewn ardaloedd gwledig, ein blaenoriaethau yw cefnogi'r defnydd o gerbydau allyriadau isel iawn ac arallgyfeirio a chynnal gwasanaethau bysiau lleol.

Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Trafnidiaeth Cymru, awdurdodau lleol, gweithredwyr a phartneriaid er mwyn cyflawni'r mesurau canlynol i wella cysylltedd rhanbarthol:

- Teithio Llesol – Blaenoriaethu cerdded a beicio wrth deithio'n lleol drwy gefnogi'r gwaith o roi'r Ddeddf Teithio Llesol ar waith er mwyn creu rhwydweithiau cynhwysfawr o lwybrau cerdded a beicio lleol sy'n cysylltu lleoedd y mae angen i bobl eu cyrraedd bob dydd.
- Bysiau – Gwella'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer cynllunio a darparu gwasanaethau bysiau lleol a buddsoddi yn y gwaith o ddatblygu rhwydweithiau bysiau rhanbarthol a lleol integredig er mwyn cynyddu nifer y teithiau ar fysiau a gwella mynediad ar fws i ystod ehangach o gyrchfannau.
- Metros – Datblygu Metro'r De-ddwyrain, Metro'r De-orllewin a Metro'r Gogledd er mwyn creu systemau trafnidiaeth integredig newydd sy'n darparu gwasanaethau unedig amlach a chyflymach gan ddefnyddio trenau, bysiau a rheilffyrdd ysgafn.
- Cerbydau Allyriadau Isel Iawn – Cefnogi'r gwaith o gyflwyno seilwaith llenwi addas er mwyn hwyluso'r penderfyniad i fabwysiadu cerbydau allyriadau isel iawn, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig.

Rhaid i awdurdodau cynllunio gynllunio ar gyfer twf ac adfywiad yr Ardaloedd Twf Cenedlaethol a Rhanbarthol er mwyn achub ar gyfleoedd sy'n deillio o fuddsoddi mewn trafnidiaeth gyhoeddus, gan gynnwys nodi cyfleoedd am ddatblygiadau dwysedd uwch, defnydd cymysg a di-gar o amgylch gorsafoedd metro.

Rhaid i deithio llesol fod yn elfen hanfodol ac annatod o bob datblygiad newydd, bach a mawr. Rhaid i awdurdodau cynllunio integreiddio dyraniadau safleoedd, seilwaith a datblygiadau newydd â rhwydweithiau teithio llesol a, lle y bo'n briodol, sicrhau bod datblygiadau newydd yn cyfrannu at eu hehangu a'u gwella.


Rhaid i awdurdodau cynllunio gymryd camau i ostwng lefelau parcio ceir mewn ardaloedd trefol, gan gynnwys cefnogi datblygiadau di-gar mewn lleoliadau hygyrch a datblygiadau â lleoedd parcio ceir lle gellir eu trosi at ddefnydd arall dros amser. Lle y darperir lleoedd parcio ceir ar gyfer datblygiad di-breswyl, dylai awdurdodau cynllunio geisio sicrhau bod gan o leiaf 10% o leoedd parcio ceir fannau gwefru cerbydau trydan.

Lluniwyd y ddogfen hon ym mis Medi 2020 i helpu'r Senedd i graffu ar y FfDC. Mae'n fersiwn weithredol ac nid yw'n derfynol. Bydd yn newid ar ôl i'r Senedd graffu arni.

Teithio yng Nghymru

Nod Llywodraeth Cymru yw lleihau'r angen i deithio, yn enwedig mewn cerbydau preifat, a chefnogi newid dulliau teithio i gerdded, beicio a defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus. Mae'r hierarchaeth trafnidiaeth gynaliadwy ym Mholisi Cynllunio Cymru, sy'n blaenoriaethu teithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus, yn egwyddor sylfaenol gan Lywodraeth Cymru sy'n sail i Cymru'r Dyfodol.

Yr Hierarchaeth Drafnidiaeth Gynaliadwy ym maes Cynllunio





Lluniwyd y ddogfen hon ym mis Medi 2020 i helpu'r Senedd i graffu ar y FfDC. Mae'n fersiwn weithredol ac nid yw'n derfynol. Bydd yn newid ar ôl i'r Senedd graffu arni.

Ar hyn o bryd mae'r car yn dominyddu trafnidiaeth yng Nghymru. Mae ein dibyniaeth ar deithio mewn car yn cyfyngu ar y cyfle i gynnwys gweithgarwch corfforol a chyswllt cymdeithasol ym mywydau beunyddiol pobl ac mae'n gwaethygu llygredd aer a sŵn, yn enwedig ar hyd prif lwybrau ac mewn cyrchfannau prysur. Caiff hyn effaith andwyol ar iechyd a llesiant pobl, gan gyfrannu at afiechyd sy'n cyfyngu ar fywyd sy'n gysylltiedig ag anweithgarwch corfforol, unigrwydd ac ymdeimlad o fod yn ynysig. Mae hefyd yn gwaethygu anfanteision iechyd i grwpiau penodol, megis yr henoed, y rhai sy'n gofalu am blant bach, plant eu hunain, pobl ag anableddau a phobl mewn tlodi. Mae trafnidiaeth ar y ffordd yn un o brif achosion llygredd aer a sŵn ac mae'n cyfrif am y mwyafrif helaeth o allyriadau nwyon tŷ gwydr a gynhyrchir gan y sector trafnidiaeth. Mae'r newidiadau i'r ffordd y gwnaeth pobl deithio o amgylch trefi a dinasoedd yn ystod pandemig COVID-19 yn arwydd o'r awydd cyffredinol i leihau ein defnydd o geir a neilltuo mwy o le i gerdded a beicio. **Rydym hefyd yn bwriadu cyflwyno terfyn cyflymder diofyn cenedlaethol o 20mya ar ffyrdd cyfyngedig erbyn mis Ebrill 2023.**

Bydd Llywodraeth Cymru yn buddsoddi'n sylweddol mewn gwella teithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus. Mae angen cyfuno hyn â'r broses o weithredu polisïau ym Mholisi Cynllunio Cymru sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddatblygu mewn lleoliadau cynaliadwy a dylunio mewn ffordd lle y gall pawb wneud dewisiadau iach a chynaliadwy o ran teithio bob dydd. Bydd hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cynllunio wrthod caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiadau sy'n ddibynnol ar geir a fyddai, fel arall, yn annog y defnydd o geir ac yn tanseilio teithio cynaliadwy.

Datblygu Teithio Llesol

Mae Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 yn ceisio cynyddu lefelau teithio llesol yn sylweddol ac mae'n ffactor allweddol wrth gyflawni uchelgais Llywodraeth Cymru i greu lleoedd cynaliadwy lle y gall pobl gerdded a beicio fel rhan o'u gweithgarwch beunyddiol. Ers i'r Ddeddf gael ei gwneud, mae awdurdodau lleol wedi datblygu cynlluniau ar gyfer rhwydweithiau teithio llesol ar gyfer eu hardal. Mae Mapiau'r Rhwydwaith Teithio Llesol yn adnodd i awdurdodau lleol wella'r broses o flaengynllunio teithio llesol a dylent gael eu defnyddio i bennu lleoliad a dyluniad datblygiadau newydd, yn ogystal â chael eu llywio ganddynt. Er mai teithiau lleol byr sydd dan sylw fwyaf, yn enwedig yn sgil y defnydd o e-feiciau, gall rhwydweithiau teithio llesol lleol effeithio ar batrymau symud ac ymddygiad teithio y tu hwnt i ffiniau awdurdod lleol ar lefel ranbarthol.

Mae'r Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol yn rhwydwaith o lwybrau beicio ag arwyddion. Yn ogystal â phobl ar feiciau, mae'r llwybrau yn cael eu defnyddio gan gerddwyr, loncwyr, defnyddwyr cadair olwyn a marchogion hefyd. Mae Sustrans wedi gweithio gyda phartneriaid a rhanddeiliaid, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, i ddatblygu'r weledigaeth ganlynol a rennir ar gyfer y Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol:

- **Rhwydwaith o lwybrau di-draffig ledled y DU i bawb, gan gysylltu dinasoedd, trefi a chefn gwlad, ac y mae'r cymunedau a wasanaethir ganddynt yn eu gwerthfawrogi'n fawr.**

Mae 1,690 milltir o lwybrau Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol yng Nghymru. Mae 64% o'r rhwydwaith ar y ffordd, gyda 36% ar lwybrau di-draffig. Gall y rhwydwaith gysylltu Caerdydd, Casnewydd, Abertawe, Aberystwyth, Bangor ac arfordir y gogledd, yn ogystal â rhedeg drwy bob un o'r tri Pharc Cenedlaethol. Mae o fewn milltir i bron 60% o'r boblogaeth ac yn cysylltu cymunedau â gweithleoedd a gwasanaethau, gan wneud teithio i'r gwaith mewn ffordd iach, ddiogel a rhad yn opsiwn i lawer o bobl. Cynhaliwyd adolygiad cynhwysfawr o'r Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol cyfan a datblygwyd cynllun gweithredu. Mae'n diffinio cyflwr y rhwydwaith yng Nghymru ac

Lluniwyd y ddogfen hon ym mis Medi 2020 i helpu'r Senedd i graffu ar y FfDC. Mae'n fersiwn weithredol ac nid yw'n derfynol. Bydd yn newid ar ôl i'r Senedd graffu arni.

yn amlinellu'r blaenoriaethiau strategol ar gyfer ei wella. Mae cynlluniau datblygu'r rhwydwaith yn nodi cynlluniau manylach hirdymor ar gyfer datblygu ac uwchraddio'r rhwydwaith.

Rhaid i awdurdodau cynllunio ddiogelu llwybrau o fewn Mapiau'r Rhwydwaith Teithio Llesol a'r Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol a, lle bynnag y bo modd, eu hintegreiddio o fewn datblygiadau newydd. Dylai awdurdodau cynllunio hefyd gydweithio i nodi llwybrau ar draws ffiniau sy'n bodoli eisoes ac a allai fodoli o fewn Cynlluniau Datblygu Strategol a Lleol fel bod modd teithio ar feic ymhellach. Lle bydd llwybrau o fewn Rhwydweithiau Teithio Llesol a'r Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol yn darparu rhan o'r seilwaith ategol ar gyfer datblygiadau newydd, rhaid i awdurdodau cynllunio geisio sicrhau eu bod yn cael eu darparu neu eu gwella fel rhan o ddatblygiadau drwy'r broses gynllunio, gan ddefnyddio rhwymedigaethau cynllunio lle y bo angen.

Rhaid defnyddio Canllawiau Teithio Llesol statudol i ddylunio rhwydweithiau symud, strydoedd a llwybrau teithio llesol o fewn safleoedd datblygu ac unrhyw lwybrau cysylltu a gyflwynir fel rhan o ganiatâd cynllunio.

Gwella trafnidiaeth gyhoeddus

Uchelgais Llywodraeth Cymru yw darparu rhwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus integredig sy'n ddiogel, yn ddibynadwy, yn brydlon, yn amgylcheddol gynaliadwy ac yn hygyrch, ac sy'n diwallu anghenion pobl sy'n teithio. Rydym am weld mwy o bobl yn defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus i'w helpu i fynd o un man i'r llall, yn gyflym ac ar amser.

Mae ein seilwaith a'n gwasanaethau rheilffyrdd yn greiddiol i rwydwaith trafnidiaeth effeithiol ac effeithlon, ac yn ganolog i gysylltedd cenedlaethol ledled Cymru a'i rhanbarthau. Bydd parhau i'w datblygu a'u hehangu yn cyfrannu at yr uchelgais i ddatblygu economi gryfach, gynhwysol a thecach ac i gyflawni ffyniant i bawb drwy gysylltu pobl, cymunedau a busnesau ledled Cymru â swyddi, gwasanaethau a marchnadoedd. Gan weithio gyda Trafnidiaeth Cymru, byddwn yn troi gorsafoedd yn hybiau cymunedol llewyrchus, gan ddarparu gwasanaethau lleol a man i fusnesau bach ffynnu. Bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn gwella'r fframwaith deddfwriaethol yng Nghymru ar gyfer y ffordd y caiff gwasanaethau bysiau lleol eu cynllunio a'u darparu.

Mae Llywodraeth Cymru yn hyrwyddo datblygu a arweinir gan gludiant, gan leoli datblygiadau dwysedd uwch, defnydd cymysg o amgylch gorsafoedd a safleoedd trafnidiaeth. Mae prosiectau Metro, sydd ar wahanol gamau datblygu, oll yn cynnig cyfleoedd pwysig ac amserol i nodi lleoliadau ar gyfer Datblygiadau a Arweinir gan Gludiant o amgylch gorsafoedd newydd a rhai sy'n bodoli eisoes. Mae tir sy'n agos at orsafoedd Metro ac sydd â mynediad da atynt yn adnodd pwysig y mae terfyn iddo a bydd yn chwarae rhan allweddol o ran creu lleoedd trefol cynaliadwy.

Drwy fuddsoddi mewn trafnidiaeth gyhoeddus bydd modd i fwy o bobl fyw heb fod angen iddynt fod yn berchen ar gar na defnyddio car. Dylai awdurdodau cynllunio hyrwyddo datblygiadau isel a di-geir mewn lleoliadau hygyrch. Dylai awdurdodau cynllunio hefyd herio canfyddiadau bod angen adeiladu tai gyda pharcio ar leiniau, sy'n hyrwyddo datblygiadau a ddominyddir gan geir, a hyrwyddo ffyrdd gwahanol o ddelio â cheir sy'n annog llai o ddefnydd o geir a mwy o deithio llesol a'r defnydd o drafnidiaeth gyhoeddus.

Newid i gerbydau allyriadau isel

Bydd Llywodraeth Cymru yn croesawu'r broses o fabwysiadu cerbydau trydan mewn ffordd gynhwysol, a gefnogir gan y buddsoddiad angenrheidiol mewn seilwaith gwefru. Cydnabyddwn y bydd hyn yn fwy o her mewn ardaloedd gwledig. Rydym hefyd yn hyrwyddo cynnydd o ran cynhyrchu ynni adnewyddadwy er mwyn cefnogi'r galw cynyddol am

Lluniwyd y ddogfen hon ym mis Medi 2020 i helpu'r Senedd i graffu ar y FfDC. Mae'n fersiwn weithredol ac nid yw'n derfynol. Bydd yn newid ar ôl i'r Senedd graffu arni.

drydan. Bydd Llywodraeth Cymru yn cynyddu'r defnydd o gerbydau trydan yn y sector cyhoeddus, yn ogystal ag annog dulliau arloesol o leihau allyriadau ym mhob sector sy'n ymwneud â thrafnidiaeth.

Ar hyn o bryd cerbydau trydan batri yw'r ffordd hawsaf o roi'r gorau i gerbydau petrol a diesel a dechrau defnyddio cerbydau allyriadau isel iawn, os o gwbl. Mae'n bwysig ein bod yn cynllunio ac yn darparu'r seilwaith, ac yn arbennig y seilwaith gwefru, y bydd cerbydau trydan yn dibynnu arno. Rydym yn disgwyl i fusnesau a diwydiant lywio cryn dipyn o'r gwaith o gyflwyno seilwaith gwefru. Fodd bynnag, mae gan y sector cyhoeddus rôl bwysig i'w chwarae hefyd o ran ymyrryd lle nad yw'r farchnad yn darparu'r seilwaith angenrheidiol, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig. Bydd Llywodraeth Cymru yn nodi sut y byddwn yn cefnogi'r defnydd o gerbydau trydan yn ein Strategaeth Gwefru Cerbydau Trydan. Byddwn hefyd yn adolygu'n barhaus pa mor gyflym y mae seilwaith gwefru yn cael ei ddarparu ac yn sicrhau na chaiff unrhyw rannau o Gymru eu gadael ar ôl wrth newid i gerbydau trydan. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn gweithio gyda gweithredwyr rhwydweithiau ynni i ddatblygu seilwaith y grid trydan er mwyn helpu i gynyddu'r defnydd o gerbydau trydan a thrydaneiddio'r rhwydwaith rheilffyrdd.

Caiff mathau eraill o gerbydau trydan ac allyriadau isel iawn eu datblygu hefyd. Ystyrir rôl cerbydau trydan celloedd tanwydd hydrogen a biodanwydd. Mae angen i'r technolegau hyn fynd i'r afael â heriau, megis lleihau costau a chynaliadwyedd tanwyddau, a bydd Llywodraeth Cymru yn cefnogi arloesedd ac yn gweithio gyda'r diwydiant, y byd academaidd a'r sector cyhoeddus i ddatblygu cyfleoedd newydd.

Mae angen i ddatblygiadau newydd addasu i amgylchiadau newidiol. Rhydd newidiadau mewn technoleg trafnidiaeth y cyfle i newid y ffordd rydym yn teithio, a bydd cyflwyno ceir heb yrrwr yn cynnig y potensial i drawsnewid agweddau tuag at fod yn berchen ar gar preifat, yn enwedig mewn ardaloedd trefol mawr ac yn agos iddynt. Er na wyddom beth sydd ar y gorwel, dylai lleoliad a dyluniad lleoedd parcio ceir alluogi eu trosi at ddefnydd arall dros amser.

Wrth wneud mannau gwefru cerbydau trydan yn ofynnol, dylai awdurdodau cynllunio sicrhau bod y lefel o ddarpariaeth, ei lleoliad a'r math o ddarpariaeth yn briodol i'r cynllun ac amgylchiadau lleol. Gall fod yn briodol i rywfaint o'r ddarpariaeth fod yn 'anweithredol', gan ddarparu'r seilwaith sylfaenol angenrheidiol i wneud y gwaith gosod a rhoi'r ddarpariaeth ar waith yn y dyfodol. Dylai awdurdodau cynllunio ymdrin â'r broses o gyflwyno mannau gwefru cerbydau trydan yn eu hardal mewn ffordd strategol a, lle y bo'n briodol, ddatblygu polisïau yn eu cynllun datblygu a gofynion lleol penodol. Dylai'r gwaith o ddarparu mannau seilwaith gwefru cerbydau trydan gael ei gynllunio fel rhan o ddyluniad cyffredinol datblygiad.


Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i fynd i'r afael â thagfeydd ar y rhwydwaith ffyrdd strategol. Bydd Llywodraeth Cymru yn buddsoddi mewn gwelliannau ar y ffordd er mwyn lleihau amseroedd teithio rhwng y dwyrain a'r gorllewin, yn ogystal â rhwng y gogledd a'r de. Mae'r Rhaglen Mannau Cyfyng yn cyflwyno ymyriadau ar raddfa fechan er mwyn mynd i'r afael â mannau cyfyng tagfeydd ar y brif rwydwaith ffyrdd, gan gynnwys ar hyd yr A55. Mae Comisiwn Trafnidiaeth De-ddwyrain Cymru yn rhoi cyngor ar fynd i'r afael â thagfeydd ar yr M4 a bydd yn gwneud argymhellion i Lywodraeth Cymru ar atebion i'r broblem.

Datblygu seilwaith yn gyfrifol

Mae Polisi Cynllunio Cymru yn cynnwys y fframwaith polisi cynllunio ar gyfer mynd i'r afael ag ansawdd aer, seinwedd a sŵn. Wrth gynnig seilwaith trafnidiaeth newydd neu ddatblygiad newydd, dylid lleihau amlygiad cyfartalog y boblogaeth i lygredd aer a sŵn a dylid gwella seinweddau lle y bo'n ymarferol gwneud hynny. Dylid lleihau amlygiad i lygredd o leiaf. Bydd hyn yn cynnwys ystyried effeithiau hirdymor lefelau presennol a lefelau a ragfynegir o lygredd aer asŵn ar unigolion, cymdeithas a'r amgylchedd o ganlyniad i gynigion ar gyfer seilwaith trafnidiaeth neu ddatblygiad.

Lluniwyd y ddogfen hon ym mis Medi 2020 i helpu'r Senedd i graffu ar y FfDC. Mae'n fersiwn weithredol ac nid yw'n derfynol. Bydd yn newid ar ôl i'r Senedd graffu arni.

Coridorau Strategol a Datblygiadau Metro



Lluniwyd y ddogfen hon ym mis Medi 2020 i helpu'r Senedd i graffu ar y FfDC. Mae'n fersiwn weithredol ac nid yw'n derfynol. Bydd yn newid ar ôl i'r Senedd graffu arni.



Lluniwyd y ddogfen hon ym mis Medi 2020 i helpu'r Senedd i graffu ar y FfDC. Mae'n fersiwn weithredol ac nid yw'n derfynol. Bydd yn newid ar ôl i'r Senedd graffu arni.

Polisi 13 – Cefnogi Cyfathrebu Digidol

Mae Llywodraeth Cymru o blaid darparu seilwaith a gwasanaethau cyfathrebu digidol ledled Cymru.
Rhaid i awdurdodau cynllunio ymgysylltu â darparwyr seilwaith digidol er mwyn nodi anghenion eu hardal yn y dyfodol ac amlinellu polisïau mewn Cynlluniau Datblygu Strategol a Lleol er mwyn helpu i gyflawni hyn.
Dylai datblygiadau newydd gynnwys darparu seilwaith band eang Gigabit o'r cychwyn. Dylai Cynlluniau Datblygu gynnwys polisïau sy'n cefnogi'r gofyniad hwn.

Polisi 14 – Cynllunio mewn Parthau Gweithredu Telathrebu Symudol

Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi mwy o signal ffonau symudol a'r manteision economaidd a chymdeithasol cysylltiedig sy'n deillio o hynny.
Bydd Llywodraeth Cymru yn nodi Parthau Gweithredu Telathrebu Symudol sy'n dangos lleoliadau lle nad oes fawr ddim signal telathrebu symudol, os o gwbl.
Rhaid i Lywodraeth Cymru, awdurdodau cynllunio a gweithredwyr telathrebu symudol gydweithio er mwyn cynyddu signal ffonau symudol o fewn Parthau Gweithredu Telathrebu Symudol.

Technoleg sy'n newid: seilwaith digidol

Mae Llywodraeth Cymru o blaid cyflwyno seilwaith cyfathrebu digidol ledled Cymru. Mae gwasanaethau band eang cyflym a thelathrebu symudol modern a dibynadwy yn hanfodol i'n bywydau beunyddiol, fel sydd wedi'i brofi gan nifer y bobl a weithiodd ac a ddysgodd o gartref yn ystod pandemig COVID-19, ac sy'n dal i wneud hynny. Mae seilwaith cyfathrebu digidol yn hanfodol i sicrhau llwyddiant a chystadleurwydd economaidd busnesau yng Nghymru yn y dyfodol ac mae'n cefnogi anghenion cymunedau ac unigolion, gan gynnwys mynediad at wasanaethau a chyfleusterau allweddol.

Mewn ardaloedd gwledig mae darparu seilwaith band eang a thelathrebu symudol yn hynod bwysig lle mae topograffeg, pellter ffisegol a dosbarthiad tenau'r boblogaeth yn golygu bod cyflwyno seilwaith a mynediad at wasanaethau a chyfleusterau allweddol yn anodd. Mae'r ffaith nad oes gan rai ardaloedd fawr ddim signal, os o gwbl, yn roi busnesau, cymunedau ac unigolion o dan anfantais, yn economaidd ac yn gymdeithasol, a gall gyfrannu at amddifadedd, ynysu cymdeithasol a diffyg llesiant. Dylai Awdurdodau Cynllunio ystyried effaith bosibl signal gwael ar wahanol grwpiau a chynllunio'n gadarnhaol i oresgyn y materion hyn, gan nodi polisïau mewn Cynlluniau Datblygu Strategol a Lleol i helpu i gyflwyno seilwaith. Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r gwaith o ddarparu seilwaith cyfathrebu digidol newydd a gwell ledled Cymru ac yn cydnabod y dylai seilwaith mewn ardaloedd gwledig gael ei gynllunio'n ofalus er mwyn lliniaru unrhyw effaith amgylcheddol ar dirweddau sensitif neu ddynodedig.

Rhaid i Lywodraeth Cymru, awdurdodau cynllunio a darparwyr seilwaith cyfathrebu digidol gydweithio er mwyn sicrhau bod gwasanaethau a seilwaith band eang cyflym a thelathrebu symudol yn cael eu darparu. Mae cynllun cyflwyno band eang cyflym Llywodraeth Cymru yn gwella'r signal i safleoedd busnes a domestig ledled Cymru. Bydd Parthau Gweithredu Telathrebu Symudol yn helpu i greu'r amgylchedd cywir i gynyddu signal telathrebu symudol lle nad oes fawr ddim gwasanaeth, os o gwbl, ar hyn o bryd, a hynny'n bennaf mewn rhannau dethol o gefn gwlad Cymru.

O ganlyniad i natur hanfodol band eang mewn cymdeithas fodern, mae Llywodraeth Cymru o blaid darparu seilwaith digidol Gigabit ar safleoedd datblygu newydd. Fel rheol bydd hyn yn gymwys i ddatblygiadau lle ceir pobl, er enghraifft tai a safleoedd busnes a masnachol newydd, ac adeiladau cyhoeddus. Dylai Cynlluniau Datblygu Lleol gynnwys polisïau i helpu i gyflawni hyn.

Bydd 'galluogrwydd Gigabit' yn rhoi peth hyblygrwydd i ddatblygwyr o ran y math o dechnoleg a ddefnyddir; ffeibr fydd hyn fel rheol, ond gallai hefyd gynnwys mynediad di-wifr sefydlog. Yn achos ffeibr, bydd yn golygu y bydd angen i'r datblygwr osod dwythellau tanddaearol gan alluogi'r darparwr cyfathrebu i osod ffeibr, ac yn achos seilwaith di-wifr sefydlog gall fod angen i'r darparwr cyfathrebu godi mast a/neu osod antenau bach. Mae hyn yn dileu'r angen i wneud gwaith ôl-weithredol ar safleoedd datblygu yn y dyfodol agos er mwyn darparu ar gyfer ffeibr neu dechnolegau mwy newydd sy'n dod i'r amlwg.

Rhaid i awdurdodau cynllunio hefyd fod yn effro ac yn ymatebol i effeithiau cadarnhaol gwasanaethau 5G sydd ar ddod a band eang Gigabit a thechnolegau eraill o'r fath. Dylent weithio gyda darparwyr seilwaith a gwasanaethau i ystyried effeithiau posibl y technolegau hyn ac anghenion busnesau, gwasanaethau cyhoeddus, cymunedau ac unigolion. Dylid mynd i'r afael â'r materion hyn yng Nghynlluniau Datblygu Strategol neu Leol awdurdodau cynllunio.

Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r angen i gynyddu signal ffonau symudol a sicrhau bod pob rhan o Gymru yn cael ei chefnogi gan y seilwaith telathrebu symudol sydd ei angen arni. Bydd nodi Parthau Gweithredu Telathrebu Symudol sy'n nodi ardaloedd lle nad oes fawr ddim signal, os o gwbl, yn tynnu sylw at ardaloedd, y bydd llawer ohonynt yn rhai gwledig eu natur, lle mae galw am seilwaith newydd a bydd yn darparu ffocws ar gyfer gweithredu.

Bydd Parthau Gweithredu Telathrebu Symudol yn canolbwyntio ar 'fannau gwan' neu glystyrau o fannau gwan lle nad oes signal 4G y gellir ei ddefnyddio ar gael yn yr awyr agored gan unrhyw weithredwr a lle mae galw cudd y gellir ei ddangos am gysylltedd symudol. Caiff y Parthau eu creu mewn ardaloedd sy'n dangos y galw cudd mwyaf am gysylltedd symudol 4G. Bydd galw cudd yn seiliedig ar nifer o feini prawf, gan gynnwys nifer y cartrefi a busnesau, rhwydweithiau trafnidiaeth a safleoedd twristiaeth. Ni fydd maint na siâp y Parthau yn seiliedig ar fannau gwan eu hunain na lleoliad y meini prawf a amlinellir uchod.

Lluniwyd y ddogfen hon ym mis Medi 2020 i helpu'r Senedd i graffu ar y FfDC. Mae'n fersiwn weithredol ac nid yw'n derfynol. Bydd yn newid ar ôl i'r Senedd graffu arni.

Polisi 15 – Fforest Genedlaethol

Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i ddatblygu fforest genedlaethol drwy nodi safleoedd a dulliau priodol. Caiff camau gweithredu i ddiogelu lleoliadau ar gyfer y fforest genedlaethol eu cefnogi.

Cymru iachach: mwy o goetir

Mae angen cynyddu'r gorchudd coetir er mwyn gwneud ein hecosystemau yn fwy cadarn, cyflawni ein dyheadau o ran newid yn yr hinsawdd a datgarboneiddio, darparu lleoedd ar gyfer gweithgareddau hamdden a llesiant a sicrhau y cynhelir potensial cynhyrchiol coetiroedd Cymru.

Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod targed i gynyddu'r gorchudd coetir yng Nghymru o leiaf 2,000 hectar y flwyddyn o 2020 ymlaen. Bydd fforest genedlaethol yn helpu i gyflawni'r targed hwn a gwella llesiant pobl a chymunedau.

Bydd y fforest genedlaethol yn cynnwys tair elfen:

- Amgylchedd o ansawdd sy'n cynnwys ecosystemau cysylltiedig, bioamrywiaeth a chynefinoedd, adfer coetir nas rheolwyd yn ddigonol a choetir hynafol;
- Coetir cynhyrchiol;
- Coetir cymunedol.

Bydd y fforest yn ased cenedlaethol a allai ddarparu swyddi yn y sector coedwigaeth gynhyrchiol, y sector hamdden, y sector twristiaeth a sectorau eraill. Mae gan weithgarwch plannu coed rôl gadarnhaol i'w chwarae wrth reoli dŵr a pherygl llifogydd ac ymaddasu i'r hinsawdd a lliniaru'r effeithiau. Caiff y fforest neu'r safleoedd coetir eu gwasgaru rhwng nifer o leoliadau a byddant yn gweithredu fel catalydd ar gyfer gwella tir sydd angen ei adfer. Cefnogir cynigion seilwaith neu ddatblygu y mae angen cael caniatâd cynllunio ar eu cyfer ac sy'n rhan o'r prosiect hwn. Mae cyfle i'r fforest genedlaethol gael ei chysylltu gan seilwaith gwyrdd sy'n ymgorffori cyfleusterau teithio llesol a dod yn ased pwysig i bobl leol a thwristiaid.

Mae coetiroedd yn sicrhau amrywiaeth eang o fanteision i gymdeithas, o leihau allyriadau carbon a'r perygl o lifogydd mewn lleoliadau sensitif i ddarparu lleoedd ar gyfer hamdden egnïol, addysg a dysgu gydol oes ac maent yn dod yn fwyfwy pwysig fel adnoddau cymunedol. Mae ein coedwigoedd a'n fforestydd yn cynnal llawer o weithgareddau a sectorau economaidd ac mae ganddynt rôl allweddol i'w chwarae wrth ddisodli tanwyddau ffosil, storio carbon a'n helpu i ymdopi ag effeithiau hinsawdd sy'n newid. Mae'r 'goeden gywir yn y lle cywir' yn chwarae rôl allweddol wrth sicrhau'r manteision hyn. Gall y system gynllunio gefnogi gweithgarwch plannu coed fel rhan o gynigion datblygu a gall dulliau megis cytundebau adran 106 gael eu defnyddio er mwyn anelu at gynyddu nifer y coed a geir ledled Cymru.

Mae ehangu coetir yn enghraifft o greu cynefinoedd a rhywogaethau. Ni ddylai gweithgarwch ailgoedwigo beryglu cadernid ecosystemau ehangach.

Pŵer a gwres ar gyfer lleoedd cynaliadwy

Mae strategaeth ofodol Cymru'r Dyfodol yn rhoi pwyslais cryf ar yr angen i wneud y defnydd gorau o'n hadnoddau. Bydd Ardaloedd Twf Cenedlaethol a Rhanbarthol a'r uchelgeisiau ar gyfer gwell seilwaith trafnidiaeth yn gofyn am ynni glân a dull effeithlon o gyflenwi gwres a phŵer i gartrefi a gweithleoedd. Mae'r adran hon yn nodi goblygiadau gofodol ein hanghenion ynni a gwres.

Lluniwyd y ddogfen hon ym mis Medi 2020 i helpu'r Senedd i graffu ar y FfDC. Mae'n fersiwn weithredol ac nid yw'n derfynol. Bydd yn newid ar ôl i'r Senedd graffu arni.

Polisi 16 – Rhwydweithiau Gwresogi

Mewn Ardaloedd â Blaenoriaeth ar gyfer Rhwydweithiau Gwresogi Rhanbarthol, dylai awdurdodau cynllunio nodi cyfleoedd i sefydlu Rhwydweithiau Gwresogi Rhanbarthol a chynllunio'n gadarnhaol ar gyfer eu rhoi ar waith.

Lle y bo'n ymarferol, dylai datblygiadau defnydd cymysg mawr gynnwys rhwydwaith gwresogi sydd â ffynhonnell ynni adnewyddadwy / carbon isel neu ynni gwres gwastraff. Dylai ceisiadau cynllunio ar gyfer datblygiadau o'r fath baratoi Uwchgynllun Ynni er mwyn cadarnhau ai rhwydwaith gwresogi yw'r opsiwn mwyaf effeithiol ar gyfer cyflenwi ynni ac, ar gyfer prosiectau dichonadwy, gynllun i'w rhoi ar waith.

Rhwydweithiau Gwresogi

Mae Rhwydweithiau Gwresogi yn ddull o ddarparu gwres a dŵr poeth i nifer o adeiladau o ffynhonnell wres ganolog ac, yn arbennig mewn ardaloedd trefol, mae'n bosibl mai'r rhwydweithiau hyn fydd y ffordd fwyaf effeithiol o ddarparu gwres carbon isel. Gall gwres gwastraff (megis ynni o blanhigion gwastraff) fod yn ffynhonnell tanwydd effeithiol ac effeithlon. Gall rhwydweithiau gwresogi amrywio mewn maint o un bloc o fflatiau, dau adeilad sy'n rhannu un ffynhonnell gwres neu ardaloedd ehangach o adeiladau lluosog sy'n ffurfio Rhwydweithiau Gwresogi Ardal.

Mae Llywodraeth Cymru o blaid sefydlu Rhwydweithiau Gwresogi Ardal fel rhan o'r gwaith o sicrhau'r twf trefol a nodir yn y strategaeth ofodol. Ein blaenoriaeth ofodol yw sicrhau yr ymchwilir i addasrwydd a dichonoldeb Rhwydweithiau Gwresogi Rhanbarthol yn y trefi a'r dinasoedd y nodwyd eu bod yn Ardaloedd â Blaenoriaeth ar gyfer Rhwydweithiau Gwresogi Rhanbarthol a ddangosir ar y map Ynni'r Gwynt a Rhwydweithiau Gwres. Er y caiff rhwydweithiau gwresogi eu cefnogi mewn egwyddor lle bynnag y maent yn ymarferol, dyma'r ardaloedd yr ystyrir bod ganddynt y potensial mwyaf o ran rhwydweithiau gwresogi.

Mae'r ardaloedd wedi cael eu nodi ar y sail bod ganddynt ddwysedd gwres digon uchel i'w gwneud yn ddichonadwy. Maent yn ystyried maint aneddiadau, y cymysgedd o ddefnydd, y potensial ar gyfer datblygu ac unrhyw waith sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd i ddatblygu rhwydweithiau gwresogi.

Dylai awdurdodau cynllunio ystyried a nodi cyfleoedd i sefydlu Rhwydweithiau Gwresogi Rhanbarthol, yn enwedig yn yr Ardaloedd â Blaenoriaeth, a cheisio datblygu Rhwydweithiau Gwresogi Rhanbarthol i ddinasoedd neu drefi cyfan mewn cymaint o leoliadau â phosibl.


Dylai cynigion ar gyfer datblygiadau defnydd cymysg mawr sy'n cynnwys 100 o anheddau neu fwy neu 10,000 milltir sgwâr neu fwy o arwynebedd llawr masnachol o leiaf ystyried y potensial ar gyfer rhwydwaith gwresogi. Fodd bynnag, mae potensial hefyd am rwydweithiau gwresogi islaw'r trothwy hwn a dylai datblygwyr ac awdurdodau cynllunio ymchwilio i'r cyfleoedd hyn lle bynnag y bo modd.

Wrth gynllunio datblygiadau newydd dylid manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i gynnwys rhwydwaith gwresogi. Dylid rhoi ystyriaeth benodol i ffurf a dwysedd y datblygiad, y cymysgedd o ddefnydda sut y caiff ei gyflawni fesul cam.

Lluniwyd y ddogfen hon ym mis Medi 2020 i helpu'r Senedd i graffu ar y FfDC. Mae'n fersiwn weithredol ac nid yw'n derfynol. Bydd yn newid ar ôl i'r Senedd graffu arni.

Ynni'r Gwynt a Rhwydweithiau Gwres

Wrth gynllunio datblygiadau newydd dylid manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i gynnwys rhwydwaith gwresogi. Dylid rhoi ystyriaeth benodol i ffurf a dwysedd y datblygiad, y cymysgedd o ddefnydd a sut y caiff ei gyflawni fesul cam.



Lluniwyd y ddogfen hon ym mis Medi 2020 i helpu'r Senedd i graffu ar y FfDC. Mae'n fersiwn weithredol ac nid yw'n d

Polisi 17 – Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel a Seilwaith Cysylltiedig

Mae Llywodraeth Cymru yn gryf o blaid egwyddor datblygu ynni adnewyddadwy a charbon isel o bob technoleg ac ar bob graddfa er mwyn diwallu ein hanghenion ynni yn y dyfodol.

Wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio ar gyfer datblygiadau ynni adnewyddadwy a charbon isel, rhaid i'r sawl sy'n gwneud penderfyniadau roi cryn ystyriaeth i'r angen i gyflawni ymrwymiadau rhyngwladol Cymru a'n targed i gynhyrchu 70% o'r trydan a ddefnyddir mewn modd cynaliadwy erbyn 2030 er mwyn mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd.

Mewn Ardaloedd a Aseswyd Ymlaen Llaw ar gyfer Ynni Gwynt, mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi modelu'r effaith debygol ar y dirwedd ac wedi nodi y gellir lleoli datblygiad yno mewn modd derbyniol. Mae rhagdybiaeth o blaid datblygiadau ynni gwynt mawr (gan gynnwys adbweru) yn yr ardaloedd hyn, yn amodol ar y meini prawf ym mholisi 18.

Ni chaniateir datblygiadau ynni gwynt nac ynni'r haul mawr mewn Parciau Cenedlaethol nac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol a dylai pob cynnig ddangos na chânt effaith andwyol annerbyniol ar yr amgylchedd.

Dylai cynigion ddisgrifio manteision net y cynllun o ran gwelliannau cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol i gymunedau lleol.

Dylai seilwaith grid strategol newydd ar gyfer trawsyrru a dosbarthu ynni gael ei gynllunio er mwyn lleihau'r effaith weledol ar gymunedau cyfagos. Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda rhanddeiliaid, gan gynnwys y Grid Cenedlaethol a Gweithredwyr Rhwydweithiau Dosbarthu, er mwyn symud i rwydwaith grid amlffynhonnell a lleihau'r rhwystrau i weithredu seilwaith grid newydd.

Polisi 18 – Datblygiadau Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel o Arwyddocâd Cenedlaethol

Caniateir cynigion ar gyfer prosiectau ynni adnewyddadwy a charbon isel (gan gynnwys adbweru) sy'n gymwys fel Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol yn amodol ar bolisi 17 a'r meini prawf canlynol:

1. Y tu hwnt i'r Ardaloedd a Aseswyd Ymlaen Llaw ar gyfer datblygiadau gwynt a phob man ar gyfer pob technoleg arall, ni chaiff y cynnig effaith andwyol annerbyniol ar y dirwedd gyfagos (yn enwedig ar leoliad Parciau Cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol);
2. Cynlluniwyd y cynnig i leihau ei effaith weledol ar gymunedau ac anheddau unigol cyfagos, ac mae effaith gronnus y cynnig, gyda datblygiadau eraill sy'n bodoli eisoes neu sydd yn yr arfaeth, yn dderbyniol;
3. Nid oes unrhyw effeithiau andwyol ar safleoedd rhyngwladol na chenedlaethol a ddynodwyd yn statudol at ddibenion cadwraeth natur (na'r nodweddion y'u dynodwyd ar eu cyfer), cynefinoedd na rhywogaethau gwarchodedig;
4. Mae'r cynnig yn cynnwys mesurau gwella bioamrywiaeth er mwyn sicrhau mantais net i fioamrywiaeth;
5. Nid oes unrhyw effeithiau andwyol annerbyniol ar asedau treftadaeth adeiledig a ddiogelir yn statudol;
6. Nid oes unrhyw effeithiau andwyol annerbyniol ar ffurf cysgodion yn neidio, sŵn, golau yn adlewyrchu, ansawdd aer nac amharu electromagnetig;
7. Nid oes unrhyw effeithiau annerbyniol ar weithrediadau cyfleusterau na gweithrediadau amddiffyn (gan gynnwys hediadau a radar) nac Ardal Hyfforddi Tactegol Hedfan yn Isel y Canolbarth (TTA-7T);
8. Nid oes unrhyw effeithiau andwyol annerbyniol ar y rhwydwaith trafnidiaeth drwy gludo cydrannau na thanwyddau ffynhonnell wrth ei adeiladu a/neu ei weithredu'n barhaus;
9. Mae'r cynnig yn cynnwys ystyried y deunyddiau sydd eu hangen neu a gynhyrchir gan y datblygiad er mwyn sicrhau bod adnoddau yn cael eu defnyddio a'u rheoli mewn ffordd gynaliadwy;
10. Mae darpariaethau derbyniol yn ymwneud â dadgomisiynu'r datblygiad ar ddiwedd ei oes, gan gynnwys dileu seilwaith ac adfer y safle yn effeithiol.

Lluniwyd y ddogfen hon ym mis Medi 2020 i helpu'r Senedd i graffu ar y FfDC. Mae'n fersiwn weithredol ac nid yw'n derfynol. Bydd yn newid ar ôl i'r Senedd graffu arni.

Ynni Adnewyddadwy

Mae Cymru yn cynnig cryn nifer o gyfleoedd i gynhyrchu ynni adnewyddadwy ac mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i fanteisio i'r eithaf ar y potensial hwn. Mae cynhyrchu ynni adnewyddadwy yn rhan allweddol o'n hymrwymiad i ddatgarboneiddio a mynd i'r afael ag achosion newid yn yr hinsawdd.

Rydym wedi gosod y targedau uchelgeisiol canlynol ar gyfer cynhyrchu ynni adnewyddadwy, sef:

- Bydd Cymru yn cynhyrchu 70% o'r trydan y mae'n ei ddefnyddio gan ddefnyddio ynni adnewyddadwy erbyn 2030.
- Bydd un gigawat o ynni adnewyddadwy yn cael ei gynhyrchu'n lleol erbyn 2030.
- Bydd gan brosiectau ynni adnewyddadwy newydd o leiaf un elfen o berchnogaeth leol o 2020.

Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol

Ystyrir bod cynigion ar gyfer datblygiadau ynni mawr yn Ddatblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol a Gweinidogion Cymru sy'n penderfynu arnynt. Awdurdodau cynllunio lleol sy'n penderfynu ar gynigion islaw'r trothwy ar gyfer Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol. Mae datblygiadau ynni mawr yn cynnwys:

- Pob fferm wynt ar y tir sy'n cynhyrchu 10 megawat neu fwy.
- Safleoedd cynhyrchu ynni eraill sy'n cynhyrchu rhwng 10 a 350 megawat.

Mae polisïau Llywodraeth Cymru ar Ddatblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol yn canolbwyntio ar gynlluniau ynni adnewyddadwy a charbon isel oherwydd disgwylir mai'r rhain fydd y cynlluniau mwyaf cyffredin a ystyrir yn ystod cyfnod y cynllun cyntaf. Bydd iteriadau pellach o Cymru'r Dyfodol yn cynnwys polisïau ychwanegol ar gyfer mathau eraill o Ddatblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol lle y bo angen.

Mae polisïau 17 a 18 yn cynnwys polisïau strategol ofodol a pholisïau manwl sy'n seiliedig ar feini prawf yn y drefn honno a dylid eu hystyried gyda'i gilydd wrth benderfynu ar geisiadau, ynghyd â chyngor manwl ar asesu manteision ac effeithiau ym Mholisi Cynllunio Cymru.

Mae polisi 17 yn cydnabod y toreth o dechnolegau ynni adnewyddadwy sy'n bodoli eisoes ac sy'n dod i'r amlwg a all gyfrannu at ein targedau ynni a datgarboneiddio. Mae hefyd yn dangos cefnogaeth mewn egwyddor Llywodraeth Cymru i bob prosiect a thechnoleg ynni adnewyddadwy.

Rhydd polisi 18 fframwaith gwneud penderfyniadau ar gyfer technolegau ynni adnewyddadwy a charbon isel. Mae'r system gynllunio yn llunio polisïau ac yn gwneud penderfyniadau ynghylch cynlluniau ar y tir. Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi cynigion ar y môr ac yn eu hystyried yn rhan bwysig o'n cymysgedd ynni yn y dyfodol ond nid ydynt yn rhan o gylch gwaith Cymru'r Dyfodol. Cefnogir agweddau datblygu ar y tir cynlluniau ar y môr. Mae Cymru'r Dyfodol a'r Cynllun Morol yn ymdrin ag ynni ac yn adlewyrchu'r hierarchaeth ynni fel y'i nodwyd ym Mholisi Cynllunio Cymru. Mae'r ddau gynllun yn cydnabod bod nifer o gyfleoedd i gynhyrchu ynni adnewyddadwy drwy amrywiaeth o dechnolegau, ar y tir ac ar y môr, y dylid manteisio arnynt i'r eithaf er mwyn helpu i gyflawni'r targedau.

Mae'r system gynllunio yn chwarae rôl bwysig wrth ddarparu ynni adnewyddadwy a charbon isel newydd. Mae'n gwireddu ein targedau cenedlaethol ac yn pennu'r fframwaith a'r cyfeiriad strategol cyffredinol y gall datblygwyr eu defnyddio i gynnig prosiectau seilwaith ynni newydd.

Lluniwyd y ddogfen hon ym mis Medi 2020 i helpu'r Senedd i graffu ar y FfDC. Mae'n fersiwn weithredol ac nid yw'n derfynol. Bydd yn newid ar ôl i'r Senedd graffu arni.

Mae Gweinidogion Cymru wedi ystyried opsiynau amgen i'r angen am seilwaith cynhyrchu trydan mawr newydd, gan gynnwys gosodiadau ar adeiladau a mesurau effeithlonrwydd ynni. Er ein bod yn credu bod gan y mesurau hyn ran bwysig i'w chwarae wrth gyflawni ein targedau ynni, datgarboneiddio a newid yn yr hinsawdd, ni fyddant yn ein galluogi i gyflawni'r amcanion hyn ar eu pen eu hunain.

Cydnabyddwn dirweddau ledled Cymru y dylai eu gwerth cynhenid gael ei ddiogelu rhag gwaith datblygu amhriodol. Nid ystyrir bod safleoedd mewn Parciau Cenedlaethol nac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol yn addas ar gyfer datblygiadau gwynt a solar mawr. Y tu hwnt i'r ardaloedd hyn ceir fframwaith polisi cadarnhaol.

Yn yr 'Ardaloedd a Aseswyd Ymlaen Llaw ar gyfer Ynni Gwynt' mae Llywodraeth Cymru wedi cynnal asesiad i nodi'r ardaloedd hyn er mwyn darparu sicrwydd lle, mewn egwyddor, y byddai datblygiadau'n dderbyniol. Yn yr ardaloedd hyn mae rhagdybiaeth o blaid datblygiadau ynni gwynt ar y tir mawr a'r newid tirwedd cysylltiedig, yn amodol ar y meini prawf ym mholisi 18. Y tu hwnt i'r ardaloedd hyn ceir fframwaith polisi cadarnhaol, yn amodol ar bolisi 18.

Bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio ei hysgogiadau polisi er mwyn helpu i gyflawni prosiectau ynni adnewyddadwy yn yr ardaloedd hyn drwy gydgysylltu camau strategol i adeiladu achos dros seilwaith grid newydd neu wedi'i atgyfnerthu lle y bo angen. Byddwn yn gweithio gyda rhanddeiliaid perthnasol er mwyn helpu i fanteisio ar botensial yr ardaloedd hyn ar gyfer cynhyrchu ynni adnewyddadwy a sicrhau bod cymunedau yn cael y manteision economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol a all ddeillio ohonynt.

Gall cynlluniau ynni adnewyddadwy a charbon isel mawr ddod â manteision cymdeithasol ac economaidd uniongyrchol i gymunedau lleol. Dylai datblygwyr ystyried sut y gall gwelliannau seilwaith sy'n gysylltiedig â datblygiad (gan gynnwys seilwaith trafnidiaeth a systemau cyfathrebu) gael eu defnyddio gan y cymunedau lle y'u lleolir er mwyn sicrhau manteision ychwanegol, nad ydynt yn gysylltiedig â chynllunio. Er nad yw'n ystyriaeth gynllunio, gall perchenogaeth leol o brosiectau, yn llawn neu'n rhannol, sicrhau bod y manteision hyn yn cronni yn yr hirdymor.

Ni waeth ble mae eu lleoliad na'u maint, mae'n rhaid i'r broses o gynllunio a microleoli cynigion geisio lleihau'r effaith ar y dirwedd a'r effaith weledol, yn enwedig cynigion sy'n agos at gartrefi a mannau lle ceir twristiaid. Y tu mewn i Ardaloedd a Aseswyd Ymlaen Llaw a thu hwnt iddynt, dylai cymunedau gael eu diogelu rhag effeithiau cronnol sylweddol er mwyn osgoi sefyllfaoedd annerbyniol lle y gallai aneddiadau llai o faint, er enghraifft, gael eu hamgylchynu, o bosibl, gan gynlluniau gwynt mawr.

Mae gan Gymru lawer o safleoedd amddiffyn gweithredol o bwys ac ni ddylai seilwaith ynni adnewyddadwy newydd beryglu eu gweithrediadau. Ceir ardal hyfforddi tactegol hedfan yn isel dros gryn dipyn o'r canolbarth hefyd a rhaid ystyried effaith gronnus cynigion ar yr ardal strategol bwysig hon o ofod awyr hefyd. Cynghorir datblygwyr i ymgynghori'n gynnar â'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn hyn o beth.

Dylai'r gwaith o adeiladu prosiectau ynni adnewyddadwy a charbon isel fod yn effeithlon ac yn gynaliadwy o ran adnoddau ac adlewyrchu egwyddorion economi gylchol. Dylid dangos argaeledd agregau yn unol â'r egwyddor agosatrwydd ynghyd â chydbwysedd priodol o ran deunyddiau ar y safle.

Lluniwyd y ddogfen hon ym mis Medi 2020 i helpu'r Senedd i graffu ar y FfDC. Mae'n fersiwn weithredol ac nid yw'n derfynol. Bydd yn newid ar ôl i'r Senedd graffu arni.



Lluniwyd y ddogfen hon ym mis Medi 2020 i helpu'r Senedd i graffu ar y FfDC. Mae'n fersiwn weithredol ac nid yw'n derfynol. Bydd yn newid ar ôl i'r Senedd graffu arni.

Rhaid i ddarpariaeth mynediad i'r safle at ddibenion adeiladu a chynnal a chadw'r cynllun ymateb i'r amgylchedd lle mae'r prosiectau ynni adnewyddadwy a charbon isel wedi'u lleoli. Bydd symud seilwaith cyn gynted ag y rhoddir y gorau i'w ddefnyddio a'r ôl-ddefnydd priodol o'r safle hefyd yn sicrhau manteision amgylcheddol.

O safbwynt llesiant, hoffai Llywodraeth Cymru weld cymaint o drydan adnewyddadwy yn cael ei gynhyrchu a'i ddefnyddio'n lleol ag y bo modd, ond dylai seilwaith grid newydd ar gyfer trawsyrru a dosbarthu trydan yn ehangach gael ei ddylunio i leihau'r effaith weledol ar gymunedau cyfagos. Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda rhanddeiliaid, gan gynnwys y grid cenedlaethol a gweithredwyr rhwydweithiau dosbarthu, er mwyn symud i rwydwaith grid amlffynhonnell a lleihau'r rhwystrau i weithredu unrhyw seilwaith grid newydd angenrheidiol.

Mae system ynni'r DU bellach yn newid yn sylweddol, gyda'r gwaith o gynhyrchu a dosbarthu ynni yn digwydd fwyfwy yn y cymunedau a'r rhanbarthau lle y caiff yr ynni ei ddefnyddio. Mae'r ffiniau rhwng systemau hefyd yn pylu, gydag ynni yn cael ei drosi (a'i storio) ar wahanol ffurfiau er mwyn diwallu amrywiaeth o anghenion. Hefyd mae angen ystyried storio ynni ar raddfa fawr fel rhan o'r system ynni er mwyn cydbwyso'r grid. Yn ystod oes Cymru'r Dyfodol mae'r system ynni yn debygol o symud i ddull 'system amlffynhonnell', a fydd yn gofyn am hyblygrwydd er mwyn manteisio'n llawn ar y rhyng-gydberthnasau a synergeddau rhwng y sectorau pŵer, gwres a thrafnidiaeth.

Caiff canllawiau pellach ar ddatblygu ynni gwynt ar y tir eu llunio er mwyn cynorthwyo gyda'r broses ddatblygu. Caiff y gwaith o roi datblygiadau ar waith ei fonitro yn erbyn targedau Llywodraeth Cymru ar gyfer ynni adnewyddadwy.

Bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio systemau cynllunio ynni rhanbarthol i nodi cyfleoedd ar gyfer pob math o brosiect adnewyddadwy. Dylai cynigion sicrhau na fydd y datblygiad yn cael unrhyw effaith andwyol annerbyniol sylweddol ar yr amgylchedd naturiol a'r cymunedau lleol o'i amgylch ac y bydd yn dod â manteision cymdeithasol, amgylcheddol, diwylliannol ac economaidd.

Bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio systemau cynllunio ynni rhanbarthol i nodi cyfleoedd ar gyfer pob math o brosiect adnewyddadwy.

Lluniwyd y ddogfen hon ym mis Medi 2020 i helpu'r Senedd i graffu ar y FfDC. Mae'n fersiwn weithredol ac nid yw'n derfynol. Bydd yn newid ar ôl i'r Senedd graffu arni.


5 Y Rhanbarthau

Bydd gwaith cynllunio rhanbarthol yn chwarae rôl fwyfwy pwysig yn y dyfodol ac mae wrth wraidd ein gweledigaeth ar gyfer system gynllunio tair haen.

Mae gan y system gynllunio rôl bwysig i'w chwarae o ran llywio twf rhanbarthol, cydgysylltu a rheoli gwaith datblygu strategol ym mhob rhanbarth a sicrhau yr eir i'r afael â materion sy'n bwysig y tu hwnt i lefel leol ar y cyd. Mae pedwar rhanbarth Cymru yn darparu ffocws ar gyfer polisi Llywodraeth Cymru a'i buddsoddiadau yn y dyfodol. Mae gan bob rhanbarth ei gyfleoedd a'i heriau unigryw ei hun. Bydd ymateb i'r rhain drwy gydweithredu rhanbarthol mwy effeithiol yn gwella canlyniadau i bob rhan o Gymru ac yn sicrhau bod cyfoeth a chyfleoedd yn cael eu dosbarthu'n decach.

Mae angen paratoi Cynlluniau Datblygu Strategol yn y pedwar rhanbarth. Dylent ystyried materion rhanbarthol strategol, gan gynnwys ardaloedd twf yn y dyfodol, y galw am dai, datblygu economaidd, trafnidiaeth a seilwaith gwyrdd. Mae materion sy'n gymwys i bob awdurdod cynllunio lleol ac sy'n gofyn am ymateb cynllunio rhanbarthol wedi'i gydgysylltu.

Mae'r Llawlyfr ar Gynlluniau Datblygu yn rhoi canllawiau ar sut i lunio a diwygio Cynlluniau Datblygu Strategol a Lleol.





Lluniwyd y ddogfen hon ym mis Medi 2020 i helpu'r Senedd i graffu ar y FfDC. Mae'n fersiwn weithredol ac nid yw'n derfynol. Bydd yn newid ar ôl i'r Senedd graffu arni.

Polisi 19 – Polisïau Strategol ar gyfer Cynllunio Rhanbarthol

Dylai Cynlluniau Datblygu Strategol gynnwys creu lleoedd fel prif egwyddor a dylent sefydlu'r canlynol ar gyfer y rhanbarth (a lle y bo angen Gynlluniau Datblygu Lleol cyfansoddol):

- strategaeth ofodol;
- hierarchaeth aneddiadau;
- y ddarpariaeth a'r gofyniad tai;
- anghenion sipsiwn a theithwyr;
- darparu cyflogaeth;
- ardaloedd gofodol tai strategol, twf cyflogaeth ac ynni adnewyddadwy;
- nodi lleiniau glas, coridorau gwyrdd a thirweddau sydd o bwys cenedlaethol lle y bo angen;
- lleoliad gwasanaethau allweddol, trafnidiaeth a seilwaith cysylltedd;
- fframwaith ar gyfer rheoli adnoddau naturiol ac asedau diwylliannol yn gynaliadwy;
- rhwydweithiau ecolegol a chyfleoedd i ddiogelu neu wella cysylltedd y rhwydweithiau hyn a darparu seilwaith gwyrdd;
- fframwaith cydgysylltiedig ar gyfer echdynnu mwynau a'r economi gylchol, gan gynnwys trin a gwaredu gwastraff.

Mae Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i fabwysiadu Cynlluniau Datblygu Strategol yn rhanbarthau'r Gogledd, y Canolbarth, y De-orllewin a'r De-ddwyrain.

Paratoi Cynlluniau Datblygu Strategol

Mae angen cael Cynlluniau Datblygu Strategol ym mhob rhanbarth er mwyn sefydlu fframwaith polisi strategol clir a llywio'r sawl sy'n gwneud penderfyniadau. Nodir Ardaloedd Twf Cenedlaethol a/neu Ranbarthol yn y pedwar rhanbarth a chynllunnir eu twf drwy baratoi Cynlluniau Datblygu Strategol.

Awdurdodau lleol a pharciau cenedlaethol yn cydweithio'n ffurfiol yw'r ffordd orau i ranbarthau gyflawni'r heriau strategol ac achub ar y cyfleoedd sydd ganddynt a darparu fframwaith cryf ar gyfer Cynlluniau Datblygu Lleol. Mae gan bartneriaid cenedlaethol, rhanbarthol a lleol yn y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector oll gyfraniad i'w wneud at greu Cynlluniau Datblygu Strategol.

Mae gan fframwaith datblygu cenedlaethol cyntaf Cymru, sef Cymru'r Dyfodol, dair rôl bwysig i'w chwarae wrth gefnogi Cynlluniau Datblygu Strategol:

- mae'n pennu ffocws ar gyfer camau gweithredu a buddsoddi Llywodraeth Cymru a rhanddeiliad allweddol yn y pedwar rhanbarth, yn nodi materion gofodol strategol allweddol ac yn darparu fframwaith ar gyfer cyflawni polisïau cenedlaethol o ran yr economi, tai, adfywio, yr amgylchedd, llifogydd, ynni, ardaloedd gwledig a thrafnidiaeth mewn ffordd gydgysylltiedig;
- amlinella'r prif faterion rhanbarthol a nodwyd wrth baratoi Cymru'r Dyfodol er mwyn darparu man cychwyn ar gyfer paratoi Cynlluniau Datblygu Strategol;
- rhydd gyd-destun rhanbarthol ar gyfer y system gynllunio cyn mabwysiadu Cynlluniau Datblygu Strategol.

Cynlluniau Datblygu Strategol a Chanlyniadau Cymru'r Dyfodol

Wrth ddatblygu'r fframwaith polisi sy'n ofynnol gan bolisi 19, rhaid i bob Cynllun Datblygu Strategol ystyried Canlyniadau Cymru'r Dyfodol a nodir ym Mhennod 3 ac ymateb iddynt. Rhaid iddynt ddangos sut y bydd y fframwaith gofodol a ddatblygir ganddynt a'r dewisiadau allweddol a wneir ganddynt yn cyfrannu at gyflawni'r Canlyniadau. Bydd y gwaith o archwilio Cynlluniau Datblygu Strategol yn erbyn Canlyniadau Cymru'r Dyfodol yn rhan bwysig o brofi cadernid Cynlluniau Datblygu Strategol.

Mae strategaeth ofodol a hierarchaeth aneddiadau cynllun datblygu yn adnoddau pwerus wrth ddylanwadu ar leoliad twf a faint o dir a ddatblygir. Maent yn diffinio pa un a gaiff gwaith datblygu ei gadw mewn un man neu ei wasgaru ar draws ardal eang. Mae'r agweddau hyn ar gynllun yn penderfynu a fydd maint a chymeriad lle yn parhau'n gyson neu'n newid yn raddol, a fydd pobl yn byw'n agos neu'n bell i'w mannau gwaith, ac a oes angen car arnynt i ddefnyddio gwasanaethau beunyddiol a chyfleusterau yn y gymuned. Mae'r penderfyniadau hyn yn bwysig, gan effeithio ar ansawdd bywyd pobl a dylanwadu ar gadernid lleoedd.

Mae'n hanfodol bod Cynlluniau Datblygu Strategol a Lleol yn datblygu strategaethau gofodol a hierarchaethau aneddiadau sy'n helpu i gyflawni Canlyniadau Cymru'r Dyfodol. Rhaid i'n huchelgais genedlaethol i ddadgarboneiddio cymdeithas, bod yn fwy llewyrchus, sicrhau twf y Gymraeg a gwella iechyd fod yn ystyriaethau allweddol wrth ddatblygu strategaethau gofodol a hierarchaethau aneddiadau.





Cydberthnasau Trawsffiniol

Rhaid i Gynlluniau Datblygu Strategol gael eu llywio gan y gydberthynas rhwng rhanbarthau, â rhanbarthau Lloegr a'r cysylltiadau strategol bwysig ag lwerddon. Nid oes unrhyw ranbarth yn bodoli ar ei ben ei hun. Mae pob un yn rhannu cydberthnasau swyddogaethol gwahanol ac yn dibynnu ar ei gilydd mewn ffyrdd gwahanol. Wrth wneud penderfyniadau strategol hirdymor i'w rhanbarth, mae'n bwysig bod Cynlluniau Datblygu Strategol yn gwneud hynny yn seiliedig ar ddealltwriaeth lawn o'u cysylltiadau ehangach.

Rhaid i benderfyniadau am ffocws twf, sut y bydd lleoedd yn gweithredu, sut y bydd pobl yn symud ar draws rhanbarthau a dynodiadau amgylcheddol ehangach gael eu llywio gan ddealltwriaeth o faterion trawsffiniol. Bydd hyn yn sicrhau bod twf, gwasanaethau, swyddi a seilwaith trafnidiaeth wedi'u cynllunio mewn un rhanbarth i fod mor hygyrch i bobl mewn rhanbarthau eraill â phosibl. Bydd hefyd yn sicrhau na fydd rhanbarthau, yn anfwriadol neu'n ddiangen, yn cystadlu am fathau penodol o ddatblygiad.

Mae un safle cyflogaeth strategol cynaliadwy sydd wedi'i gynllunio'n dda, er enghraifft, sy'n hygyrch i boblogaeth eang ar draws gwahanol ranbarthau, yn well na thri rhanbarth cyfagos sydd i gyd yn nodi'r un math o safle strategol, sy'n hygyrch i boblogaeth lai, mewn lleoliadau llai cynaliadwy ac sydd â llai o sicrwydd o lawer o gyflawni wrth iddynt gystadlu am ddarpar ddefnyddwyr.

Dylai Cynlluniau Datblygu Strategol a Lleol fod yn hyderus wrth geisio cysoni meysydd lle mae angen â meysydd lle mae cyfle, gan gynnwys pan fo'r meysydd lle mae cyfle mewn rhanbarthau eraill neu yn Lloegr. Gall canolbwyntio buddsoddiadau a chamau gweithredu ar wella'r cysylltiadau rhwng cymunedau a chyfleoedd economaidd y tu hwnt i'r rhanbarth helpu i gefnogi cymunedau'r rhanbarth a datblygu economi gryfach.

Bargeinion Twf a Fframweithiau Economaidd Rhanbarthol

Mae bargeinion twf a dinas-ranbarth ar waith ac yn dod i'r amlwg yn y pedwar rhanbarth. Mae'r bargeinion hyn yn dwyn ynghyd Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a phartneriaethau lleol, ac yn sefydlu cronfeydd i gefnogi twf ym mhob rhanbarth.

Mae Prif Swyddogion Rhanbarthol Llywodraeth Cymru yn arwain ar draws nifer o feysydd gan gynnwys datblygu a chynnal cydberthnasau strategol â busnesau, awdurdodau lleol a rhanddeiliaid ym mhob rhanbarth a nodi cyfleoedd buddsoddi. Bydd y Prif Swyddogion Rhanbarthol yn datblygu Fframweithiau Economaidd Rhanbarthol â rhanddeiliaid er mwyn sefydlu themâu a blaenoriaethau allweddol ar gyfer eu rhanbarthau, gan roi mwy o eglurder o ran camau gweithredu'r sector cyhoeddus ac i fusnesau sydd am dyfu.

Dylai Cynlluniau Datblygu Strategol gael eu llywio gan fargeinion twf a'r Fframweithiau Economaidd Rhanbarthol, a'u cefnogi. Dylai Cynlluniau Datblygu Strategol gymryd y penderfyniadau lleoli strategol ynghylch tai, twf economaidd, gwasanaethau allweddol a seilwaith hanfodol a fydd yn helpu i gefnogi bargeinion twf a'r Fframweithiau Economaidd Rhanbarthol.

Lluniwyd y ddogfen hon ym mis Medi 2020 i helpu'r Senedd i graffu ar y FfDC. Mae'n fersiwn weithredol ac nid yw'n derfynol. Bydd yn newid ar ôl i'r Senedd graffu arni.

Adolygiad Cymru'r Dyfodol

Caiff adolygiadau o Cymru'r Dyfodol yn y dyfodol eu llywio gan Gynlluniau Datblygu Strategol. Mae hyn yn nodwedd bwysig o'r system cynllun datblygu tair haen – gallu cynlluniau haen uwch i gael eu dylanwadu gan ymddangosiad cynlluniau datblygu eraill a'u mabwysiadu.

Rhaid gwneud cynnydd wrth baratoi Cynlluniau Datblygu Strategol. Rhaid cwmpasu'r cynllun datblygu yn llawn ar bob lefel er mwyn cyflawni Canlyniadau Cymru'r Dyfodol. Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried defnyddio ei phwerau ymyrryd os bydd angen er mwyn cychwyn a llywio'r gwaith o baratoi Cynlluniau Datblygu Strategol.

Y Pedwar Rhanbarth

Mae'r polisïau rhanbarthol yn canolbwyntio ar bedwar maes – maent yn darparu fframwaith ar gyfer twf cenedlaethol, twf rhanbarthol, rheoli twf a chefnogi twf.

Mae polisïau twf cenedlaethol yn nodi ble mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl canolbwyntio twf cenedlaethol yn unol â strategaeth ofodol Cymru'r Dyfodol. Y meysydd hyn yw prif ganolfannau poblogaeth, gweithgarwch, gwasanaethau a phrif seilwaith. Wrth sefydlu'r meysydd hyn yn Cymru'r Dyfodol, mae Llywodraeth Cymru yn darparu fframwaith ar gyfer polisïau cydgysylltiedig, cyflawni seilwaith a gwariant gan y Llywodraeth, awdurdodau lleol a rhanddeiliaid.

Noda polisïau twf rhanbarthol leoedd sy'n cyflawni rolau swyddogaethol pwysig yn eu rhanbarth. Maent yn ganolfannau allweddol o ran cyflogaeth, gwasanaethau, twristiaeth, manwerthu a diwylliant. Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag awdurdodau lleol er mwyn cefnogi'r lleoedd hyn, a hyrwyddo adfywio a thwf. Dylai Cynlluniau Datblygu Strategol ystyried eu rôl yn eu rhanbarth fel lleoedd yn eu rhinwedd eu hunain ac fel rhan o'r hierarchaeth rhanbarthol ehangach.

Mae'r gwaith o reoli polisïau twf yn helpu i nodi lleoliad a maint gwaith datblygu mewn rhanbarthau. Mater i Gynlluniau Datblygu Strategol fydd sefydlu gofynion polisi 19. Rhydd polisïau Cymru'r Dyfodol fframwaith rhanbarthol pwysig yn absenoldeb Cynlluniau Datblygu Strategol, gan nodi materion gofodol strategol allweddol sy'n gofyn am ymateb polisi sy'n fwy nag un lleol. Bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod penderfyniadau a wneir gan y system gynllunio yn cefnogi'r gwaith o gyflawni'r polisïau hyn.

Mae polisïau cefnogi twf yn canolbwyntio ar leoedd a seilwaith penodol, ac yn sicrhau bod penderfyniadau Llywodraeth Cymru ac eraill yn cefnogi'r gwaith o gyflawni strategaeth ofodol Cymru'r Dyfodol. Dylai Cynlluniau Datblygu Strategol gefnogi'r gwaith o gyflawni'r polisïau hyn ac achub ar y cyfleoedd maent yn eu cynnig i'w rhanbarthau.

Lluniwyd y ddogfen hon ym mis Medi 2020 i helpu'r Senedd i graffu ar y FfDC. Mae'n fersiwn weithredol ac nid yw'n derfynol. Bydd yn newid ar ôl i'r Senedd graffu arni.




Y GOGLEDD

Trosolwg

Mae rhanbarth y Gogledd yn cynnwys **Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Gwynedd, Ynys Môn, Parc Cenedlaethol Eryri a Wrecsam** ac mae'n gartref i bron **700,000 o bobl**. Mae ei thirwedd ddramatig yn cynnwys gwastadeddau arfordirol isel, cadwyni o fynyddoedd, ardaloedd diwydiannol a hen feysydd glo.

Nodir y materion rhanbarthol y dylai awdurdodau cynllunio gydweithio i gynllunio ar eu cyfer isod, ochr yn ochr â'r meysydd polisi gofodol y bydd Llywodraeth Cymru yn canolbwyntio arnynt er mwyn cefnogi rhanbarth y Gogledd.

Gyda **204,406 o siaradwyr Cymraeg** ledled y rhanbarth a chrynoadau o aneddiadau lle y siaredir Cymraeg fel iaith gyntaf llawer o bobl, mae'n bwysig bod Cynlluniau Datblygu Strategol a Lleol yn ystyried y gydberthynas rhwng tai strategol, trafnidiaeth a thwf economaidd, a'r Gymraeg. Dylai Cynlluniau Datblygu Strategol a Lleol gynnwys hierarchaethau aneddiadau a pholisïau dosbarthu twf sy'n creu'r amodau i'r Gymraeg ffynnu a pharhau i fod yn iaith gymunedol yn y lleoedd niferus lle siaredir Cymraeg bob dydd.





Poblogaeth

Bron
700,000

Y mwyaf: Sir y Fflint **155,000**

Y lleiaf: Ynys Môn **70,000**

Newid yn y boblogaeth

6.3%
cynnydd o 1998–2018

Y mwyaf: Conwy **8%**
Y lleiaf: Ynys Môn **3.4%**

Iechyd

75%
o bobl 16 oed a throsodd yn dweud bod eu hiechyd cyffredinol yn dda neu'n dda iawn 2017–18 a 2018–19 (wedi'i safoni yn ôl oed)

Y Gymraeg

41.9%
o bobl yn siarad Gymraeg

cynnydd o **2.4%** er 2009

Oed

23%
o bobl 65 a throsodd

cynnydd o **18.5%** er 1998

Trafnidiaeth

18.5Km
Pellter teithio i'r gwaith ar gyfartaledd

Lluniwyd y ddogfen hon ym mis Medi 2020 i helpu'r Senedd i graffu ar y FfDC. Mae'n fersiwn weithredol ac nid yw'n derfynol. Bydd yn newid ar ôl i'r Senedd graffu arni.

Cynllun Datblygu Strategol: Dull gweithredu rhanbarthol

Ledled rhanbarth y Gogledd ceir amrywiaeth o faterion strategol. Mae i lawer o'r materion hyn ddimensiynau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol a chânt eu cyflawni drwy gydweithredu ar bob lefel.

Dylai tai, twf economaidd a seilwaith cysylltedd digidol a thrafnidiaeth gael eu cydlynu a'u cynllunio ar lefel rhanbarth cyfan. Dylai'r angen i reoli adnoddau naturiol, llifogydd a diogelu a gwella ardaloedd o bwysigrwydd amgylcheddol a thirweddol, lywio penderfyniadau strategol ynghylch lleoliadau ar gyfer twf a seilwaith newydd. Dylai datgarboneiddio ac ymateb i fygythiadau newid yn yr hinsawdd fod wrth wraidd unrhyw waith cynllunio rhanbarthol.


Dylid gwneud penderfyniadau clir ynghylch maint a lleoliad twf drwy lunio Cynllun Datblygu Strategol er mwyn sicrhau bod pob rhan o'r rhanbarth yn cydweithio i gyflawni nodau'r rhanbarth. Dylai Cynllun Datblygu Strategol ganolbwyntio ar symud pobl ar draws y rhanbarth a chefnogi dull integredig o gynllunio defnydd tir a thrafnidiaeth yn strategol. Dylai penderfyniadau lleoli allweddol gan gynnwys rhai ar ganolfannau cyflogaeth, twf tai strategol a gwasanaethau ganolbwyntio ar y lleoliadau mwyaf cynaliadwy a hygyrch a cheisio mynd i'r afael â thagfeydd, lleihau lefelau cymudo yn y car a gwella ansawdd aer.

Dylai'r rhanbarth gydweithio i ystyried y cysylltiadau â'r Canolbarth, Iwerddon, Gorllewin Swydd Gaer a Chaer a Gogledd-orllewin Lloegr. Bydd hyrwyddo hygyrchedd a rhyng-gysylltiadau rhwng yr ardaloedd hyn, yn seiliedig ar ddealltwriaeth o'u rolau a'u swyddogaethau, yn sicrhau eu bod yn gweithredu fel un ardal gydlynus ac nad ydynt yn cystadlu â'i gilydd nac yn gwneud penderfyniadau strategol ar eu pen eu hunain.

Dylid gwneud penderfyniadau clir ynghylch maint a lleoliad twf drwy lunio Cynllun Datblygu Strategol.

Lluniwyd y ddogfen hon ym mis Medi 2020 i helpu'r Senedd i graffu ar y FfDC. Mae'n fersiwn weithredol ac nid yw'n derfynol. Bydd yn newid ar ôl i'r Senedd graffu arni.

Diagram rhanbarthol strategol



- Ardal Dwf Genedlaethol
- Ardal Dwf Ranbarthol
- Cysylltedd Rhyngwladol
- Porthladdoedd
- Cysylltedd Cenedlaethol
- Llain Las
- Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol
- Parciau Cenedlaethol
- Ynys Ynni Môn, gan gynnwys Wylfa Newydd
- Trawsfynydd
- Metro Gogledd Cymru
- Ardaloedd wedi'u rhag-asesu ar gyfer ynni'r gwynt
- Prifysgol

Twf Cenedlaethol

Polisi 20 – Ardal Dwf Genedlaethol – Wrecsam a Glannau Dyfrdwy

Wrecsam a Glannau Dyfrdwy fydd prif ffocws twf a buddsoddi yn rhanbarth y Gogledd.

Rhaid i Gynlluniau Datblygu Strategol a Lleol ledled y rhanbarth gydnabod yr Ardal Dwf Genedlaethol fel y ffocws ar gyfer twf strategol yr economi a thai; gwasanaethau a chyfleusterau hanfodol; gweithgynhyrchu uwch a seilwaith trafnidiaeth.

Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda chyrff rhanbarthol ac awdurdodau lleol yn y rhanbarth a rhanbarthau cyfagos Lloegr i hyrwyddo a gwella rôl strategol Wrecsam a Glannau Dyfrdwy a sicrhau bod penderfyniadau buddsoddi allweddol yn cefnogi lleoedd yn yr Ardal Dwf Genedlaethol a'r rhanbarth ehangach.

Polisi 1 yw'r prif fframwaith ar gyfer pennu ffocws gwaith datblygu a thwf ym mhob rhanbarth. Yn unol â strategaeth ofodol Cymru'r Dyfodol, dylid canolbwyntio twf yn rhanbarth y Gogledd ar y prif ardaloedd adeiledig sy'n bodoli eisoes yn Wrecsam a Glannau Dyfrdwy. Mae'r Ardal Dwf Genedlaethol yn cynnwys Wrecsam ac Ystad Ddiwydiannol Wrecsam, Brychdwn, Bwcle, Glannau Dyfrdwy a Pharc Diwydiannol Glannau Dyfrdwy.

Ardal Wrecsam a Glannau Dyfrdwy yw prif ganolfan poblogaeth, cyflogaeth a gwasanaethau'r rhanbarth ac fe'i gwasanaethir gan y prif seilwaith cysylltedd. Yn unol â pholisi 19, rhaid i Gynllun Datblygu Strategol sicrhau bod y rhanbarth yn rheoli twf mewn ffordd gynlluniedig a chydgysylltiedig er mwyn cefnogi anghenion yr Ardaloedd Twf Cenedlaethol a Rhanbarth a'r rhanbarth ehangach. Dylai penderfyniadau strategol ynghylch lleoliad gwasanaethau a seilwaith allweddol gefnogi aneddiadau sy'n bodoli eisoes a chael eu gwneud ar lefel ranbarthol, gan sicrhau eu bod wedi'u lleoli yn y lleoedd mwyaf hygyrch a chynaliadwy a'u bod yn cefnogi camau gweithredu i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb ac amddifadedd ac yn gwella cysylltiadau â rhanbarthau cyfagos.

Noda polisi 7 y dull strategol cenedlaethol o gyflawni tai fforddiadwy ac mae'n gwneud yn siwr bod ffocws polisïau cyllid a thai ar sicrhau mwy o ddarpariaeth. Mae cynllunio a chydgysylltu'r gwaith o gyflawni tai newydd i ddiwallu anghenion a nodwyd yn dasg bwysig i'r broses cynllunio rhanbarthol. O dan amcangyfrifon canolog Llywodraeth Cymru, mae angen 16,200 o gartrefi ychwanegol yn y rhanbarth tan 2039 a thros y pum mlynedd cychwynnol (2019/20 i 2023/24) dylai 53% o'r cartrefi ychwanegol sydd eu hangen fod yn gartrefi fforddiadwy. Mae'r amcangyfrifon hyn yn darparu rhan o'r dystiolaeth a'r cyd-destun y gellir seilio gofynion tai ar gyfer Cynlluniau Datblygu Strategol arnynt a dylid eu hystyried ar lefel ranbarthol. Bydd deall a rheoli pwysau datblygu gwahanol ledled y rhanbarth yn fater allweddol i Gynlluniau Datblygu Strategol. Mae'n rhaid ystyried materion tai strategol ar lefel ranbarthol ac nid ar sail dyheadau awdurdodau cynllunio lleol unigol.

Lluniwyd y ddogfen hon ym mis Medi 2020 i helpu'r Senedd i graffu ar y FfDC. Mae'n fersiwn weithredol ac nid yw'n derfynol. Bydd yn newid ar ôl i'r Senedd graffu arni.



Lluniwyd y ddogfen hon ym mis Medi 2020 i helpu'r Senedd i graffu ar y FfDC. Mae'n fersiwn weithredol ac nid yw'n derfynol. Bydd yn newid ar ôl i'r Senedd graffu arni.

Gwasgariad y boblogaeth yng Ngogledd Cymru yn ôl oed a rhyw, 2018



Lluniwyd y ddogfen hon ym mis Medi 2020 i helpu'r Senedd i graffu ar y FfDC. Mae'n fersiwn weithredol ac nid yw'n derfynol. Bydd yn newid ar ôl i'r Senedd graffu arni.

Twf Rhanbarthol

Polisi 21 – Ardal Dwf Ranbarthol – Aneddiadau Arfordirol Gogledd Cymru

Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi twf ac adfywio cynaliadwy mewn trefi rhanbarthol bwysig ar hyd arfordir y Gogledd. Bydd Caergybi, Caernarfon, Bangor, Llandudno, Bae Colwyn, y Rhyl a Phrestatyn yn ffocws twf a reolir ac mae ganddynt rôl is-ranbarthol bwysig yn ategu Ardal Dwf Genedlaethol Wrecsam a Glannau Dyfrdwy.

Dylai Cynlluniau Datblygu Strategol a Lleol gydnabod y rolau y mae'r lleoedd hyn yn eu chwarae fel ffocws ar gyfer tai, cyflogaeth, twristiaeth, trafnidiaeth gyhoeddus a gwasanaethau allweddol yn eu hardaloedd ehangach a chefnogi eu swyddogaeth barhaus fel canolbwyntiau ar gyfer twf isranbarthol.


Mae'r rhan fwyaf o boblogaeth rhanbarth y Gogledd yn byw ger yr arfordir. Mae'r arc o drefi mawr – a dinas – o Gaergybi yn y gorllewin i Lannau Dyfrdwy yn y dwyrain yn cynnwys Caernarfon, Bangor, Llandudno, Bae Colwyn, y Rhyl a Phrestatyn. Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i'r ardaloedd adeiledig yn yr arc hon barhau i chwarae rôl ganolog yn y rhanbarth. Bydd gwaith datblygu yn y trefi hyn yn sicrhau eu bod yn parhau i ddarparu swyddi; cyfleoedd hamdden a manwerthu a chyfleoedd diwylliannol; a gwasanaethau addysg ac iechyd, a gwasanaethau cyhoeddus eraill. Mae'n bwysig bod y coridor yn cadw ei swyddogaethau rhanbarthol ac yn mabwysiadu dull gweithredu seiliedig ar dwf a reolir sy'n ei gwneud yn bosibl i'r holl rolau hyn gael eu hymestyn. Mae cefnogaeth gref i gyfleoedd adfywio yn y coridor hwn.

Bydd polisïau 2, 3, 6 ac 8 yn sicrhau bod gwaith datblygu yn nhrefi a dinasoedd y rhanbarth yn cael ei leoli'n gynaliadwy mewn ardaloedd sydd â mynediad da i drafnidiaeth gyhoeddus lle gellir lleihau'r ddibyniaeth ar y car. Cefnogir cyfleoedd i ddefnyddio tir cyhoeddus i ddangos arweinyddiaeth drwy greu lleoedd yn gryf.

Y tu hwnt i brif drefi'r Gogledd, bydd polisïau 4 a 5 yn helpu i sicrhau bod ardaloedd gwledig y rhanbarth yn tyfu mewn ffordd briodol, gan gefnogi economïau a gwasanaethau gwledig. Yn unol â pholisi 4, cred Llywodraeth Cymru mai ar cynllunio ar lefel ranbarthol a lleol sydd orau yn y dyfodol ar gyfer ardaloedd gwledig. Bydd Cynlluniau Datblygu Strategol a Lleol yn cynllunio'n gadarnhaol ar gyfer y cymunedau gwledig yn y rhanbarth ac yn ystyried y cydbwysedd i'w daro rhwng canolbwyntio gwaith datblygu yn y prif ardaloedd trefol adeiledig a'r ardaloedd gwledig. Ymdrinnir â bylchau mewn cysylltedd digidol neu symudol drwy bolisïau 13 a 14 er mwyn sicrhau bod gwasanaethau yn cael eu gwella.

Bydd y Fframwaith Economaidd Rhanbarthol, a gaiff ei lunio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol, cymunedau, busnesau a rhanddeiliaid allweddol, yn nodi'r blaenoriaethau ar gyfer datblygu economaidd rhanbarthol yn y dyfodol. Mae gan y system gynllunio, drwy ei Chynlluniau Datblygu Strategol a Lleol a'r penderfyniadau a wna, rôl bwysig i'r chwarae wrth greu'r lleoedd sy'n cefnogi ac yn atgyfnerthu'r economi ranbarthol.

Lluniwyd y ddogfen hon ym mis Medi 2020 i helpu'r Senedd i graffu ar y FfDC. Mae'n fersiwn weithredol ac nid yw'n derfynol. Bydd yn newid ar ôl i'r Senedd graffu arni.



Ffynhonnell: Amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Dylai'r Cynllun Datblygu Strategol gael ei lywio gan Fargen Twf Gogledd Cymru a hwyluso'r gwaith o'i chyflawni a sicrhau cymorth i greu rhanbarth deallus, cadarn a chysylltiedig. Bydd yn darparu fframwaith ar gyfer gwneud y penderfyniadau lleoli strategol a fydd yn helpu i gyflawni uchelgeisiau hirdymor y Fargen Twf mewn perthynas â thai, twf economaidd, gwasanaethau allweddol a seilwaith hanfodol. Dylai'r Cynllun Datblygu Strategol hefyd ystyried pwysigrwydd sectorau economaidd allweddol ledled y rhanbarth.

Mae Llywodraeth Cymru yn gryf o blaid datblygu'r economi sylfaenol yn y rhanbarth. Mae'r economi sylfaenol yn cynrychioli'r rhannau hynny o'r economi sy'n annatod i lesiant lleoedd, cymunedau a phobl, ac sy'n diwallu anghenion beunyddiol pobl. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i gefnogi economïau lleol a rhanbarthol cadarnach ac yn cefnogi twf busnesau a chyfleoedd cyflogaeth newydd. Dylai Cynlluniau Datblygu Strategol a Lleol nodi rôl yr economi sylfaenol, ystyried sut y gall y system cynllunio defnydd tir ei chefnogi a datblygu polisïau priodol. Ymhlith y rhannau o'r economi sylfaenol y gall y system gynllunio eu cefnogi mae mentrau adfywio, iechyd a gofal cymdeithasol, tai cymdeithasol, twristiaeth a chamau i annog mwy o fanteision cymunedol yn sgil datblygiadau newydd.

Mae twristiaeth yn sector pwysig i'r economi ledled y Gogledd. Dylid cefnogi cyfleoedd i gefnogi cyrchfannau ac atyniadau arfordirol a chyfleusterau awyr agored a hamdden newydd. Mae'r gwaith o ailddatblygu hen safleoedd diwydiannol ledled y Gogledd ar gyfer gweithgareddau adrenalin, gan gynnwys weirenni gwib, trampolinio a syrffio, yn dangos y potensial i adeiladu ar dreftadaeth gyfoethog y rhanbarth a datblygu atyniadau newydd. Dylai Cynlluniau Datblygu Strategol a Lleol ystyried ardaloedd twristiaeth sy'n bodoli eisoes a rhai newydd posibl, y math o ymwelwyr a ddenir ganddynt a'r seilwaith sydd ei angen i gefnogi twf.

Mae'r prifysgolion ym Mangor a Wrecsam yn bresenoldeb pwysig yn y rhanbarth, gan ddarparu addysg bellach, gwneud ymchwil a chefnogi arloesedd, darparu swyddi, denu myfyrwyr a chefnogi'r busnesau lleol a'r cymunedau o'u hamgylch. Dylai Cynlluniau Datblygu Strategol a Lleol ystyried eu rôl yn y rhanbarth a sut y gallant chwarae rôl amlycach wrth gefnogi'r economi ranbarthol, arloesedd a'u cymunedau.

Dylai'r Cynllun Datblygu Strategol geisio manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd sy'n deillio o fuddsoddi mewn sectorau gweithgynhyrchu uchel ei werth. Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi datblygiadau megis yr Athrofa Ymchwil Gweithgynhyrchu Uwch ym Mrychdwn, sy'n fenter gydweithredol rhwng Canolfan Ymchwil Gweithgynhyrchu Uwch Prifysgol Sheffield, Bwrdd Cynghori Ardal Fenter Glannau Dyfrdwy, Prifysgol Abertawe a Choleg Cambria. Mae'n cefnogi cwmni Airbus a chwmnïau arloesol eraill ac yn canolbwyntio ar ymchwil a datblygu ym maes technegau gweithgynhyrchu uwch a datblygu sgiliau ar gyfer y sector gweithgynhyrchu uchel ei werth, y sector awyrofod, y sector modurol, y sector niwclear a'r sector bwyd.

Mae Llywodraeth Cymru am weld bioamrywiaeth yn gwella ac ecosystemau yn dod yn fwy cadarn ar draws y rhanbarth. Amlinella polisïau 9 a 15 y dull strategol cenedlaethol a byddant yn sicrhau y cymerir camau i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd, gwrthdroi dirywiad mewn bioamrywiaeth a sicrhau llesiant cymunedau. Mae'r polisïau hyn yn gofyn am ystyried y math o gamau y mae angen eu cymryd ar lefelau rhanbarthol a lleol a sut y gellir hwyluso hyn drwy Gynlluniau Datblygu Strategol a Lleol.

Mae sawl mantais i gymunedau a busnesau, yn ogystal â byd natur ei hun, o fuddsoddi mewn creu rhwydweithiau ecolegol cadarn a seilwaith gwyrdd. Mae angen cymryd camau i wella cadernid ym mhob rhan o'r rhanbarth a bydd dulliau penodol yn amrywio, yn dibynnu ar natur y lleoliad a'r cyfleoedd i sicrhau mwy o gadernid. Lle ceir blaenoriaethau croes bydd angen

Lluniwyd y ddogfen hon ym mis Medi 2020 i helpu'r Senedd i graffu ar y FfDC. Mae'n fersiwn weithredol ac nid yw'n derfynol. Bydd yn newid ar ôl i'r Senedd graffu arni.

ystyried y rhain a'u datrys yn rhanbarthol ac yn lleol. Rhaid i bolisïau 2, 3, 4 a 5 ategu polisïau 9 a 15.

Mewn ardaloedd trefol, gan gynnwys Ardal Dwf Genedlaethol Wrecsam a Glannau Dyfrdwy ac yn yr Ardal Dwf Ranbarthol, rhaid i'r gwaith o wella (mantais net) bioamrywiaeth a darparu seilwaith gwyrdd lywio strategaethau twf a chael ei integreiddio'n llawn fel rhan o ddatrysiadau lleoliad a dyluniad ar gyfer datblygiad arfaethedig. Gall polisïau 11 a 12 ddarparu cyfleoedd i greu coridorau seilwaith gwyrdd ac mewn lleoliadau arfordirol, gan gynnwys Glannau Dyfrdwy, rhaid ystyried atebion yn seiliedig ar natur fel rhan o gynlluniau arfaethedig i reoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol.

Ar sail y map dangosol ym mholisi 9, ardaloedd ucheldir yn y gogledd a'r gogledd-orllewin, gan gynnwys Parc Cenedlaethol Eryri, a'r de-ddwyrain sy'n cynnwys y rhwydweithiau ecolegol mwyaf cadarn, ond nid yw hyn yn golygu eu bod mor gadarn ag y dylent fod. Mae ardaloedd iseldir yn llai cadarn ac yn dueddol o fod yn destun gwahanol fathau o bwysau amaethyddol a datblygu sy'n aml yn cyd-fynd â'r risg o orlifo ac erydu arfordirol ar hyd arfordir y Gogledd ac mewn dyffrynnoedd afonydd isel.

Mae polisi 9 yn ei gwneud yn ofynnol i wella ac ehangu rhwydweithiau presennol. Yn yr un modd, rhaid nodi cyfleoedd i ddiogelu a chreu rhwydweithiau cadarn, a'r gwasanaethau ecosystem maent yn dibynnu arnynt, a'r manteision niferus sy'n deillio o seilwaith gwyrdd lle nad yw hyn yn wir ar hyn o bryd. Mae hyn yn cynnwys ystyried rôl tirweddau gwarchodedig a dynodiadau cadwraeth natur. Mae polisïau 9 a 15 yn cydweithio â pholisïau 4 a 5 er mwyn ei gwneud yn ofynnol i ystyried y cydberthnasau rhwng pob math o ddefnydd tir a rheoli tir yn llawnach er mwyn mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd, gwrthdroi dirywiad mewn bioamrywiaeth a galluogi cymunedau i gael budd o fathau mwy cynaliadwy o reoli adnoddau naturiol.


Mae hyn yn arbennig o wir mewn rhannau mawr o ardaloedd gwledig y rhanbarth.


Mae llifogydd o afonydd a'r môr yn broblem fawr ledled y rhanbarth. Mae'r Ardaloedd Twf yn rhai arfordirol yn bennaf, felly maent yn wynebu mwy o berygl llifogydd o ganlyniad i lefelau morol yn codi. Mae seilwaith trafnidiaeth hanfodol sy'n cysylltu'r rhanbarth ei hun, ac yn cysylltu'r rhanbarth â Gogledd-orllewin Lloegr ac Iwerddon, yn agored i lifogydd o'r môr mewn rhai mannau. Mae seilwaith rheoli perygl llifogydd helaeth eisoes ar waith yn y rhanbarth er mwyn diogelu cartrefi a gwasanaethau, ond mae llawer o ardaloedd yn dal i fod mewn perygl, gan gynnwys lleoedd ger afonydd Dyfrdwy, Clwyd a Chonwy. Bydd i'r potensial am lifogydd ger Wrecsam, Glannau Dyfrdwy, ac ar hyd arfordir y gogledd, oblygiadau i gyflawni twf yn y rhanbarth. Amlinella polisi 8 y dull strategol cenedlaethol o reoli perygl llifogydd a bydd yn sicrhau bod dyheadau o ran twf mewn Ardaloedd Twf Cenedlaethol a Rhanbarthol yn cael eu cydgysylltu â phenderfyniadau strategol ar reoli perygl llifogydd.

Mae'n hanfodol bod y rhanbarth yn cyfrannu at ddatgarboneiddio cymdeithas ac yn helpu i wireddu'r weledigaeth ar gyfer ynni adnewyddadwy. Mae polisïau 17 a 18 yn amlinellu dull Cymru'r Dyfodol o gynhychu ynni adnewyddadwy ledled Cymru. Mae cryn botensial ar gyfer cynhyrchu ynni gwynt, ynni morol ac ynni solar a dylai Cynlluniau Datblygu Strategol a Lleol ddarparu fframwaith ar gyfer cynhyrchu ynni adnewyddadwy a seilwaith cysylltiedig. Mae Llywodraeth Cymru am weld cynhyrchu, storio a rheoli ynni yn chwarae rôl yn y gwaith o gefnogi'r economi ranbarthol yn y Gogledd. Mae perchenogaeth a dosbarthu lleol yn bwysig er mwyn sicrhau bod cymunedau sy'n agos at ddatblygiadau ynni adnewyddadwy yn cael budd ohonynt a bod ein system ynni yn y dyfodol yn gwasanaethu Cymru'n well.

Lluniwyd y ddogfen hon ym mis Medi 2020 i helpu'r Senedd i graffu ar y FfDC. Mae'n fersiwn weithredol ac nid yw'n derfynol. Bydd yn newid ar ôl i'r Senedd graffu arni.

Amgylchedd Naturiol Dynodedig yn y Gogledd





Lluniwyd y ddogfen hon ym mis Medi 2020 i helpu'r Senedd i graffu ar y FfDC. Mae'n fersiwn weithredol ac nid yw'n derfynol. Bydd yn newid ar ôl i'r Senedd graffu arni.

Rheoli Twf

Polisi 22 – Lleiniau Glas yn y Gogledd

Mae Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cynllun Datblygu Strategol nodi llain las o amgylch Wrecsam a Glannau Dyfrdwy er mwyn rheoli ffurf a thwf trefol.

Rhaid i'r Cynllun Datblygu Strategol ystyried perthynas y lleiniau glas â'r llain las yng Ngorllewin Swydd Gaer a Chaer. Ni ddylai Cynlluniau Datblygu Lleol a phenderfyniadau rheoli datblygu ganiatáu datblygiadau mawr yn yr ardaloedd a ddangosir fel lleiniau glas posibl, ar wahân i mewn amgylchiadau eithriadol iawn, nes bod yr angen am leiniau glas a'u ffiniau wedi cael eu sefydlu gan Gynllun Datblygu Strategol wedi'i fabwysiadu.

Mae'r gydberthynas agos rhwng y Gogledd-ddwyrain a Gorllewin Swydd Gaer a Chaer a'r llain las fawr sydd wrth ymyl ffiniau gweinyddol Wrecsam a Sir y Fflint yn golygu y daw pwysau datblygu hirdymor yn hannu o du Lloegr i ranbarth y Gogledd. Mae'r agosatrwydd at ranbarth poblog mawr yn Lloegr yn cynnig cyfleoedd a all gefnogi'r Gogledd, ond rhaid rheoli'r cyfleoedd hyn yn strategol ac yn rhanbarthol.

Dylai penderfyniadau strategol ynghylch lleoliad gwaith datblygu, gwasanaethau a seilwaith allweddol gefnogi ardaloedd adeiledig sy'n bodoli eisoes a chael eu gwneud ar lefel ranbarthol, gan sicrhau eu bod wedi'u lleoli yn y lleoedd mwyaf hygyrch a chynaliadwy, eu bod yn cefnogi camau gweithredu i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb ac amddifadedd a'u bod yn gwella cysylltiadau ag ardaloedd cyfagos yn Lloegr. Mae Polisi Cynllunio Cymru yn nodi'r cyd-destun polisi ar gyfer sefydlu lleiniau glas.

Mae gan y Gogledd ardaloedd gwledig eang a chymunedau gwledig hirsefydledig. Dylai'r Cynllun Datblygu Strategol ar gyfer y rhanbarth ystyried y cydbwysedd i'w daro rhwng canolbwyntio gwaith datblygu yn y prif ardaloedd trefol adeiledig a'r ardaloedd gwledig. Gall penderfyniadau ynghylch darparu gwasanaethau allweddol gael effaith fawr ar fywydau beunyddiol pobl, yn enwedig y rhai llai symudol, ac mae'n hanfodol bod y penderfyniadau hyn yn cael eu gwneud ar sail dealltwriaeth glir o'u heffeithiau. Yn ogystal ag ysgolion a chyfleusterau iechyd, gall mynediad at wasanaethau fel banciau, swyddfeydd post, llyfrgelloedd a siopau gael effaith wirioneddol ar fywydau beunyddiol pobl mewn ardaloedd gwledig.

Dylai Cynlluniau Datblygu Strategol a Lleol ystyried effeithiau newid yn y boblogaeth a heneiddio ar eu cymunedau gwledig.

Mae'r problemau cymdeithasol sydd y tu ôl i'r newidiadau hyn yn ehangach na'r system gynllunio, ac nid hawdd mynd i'r afael â'r heriau hyn. Mae Llywodraeth Cymru am weld Cynlluniau Datblygu Lleol yn y rhanbarth yn chwarae rôl ganolog wrth lywio'r ffordd y gall cymunedau gwledig gynnal eu hunain. Dylai Cynlluniau Datblygu Lleol geisio cefnogi twf a datblygiadau priodol mewn trefi a phentrefi gwledig. Mae hyn yn cynnwys tai'r farchnad a thai fforddiadwy, cyflogaeth a darparu gwasanaethau. Dylai Cynlluniau Datblygu Lleol gefnogi a chydgysylltu eu penderfyniadau â rhai gwneuthurwyr polisïau economaidd, a darparwyr gwasanaethau iechyd ac addysg, a darparwyr gwasanaethau hanfodol eraill. Dylent ystyried anghenion yr holl drigolion, gan gynnwys pobl hŷn a phobl ag anableddau a sicrhau yr ystyrir darparu tai arbenigol ac y cynllunnir ar gyfer hynny.

Lluniwyd y ddogfen hon ym mis Medi 2020 i helpu'r Senedd i graffu ar y FfDC. Mae'n fersiwn weithredol ac nid yw'n derfynol. Bydd yn newid ar ôl i'r Senedd graffu arni.

Mae rheoli adnoddau hanesyddol a naturiol eithriadol y Mae rheoli adnoddau hanesyddol a naturiol eithriadol y Gogledd yn flaenoriaeth i'r rhanbarth. Mae mannau rhagorol yn cynnwys yr arfordir a Phen Llŷn, Parc Cenedlaethol Eryri, Bryniau Clwyd ac Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Dyffryn Dyfrdwy; a Thraphont Ddŵr a Chamlas Pontcysyllte a Safle Treftadaeth y Byd Cestyll a Muriau'r Brenin Edward.

Dylent gael eu diogelu er mwynhad cenedlaethau'r dyfodol a dylent helpu i ddarparu manteision economaidd i gymunedau'r rhanbarth. Dylai treftadaeth unigryw'r rhanbarth gael ei diogelu a'i gwella gan ddatblygiadau o ansawdd uchel.

Mae poblogaeth ddwys y rhanbarth, ei dwf hanesyddol a'i dwf yn y dyfodol a'r ffaith ei fod yn agos at farchnadoedd yng Ngogledd-orllewin Lloegr yn golygu ei fod yn defnyddio llawer o ddeunyddiau ac adnoddau naturiol. Mae'n hanfodol bod y rhanbarth yn gwneud y defnydd gorau o adnoddau materol ac yn hyrwyddo'r defnydd effeithlon o adnoddau a'i fod yn uchelgeisiol wrth gefnogi ffyrdd arloesol o hyrwyddo economi gylchol.

O fewn y rhanbarth mae tywod a graean a gafwyd yn bennaf o Wrecsam a Sir y Fflint, ac agregau cerrig mân o Sir y Fflint, yn gwasanaethu marchnadoedd lleol a Gogledd-orllewin Lloegr. Er bod dyddodion tebyg i'w cael yng Ngogledd-orllewin Cymru, yn enwedig yng Ngwynedd, nid ydynt mewn sefyllfa cystal i gyflenwi'r prif farchnadoedd ac, felly, mae gweithgarwch cynhyrchu yn fwy cyfyngedig. Mae Conwy a Sir Ddinbych yn chwarae rôl bwysig wrth ddarparu calchfaen ar gyfer datblygiadau a phrosiectau seilwaith ar hyd arfordir y gogledd. Cyfyngir ar gloddio am agregau llechi i raddau helaeth gan ddynodiadau'r Parc Cenedlaethol a'r Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol a, lle y cânt eu hechdynnu, fe'u defnyddir fel arfer yn lleol neu ar gyfer datblygiadau uchel eu gwerth ymhellach i ffwrdd.





Lluniwyd y ddogfen hon ym mis Medi 2020 i helpu'r Senedd i graffu ar y FfDC. Mae'n fersiwn weithredol ac nid yw'n derfynol. Bydd yn newid ar ôl i'r Senedd graffu arni.



Lluniwyd y ddogfen hon ym mis Medi 2020 i helpu'r Senedd i graffu ar y FfDC. Mae'n fersiwn weithredol ac nid yw'n derfynol. Bydd yn newid ar ôl i'r Senedd graffu arni.

Cefnogi Twf

Polisi 23 – Metro'r Gogledd

Mae Llywodraeth Cymru o blaid datblygu Metro'r Gogledd a bydd yn gweithio gyda Trafnidiaeth Cymru, awdurdodau lleol a phartneriaid eraill er mwyn sicrhau y caiff ei gyflawni ac yr achubir ar gyfleoedd cysylltiedig.

Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag awdurdodau lleol a rhanbarthol yn y Gogledd a Gogledd-orllewin Lloegr er mwyn sicrhau bod y Metro a buddsoddiadau ehangach mewn trafnidiaeth yn atgyfnerthu cysylltiadau trafnidiaeth ar draws y ffin â chysylltiadau trafnidiaeth gwell rhwng y Gogledd, Caer, Lerpwl a Manceinion.

Rhaid i Gynlluniau Datblygu Strategol a Lleol gefnogi Metro'r Gogledd. Dylai awdurdodau cynllunio gynllunio ar gyfer twf ac adfywio er mwyn achub ar y cyfleoedd sy'n deillio o well cysylltedd rhanbarthol ac ar draws y ffin, gan gynnwys nodi cyfleoedd am ddatblygiadau dwysedd uwch, defnydd cymysg a di-gar o amgylch gorsafoedd metro newydd a gwell.


Ledled Cymru a'r rhanbarthau, mae Llywodraeth Cymru am weld gwaith datblygu yn digwydd mewn lleoliadau cynaliadwy, wedi'i gefnogi gan seilwaith a gwasanaethau teithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus i alluogi pobl i fyw bywydau iach ac actif. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod lefelau llygredd aer a sŵn yn cael eu gostwng neu eu gwneud mor fach â phosibl o leiaf. Y nod yw lleihau'r angen i deithio, yn enwedig mewn cerbydau preifat, a chefnogi newid dulliau teithio i gerdded, beicio a defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus. Amlinella polisïau 11 a 12 y dull strategol o sicrhau cysylltedd cenedlaethol a rhanbarthol a sut y bydd Llywodraeth Cymru yn cefnogi ac yn buddsoddi mewn gwelliannau i deithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus.

Yn rhanbarth y Gogledd, mae seilwaith a gwasanaethau rheilffyrdd yn greiddiol i rwydwaith trafnidiaeth effeithiol ac effeithlon, ac yn ganolog i wella cysylltedd rhanbarthol a chenedlaethol. Mae Metro'r Gogledd yn cynnig cyfle i wella hygyrchedd ledled y rhanbarth ac fe'i cefnogir gan Lywodraeth Cymru. Mae cydberthnasau swyddogaethol cryf rhwng aneddiadau yn y Gogledd a Gogledd-orllewin Lloegr, gyda phobl yn teithio bob dydd i'r ddau gyfeiriad er mwyn mynd i'r gwaith a defnyddio gwasanaethau a chyfleusterau.

Bydd y Metro yn ei gwneud hi'n haws ac yn gyflymach i deithio rhwng arfordir y gogledd, Wrecsam, Glannau Dyfrdwy a Gogledd-orllewin Lloegr. Bydd yn cynnig cyfleoedd ledled y rhanbarth ac mae'n rhan hanfodol o weledigaeth Llywodraeth Cymru i ddatblygu economi'r rhanbarth a chysylltiadau â Phwerdy Gogledd Lloegr.

Bydd hwyluso mynediad i'r Metro drwy deithio llesol yn gwneud cyfraniad pwysig i newid dulliau teithio o'r car i drafnidiaeth gyhoeddus ar lefel ranbarthol. Er mwyn cyflawni hyn bydd angen llwybrau teithio llesol o ansawdd uchel sy'n cysylltu cymdogaethau a chyrchfannau teithio â gorsafoedd metro. Hefyd, bydd yn hanfodol darparu lleoedd parcio beic diogel o ansawdd uchel wrth gyfnewidfeydd.


Lluniwyd y ddogfen hon ym mis Medi 2020 i helpu'r Senedd i graffu ar y FfDC. Mae'n fersiwn weithredol ac nid yw'n derfynol. Bydd yn newid ar ôl i'r Senedd graffu arni.


YNYS MÔN
CONWY
SIR Y FFLINT
SIR DDINBYCH
WRECSAM
GWYNEDD
Newid yn y boblogaeth am i bobl gymudo i mewn ac allan i weithio, yn ôl awdurdod lleol (2018)
-15,001 neu'n llai
-15,000 i -5,001
-5,000 i -1
0 i 2,499
2,500 neu'n fwy
Ffynhonnell: Arolwg blynyddol o'r boblogaeth, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Yn unol â pholisi 19, mae'n rhaid i Gynlluniau Datblygu Strategol sicrhau bod penderfyniadau strategol hirdymor yn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd mewn ardaloedd a fydd yn cael budd o well hygyrchedd a mwy o fuddsoddiad mewn gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus. Dylai Cynlluniau Datblygu Strategol a Lleol fod yn hyderus wrth geisio cysoni meysydd lle mae angen â meysydd lle mae cyfle, gan gynnwys pan fo'r meysydd lle mae cyfle ar draws y ffin a bod y buddsoddiad a'r camau gweithredu canlyniadol yn canolbwyntio ar wella'r cysylltiadau rhwng cymunedau yng Nghymru a chyfleoedd economaidd yn Lloegr. Lle y nodir coridorau cysylltedd rhwng y rhanbarth a Lloegr, rhaid ymchwilio i'r posibilrwydd o droi'r coridorau hyn yn seilwaith gwyrdd.



Y pellter cyfartalog a deithiwyd i'r gwaith (km) gan weithwyr 16–74 oed yn 2011, yn ôl awdurdod preswyl lleol





Lluniwyd y ddogfen hon ym mis Medi 2020 i helpu'r Senedd i graffu ar y FfDC. Mae'n fersiwn weithredol ac nid yw'n derfynol. Bydd yn newid ar ôl i'r Senedd graffu arni.

Polisi 24 – Gogledd-orllewin Cymru ac Ynni

Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi Gogledd-orllewin Cymru fel lleoliad ar gyfer datblygiadau ynni newydd a buddsoddiad. Cefnogir datblygiadau arfaethedig sy'n gysylltiedig â Rhaglen Ynys Ynni Môn, Wylfa Newydd a Thrawsfynydd mewn egwyddor fel dull o greu buddiannau economaidd sylweddol i'r ardal yn ogystal â chynhyrchu ynni adnewyddadwy neu garbon isel.

Dylai datblygiadau ynni newydd yn y rhanbarth gefnogi cymunedau lleol a rhanbarthol; darparu swyddi a sicrhau buddsoddiad mewn hyfforddiant a sgiliau; a gweithio gyda phrifysgolion a busnesau ledled y rhanbarth a Gogledd-orllewin Lloegr i gydgysylltu buddsoddiad newydd a manteisio i'r eithaf arno er mwyn cefnogi'r rhanbarth ehangach.

Wrth benderfynu ar unrhyw geisiadau am orsafoedd ynni niwclear yn y rhanbarth hwn, dylid ystyried yr angen am ragor o gapasiti cynhyrchu ynni carbon isel, eu cyfraniad at gymysgedd a sicrwydd ynni'r DU, y manteision economaidd y byddent yn eu sicrhau i'r rhanbarth a'u heffeithiau ar yr amgylchedd naturiol a hanesyddol.

Cefnogir datblygiadau ar y tir sy'n gysylltiedig â phrosiectau ynni adnewyddadwy ar y môr mewn egwyddor.

Rhanbarth unigryw

Mae gan y system gynllunio rôl bwysig i'w chwarae wrth gefnogi ynni adnewyddadwy a charbon isel a sicrhau bod y Gogledd yn chwarae ei ran wrth ddatgarboneiddio cymdeithas. Mae gan y rhanbarth gryn botensial i gynhyrchu ynni gwynt, solar a morol ac mae ganddo'r potensial i chwarae rôl barhaus wrth gynhyrchu ynni o ynni niwclear. Hefyd mae cyfle ledled y rhanbarth i gynhyrchu hydrogen er mwyn sicrhau capasiti storio ynni a ffynhonnell tanwydd trafnidiaeth ar gyfer coridor yr A55, Porthladd Caergybi a chymunedau gwledig.

Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi menter Arc Niwclear y Gogledd-orllewin sy'n weledigaeth a rennir (â Llywodraeth y DU, prifysgolion a'r Labordy Niwclear Cenedlaethol) i sicrhau'r effeithiau cadarnhaol y gallai'r sector niwclear eu cael o ran buddsoddi, sgiliau a hyfforddiant. Mae Rhaglen 'Ynys Ynni Môn' hefyd yn ceisio cydgysylltu camau gweithredu mewn perthynas â datblygiadau ynni newydd er mwyn sicrhau'r manteision mwyaf posibl i'r ardal.

Gallai'r cynllun arfaethedig i adeiladu gorsaf ynni niwclear Wylfa Newydd ddod â manteision sylweddol cyflogaeth a hyfforddiant a manteision economaidd cysylltiedig eraill ledled y rhanbarth cyfan os penderfynir bwrw ymlaen â'r cynllun. Gallai Adweithyddion Modiwlar Bach neu Ddatblygedig (niwclear) hefyd gynhyrchu ynni carbon isel yn y rhanbarth

Mae Trawsfynydd yn safle posibl ar gyfer Adweithydd Modiwlar Bach, gan adeiladu ar y capasiti technegol sector-benodol presennol a'r arbenigedd sydd ar gael yn lleol a chreu parth twf diwydiant niwclear newydd. Mae'r safle mewn sefyllfa unigryw, ac yntau yn hen orsaf ynni niwclear sydd â'r seilwaith a'r sgiliau lleol sydd eu hangen. Lleolir y safle ym Mharc Cenedlaethol Eryri a dylai unrhyw waith datblygu mawr yma ddilyn yr egwyddorion ym Mholisi Cynllunio Cymru. Ar y cam cynllunio manwl, bydd angen ystyried y dyluniad a'r effaith ar amgylchedd a thirwedd y Parc Cenedlaethol, gan gynnwys camau lliniaru posibl.

Gallai manteision economaidd posibl datblygiadau niwclear newydd, yn enwedig o ran creu swyddi uchel eu gwerth, sbarduno datblygu rhanbarthol. Bydd angen pwyso a mesur hyn yn erbyn yr effaith hirdymor y gallai'r datblygiadau mawr hyn eu cael ar ardaloedd sensitif a'r amgylchedd oddi amgylch.

Lluniwyd y ddogfen hon ym mis Medi 2020 i helpu'r Senedd i graffu ar y FfDC. Mae'n fersiwn weithredol ac nid yw'n derfynol. Bydd yn newid ar ôl i'r Senedd graffu arni.



Lluniwyd y ddogfen hon ym mis Medi 2020 i helpu'r Senedd i graffu ar y FfDC. Mae'n fersiwn weithredol ac nid yw'n derfynol. Bydd yn newid ar ôl i'r Senedd graffu arni.




Y CANOLBARTH


Trosolwg

Mae rhanbarth y Canolbarth yn cynnwys **Ceredigion, Powys a'r rhan fwyaf o Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog**, ac mae'n gartref i 205,000 o bobl. Hwn yw rhanbarth mwyaf gwledig Cymru ac mae'n cynnwys ardaloedd helaeth o ucheldir, mynyddoedd Cambria, y Mynydd Du, y Bannau ac arfordir deniadol. Dosberthir y boblogaeth rhwng trefi, pentrefi ac ardaloedd gwledig ledled y rhanbarth.

Nodir y materion rhanbarthol y dylai awdurdodau cynllunio lleol gydweithio i gynllunio ar eu cyfer isod, ochr yn ochr â'r meysydd polisi gofodol y bydd Llywodraeth Cymru yn canolbwyntio arnynt o safbwynt cenedlaethol er mwyn cefnogi rhanbarth y Canolbarth

Gyda **58,954 o siaradwyr Cymraeg** ledled y rhanbarth a chrynoadau o aneddiadau lle y siaredir Cymraeg fel iaith gyntaf llawer o bobl, mae'n bwysig bod Cynlluniau Datblygu Strategol a Lleol yn ystyried y gydberthynas rhwng tai strategol, trafnidiaeth a thwf economaidd, a'r Gymraeg. Dylai Cynlluniau Datblygu Strategol a Lleol gynnwys hierarchaethau aneddiadau a pholisïau dosbarthu twf sy'n creu'r amodau i'r Gymraeg ffynnu a pharhau i fod yn iaith gymunedol yn y lleoedd niferus lle siaredir Cymraeg bob dydd.





Poblogaeth

205,000

Y mwyaf: Powys **132,500**

Y lleiaf: Ceredigion **73,000**

Newid yn y boblogaeth

3.8%

cynnydd o 1998–2018

Y mwyaf: Powys **5.6%**

Y lleiaf: Ceredigion **0.7%**

Iechyd

74%

o bobl 16 oed a throsodd yn dweud bod eu hiechyd cyffredinol yn dda neu'n dda iawn 2017–18 a 2018–19 (wedi'i safoni yn ôl oed)

Y Gymraeg

40.1%

o bobl yn siarad Gymraeg

cynnydd o **6%** ers 2009

Oed

26.3%

o bobl 65 a throsodd

cynnydd o **19.3%** ers 1998

Trafnidiaeth

21.7Km

Pellter teithio i'r gwaith ar gyfartaledd

Lluniwyd y ddogfen hon ym mis Medi 2020 i helpu'r Senedd i graffu ar y FfDC. Mae'n fersiwn weithredol ac nid yw'n derfynol. Bydd yn newid ar ôl i'r Senedd graffu arni.

Cynllun Datblygu Strategol: Dull gweithredu rhanbarthol

Ledled y Canolbarth ceir amrywiaeth o faterion strategol. Mae i lawer o'r materion hyn ddimensiynau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol a chânt eu cyflawni drwy gydweithredu ar bob lefel.

Dylai tai, twf economaidd a seilwaith cysylltedd digidol a thrafnidiaeth gael eu cydlynu a'u cynllunio ar lefel rhanbarth cyfan. Dylai'r angen i reoli adnoddau naturiol a llifogydd a diogelu a gwella ardaloedd o bwysigrwydd amgylcheddol a thirweddol, lywio penderfyniadau strategol ynghylch lleoliadau ar gyfer twf a seilwaith newydd. Dylai datgarboneiddio ac ymateb i fygythiadau newid yn yr hinsawdd fod wrth wraidd unrhyw waith cynllunio rhanbarthol.


Dylid gwneud penderfyniadau clir ynghylch maint a lleoliad twf drwy lunio cynllun datblygu strategol er mwyn sicrhau bod pob rhan o'r rhanbarth yn cydweithio i gyflawni nodau'r rhanbarth. Dylai cynllun datblygu strategol ganolbwyntio ar symud pobl ar draws y rhanbarth a chefnogi dull integredig o gynllunio defnydd tir a thrafnidiaeth yn strategol. Dylai penderfyniadau lleoli allweddol, gan gynnwys rhai ar ganolfannau cyflogaeth, twf tai strategol a gwasanaethau ganolbwyntio ar y lleoliadau mwyaf cynaliadwy a hygyrch a cheisio mynd i'r afael â thagfeydd, lleihau lefelau cymudo yn y car a gwella ansawdd aer.

Dylai'r rhanbarth gydweithio i ystyried y cysylltiadau â rhanbarthau'r Gogledd, y De-orllewin a'r De-ddwyrain, a Chanolbarth Lloegr. Bydd hyrwyddo hygyrchedd a rhyng-gysylltiadau rhwng yr ardaloedd hyn, yn seiliedig ar ddealltwriaeth o'u rolau a'u swyddogaethau, yn sicrhau eu bod yn gweithredu fel un ardal gydlynus ac nad ydynt yn cystadlu â'i gilydd nac yn gwneud penderfyniadau strategol ar eu pen eu hunain.

Dylid gwneud penderfyniadau clir ynghylch maint a lleoliad twf drwy lunio cynllun datblygu strategol.

Lluniwyd y ddogfen hon ym mis Medi 2020 i helpu'r Senedd i graffu ar y FfDC. Mae'n fersiwn weithredol ac nid yw'n derfynol. Bydd yn newid ar ôl i'r Senedd graffu arni.

Diagram rhanbarthol strategol



Ardal Dwf Ranbarthol

Cysylltedd Cenedlaethol

Parc Cenedlaethol

Ardaloedd wedi'u rhag-asesu ar gyfer Ynni Gwynt

Prifysgolion

Lluniwyd y ddogfen hon ym mis Medi 2020 i helpu'r Senedd i graffu ar y FfDC. Mae'n fersiwn weithredol ac nid yw'n derfynol. Bydd yn newid ar ôl i'r Senedd graffu arni.

Twf Rhanbarthol

Polisi 25 – Ardaloedd Twf Rhanbarthol – y Canolbarth

Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi twf a datblygu cynaliadwy mewn cyfres o drefi rhyng-gysylltiedig ledled y rhanbarth. Dylai datblygiadau yn yr Ardaloedd Twf Rhanbarthol hyn ddiwallu anghenion tai a chyflogaeth ac anghenion cymdeithasol rhanbarthol y Canolbarth. Yr Ardaloedd Twf Rhanbarthol yw:

- Dyffryn Teifi, gan gynnwys Aberteifi, Castellnewydd Emlyn, Llandysul a Llanbedr Pont Steffan
- Aberhonddu a'r Gororau
- Calon Cymru, gan gynnwys Llandrindod a Llanfair ym Muallt
- Bro Hafren, gan gynnwys y Trallwng a'r Drenewydd
- Aberystwyth

Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi gwaith datblygu ym mhob rhan o'r rhanbarth er mwyn diwallu anghenion lleol. Bydd Cynlluniau Datblygu Strategol a Lleol yn penderfynu'r lleoliadau mwyaf priodol ar gyfer twf yn y Canolbarth a dylent ddangos sut mae dull gweithredu rhanbarthol wedi llywio penderfyniadau ynghylch twf y dyfodol.


Mae'r Canolbarth yn ardal fawr ac yn ardal wledig yn bennaf, gyda 39% o arwynebedd tir Cymru ond dim ond tua 7% o'r boblogaeth. Mae gan y Canolbarth dreftadaeth ddiwylliannol gref, cyfran uchel o siaradwyr Cymraeg ac fe'i nodweddir gan drefi marchnad ac aneddiadau bach. Mae gan y Canolbarth doreth o asedau naturiol eithriadol o harbyrau a dyfrffyrdd i fynyddoedd a thirweddau dynodedig, sydd i gyd yn cyfrannu at arlwy twristiaeth heb ei ail. Mae daearyddiaeth economi'r Canolbarth yn elfen hanfodol wrth lywio a chefnogi twf rhyngranbarthol ledled Cymru, lle mae asedau naturiol ac academaidd yn cefnogi ymchwil o'r radd flaenaf a chyfleoedd i greu clystyrau diwydiannol newydd.

Mae lefel uchel o symudedd rhwng lleoedd, lle mae pobl yn teithio i gael gafael ar wasanaethau, cyfleusterau a swyddi y tu hwnt i'r man lle maent yn byw. Mae teithiau fel arfer yn hirach na'r rhai a wneir mewn ardaloedd mwy adeiledig a threfol ac maent yn dibynnu ar deithio ar y ffordd yn absenoldeb gwasanaethau bysiau a rheilffyrdd rheolaidd.

Mae angen taro cydbwysedd gofalus rhwng yr hyn y gall aneddiadau unigol yn y rhanbarth ei gynnig a'r hyn y gall fod angen i bobl gael gafael arno mewn ardaloedd cyfagos. Gall penderfyniadau ynghylch darparu gwasanaethau allweddol gael effaith fawr ar fywydau beunyddiol pobl, yn enwedig y rhai llai symudol, ac mae'n hanfodol bod y penderfyniadau hyn yn cael eu gwneud ar sail dealltwriaeth glir o'u heffeithiau. Yn ogystal ag ysgolion a chyfleusterau iechyd, caiff mynediad at wasanaethau fel banciau, swyddfeydd post, llyfrgelloedd a siopau gael effaith wirioneddol ar fywydau beunyddiol pobl mewn ardaloedd gwledig.


Gall newid yn y boblogaeth a phoblogaethau sy'n heneiddio gael effaith ar gydbwysedd cymuned. Mae'r problemau cymdeithasol sydd y tu ôl i'r newidiadau hyn yn ehangach na'r system gynllunio, ac nid hawdd mynd i'r afael â'r heriau hyn. Mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i weld Cynlluniau Datblygu Strategol a Lleol yn y Canolbarth yn chwarae rôl ganolog wrth lywio'r ffordd y gall cymunedau gwledig gynnal eu hunain.

Gwasgariad y boblogaeth yng Nghanolbarth Cymru yn ôl oed a rhyw, 2018



Dylai Cynlluniau Datblygu Lleol geisio cefnogi twf a datblygiadau priodol mewn trefi a phentrefi gwledig. Mae hyn yn cynnwys tai'r farchnad a thai fforddiadwy, cyflogaeth a darparu gwasanaethau. Dylai Cynlluniau Datblygu Lleol gefnogi a chydgysylltu eu penderfyniadau â rhai gwneuthurwyr polisïau economaidd, a darparwyr gwasanaethau iechyd ac addysg, a darparwyr gwasanaethau hanfodol eraill. Dylent ystyried anghenion yr holl drigolion, gan gynnwys pobl hŷn a phobl ag anableddau a sicrhau yr ystyrir darparu tai arbenigol ac y cynllunnir ar gyfer hynny.

Lluniwyd y ddogfen hon ym mis Medi 2020 i helpu'r Senedd i graffu ar y FfDC. Mae'n fersiwn weithredol ac nid yw'n derfynol. Bydd yn newid ar ôl i'r Senedd graffu arni.



Polisi 1 yw'r prif fframwaith ar gyfer pennu ffocws gwaith datblygu a thwf ym mhob rhanbarth. Yn unol â strategaeth ofodol Cymru'r Dyfodol, dylid canolbwyntio twf mewn pum prif ardal ledled y rhanbarth. Maent yn ganolbwyntiau ar gyfer gweithgareddau cymdeithasol ac economaidd y rhanbarth, gydag economi sylfaenol sylweddol. Bydd gwaith datblygu yn yr ardaloedd hyn yn sicrhau eu bod yn parhau i ddarparu swyddi; cyfleoedd hamdden a manwerthu a vhyfleoedd diwylliannol; a gwasanaethau addysg ac iechyd. Mae'n bwysig bod Cynlluniau Datblygu Strategol a Lleol yn mabwysiadu dull twf a reolir ar gyfer tai, cyflogaeth a gwasanaethau allweddol sy'n fodd i wella'r rolau rhanbarthol hyn.

Bro Hafren yw'r ardal sydd pen uchaf Afon Hafren lle mae trefi yn cynnwys y Trallwng, y Drenewydd a Llanidloes yn ganolfannau pwysig a llewyrchus. Mae'r ardal yn cefnogi clwstwr diwydiannol sy'n bodoli eisoes o fewn y sector gweithgynhyrchu uwch, gan gynnwys meysydd arbenigol penodol megis awtomeiddio a pheirianneg symud sy'n cynnig cyflogaeth gwerth uchel a photensial twf cynhyrchiant.

Mae Dyffryn Teifi wedi'i leoli yn rhan dde-orllewinol y rhanbarth yn gorgyffwrdd â rhanbarth y De-orllewin ac yn cynnwys trefi marchnad deniadol Tregaron, Llanbedr Pont Steffan, Llandysul ac Aberteifi. Mae'n darparu seilwaith cysylltu y mae'r boblogaeth breswyl a'r cymunedau o'i hamgylch yn ei ddefnyddio ac yn dibynnu arno. Tra bo Aberteifi a Llandysul yn gwasanaethu cefnwledydd gwledig y tu hwnt i'r rhanbarth, mae lleoedd y tu allan i'r rhanbarth, megis Castellnewydd Emlyn, yn gwasanaethu cymunedau yn y Canolbarth yn yr un modd. Mae'n bwysig cysoni'r priod gynlluniau datblygu cyfagos a chydnabod sut y caiff gwasanaethau a chyfleusterau cymunedol eu defnyddio a sut maent o fudd i bobl ym mhob rhanbarth.



Mae trefi Calon Cymru yn cynnwys Llandrindod, Llanfair ym Muallt a Rhaeadr Gwy ac maent yn lleoedd hanesyddol bwysig, gan ffurfio rhan o rwydwaith o drefi sba yn y Canolbarth. Mae Llandrindod yn arbennig yn parhau i ddenu ymwelwyr ac yn cadw'r bensaernïaeth a'r natur swynol a'i gwnaeth yn gyrchfan poblogaidd yn ystod oes Fictoria. Llanfair ym Muallt a Llanelwedd yw canolbwynt sector amaethyddol Cymru, gyda'r Sioe Frenhinol a gynhelir bob mis Gorffennaf yn parhau i fod yn ddigwyddiad hynod boblogaidd a phwysig yn economaidd. Mae Llanfair ym Muallt yn lleoliad strategol bwysig gan fod dau brif lwybr gogledd-de yn cwrdd yma.

Mae trefi Trefyclo a Llanandras sydd ar y ffin yn chwarae rolau pwysig fel canolfannau cyflogaeth a gwasanaethau pwysig, gyda chysylltiadau cryf â'r Gororau. Mae gan Aberhonddu ac Ystradgynlais gysylltiadau cryf â'r de. Cysylltir Aberhonddu gan yr A470 i Ferthyr Tudful a rhanbarth ehangach y De-ddwyrain ac mae ganddi hefyd gysylltiadau lleol cryf â'r Gelli Gandryll, Talgarth a Chrucywel i'r dwyrain. Ystradgynlais yw'r cyswllt rhwng y Canolbarth a Chymoedd diwydiannol Tawe a Nedd. Mae twristiaeth wrth wraidd economi'r ardal gydag ymwelwyr o bob cwr o'r byd yn dod i ryfeddu at y dirwedd naturiol anhygoel sy'n cynnwys y Mynydd Du a'r Bannau.

Aberystwyth yw'r dref fwyaf yn y rhanbarth ac mae ganddi amrywiaeth o wasanaethau pwysig, gan gynnwys y Brifysgol ac Ysbyty Cyffredinol Bronglais. Mae'n parhau i fod yn lleoliad strategol ac yn ganolfan i sefydliadau cenedlaethol, gan gynnwys y Llyfrgell Genedlaethol. Aberystwyth yw prif ganolbwynt trafnidiaeth gyhoeddus yn y rhanbarth ac mae'n ganolfan cyflogaeth a gweinyddol allweddol. Mae'n darparu lleoliad twristiaeth a chyfleusterau hamdden pwysig, ac mae cyfleusterau megis Campws Arloesi a Menter Aberystwyth yn cynnig cyfleoedd i wella'r cyfleoedd economaidd sydd ar gael yn y rhanbarth. I'r gogledd o Aberystwyth, mae Machynlleth yn gyswllt hanfodol i ranbarth y Gogledd ac yn ganolfan bwysig lle y gall aneddiadau bach ar hyd arfordir Bae Aberteifi gael gafael ar wasanaethau allweddol. Mae Aberaeron i'r de yn chwarae rôl debyg ac mae'n ganolfan weinyddol a thwristiaeth bwysig.

Lluniwyd y ddogfen hon ym mis Medi 2020 i helpu'r Senedd i graffu ar y FfDC. Mae'n fersiwn weithredol ac nid yw'n derfynol. Bydd yn newid ar ôl i'r Senedd graffu arni.

Noda polisi 7 y dull strategol cenedlaethol o gyflawni cartrefi fforddiadwy ac mae'n sicrhau bod ffocws polisïau cyllid a thai ar sicrhau mwy o ddarpariaeth. Mae cynllunio a chydgysylltu'r gwaith o gyflenwi tai newydd i ddiwallu anghenion a nodwyd yn dasg bwysig ar gyfer y broses cynllunio rhanbarthol. O dan amcangyfrifon canolog Llywodraeth Cymru, mae angen 1,800 o gartrefi ychwanegol yn y rhanbarth tan 2039 a thros y pum mlynedd cychwynnol (2019/20 i 2023/24) dylai 61% o'r cartrefi ychwanegol sydd eu hangen fod yn gartrefi fforddiadwy. Mae'r amcangyfrifon hyn yn darparu rhan o'r dystiolaeth a'r cyd-destun y gellir seilio Gofynion Tai ar gyfer Cynlluniau Datblygu Strategol arnynt a dylid eu hystyried ar lefel ranbarthol. Bydd deall a rheoli pwysau datblygu gwahanol ledled y rhanbarth yn fater allweddol i Gynlluniau Datblygu Strategol. Mae'n rhaid ystyried materion tai strategol ar lefel ranbarthol ac nid ar sail dyheadau awdurdodau cynllunio lleol unigol.

Wrth ystyried anghenion tai yn y dyfodol, mae'n glir y bydd angen i bob agwedd ar Gynllun Datblygu Strategol a Chynlluniau Datblygu Lleol unigol adlewyrchu'r angen amcangyfrifedig isel am dai yn y rhanbarth a beth mae hyn yn ei olygu o ran sut y gwnaiff lleoedd newid, ble y lleolir swyddi a gwasanaethau a'r gydberthynas rhwng aneddiadau.


Bydd polisïau 2, 3, 6 ac 8 yn sicrhau bod gwaith datblygu yn nhrefi'r rhanbarth yn cael ei leoli'n gynaliadwy mewn ardaloedd sydd â mynediad da i drafnidiaeth gyhoeddus lle gellir lleihau'r ddibyniaeth ar y car. Cefnogir cyfleoedd yn gryf i ddefnyddio tir cyhoeddus i ddangos arweinyddiaeth drwy greu lleoedd. Dylai penderfyniadau strategol ynghylch lleoliad gwasanaethau a seilwaith allweddol gefnogi aneddiadau sy'n bodoli eisoes a chael eu gwneud ar lefel ranbarthol, gan sicrhau eu bod wedi'u lleoli yn y lleoedd mwyaf hygyrch a chynaliadwy a'u bod yn cefnogi camau gweithredu i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb ac amddifadedd a gwella cysylltiadau ag ardaloedd cyfagos yng Nghymru a Lloegr.


Cefnogir ardaloedd gwledig y rhanbarth gan bolisïau 4 a 5 a fydd yn sicrhau bod cymunedau gwledig yn ffynnu, ac y'u cefnogir gan economi wledig sy'n cydnabod yr ystod amrywiol o weithgareddau sy'n cyfrannu at gymdeithas a bywyd gwledig. Mae Llywodraeth Cymru am weld cysylltedd band eang helaeth a chyflym ledled y Canolbarth. Noda polisïau 13 a 14 y dull gweithredu strategol cenedlaethol a byddant yn sicrhau mai ardaloedd lle ceir signal gwael ar hyn o bryd yw'r prif ffocws o ran gwelliannau. Gyda gweithio gartref yn cynyddu fel cyfran o weithgarwch economaidd, bydd gwell band eang yn allweddol er mwyn galluogi'r Canolbarth i ehangu ei sail economaidd a chael budd cymdeithasol ac economaidd. Yn unol â pholisi 4, cred Llywodraeth Cymru mai ar lefel ranbarthol a lleol y mae'n well cynllunio dyfodol ardaloedd gwledig. Bydd Cynlluniau Datblygu Strategol a Lleol yn cynllunio'n gadarnhaol ar gyfer y cymunedau gwledig yn y rhanbarth ac yn ystyried y cydbwysedd i'w daro rhwng canolbwyntio gwaith datblygu yn y prif ardaloedd trefol adeiledig a'r ardaloedd gwledig.

Mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i weld bioamrywiaeth yn gwella ac ecosystemau yn dod yn fwy cadarn ar draws y Canolbarth. Amlinella polisïau 9 a 15 y dull strategol cenedlaethol a byddant yn sicrhau y cymerir camau i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd, gwrthdroi dirywiad mewn bioamrywiaeth a sicrhau llesiant cymunedau. Mae'r polisïau hyn yn gofyn am ystyried y math o gamau y mae angen eu cymryd ar lefelau rhanbarthol a lleol a sut y gellir hwyluso hyn drwy Gynlluniau Datblygu Strategol a Lleol.

Lluniwyd y ddogfen hon ym mis Medi 2020 i helpu'r Senedd i graffu ar y FfDC. Mae'n fersiwn weithredol ac nid yw'n derfynol. Bydd yn newid ar ôl i'r Senedd graffu arni.

Amgylchedd Naturiol Dynodedig yn y Canolbarth





Lluniwyd y ddogfen hon ym mis Medi 2020 i helpu'r Senedd i graffu ar y FfDC. Mae'n fersiwn weithredol ac nid yw'n derfynol. Bydd yn newid ar ôl i'r Senedd graffu arni.

Bydd sawl mantais i gymunedau a busnesau, yn ogystal â byd natur ei hun, o fuddsoddi mewn creu rhwydweithiau ecolegol cadarn a seilwaith gwyrdd. Mae angen cymryd camau i wella cadernid ym mhob rhan o'r rhanbarth a bydd dulliau penodol yn amrywio yn dibynnu ar natur y lleoliad a'r cyfleoedd i sicrhau mwy o gadernid. Lle ceir blaenoriaethau croes bydd angen ystyried y rhain a'u datrys yn rhanbarthol ac yn lleol. Rhaid i bolisïau 2, 3, 4 a 5 ategu polisïau 9 a 15.

Mewn ardaloedd trefol, gan gynnwys Ardaloedd Twf Rhanbarthol, rhaid i'r gwaith o wella (mantais net) bioamrywiaeth a darparu seilwaith gwyrdd lywio strategaethau twf a chael ei integreiddio'n llawn fel rhan o ddatrysiadau lleoliad a dyluniad ar gyfer datblygiad arfaethedig.

Ar sail y map dangosol ym mholisi 9, lleolir y rhwydweithiau ecolegol mwyaf cadarn yn rhannau mwyaf deheuol a gogleddol y rhanbarth ac yn ne-orllewin y rhanbarth, ond nid yw hyn yn golygu eu bod mor gadarn ag y dylent fod. Er bod llecynnau cyfoethog o ran bioamrywiaeth, storfeydd carbon, coetir a choedwigaeth yng nghanol rhanbarth y Canolbarth, mae angen gwella cadernid cyffredinol y rhanbarth. Dylid manteisio ar rôl Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog o ran gwella cadernid a sicrhau sawl mantais o seilwaith gwyrdd, ynghyd â safleoedd cadwraeth natur dynodedig. Dynoda Datganiadau Ardal gryn botensial gwelliannau i wasanaethau ecosystem a chreu rhwydweithiau ecolegol ledled y rhanbarth.

Bydd yn hanfodol bwysig hwyluso'r gwaith o ddiogelu, adfer a chreu cynefinoedd a sicrhau gwell cysylltiadau rhyngddynt drwy Gynlluniau Datblygu Strategol a Lleol. Mae polisi 9 yn ei gwneud hi'n ofynnol i wella ac ehangu rhwydweithiau a nodi cyfleoedd i ddiogelu a chreu rhwydweithiau cadarn, a'r gwasanaethau ecosystem maent yn dibynnu arnynt, a'r manteision niferus sy'n deillio o seilwaith gwyrdd lle nad yw hyn yn wir ar hyn o bryd. Mae polisïau 9 a 15 yn gweithio ochr yn ochr â pholisïau 4 a 5 i'w gwneud yn ofynnol i ystyried cydberthnasau rhwng pob math o ddefnydd tir a rheoli tir yn llawnach. Mae hyn yn arbennig o wir yn y Canolbarth er mwyn mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd, gwrthdroi dirywiad mewn bioamrywiaeth a galluogi cymunedau i gael budd o fathau mwy cynaliadwy o reoli adnoddau naturiol.

Mae llifogydd yn risg bosibl i leoedd arfordirol a mewndirol yn y rhanbarth. Mae afonydd mawr yn cynnwys Afon Teifi, Afon Wysg, Afon Gwy ac Afon Hafren yn llifo drwy Ardaloedd Twf Rhanbarthol. Gallent orlifo yn ystod glaw trwm ac achosi llifogydd mewn mannau eraill. Mae lleoliadau arfordirol, gan gynnwys Aberystwyth, wedi profi stormydd lle mae'r amddiffynfeydd arfordirol wedi methu. Mae i'r potensial am lifogydd yn yr Ardaloedd Twf Rhanbarthol oblygiadau i gyflawni twf yn y rhanbarth. Amlinella polisi 8 y dull strategol cenedlaethol o reoli perygl llifogydd a bydd yn sicrhau bod dyheadau o ran twf mewn Ardaloedd Twf Rhanbarthol yn cael eu cydgysylltu â phenderfyniadau strategol am reoli perygl llifogydd.

Lluniwyd y ddogfen hon ym mis Medi 2020 i helpu'r Senedd i graffu ar y FfDC. Mae'n fersiwn weithredol ac nid yw'n derfynol. Bydd yn newid ar ôl i'r Senedd graffu arni.

Rheoli Twf

Polisi 26 – Tyfu Economi'r Canolbarth

Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi twf a datblygiad cyfleoedd economaidd sy'n bodoli eisoes a rhai newydd ledled y Canolbarth.
Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag awdurdodau lleol, cymunedau, rhanddeiliaid a busnesau i sicrhau bod ei buddsoddiadau a'i pholisïau yn cefnogi economi ranbarthol gref.
Rhaid i Gynlluniau Datblygu Strategol a Lleol ddatblygu polisïau sy'n cefnogi busnesau gwledig traddodiadol amaethyddol a seiliedig ar dir; a darparu fframwaith hyblyg i gefnogi datblygiad technolegau a sectorau newydd, arloesol ac sy'n dod i'r amlwg.

Mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i weld economi gref a chadarn a chymunedau gwledig cynaliadwy ledled y Canolbarth. Amlinella polisi 5 y dull strategol cenedlaethol o gefnogi economïau gwledig. Bydd economi'r Canolbarth yn seiliedig ar fusnesau gwledig traddodiadol a busnesau arloesol a blaengar modern. Gall holl asedau naturiol eithriadol y rhanbarth, ynghyd â'i allu ymchwil presennol a photensial o ran twf clystyrau diwydiannol sy'n bodoli eisoes o fewn y sector gweithgynhyrchu uwch gefnogi twf. Gyda'i gymunedau cryf, tirweddau neilltuol, ansawdd bywyd uchel ac amrywiaeth o leoedd, mae'r Canolbarth yn rhanbarth deniadol a gall fod yn ddewis leoliad i fusnesau dynamig a thechnolegol ddatblygedig a pharhau i gefnogi ei sectorau gwledig traddodiadol ar yr un pryd.

Bydd y Fframwaith Economaidd Rhanbarthol, a gaiff ei lunio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol, cymunedau, busnesau a rhanddeiliaid allweddol, yn nodi'r blaenoriaethau ar gyfer datblygu economaidd rhanbarthol yn y dyfodol. Mae gan y system gynllunio, drwy ei Chynlluniau Datblygu Strategol a Lleol a'r penderfyniadau a wna, rôl bwysig i'w chwarae o ran creu'r lleoedd sy'n cefnogi ac yn atgyfnerthu'r economi ranbarthol.

Dylai dull rhanbarthol o gynllunio, wedi'i atgyfnerthu, gael ei lywio gan Fargen Twf y Canolbarth a cheisio hwyluso'r gwaith o'i gyflawni. Dylai Cynllun Datblygu Strategol ddarparu fframwaith ar gyfer gwneud y penderfyniadau lleoli strategol a fydd yn helpu i gyflawni uchelgeisiau hirdymor y Fargen Twf mewn perthynas â thai, twf economaidd, gwasanaethau allweddol a seilwaith hanfodol. Dylai hefyd ystyried sut y gall sectorau economaidd traddodiadol a newydd gael eu cefnogi ledled y Canolbarth a bod yn agored i archwilio rôl mathau newydd o ardaloedd cyflogaeth yn ogystal â'r rhai sy'n bodoli ar hyn o bryd. Dylai Cynllun Datblygu Strategol ystyried y potensial i ehangu a thyfu sectorau rhanbarthol allweddol, gan gynnwys amddiffyn a diogelwch, iechyd anifeiliaid a milfeddygaeth, biodechnoleg ac amaethdechnoleg. Mae dealltwriaeth o'r mathau o safleoedd a'r seilwaith y bydd eu hangen ar y sectorau hyn yn y dyfodol yn bwysig a dylai fanteisio ar botensial asedau rhanbarthol allweddol, megis Campws Arloesi a Menter Aberystwyth.

Lluniwyd y ddogfen hon ym mis Medi 2020 i helpu'r Senedd i graffu ar y FfDC. Mae'n fersiwn weithredol ac nid yw'n derfynol. Bydd yn newid ar ôl i'r Senedd graffu arni.


Mae Llywodraeth Cymru yn gryf o blaid datblygu'r economi sylfaenol yn y rhanbarth. Mae'r economi sylfaenol yn cynrychioli'r rhannau hynny o'r economi sy'n annatod i lesiant lleoedd, cymunedau a phobl, ac sy'n diwallu anghenion beunyddiol pobl. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i gefnogi economïau lleol a rhanbarthol cadarnach ac yn cefnogi twf busnesau a chyfleoedd cyflogaeth newydd. Dylai Cynlluniau Datblygu Strategol a Lleol nodi rôl yr economi sylfaenol, ystyried sut y gall y system cynllunio defnydd tir ei chefnogi a datblygu polisïau priodol. Ymhlith y rhannau o'r economi sylfaenol y gall y system gynllunio eu cefnogi mae mentrau adfywio, iechyd a gofal cymdeithasol, tai cymdeithasol, twristiaeth a chamau i annog mwy o fanteision cymunedol yn sgil datblygiadau newydd.

Mae twristiaeth yn sector pwysig i economi'r Canolbarth. Dylid archwilio cyfleoedd twristiaeth actif, werdd a diwylliannol. Mae'r dirwedd gyfoethog, y dreftadaeth ddiwylliannol a'r ffawna morol, Ffordd yr Arfordir ar hyd Bae Aberteifi, Ffordd fewndirol Cambria a Llwybr Arfordir Cymru yn cynnig y cyfle i ddatblygu cyfleusterau twristiaeth mewndirol ac arfordirol. Dylai Cynlluniau Datblygu Strategol a Lleol ystyried y prif ardaloedd twristiaeth sy'n bodoli eisoes a rhai newydd posibl, y math o ymwelwyr a ddenir ganddynt a'r seilwaith sydd ei angen i gefnogi twf.



Mae'r prifysgolion yn Aberystwyth a Llanbedr Pont Steffan yn bresenoldeb pwysig yn y Canolbarth, gan ddarparu addysg bellach, gwneud gwaith ymchwil a chefnogi arloesedd, darparu swyddi, denu myfyrwyr a chefnogi'r busnesau lleol a'r cymunedau o'u hamgylch. Dylai Cynlluniau Datblygu Strategol a Lleol ystyried eu rôl yn y rhanbarth a sut y gallant chwarae mwy o rôl wrth gefnogi'r economi ranbarthol, arloesedd a'u cymunedau.

Y pellter cyfartalog a deithiwyd i'r gwaith (km) gan weithwyr 16–74 oed yn 2011, yn ôl awdurdod preswyl lleol



Mae'n hanfodol bod y rhanbarth yn cyfrannu at ddatgarboneiddio cymdeithas ac yn helpu i wireddu'r weledigaeth ar gyfer ynni adnewyddadwy. Mae polisïau 17 a 18 yn amlinellu dull Cymru'r Dyfodol o gynhychu ynni adnewyddadwy ledled Cymru. Mae cryn botensial ar gyfer cynhyrchu ynni gwynt, ynni morol ac ynni solar yn y Canolbarth a dylai Cynlluniau Datblygu Strategol a Lleol ddarparu fframwaith ar gyfer cynhyrchu ynni adnewyddadwy a seilwaith cysylltiedig. Dylai pob cynnig cynhyrchu ynni adnewyddadwy geisio sicrhau'r manteision economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol mwyaf posibl i gymunedau'r Canolbarth. Mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i weld cynhyrchu, storio a rheoli ynni yn chwarae rôl yn y gwaith o gefnogi economi'r Canolbarth yn arbennig, gan gynnwys cyfleoedd cyflogaeth lleol. Mae perchenogaeth a dosbarthu lleol yn bwysig er mwyn sicrhau bod cymunedau sy'n agos at ddatblygiadau ynni adnewyddadwy yn cael budd ohonynt a bod ein system ynni yn y dyfodol yn gwasanaethu Cymru'n well.

Mae Ceredigion a Phowys yn rhan o ardal De Cymru ar gyfer cynllunio mwynau. Ym Mhowys mae nifer o chwareli tywodfaen a cherrig igneaidd yn cyflenwi deunydd Agregau Manyleb Uchel i Loegr, yn enwedig i ardaloedd cyfagos Gorllewin Canolbarth Lloegr. Mae argaeledd agregau morol a'r seilwaith i gefnogi'r gwaith o echdynnu a symud yr agregau hyn yn bwysig a bydd y rhanbarth yn chwarae rôl allweddol yn diwallu anghenion cenedlaethol a rhanbarthol.

Lluniwyd y ddogfen hon ym mis Medi 2020 i helpu'r Senedd i graffu ar y FfDC. Mae'n fersiwn weithredol ac nid yw'n derfynol. Bydd yn newid ar ôl i'r Senedd graffu arni.

Cefnogi Twf

Polisi 27 – Symudiad yn y Canolbarth



Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag awdurdodau lleol a rhanbarthol er mwyn sicrhau bod buddsoddiadau mewn trafnidiaeth yn gwella hygyrchedd ledled y Canolbarth ac yn atgyfnerthu cysylltiadau trafnidiaeth trawsffiniol.


Dylai Cynlluniau Datblygu Strategol a Lleol gefnogi gwell cysylltiadau trafnidiaeth o fewn y rhanbarth ac â rhanbarthau eraill a Lloegr. Dylai awdurdodau cynllunio gynllunio twf ac adfywio er mwyn manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd a allai ddeillio o gysylltedd rhanbarthol gwell.

Ledled Cymru a'r rhanbarthau, mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i weld gwaith datblygu yn digwydd mewn lleoliadau cynaliadwy, wedi'i gefnogi gan seilwaith a gwasanaethau teithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus sydd eu hangen i alluogi pobl i fyw bywydau iach ac actif. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod lefelau cyfartalog o lygredd aer a sŵn yn cael eu gostwng neu eu gwneud mor fach â phosibl o leiaf. Y nod cyffredinol yw lleihau'r angen i deithio, yn enwedig mewn cerbydau preifat, a chefnogi newid dulliau teithio i gerdded, beicio a defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus. Amlinella polisïau 11 a 12 y dull strategol o sicrhau cysylltedd cenedlaethol a rhanbarthol a sut y bydd Llywodraeth Cymru yn cefnogi ac yn buddsoddi mewn gwelliannau i deithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus. Mewn ardaloedd gwledig, fel y Canolbarth, mae ein blaenoriaethau hefyd yn anelu at gefnogi'r defnydd o gerbydau allyriadau isel iawn ac arallgyfeirio a chynnal gwasanaethau bysiau lleol.

Y Canolbarth yw'r rhanbarth mwyaf ac mae'n cydffinio â'r tri rhanbarth arall yng Nghymru. Mae'n rhannu ffin hir â Lloegr ac mae'n hygyrch i ranbarth ehangach yn Lloegr sy'n cynnwys Henffordd, yr Amwythig, Telford a Birmingham. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod teithio ar y ffyrdd ac mewn car yn ganolog i symud rhanbarthol ledled y Canolbarth. Ynghyd â'i buddsoddiad i gefnogi mwy o ddefnydd o drafnidiaeth gyhoeddus (gan gynnwys y rheilffyrdd) a theithio llesol, byddwn yn parhau i fuddsoddi yn rhwydwaith ffyrdd y rhanbarth ac, yn unol â Pholisi 12, yn cefnogi'r defnydd o gerbydau allyriadau isel iawn. Lle y caiff coridorau trafnidiaeth newydd eu creu drwy wella'r rhwydwaith ffyrdd, mae'n rhaid ymchwilio i'r posibilrwydd y gall y coridorau hyn ymgorffori seilwaith gwyrdd.

Mae cysylltiadau rhwng y gorllewin a'r dwyrain yn bwysig. Cefnogir gweithio trawsffiniol, fel y strategaeth cludo nwyddau ar y cyd a gwelliannau i ffyrdd yr A483 a'r A458. Yn ogystal â sicrhau bod economi'r Canolbarth yn tyfu cymaint â phosibl, dylai Cynlluniau Datblygu Strategol a Lleol fod yn hyderus wrth geisio cysoni meysydd lle mae angen â meysydd lle mae cyfle, gan gynnwys pan fo'r meysydd lle mae cyfle mewn rhanbarthau eraill ac yn Lloegr. Gall canolbwyntio buddsoddiadau a chamau gweithredu ar wella'r cysylltiadau rhwng cymunedau yng Nghymru a chyfleoedd economaidd y tu hwnt i'r rhanbarth helpu i gefnogi cymunedau'r rhanbarth a datblygu economi gryfach.

Lluniwyd y ddogfen hon ym mis Medi 2020 i helpu'r Senedd i graffu ar y FfDC. Mae'n fersiwn weithredol ac nid yw'n derfynol. Bydd yn newid ar ôl i'r Senedd graffu arni.



Lluniwyd y ddogfen hon ym mis Medi 2020 i helpu'r Senedd i graffu ar y FfDC. Mae'n fersiwn weithredol ac nid yw'n derfynol. Bydd yn newid ar ôl i'r Senedd graffu arni.



Y DE-ORLLEWIN

Trosolwg

Mae rhanbarth y **De-orllewin yn cynnwys Sir Gaerfyrddin, Castell-nedd Port Talbot, Sir Benfro, Abertawe a Pharc Cenedlaethol Arfordir Penfro** ac mae ganddo boblogaeth o fwy na 900,000 o bobl. Mae'r rhanbarth mawr ac amrywiol hwn yn cynnwys ardaloedd gwledig helaeth ac ardaloedd adeiledig trefol a diwydiannol o amgylch ail ddinas Cymru, sef Abertawe.

Nodir y materion rhanbarthol y dylai awdurdodau cynllunio lleol gydweithio i gynllunio ar eu cyfer isod, ochr yn ochr â'r meysydd polisi gofodol y bydd Llywodraeth Cymru yn canolbwyntio arnynt o safbwynt cenedlaethol er mwyn cefnogi rhanbarth y De-Orllewin.

Gyda **147,864 o siaradwyr Cymraeg** ledled y rhanbarth a chrynoadau o aneddiadau lle y siaredir Cymraeg fel iaith gyntaf llawer o bobl, mae'n bwysig bod Cynlluniau Datblygu Strategol a Lleol yn ystyried y gydberthynas rhwng tai strategol, trafnidiaeth a thwf economaidd, a'r Gymraeg. Dylai Cynlluniau Datblygu Strategol a Lleol gynnwys hierarchaethau aneddiadau a pholisïau dosbarthu twf sy'n creu'r amodau i'r Gymraeg ffynnu a pharhau i fod yn iaith gymunedol yn y lleoedd niferus lle siaredir Cymraeg bob dydd.





Poblogaeth

Bron
702,000

Y Mwyaf: Abertawe **246,500**

Y lleiaf: Sir Benfro **125,000**

Newid yn y boblogaeth

8.7%
cynnydd 1998–2018

Y mwyaf: Abertawe **5.3%**
Y lleiaf: Castell-nedd Port Talbot **2.5%**

Iechyd

69%
o bobl 16 oed a throsodd yn dweud bod eu hiechyd cyffredinol yn dda neu'n dda iawn 2017–18 a 2018–19 (wedi'i safoni yn ôl oed)

Y Gymraeg

31.8%
o bobl yn siarad Cymraeg

cynnydd o **5.4%** ers 2009

Oed

21.9%
o bobl 65 a throsodd

Cynnydd o **18.7%** yn 1998

Trafnidiaeth

17.95Km
Pellter teithio i'r gwaith ar gyfartaledd

Lluniwyd y ddogfen hon ym mis Medi 2020 i helpu'r Senedd i graffu ar y FfDC. Mae'n fersiwn weithredol ac nid yw'n derfynol. Bydd yn newid ar ôl i'r Senedd graffu arni.

Cynllun Datblygu Strategol: Dull gweithredu rhanbarthol

Ledled rhanbarth y De-orllewin ceir amrywiaeth o faterion strategol. Mae i lawer o'r materion hyn ddimensiynau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol a chânt eu cyflawni drwy gydweithredu ar bob lefel.


Dylai tai, twf economaidd a seilwaith cysylltedd digidol a thrafnidiaeth gael eu cydlynu a'u cynllunio ar lefel rhanbarth cyfan. Dylai'r angen i reoli adnoddau naturiol, llifogydd a diogelu a gwella ardaloedd o bwysigrwydd amgylcheddol a thirweddol, lywio penderfyniadau strategol ynghylch lleoliadau ar gyfer twf a seilwaith newydd. Dylai datgarboneiddio cymdeithas ac ymateb i fygythiadau newid yn yr hinsawdd fod wrth wraidd unrhyw waith cynllunio rhanbarthol.

Dylid gwneud penderfyniadau clir ynghylch maint a lleoliad twf drwy lunio cynllun datblygu strategol er mwyn sicrhau bod pob rhan o'r rhanbarth yn cydweithio i gyflawni nodau'r rhanbarth. Dylai cynllun datblygu strategol ganolbwyntio ar symud pobl ar draws y rhanbarth a chefnogi dull integredig o gynllunio defnydd tir a thrafnidiaeth yn strategol. Dylai penderfyniadau lleoli allweddol, gan gynnwys rhai ar ganolfannau cyflogaeth, cynnydd tai strategol a gwasanaethau, ganolbwyntio ar y lleoliadau mwyaf cynaliadwy a hygyrch a cheisio mynd i'r afael â thagfeydd, lleihau lefelau cymudo yn y car a gwella ansawdd aer.

Dylai'r rhanbarth ystyried ei gysylltiadau â rhanbarthau'r Canolbarth a'r De-ddwyrain, ac Iwerddon. Bydd hyrwyddo hygyrchedd a rhyng-gysylltiadau rhwng rhanbarthau Cymru, yn seiliedig ar ddealltwriaeth o'u rolau a'u swyddogaethau, yn sicrhau eu bod yn gweithredu fel un ardal gydlynus ac nad ydynt yn cystadlu â'i gilydd nac yn gwneud penderfyniadau strategol ar eu pen eu hunain.

Dylai datgarboneiddio cymdeithas ac ymateb i fygythiadau newid yn yr hinsawdd fod wrth wraidd unrhyw waith cynllunio rhanbarthol.

Diagram rhanbarthol strategol



- Ardal Dwf Genedlaethol
- Ardal Dwf Ranbarthol
- Cysylltedd Rhyngwladol
- Cysylltedd Cenedlaethol
- Porthladdoedd
- Metro'r De Orllewin
- Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol
- Ynni yn Nyfrffordd y Ddau Gleddau
- Parciau Cenedlaethol
- Ardaloedd wedi'u rhag-asesu ar gyfer ynni'r gwynt
- Prifysgolion

Lluniwyd y ddogfen hon ym mis Medi 2020 i helpu'r Senedd i graffu ar y FfDC. Mae'n fersiwn weithredol ac nid yw'n derfynol. Bydd yn newid ar ôl i'r Senedd graffu arni.

Twf Cenedlaethol

Polisi 28 – Ardal Dwf Genedlaethol – Bae Abertawe a Llanelli

Bae Abertawe a Llanelli fydd y prif ffocws ar gyfer twf a buddsoddiad yn rhanbarth y De-orllewin.
Dylai Cynlluniau Datblygu Strategol a Lleol gydnabod yr Ardal Dwf Genedlaethol fel y ffocws ar gyfer cynnydd tai a thwf economaidd strategol; gwasanaethau a chyfleusterau hanfodol; gweithgynhyrchu uwch; seilwaith trafnidiaeth a seilwaith digidol.
Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda chyrff rhanbarthol ac awdurdodau lleol i hyrwyddo a gwella rôl strategol Bae Abertawe a Llanelli a sicrhau bod penderfyniadau buddsoddi allweddol yn cefnogi lleoedd yn yr Ardal Dwf Genedlaethol a'r rhanbarth ehangach.

Polisi 1 yw'r prif fframwaith ar gyfer pennu ffocws gwaith datblygu a thwf ym mhob rhanbarth. Mae strategaeth ofodol Cymru'r Dyfodol yn nodi y dylai ffocws twf yn rhanbarth y De-orllewin fod yn ardal Bae Abertawe a Llanelli. Yr ardal sy'n cynnwys Castell-nedd Port Talbot, Dinas Abertawe a Llanelli fydd y brif ardal dwf ar gyfer y rhanbarth. Yr ardal hon yw prif ganolfan poblogaeth, cyflogaeth a gwasanaethau ar hyn o bryd ac fe'i gwasanaethir gan y prif seilwaith cysylltedd.

Yn unol â Pholisi 19, rhaid i'r gwaith o baratoi Cynllun Datblygu Strategol sicrhau bod y rhanbarth yn rheoli twf mewn ffordd gynlluniedig a chydgysylltiedig er mwyn cefnogi anghenion yr Ardaloedd Twf Cenedlaethol a Rhanbarth a'r rhanbarth ehangach. Dylai penderfyniadau strategol ynghylch lleoliad gwasanaethau a seilwaith allweddol gefnogi aneddiadau sy'n bodoli eisoes a chael eu gwneud ar lefel ranbarthol, gan sicrhau eu bod wedi'u lleoli yn y lleoedd mwyaf hygyrch a chynaliadwy a'u bod yn cefnogi camau gweithredu i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb ac amddifadedd ac yn gwella cysylltiadau â rhanbarthau cyfagos.

Noda polisi 7 y dull strategol cenedlaethol o gyflawni tai fforddiadwy ac mae'n sicrhau bod ffocws polisïau cyllid a thai ar sicrhau mwy o ddarpariaeth. Mae cynllunio a chydgysylltu'r gwaith o gyflenwi tai newydd i ddiwallu anghenion a nodwyd yn dasg bwysig ar gyfer y broses cynllunio rhanbarthol. O dan amcangyfrifon canolog Llywodraeth Cymru, mae angen 25,600 o gartrefi ychwanegol yn y rhanbarth tan 2039 a thros y pum mlynedd cychwynnol (2019/20 i 2023/24) dylai 44% o'r cartrefi ychwanegol sydd eu hangen fod yn gartrefi fforddiadwy. Mae'r amcangyfrifon hyn yn darparu rhan o'r dystiolaeth a'r cyd-destun y gellir seilio Gofynion Tai ar gyfer Cynlluniau Datblygu Strategol arnynt a dylid eu hystyried ar lefel ranbarthol. Bydd deall a rheoli pwysau datblygu gwahanol ledled y rhanbarth yn fater allweddol i Gynlluniau Datblygu Strategol. Mae'n hanfodol bod tai yn cael eu hystyried ar lefel ranbarthol ac nid ar sail yr awdurdodau cynllunio lleol unigol.

Lluniwyd y ddogfen hon ym mis Medi 2020 i helpu'r Senedd i graffu ar y FfDC. Mae'n fersiwn weithredol ac nid yw'n derfynol. Bydd yn newid ar ôl i'r Senedd graffu arni.



Lluniwyd y ddogfen hon ym mis Medi 2020 i helpu'r Senedd i graffu ar y FfDC. Mae'n fersiwn weithredol ac nid yw'n derfynol. Bydd yn newid ar ôl i'r Senedd graffu arni.

Gwasgariad y boblogaeth yn Ne-Orllewin Cymru yn ôl oed a rhyw, 2018



Lluniwyd y ddogfen hon ym mis Medi 2020 i helpu'r Senedd i graffu ar y FfDC. Mae'n fersiwn weithredol ac nid yw'n derfynol. Bydd yn newid ar ôl i'r Senedd graffu arni.

Twf Rhanbarthol

Polisi 29 – Ardaloedd Twf Rhanbarthol – Caerfyrddin a Threfi Porthladd Sir Benfro

Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi twf ac adfywio cynaliadwy yng Nghaerfyrddin a Threfi Porthladd Sir Benfro (Hwlffordd, Aberdaugleddau, Penfro a Doc Penfro). Bydd yr ardaloedd hyn yn ffocws twf a reolir, gan adlewyrchu eu swyddogaethau is-ranbarthol pwysig a'u cysylltiadau cryf ag Ardal Dwf Genedlaethol Bae Abertawe a Llanelli.

Dylai Cynlluniau Datblygu Strategol a Lleol gydnabod y rolau y mae'r lleoedd hyn yn eu chwarae fel ffocws ar gyfer tai, cyflogaeth, twristiaeth, trafnidiaeth gyhoeddus a gwasanaethau allweddol yn eu hardaloedd ehangach a chefnogi eu swyddogaeth barhaus fel canolbwyntiau ar gyfer twf isranbarthol.

Mae gan Gaerfyrddin a phedair Tref Borthladd Sir Benfro (Aberdaugleddau, Hwlffordd, Penfro a Doc Penfro) rolau isranbarthol pwysig. Bydd gwaith datblygu yn y trefi hyn yn sicrhau eu bod yn parhau i ddarparu swyddi, cyfleoedd hamdden, manwerthu a diwylliannol, gwasanaethau addysg ac iechyd a seilwaith cysylltedd a ddefnyddir ac y dibynnir arnynt gan eu poblogaethau eu hunain a'r cymunedau cyfagos. Mae'n bwysig bod yr aneddiadau hyn yn cadw eu rôl ranbarthol a bod Cynlluniau Datblygu Strategol a Lleol yn mabwysiadu dull gweithredu seiliedig ar dwf a reolir sy'n ei gwneud yn bosibl i'r rolau hyn gael eu hymestyn.

Bydd gwaith datblygu ym Mae Abertawe a Llanelli yn cefnogi ein strategaeth twf genedlaethol ac yn cael ei ategu gan dwf ychwanegol yng Nghaerfyrddin a threfi Porthladd Sir Benfro gan bolisi 1. Cefnogir twf cynaliadwy y lleoedd hyn gan bolisïau 2, 3, 6 ac 8 a fydd yn sicrhau bod gwaith datblygu wedi'i leoli mewn ffordd hygyrch a chynaliadwy sy'n sicrhau bod lleoedd da yn cael eu creu er mwyn cefnogi cymunedau lle y defnyddir tir cyhoeddus i ddangos arferion gorau.

Y tu hwnt i drefi a phentrefi'r De-orllewin, bydd polisïau 4 a 5 yn helpu i sicrhau bod ardaloedd gwledig y De-orllewin yn tyfu mewn ffordd briodol, gan gefnogi economïau a gwasanaethau gwledig. Yn unol â pholisi 4, cred Llywodraeth Cymru mai ar lefel ranbarthol a lleol y mae'n well cynllunio dyfodol ardaloedd gwledig. Bydd Cynlluniau Datblygu Strategol a Lleol yn cynllunio'n gadarnhaol ar gyfer y cymunedau gwledig yn y rhanbarth ac yn ystyried y cydbwysedd i'w daro rhwng canolbwyntio gwaith datblygu yn y prif ardaloedd trefol adeiledig a'r ardaloedd gwledig. Ymdrinnir â bylchau mewn cysylltedd digidol neu symudol drwy bolisïau 13 a 14 er mwyn sicrhau bod gwasanaethau yn gwella.

Mae'r De-orllewin yn cefnogi diwydiant twristiaeth mawr ac amrywiol ac mae'r sector yn bwysig i economi'r rhanbarth. Dylid archwilio cyfleoedd i ddatblygu'r economi ymwelwyr, a hyrwyddo ardaloedd arfordirol a thraethau o'r radd flaenaf, ynghyd ag atyniadau hamdden mawr. Mae'r parciau cenedlaethol yn ased mawr i'r rhanbarth, gan ddenu ymwelwyr o bob cwr o'r byd. Dylai Cynlluniau Datblygu Strategol a Lleol ystyried y prif ardaloedd twristiaeth sy'n bodoli eisoes a rhai newydd posibl, y math o ymwelwyr a ddenir ganddynt a'r seilwaith sydd ei angen i

Lluniwyd y ddogfen hon ym mis Medi 2020 i helpu'r Senedd i graffu ar y FfDC. Mae'n fersiwn weithredol ac nid yw'n derfynol. Bydd yn newid ar ôl i'r Senedd graffu arni.

gefnogi twf. Dylent ddarparu fframwaith cadarnhaol i alluogi twf a sicrhau y gall cymunedau ym mhob rhan o'r rhanbarth gael budd o'u tirweddau, eu hamgylchedd naturiol a hanesyddol, eu hasedau treftadaeth a'u hatyniadau i ymwelwyr er mwyn cefnogi a thyfu eu heconomïau. Mae'n bwysig bod treftadaeth unigryw'r rhanbarth yn cael ei diogelu a'i gwella gan ddatblygiadau o ansawdd uchel.

Mae'r prifysgolion yn Abertawe a Chaerfyrddin yn bresenoldeb pwysig yn y rhanbarth, gan ddarparu addysg bellach, gwneud gwaith ymchwil a chefnogi arloesedd, creu swyddi, denu myfyrwyr a chefnogi'r busnesau lleol a'r cymunedau o'u hamgylch. Dylai Cynlluniau Datblygu Strategol a Lleol ystyried eu rôl yn y rhanbarth a sut y gallant chwarae mwy o rôl wrth gefnogi'r economi ranbarthol, arloesedd a'u cymunedau.

Bydd y Fframwaith Economaidd Rhanbarthol, a gaiff ei lunio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol, cymunedau, busnesau a rhanddeiliaid allweddol, yn nodi'r blaenoriaethau ar gyfer datblygu economaidd rhanbarthol yn y dyfodol. Mae gan y system gynllunio, drwy ei Chynlluniau Datblygu Strategol a Lleol a'r penderfyniadau a wna, rôl bwysig i'r chwarae o ran creu'r lleoedd sy'n cefnogi ac yn atgyfnerthu'r economi ranbarthol. Dylai'r Cynllun Datblygu Strategol gael ei lywio gan Fargen Ddinesig Dinas-Ranbarth Bae Abertawe a'r Strategaeth Adfywio Economaidd a dylai sicrhau y caiff penderfyniadau lleoliadol allweddol ynghylch safleoedd tai a chyflogaeth, gwasanaethau allweddol a seilwaith hanfodol eu cynllunio er mwyn cefnogi buddsoddiad a phrosiectau ledled y rhanbarth ac elwa arnynt.

Mae Llywodraeth Cymru yn gryf o blaid datblygu'r economi sylfaenol yn y rhanbarth. Mae'r economi sylfaenol yn cynrychioli'r rhannau hynny o'r economi sy'n annatod i lesiant lleoedd, cymunedau a phobl, ac sy'n diwallu anghenion beunyddiol pobl. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i gefnogi economïau lleol a rhanbarthol cadarnach ac yn cefnogi twf busnesau a chyfleoedd cyflogaeth newydd. Dylai Cynlluniau Datblygu Strategol a Lleol nodi rôl yr economi sylfaenol, ystyried sut y gall y system cynllunio defnydd tir ei chefnogi a datblygu polisïau priodol. Ymhlith y rhannau o'r economi sylfaenol y gall y system gynllunio eu cefnogi mae mentrau adfywio, iechyd a gofal cymdeithasol, tai cymdeithasol, twristiaeth a chamau i annog mwy o fanteision cymunedol yn sgil datblygiadau newydd.

Mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i weld bioamrywiaeth yn gwella ac ecosystemau yn dod yn fwy cadarn ar draws y De-orllewin. Amlinella polisïau 9 a 15 y dull strategol cenedlaethol a byddant yn sicrhau y cymerir camau i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd, gwrthdroi dirywiad mewn bioamrywiaeth a sicrhau llesiant cymunedau. Mae'r polisïau hyn yn gofyn am ystyried y math o gamau y mae angen eu cymryd ar lefelau rhanbarthol a lleol a sut y gellir hwyluso hyn drwy Gynlluniau Datblygu Strategol a Lleol.


Bydd sawl mantais i gymunedau a busnesau, yn ogystal â byd natur ei hun, o fuddsoddi mewn creu rhwydweithiau ecolegol cadarn a seilwaith gwyrdd. Mae angen cymryd camau i wella cadernid ym mhob rhan o'r rhanbarth a bydd dulliau penodol yn amrywio yn dibynnu ar natur y lleoliad a'r cyfleoedd i sicrhau mwy o gadernid. Lle ceir blaenoriaethau croes bydd angen ystyried y rhain a'u datrys yn rhanbarthol ac yn lleol. Rhaid i bolisïau 2, 3, 4 a 5 ategu polisïau 9 a 15.

Mewn ardaloedd trefol, gan gynnwys Ardal Dwf Genedlaethol Bae Abertawe a Llanelli ac mewn Ardaloedd Twf Rhanbarthol, rhaid i'r gwaith o wella (mantais net) bioamrywiaeth a darparu seilwaith gwyrdd lywio strategaethau twf a chael ei integreiddio'n llawn fel rhan o ddatrysiadau lleoliad a dyluniad ar gyfer datblygiad arfaethedig. Rhydd polisïau 11 a 12 gyfleoedd i greu coridorau seilwaith gwyrdd ac yn ardal Llanelli dylid archwilio cyfleoedd posibl i wella a chreu cynefinoedd coetir.

Lluniwyd y ddogfen hon ym mis Medi 2020 i helpu'r Senedd i graffu ar y FfDC. Mae'n fersiwn weithredol ac nid yw'n derfynol. Bydd yn newid ar ôl i'r Senedd graffu arni.



Lluniwyd y ddogfen hon ym mis Medi 2020 i helpu'r Senedd i graffu ar y FfDC. Mae'n fersiwn weithredol ac nid yw'n derfynol. Bydd yn newid ar ôl i'r Senedd graffu arni.



Ffynhonnell: Amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Ar sail y map dangosol ym mholisi 9, lleolir y rhwydweithiau ecolegol mwyaf cadarn yn rhan ddwyreiniol y rhanbarth ac yn ne-orllewin y rhanbarth, ond nid yw hyn yn golygu eu bod mor gadarn ag y dylent fod. Mae ardaloedd mawr sy'n ymddangos fel 'bylchau' cadernid yn y map dangosol ledled Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro, gan gynnwys yr arfordir; fodd bynnag, dynoda Datganiadau Ardal gryn botensial i wella gwasanaethau ecosystem a chreu rhwydweithiau ecolegol ledled y rhanbarth cyfan.


Bydd yn hanfodol bwysig atgyfnerthu'r cysylltiadau rhwng y dwyrain a'r gorllewin, a rhwng y gogledd a'r de ac ar hyd yr arfordir yn y rhanbarth drwy Gynlluniau Datblygu Strategol a Lleol. Mae polisi 9 yn ei gwneud hi'n ofynnol i wella ac ehangu rhwydweithiau presennol a nodi cyfleoedd i ddiogelu a chreu rhwydweithiau cadarn, a'r gwasanaethau ecosystem maent yn dibynnu arnynt, a'r manteision niferus sy'n deillio o seilwaith gwyrdd lle nad yw hyn yn wir ar hyn o bryd. Mae hyn yn cynnwys ystyried rôl tirweddau gwarchodedig a dynodiadau cadwraeth natur. Mae polisïau 9 a 15 yn cydweithio â pholisïau 4 a 5 er mwyn ei gwneud yn ofynnol i ystyried y cydberthnasau rhwng pob math o ddefnydd tir a rheoli tir yn llawnach, ac mae hyn yn arbennig o wir yn achos rhannau gwledig mawr o'r De-orllewin, er mwyn mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd, gwrthdroi dirywiad mewn bioamrywiaeth a galluogi cymunedau i gael budd o fathau mwy cynaliadwy o reoli adnoddau naturiol.

Mae'r rhanbarth yn profi llifogydd o'r afonydd a'r môr, er bod lleoedd yn yr Ardaloedd Twf Cenedlaethol a Rhanbarthol yn gadarn ar y cyfan, oherwydd eu lleoliad strategol ac effeithiolrwydd seilwaith rheoli perygl llifogydd presennol. Mae gan afonydd mawr ledled y rhanbarth, gan gynnwys y Cleddau, Tywi, Tawe a Nedd, orlifdiroedd swyddogaethol helaeth sy'n sicrhau bod y risg i ganolfannau poblogaeth yn cael ei rheoli'n dda. Mae Ardal Dwf Genedlaethol Bae Abertawe a Llanelli yn ardal arfordirol ac er bod amddiffynfeydd arfordirol ar waith, mae llawer o ardaloedd yn dal i fod yn agored i orlifo arfordirol a mynd uwchlaw'r lefel. Mae i'r potensial am lifogydd yn yr Ardaloedd Twf Cenedlaethol a Rhanbarthol oblygiadau i gyflawni twf yn y rhanbarth. Amlinella polisi 8 y dull strategol cenedlaethol o reoli perygl llifogydd a bydd yn sicrhau bod dyheadau o ran twf mewn Ardaloedd Twf Cenedlaethol a Rhanbarthol yn cael eu cydgysylltu â phenderfyniadau strategol am reoli perygl llifogydd.

Mae'n hanfodol bod y rhanbarth yn cyfrannu at ddatgarboneiddio ac yn helpu i wireddu'r weledigaeth ar gyfer ynni adnewyddadwy. Mae polisïau 17 a 18 yn amlinellu dull Cymru'r Dyfodol o gynhychu ynni adnewyddadwy ledled Cymru. Mae cryn botensial ar gyfer cynhyrchu ynni gwynt, ynni morol ac ynni solar a dylai Cynlluniau Datblygu Strategol a Lleol ddarparu fframwaith ar gyfer cynhyrchu ynni adnewyddadwy a seilwaith cysylltiedig. Mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i weld cynhyrchu, storio a rheoli ynni yn chwarae rôl yn y gwaith o gefnogi economi'r De-orllewin. Mae perchenogaeth a dosbarthu lleol yn bwysig er mwyn sicrhau bod cymunedau sy'n agos at ddatblygiadau ynni adnewyddadwy yn cael budd ohonynt a bod ein system ynni yn y dyfodol yn gwasanaethu Cymru'n well.

Lluniwyd y ddogfen hon ym mis Medi 2020 i helpu'r Senedd i graffu ar y FfDC. Mae'n fersiwn weithredol ac nid yw'n derfynol. Bydd yn newid ar ôl i'r Senedd graffu arni.

Amgylchedd Naturiol Dynodedig yn y De Orllewin



Lluniwyd y ddogfen hon ym mis Medi 2020 i helpu'r Senedd i graffu ar y FfDC. Mae'n fersiwn weithredol ac nid yw'n derfynol. Bydd yn newid ar ôl i'r Senedd graffu arni.

Rheoli Twf

Polisi 30 – Lleiniau Glas yn y De-orllewin

Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r defnydd o Gynlluniau Datblygu Strategol i nodi a sefydlu lleiniau glas i reoli ffurf a thwf trefol yn y De-orllewin, yn enwedig o amgylch Bae Abertawe a Llanelli.

Dylai penderfyniadau strategol ynghylch lleoliad datblygiadau, gwasanaethau a seilwaith allweddol gefnogi'r rhanbarth ar lefel ranbarthol, gan sicrhau eu bod wedi'u lleoli yn y lleoedd mwyaf hygyrch a chynaliadwy.

Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r rhanbarth os bydd y Cynllun Datblygu Strategol yn nodi bod angen llain las er mwyn rheoli twf, yn enwedig y twf cenedlaethol sydd ei angen gan strategaeth ofodol Cymru'r Dyfodol o amgylch Bae Abertawe a Llanelli. Mae Polisi Cynllunio Cymru yn nodi'r cyd-destun ar gyfer sefydlu lleiniau glas.

Mae gan y De-orllewin ardaloedd gwledig eang a chymunedau gwledig hirsefydledig. Dylai'r Cynllun Datblygu Strategol ar gyfer y rhanbarth ystyried y cydbwysedd i'w daro rhwng canolbwyntio gwaith datblygu yn y prif ardaloedd trefol a'r ardaloedd gwledig. Gall penderfyniadau ynghylch darparu gwasanaethau allweddol gael effaith fawr ar fywydau beunyddiol pobl, yn enwedig y rhai llai symudol, ac mae'n hanfodol bod y penderfyniadau hyn yn cael eu gwneud ar sail dealltwriaeth glir o'u heffeithiau. Yn ogystal ag ysgolion a chyfleusterau iechyd, gall mynediad at wasanaethau fel banciau, swyddfeydd post, llyfrgelloedd a siopau gael effaith wirioneddol ar fywydau beunyddiol pobl mewn ardaloedd gwledig.

Dylai Cynlluniau Datblygu Strategol a Lleol ystyried effeithiau newid yn y boblogaeth ar eu cymunedau gwledig. Mae'r problemau cymdeithasol sydd y tu ôl i'r newidiadau hyn yn ehangach na'r system gynllunio, ac nid yw'n hawdd mynd i'r afael â'r heriau hyn. Mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i weld Cynlluniau Datblygu Lleol yn y De-orllewin yn chwarae rôl ganolog wrth lywio'r ffordd y mae cymunedau gwledig yn cynnal eu hunain. Dylai Cynlluniau Datblygu Lleol geisio cefnogi twf a datblygiadau priodol mewn trefi a phentrefi gwledig. Mae hyn yn cynnwys tai fforddiadwy a thai'r farchnad, cyflogaeth a darparu gwasanaethau. Dylai Cynlluniau Datblygu Lleol gefnogi a chydgysylltu eu penderfyniadau â rhai gwneuthurwyr polisïau economaidd, a darparwyr gwasanaethau iechyd ac addysg, a darparwyr gwasanaethau hanfodol eraill. Dylent ystyried anghenion yr holl drigolion, gan gynnwys pobl hŷn a phobl ag anableddau a sicrhau yr ystyrir darparu tai arbenigol ac y cynllunnir ar gyfer hynny.


Mae rheoli adnoddau naturiol eithriadol y De-orllewin, sy'n cynnwys yr arfordir, Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Gŵyr, mwynau, tir amaethyddol, dŵr a thirwedd o ansawdd uchel, yn flaenoriaeth i'r rhanbarth a dylid sicrhau y gallant gael eu mwynhau gan genedlaethau'r


Lluniwyd y ddogfen hon ym mis Medi 2020 i helpu'r Senedd i graffu ar y FfDC. Mae'n fersiwn weithredol ac nid yw'n derfynol. Bydd yn newid ar ôl i'r Senedd graffu arni.

dyfodol a helpu i sicrhau manteision economaidd i gymunedau'r rhanbarth. Dylai treftadaeth unigryw'r rhanbarth gael ei diogelu a'i gwella gan ddatblygiadau o ansawdd uchel.

Mae mwynau ac agregau'r rhanbarth yn chwarae rôl bwysig o ran cefnogi datblygiadau ledled Cymru a Lloegr. Mae chwareli gweithredol yn y rhanbarth, yn bennaf o fewn Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro a Cheredigion, sy'n cyflenwi tywod a graean i farchnadoedd lleol yn bennaf.

Y pellter cyfartalog a deithiwyd i'r gwaith (km) gan weithwyr 16–74 oed yn 2011, yn ôl awdurdod preswyl lleol





Lluniwyd y ddogfen hon ym mis Medi 2020 i helpu'r Senedd i graffu ar y FfDC. Mae'n fersiwn weithredol ac nid yw'n derfynol. Bydd yn newid ar ôl i'r Senedd graffu arni.

Cefnogi Twf

Polisi 31 – Metro'r De-orllewin

Mae Llywodraeth Cymru o blaid datblygu Metro'r De-orllewin a bydd yn gweithio gyda Trafnidiaeth Cymru, awdurdodau lleol a phartneriaid eraill i'w gyflawni ac achub ar gyfleoedd cysylltiedig.
Dylai Cynlluniau Datblygu Strategol a Lleol gefnogi Metro'r De-orllewin. Dylai awdurdodau cynllunio gynllunio ar gyfer twf ac adfywio er mwyn achub ar y cyfleoedd posibl sy'n deillio o well cysylltedd rhanbarthol, gan gynnwys nodi cyfleoedd ar gyfer datblygiadau dwysedd uwch, defnydd cymysg a di-gar o amgylch gorsafoedd metro newydd a gwell.


Ledled Cymru a'r rhanbarthau, mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i weld gwaith datblygu yn digwydd mewn lleoliadau cynaliadwy, wedi'i gefnogi gan seilwaith a gwasanaethau teithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus i alluogi pobl i fyw bywydau iach ac actif. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod lefelau llygredd aer a sŵn yn cael eu gostwng neu eu gwneud mor fach â phosibl o leiaf. Y nod cyffredinol yw lleihau'r angen i deithio, yn enwedig mewn cerbydau preifat, a chefnogi newid dulliau teithio i gerdded, beicio a defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus. Amlinella polisïau 11 a 12 y dull strategol o sicrhau cysylltedd cenedlaethol a rhanbarthol a sut y bydd Llywodraeth Cymru yn cefnogi ac yn buddsoddi mewn gwelliannau i deithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus.

Yn rhanbarth y De-orllewin, mae seilwaith a gwasanaethau'r rheilffyrdd yn greiddiol i rwydwaith trafnidiaeth effeithiol ac effeithlon, ac yn ganolog i wella cysylltedd rhanbarthol a chenedlaethol. Mae Metro'r De-orllewin yn cynnig cyfle i wella hygyrchedd ledled y rhanbarth ac fe'i cefnogir gan Lywodraeth Cymru. Mae cydberthnasau swyddogaethol cryf rhwng aneddiadau a rhanbarthau yn y rhanbarth ac â rhanbarthau cyfagos, gyda phobl yn teithio bob dydd er mwyn mynd i'r gwaith a defnyddio gwasanaethau a chyfleusterau mewn rhanbarthau cyfagos. Bydd Metro'r De-orllewin yn darparu gwell cysylltedd o fewn y De-orllewin ac yn ceisio gwella cysylltiadau ledled De Cymru i mewn i Loegr.

Bydd hwyluso mynediad i'r Metro drwy deithio llesol yn gwneud cyfraniad pwysig i newid dulliau teithio o'r car i drafnidiaeth gyhoeddus ar lefel ranbarthol. Er mwyn cyflawni hyn bydd angen llwybrau teithio llesol o ansawdd uchel sy'n cysylltu cymdogaethau a chyrchfannau teithio â gorsafoedd metro. Hefyd, bydd yn hanfodol darparu lleoedd parcio beic diogel o ansawdd uchel wrth gyfnewidfeydd.

Dylai'r Cynllun Datblygu Strategol geisio gwella cysylltedd ledled y rhanbarth a dylai ystyried cynigion hirdymor megis cynllun Metro'r De-orllewin, a all ddarparu sail ar gyfer integreiddio gwaith cynllunio defnydd tir a thrafnidiaeth yn well. Yn unol â pholisi 12, mae'n rhaid i Gynlluniau Datblygu Strategol a Lleol sicrhau bod penderfyniadau strategol hirdymor yn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd mewn ardaloedd a fydd yn cael budd o well hygyrchedd a mwy o fuddsoddiad mewn gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus. Lle y caiff coridorau trafnidiaeth newydd eu creu gan gynllun y Metro, mae'n rhaid ymchwilio i'r posibilrwydd y gall y coridorau hyn ymgorffori seilwaith gwyrdd.

Lluniwyd y ddogfen hon ym mis Medi 2020 i helpu'r Senedd i graffu ar y FfDC. Mae'n fersiwn weithredol ac nid yw'n derfynol. Bydd yn newid ar ôl i'r Senedd graffu arni.



Ffynhonnell: Arolwg blynyddol o'r boblogaeth, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Polisi 32 – Dyfrffordd y Ddau Gleddau ac Ynni

Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi gweithrediadau Dyfrffordd y Ddau Gleddau, ac mae'n cydnabod ei lleoliad ar gyfer datblygiadau, buddsoddiadau a gwaith arloesol ym maes ynni adnewyddadwy a charbon isel newydd posibl.

Dylai datblygiadau ynni newydd gefnogi cymunedau lleol a rhanbarthol a darparu swyddi a buddsoddiad mewn hyfforddiant a sgiliau.

Wrth benderfynu ar unrhyw geisiadau am gynigion ynni, dylid ystyried y cyfraniad a wnaiff at ddatgarboneiddio cyflenwadau ynni, yr effeithiau ar dirweddau, morweddau, yr amgylchedd naturiol a hanesyddol a'r manteision economaidd y byddent yn eu sicrhau i'r rhanbarth.

Cefnogir datblygiadau ar y tir sy'n gysylltiedig â phrosiectau ynni adnewyddadwy ar y môr mewn egwyddor.

Mae gan Ddyfrffordd y Ddau Gleddau gyfuniad unigryw o harbwr naturiol, mynediad dŵr dwfn, diwydiannau hirsefydlog a'r potensial ar gyfer datblygiadau strategol newydd, gan gynnwys ynni adnewyddadwy a charbon isel. Dylai Cynlluniau Datblygu Strategol a Lleol gydnabod hyn a darparu fframwaith ar gyfer rheoli twf yn y dyfodol.

Mae Dyfrffordd y Ddau Gleddau yn hanfodol bwysig i sicrwydd ynni'r DU yn y dyfodol. Mae nifer o osodiadau ynni hirsefydledig yn y Ddau Gleddau ac mae potensial ar gyfer datblygiadau ynni strategol newydd, gan gynnwys prosiectau ynni morol a datgarboneiddio arloesol. Lleolir rhai datblygiadau yn yr amgylchedd morol, a rôl Cymru'r Dyfodol a chynlluniau datblygu eraill yw galluogi datblygiadau ar y tir priodol er mwyn cefnogi cynlluniau o'r fath.

Mae'r rhanbarth yn cael ei wasanaethu gan borthladdoedd yn Aberdaugleddau, Port Talbot, Abertawe ac Abergwaun ac mae'n chwarae rôl bwysig wrth gefnogi'r sector morol a'r economi genedlaethol. Mae'r porthladdoedd hyn yn seilwaith cenedlaethol pwysig ac mae cefnogi eu rôl yn y dyfodol yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol yn ystyriaeth allweddol.

Lluniwyd y ddogfen hon ym mis Medi 2020 i helpu'r Senedd i graffu ar y FfDC. Mae'n fersiwn weithredol ac nid yw'n derfynol. Bydd yn newid ar ôl i'r Senedd graffu arni.



Y DE-DDWYRAIN


Trosolwg

Mae rhanbarth y De-ddwyrain yn cynnwys **Blaenau Gwent, Pen-y-bont ar Ogwr, Caerffili, Caerdydd, Merthyr Tudful, Sir Fynwy, Casnewydd, Rhondda Cynon Taf, Torfaen a Bro Morgannwg**. Dyma'r rhanbarth mwyaf poblog yng Nghymru, gyda mwy nag 1.5 miliwn o drigolion. Mae'n ddinas-ranbarth mawr ar lefel y DU ac Ewrop. Y rhanbarth yw'r lleiaf o'r tri rhanbarth yn ôl ardal ac mae'n cynnwys dinasoedd arfordirol Caerdydd a Chasnewydd a hen gadarnleoedd diwydiannol cymoedd y de.

Nodir y materion rhanbarthol y dylai awdurdodau cynllunio lleol gydweithio i gynllunio ar eu cyfer isod, ochr yn ochr â'r meysydd polisi gofodol y bydd Llywodraeth Cymru yn canolbwyntio arnynt o safbwynt cenedlaethol er mwyn cefnogi rhanbarth y De-ddwyrain.

Gyda **150,792 o siaradwyr Cymraeg** ledled y rhanbarth, mae'n bwysig bod Cynlluniau Datblygu Strategol a Lleol yn ystyried y gydberthynas rhwng tai strategol, trafnidiaeth a thwf economaidd, a'r Gymraeg. Dylai Cynlluniau Datblygu Strategol a Lleol gynnwys hierarchaethau aneddiadau a pholisïau dosbarthu twf sy'n creu'r amodau i'r Gymraeg ffynnu ledled y rhanbarth ac yn annog datblygu cymunedau lle gall y Gymraeg fod yn iaith feunyddiol.





Poblogaeth Bron

1,053,000

Y mwyaf: Caerdydd **364,000**

Y lleiaf: Merthyr Tudful **60,000**

Newid yn y boblogaeth

9.6%

cynnydd o 1998–2018

Y mwyaf: Caerdydd **18%**

Y lleiaf: Torfaen **1.9%**

Iechyd

70%

o bobl 16 oed a throsodd yn dweud bod eu hiechyd cyffredinol yn dda neu'n dda iawn 2017–18 a 2018–19 (wedi'i safoni yn ôl oed)

Y Gymraeg

20.2%

o bobl yn siarad Cymraeg

Cynnydd o **2.7%** ers 2009

Oed

18.5%

o bobl 65 a throsodd

Cynnydd o **16%** yn 1998

Trafnidiaeth

15.77Km

Pellter teithio i'r gwaith ar gyfartaledd

Lluniwyd y ddogfen hon ym mis Medi 2020 i helpu'r Senedd i graffu ar y FfDC. Mae'n fersiwn weithredol ac nid yw'n derfynol. Bydd yn newid ar ôl i'r Senedd graffu arni.

Cynllun Datblygu Strategol: Dull gweithredu rhanbarthol

Ledled y De-ddwyrain, mae amrywiaeth o faterion strategol y mae angen eu hystyried. Mae i lawer o'r materion hyn ddimensiynau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol a chânt eu cyflawni drwy gydweithredu ar bob lefel.

Dylai tai, twf economaidd a seilwaith cysylltedd digidol a thrafnidiaeth gael eu cydlynu a'u cynllunio ar lefel rhanbarth cyfan. Dylai'r angen i reoli adnoddau naturiol, llifogydd a diogelu a gwella ardaloedd o bwysigrwydd amgylcheddol a thirweddol, lywio penderfyniadau strategol ynghylch lleoliadau ar gyfer twf a seilwaith newydd. Dylai datgarboneiddio ac ymateb i fygythiadau newid yn yr hinsawdd fod wrth wraidd unrhyw waith cynllunio rhanbarthol.


Dylid gwneud penderfyniadau clir ynghylch maint a lleoliad twf drwy lunio cynllun datblygu strategol er mwyn sicrhau bod pob rhan o'r rhanbarth yn cydweithio i gyflawni nodau'r rhanbarth. Dylai cynllun datblygu strategol ganolbwyntio ar symud pobl ar draws y rhanbarth a chefnogi dull integredig o gynllunio defnydd tir a thrafnidiaeth yn strategol. Dylai penderfyniadau lleoli allweddol gan gynnwys rhai ar ganolfannau cyflogaeth, cynnydd tai strategol a gwasanaethau ganolbwyntio ar y lleoliadau mwyaf cynaliadwy a hygyrch a cheisio mynd i'r afael â thagfeydd, lleihau lefelau cymudo yn y car a gwella ansawdd aer.

Dylai'r rhanbarth ystyried ei gysylltiadau â rhanbarthau'r Canolbarth a'r De-orllewin, a Gorllewin Lloegr. Bydd hyrwyddo hygyrchedd a rhyng-gysylltiadau rhwng yr ardaloedd hyn, yn seiliedig ar ddealltwriaeth o'u rolau a'u swyddogaethau, yn sicrhau eu bod yn gweithredu fel un ardal gydlynus ac nad ydynt yn cystadlu â'i gilydd nac yn gwneud penderfyniadau strategol ar eu pen eu hunain.

Dylai cynllun datblygu strategol ganolbwyntio ar symud pobl ar draws y rhanbarth a chefnogi dull integredig o gynllunio defnydd tir a thrafnidiaeth yn strategol.

Lluniwyd y ddogfen hon ym mis Medi 2020 i helpu'r Senedd i graffu ar y FfDC. Mae'n fersiwn weithredol ac nid yw'n derfynol. Bydd yn newid ar ôl i'r Senedd graffu arni.

Diagram strategol rhanbarthol



- Ardal Dwf Ranbarthol
- Cysylltedd Cenedlaethol
- Cysylltedd Rhyngwladol
- Porthladdoedd
- Llain Las
- Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol
- Parciau Cenedlaethol
- Parc Rhanbarthol y Cymoedd
- Metro'r De Ddwyrain
- Maes Awyr Caerdydd
- Ardaloedd wedi'u rhag-asesu ar gyfer Ynni Gwynt
- Prifysgolion

Lluniwyd y ddogfen hon ym mis Medi 2020 i helpu'r Senedd i graffu ar y FfDC. Mae'n fersiwn weithredol ac nid yw'n derfynol. Bydd yn newid ar ôl i'r Senedd graffu arni.

Twf Cenedlaethol

Polisi 33 – Ardal Dwf Genedlaethol – Caerdydd, Casnewydd a'r Cymoedd

Caerdydd, Casnewydd a'r Cymoedd fydd y prif ffocws ar gyfer twf a buddsoddiad yn rhanbarth y De-ddwyrain.

Dylai Cynlluniau Datblygu Strategol a Lleol gydnabod yr Ardal Dwf Genedlaethol fel y ffocws ar gyfer cynnydd tai a thwf economaidd strategol; gwasanaethau a chyfleusterau hanfodol; gweithgynhyrchu uwch; seilwaith trafnidiaeth a seilwaith digidol.

Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda chyrff rhanbarthol ac awdurdodau lleol yn y rhanbarth a rhanbarthau cyfagos Lloegr i hyrwyddo a gwella rôl strategol Caerdydd, Casnewydd a'r Cymoedd a sicrhau bod penderfyniadau buddsoddi allweddol yn cefnogi lleoedd yn yr Ardal Dwf Genedlaethol a'r rhanbarth ehangach.

Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi statws Caerdydd fel dinas gystadleuol yn rhyngwladol a dinas graidd ar lwyfan y DU. Bydd Caerdydd yn cadw ac yn ymestyn ei rôl fel y brif ganolfan genedlaethol ar gyfer diwylliant, chwaraeon, hamdden, y cyfryngau, economi'r nos a chyllid.

Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi rôl strategol gynyddol ar gyfer Casnewydd fel ffocws twf a buddsoddiad cynaliadwy a hirdymor. Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag awdurdodau yn y rhanbarth ac yn Lloegr i hyrwyddo rôl strategol Casnewydd a sicrhau bod penderfyniadau buddsoddi allweddol yng Nghymru a Lloegr yn cefnogi Casnewydd.

Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi gweithgarwch adfywio a buddsoddi cydgysylltiedig yn ardal y Cymoedd er mwyn gwella llesiant, cynyddu ffyniant a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau cymdeithasol. Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda chyrff rhanbarthol, awdurdodau lleol, busnesau, y trydydd sector, asiantaethau a rhanddeiliaid i gefnogi buddsoddiad, gan gynnwys yn y sector gweithgynhyrchu, a sicrhau bod dull gweithredu rhanbarthol yn cael ei fabwysiadu er mwyn mynd i'r afael â materion economaidd-gymdeithasol yn y Cymoedd.

Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi datblygu yn y rhanbarth ehangach sy'n ymateb i'r cyfleoedd a'r heriau sy'n deillio o leoliad daearyddol y rhanbarth a'i swyddogaethau fel Prifddinas-Ranbarth.


Yn unol â Strategaeth Ofodol Cymru'r Dyfodol, dylid canolbwyntio twf yn rhanbarth y De-ddwyrain yn bennaf yng Nghaerdydd, Casnewydd a'r Cymoedd. Polisi 1 yw'r prif fframwaith ar gyfer pennu ffocws gwaith datblygu a thwf ym mhob rhanbarth.

Caerdydd fydd y prif anheddiad yn y rhanbarth o hyd, gyda'i thwf strategol yn y dyfodol yn cael ei lywio gan ei marchnadoedd tai a chyflogaeth cryf a bydd yn parhau â'i rôl fel prifddinas, gan gynnig lleoliad i swyddogaethau ac atyniadau lefel uwch. Bydd angen i Gynlluniau Datblygu Strategol a Lleol ystyried y rhyngddibyniaeth rhwng Caerdydd a'r rhanbarth ehangach. Mae Caerdydd yn dibynnu ar bobl o bob rhan o'r rhanbarth ac mae sicrhau bod cymunedau o amgylch y Brifddinas yn llewyrchus, yn ffyniannus ac yn gysylltiedig yn helpu i atgyfnerthu'r rhanbarth i'r eithaf.

Mae Caerdydd wedi gweld twf mewn poblogaeth a chyflogaeth. Mae'n ddinas fechan a ddiffinnir gan fynyddoedd Caerffili a Garth i'r gogledd, Môr Hafren i'r de a'r llain las statudol gyntaf i'r dwyrain. Mae'n rhaid i Gaerdydd ysgogi a chefnogi twf rhanbarthol ledled y de-ddwyrain wrth wella ei statws fel prifddinas fywiog Cymru.


Mae seilwaith trafnidiaeth rhanbarthol yn adlewyrchu pwysigrwydd Caerdydd ac mae wedi atgyfnerthu ei rôl fel prif ganolbwynt y rhanbarth. Mae'r potensial i gyrraedd canol Caerdydd yn gyflym ac yn gyfleus gan ddefnyddio'r Metro yn

Dosbarthiad poblogaeth yn Ne-Ddwyrain Cymru yn ôl oedran a rhyw, 2018



creu cyfleoedd ar gyfer datblygu mewn aneddiadau y tu allan i'r ddinas. Mae'n rhaid i gryfder diwylliannol ac economaidd Caerdydd sicrhau ffyniant a llesiant ledled y rhanbarth.

Mae Llywodraeth Cymru yn benderfynol o weld datblygu a thwf yng Nghasnewydd, a fydd yn galluogi'r ddinas i gyflawni ei photensial fel yr ail ganolbwynt i'r rhanbarth. Dylai cyfleoedd i ddarparu swyddi hyfedr yn y sector trafnidiaeth a'r sector cyfathrebu digidol ysgogi rhagor o fuddsoddiadau economaidd. Bydd y Metro yn gwella system trafnidiaeth gyhoeddus y ddinas, yn enwedig yn y ddinas ac i drefi o'i hamgylch. Mae'n cael budd o gysylltiadau ffyrdd a rheilffyrdd sefydledig â Chaerdydd, Bryste a Llundain.


Poblogaeth, yn ôl awdurdod lleol (2018)
70,000 neu'n is
70,001 - 100,000
100,001 - 175,000
175,001 - 250,000
250,001 a throsodd
Ffynhonnell: Amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol
MERTHYR TUDFUL
BLAENAU GWENT
SIR FYNWY
TORFAEN
RHONDDA CYNON TAF
CAERFFILI
CASNEWYDD
PEN-Y-BONT AR OGWR
CAERDYDD
BRO MORGANNWG

Bydd twf yng Nghasnewydd yn helpu i reoli'r pwysau datblygu yn y rhanbarth drwy ddarparu ffocws strategol ar gyfer rhan ddwyreiniol yr ardal. Dylai'r ffocws o ran twf strategol fod ar Gasnewydd ei hun a'r ardaloedd cyfagos, er mwyn helpu i adfywio safleoedd tir llwyd.

Mae llifogydd o afonydd a'r môr yn broblem fawr ledled y rhanbarth. Mae Caerdydd a Chasnewydd yn ddinasoedd aberol ac mae afonydd mawr yn llifo drwy holl Gymoedd y de, gan olygu bod llawer o gymunedau yn wynebu perygl llifogydd. Mae rhannau helaeth o seilwaith ffyrdd a rheilffyrdd allweddol y rhanbarth ar lawr y cymoedd neu mewn lleoliadau arfordirol ac maent yn dibynnu ar systemau rheoli perygl llifogydd effeithiol i barhau i weithredu drwy'r amser. Mae lleoedd yn y rhanbarth yn cael budd o amddiffynfeydd arfordirol cryf, gan gynnwys Morglawdd Bae Caerdydd a morfur Gwastadeddau Gwent, ond disgwylir i lefelau morol godi'n uwch ar hyd arfordir y de nag unrhyw ran arall o Gymru dros y 30 mlynedd nesaf. Mae i'r potensial am lifogydd yn yr Ardal Dwf Ranbarthol oblygiadau i gyflawni twf yn y rhanbarth. Amlinella polisi 8 y dull strategol cenedlaethol o reoli perygl llifogydd a bydd yn sicrhau bod dyheadau o ran twf mewn Ardaloedd Twf Cenedlaethol yn cael eu cydgysylltu â phenderfyniadau strategol ar reoli perygl llifogydd.

Mae ardal y Cymoedd, sy'n cynnwys rhannau mawr o Ben-y-bont ar Ogwr, Rhondda Cynon Taf, Merthyr Tudful, Caerffili, Blaenau Gwent a Thorfaen, yn ardal â blaenoriaeth ar gyfer Llywodraeth Cymru a dylai fod yn flaenoriaeth ar gyfer y Cynllun Datblygu Strategol. Mae gan yr ardal un o'r patrymau anheddau trefol mwyaf nodedig yn y DU; mae wedi gweld buddsoddiad sylweddol yn yr A465, wedi cael budd o raglenni cyllido'r UE ac yn y dyfodol bydd wedi'i chysylltu'n well o ganlyniad i Fetro De Cymru. Mae ganddi'r potensial i adeiladu ar yr hyn sydd ganddi i'w gynnig o ran twristiaeth a'i hagosrwydd i Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Mae'n rhaid cydgysylltu strategaethau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol a sicrhau eu bod yn canolbwyntio ar yr ymyriadau hynny a all fynd i'r afael â'r materion economaidd a chymdeithasol strwythurol sy'n effeithio ar ffyniant a llesiant cymunedau.

Caiff Caerdydd, Casnewydd a'r Cymoedd eu nodi ym mholisi 1 fel Ardal Dwf Genedlaethol lle y cyfeirir datblygiadau. Cefnogir hyn gan bolisïau 2, 3, 6 ac 8 a fydd yn sicrhau bod gwaith datblygu yn cael ei leoli'n gynaliadwy gyda mynediad hawdd i drafnidiaeth gyhoeddus a gwasanaethau cyhoeddus eraill. Rhaid i drefi a dinasoedd dyfu mewn ffordd gynaliadwy ac mewn ffordd sy'n hyrwyddo creu lleoedd. Dylent ystyried anghenion yr holl drigolion, gan gynnwys pobl hŷn a phobl ag anableddau a sicrhau yr ystyrir darparu tai arbenigol ac y cynllunnir ar gyfer hynny. Caiff tir y sector cyhoeddus ei ddefnyddio'n effeithiol i ddangos mathau rhagorol o ddatblygu a chreu lleoedd.

Caiff ardaloedd gwledig y De-ddwyrain, er eu bod yn gymharol agos at ddinasoedd a threfi mawr, eu cefnogi gan bolisïau 4 a 5 er mwyn cynnal y cymunedau hyn yn yr hirdymor. Bydd cysylltedd digidol a symudol yn hanfodol i lwyddiant economaidd y De-ddwyrain a bydd polisïau 13 a 14 yn helpu i sicrhau bod seilwaith addas ar waith i gefnogi hyn.

Noda polisi 7 y dull strategol cenedlaethol o gyflawni tai fforddiadwy ac mae'n gwneud yn siwr bod ffocws polisïau cyllid a thai ar sicrhau mwy o ddarpariaeth. Mae cynllunio a chydgysylltu'r gwaith o gyflenwi tai newydd i ddiwallu anghenion a nodwyd yn dasg bwysig ar gyfer y broses cynllunio rhanbarthol. O dan amcangyfrifon canolog Llywodraeth Cymru, mae angen 66,400 o gartrefi ychwanegol yn y rhanbarth tan 2039 a thros y pum mlynedd cychwynnol (2019/20 i 2023/24) dylai 48% o'r cartrefi ychwanegol sydd eu hangen fod yn gartrefi fforddiadwy. Mae'r amcangyfrifon hyn yn darparu rhan o'r dystiolaeth a'r cyd-destun y gellir seilio Gofynion Tai ar gyfer Cynlluniau Datblygu Strategol arnynt a dylid eu hystyried ar lefel

Lluniwyd y ddogfen hon ym mis Medi 2020 i helpu'r Senedd i graffu ar y FfDC. Mae'n fersiwn weithredol ac nid yw'n derfynol. Bydd yn newid ar ôl i'r Senedd graffu arni.

ranbarthol. Bydd deall a rheoli pwysau datblygu gwahanol ledled y rhanbarth yn fater allweddol i Gynlluniau Datblygu Strategol. Mae'n rhaid ystyried materion tai strategol ar lefel ranbarthol ac nid ar sail dyheadau awdurdodau cynllunio lleol unigol.

Mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i weld bioamrywiaeth yn gwella ac ecosystemau yn dod yn fwy cadarn ar draws y De-ddwyrain. Amlinella polisïau 9 a 15 y dull strategol cenedlaethol a byddant yn sicrhau y cymerir camau i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd, gwrthdroi dirywiad mewn bioamrywiaeth a sicrhau llesiant cymunedau. Mae'r polisïau hyn yn gofyn am ystyried y math o gamau y mae angen eu cymryd ar lefelau rhanbarthol a lleol a sut y gellir hwyluso hyn drwy Gynlluniau Datblygu Strategol a Lleol.

Bydd sawl mantais i gymunedau a busnesau, yn ogystal â byd natur ei hun, o fuddsoddi mewn creu rhwydweithiau ecolegol cadarn a seilwaith gwyrdd. Mae angen mynd ati i wella cadernid ym mhob ardal. Yn y rhanbarth hwn rhoddir pwyslais ar y gydberthynas rhwng polisïau 9 a 15 a pholisïau 2 a 6 a fydd yn llywio twf trefol, a pholisïau 11 a 12 a fydd yn canolbwyntio ar gysylltedd.Bydd patrwm aneddiadau a natur y rhwydweithiau ecolegol sy'n bodoli eisoes, y pwysau sydd arnyn nhw a'r tir, a'r cyfleoedd sy'n bodoli i sicrhau mwy o gadernid yn ffactorau wrth bennu dulliau gweithredu penodol. Lle ceir blaenoriaethau croes bydd angen ystyried y rhain a'u datrys yn rhanbarthol ac yn lleol.


Mae'r prifysgolion yng Nghaerdydd, Casnewydd a Phontypridd yn bresenoldeb pwysig yn y rhanbarth, gan ddarparu addysg bellach, gwneud gwaith ymchwil a chefnogi arloesedd, darparu swyddi, denu myfyrwyr a chefnogi'r busnesau lleol a'r cymunedau o'u hamgylch. Dylai Cynlluniau Datblygu Strategol a Lleol ystyried eu rôl yn y rhanbarth a sut y gallant chwarae mwy o rôl wrth gefnogi'r economi ranbarthol, arloesedd a'u cymunedau.


Mae rhanbarth y De-ddwyrain yn cyfrif am 51% o gyfanswm allbwn economaidd economi Cymru. Bydd y Fframwaith Economaidd Rhanbarthol, a gaiff ei lunio gan Lywodraeth Cymru mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol, cymunedau, busnesau a rhanddeiliaid allweddol, yn nodi'r blaenoriaethau ar gyfer datblygu economaidd rhanbarthol yn y dyfodol. Bydd gan y system gynllunio, drwy Gynlluniau Datblygu Strategol a Lleol a'r penderfyniadau a wna, rôl bwysig i'r chwarae o ran creu'r lleoedd sy'n cefnogi ac yn atgyfnerthu'r economi ranbarthol. Mae Bargen Ddinesig Dinas-Ranbarth Caerdydd wedi gwneud cynnydd o ran datblygu ac atgyfnerthu dull gweithredu rhanbarthol. Dylai'r Cynllun Datblygu Strategol gael ei lywio gan Fargen Dinas-Ranbarth Caerdydd a dylai sicrhau y caiff penderfyniadau lleoliadol allweddol ynghylch safleoedd tai a chyflogaeth, gwasanaethau allweddol a seilwaith hanfodol eu cynllunio er mwyn cefnogi buddsoddiad a phrosiectau ledled y rhanbarth ac elwa arnynt.

Dylai'r Cynllun Datblygu Strategol geisio manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd sy'n deillio o fuddsoddi yn y sector lled-ddargludyddion cyfansawdd. Mae technoleg lled-ddargludyddion cyfansawdd wrth wraidd y chwyldro diwydiannol nesaf ac mae'n dechnoleg sy'n tyfu'n gyflym yng Nghymru. Mae'r dechnoleg wrth wraidd amrywiaeth o gynhyrchion, gynnwys ffonau clyfar, Wi-Fi, systemau cyfathrebu â lloeren, roboteg a deuodau allyrru golau (LEDs) effeithlon. Yng Nghymru, mae diwydiant, y byd academaidd a'r Llywodraeth yn gweithio i ddatblygu clwstwr lled-ddargludyddion cyfansawdd o'r radd flaenaf. Drwy ddatblygu'r galluoedd hyn yn y rhanbarth, mae Cymru wedi sefydlu'r elfennau craidd ar gyfer ecosystem lled-ddargludyddion cyfansawdd a fydd yn helpu i bontio gwaith ymchwil sydd ar gam cynnar, ymchwil ddiwydiannol gymhwysol ac arloesedd drwodd i'r sector gweithgynhyrchu meintiau mawr a'i gadwyn gyflenwi ategol.

Lluniwyd y ddogfen hon ym mis Medi 2020 i helpu'r Senedd i graffu ar y FfDC. Mae'n fersiwn weithredol ac nid yw'n derfynol. Bydd yn newid ar ôl i'r Senedd graffu arni.

Amgylchedd Naturiol Dynodedig yn y De Ddwyrain





Lluniwyd y ddogfen hon ym mis Medi 2020 i helpu'r Senedd i graffu ar y FfDC. Mae'n fersiwn weithredol ac nid yw'n derfynol. Bydd yn newid ar ôl i'r Senedd graffu arni.

Nid yw ffyniant wedi'i ddosbarthu'n gyfartal ledled y rhanbarth. Dylai Cynlluniau Datblygu Strategol a Lleol ystyried sut y gellir dosbarthu ffyniant yn gyfartal ar draws y rhanbarth, sut y gellir atgyfnerthu economïau lleol a sut y gall twf yn yr ardaloedd economaidd cryfaf ddod â manteision i'r rhanbarth cyfan. Dylent ystyried anghydraddoldebau cymdeithasol ac amgylcheddol ac anghydraddoldebau iechyd a sicrhau bod dewisiadau o ran defnydd tir strategol yn cyfrannu at fynd i'r afael â'r materion hyn. Mae gwella hygyrchedd a'r ffordd mae pobl a nwyddau yn symud yn flaenoriaeth strategol allweddol a gall gefnogi camau gweithredu i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb economaidd, cymdeithasol, diwylliannolac amgylcheddol.

Mae Llywodraeth Cymru yn gryf o blaid datblygu'r economi sylfaenol yn y rhanbarth. Mae'r economi sylfaenol yn cynrychioli'r rhannau hynny o'r economi sy'n annatod i lesiant lleoedd, cymunedau a phobl, ac sy'n diwallu anghenion beunyddiol pobl. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i gefnogi economïau lleol a rhanbarthol cadarnach ac yn cefnogi twf busnesau a chyfleoedd cyflogaeth newydd. Dylai Cynlluniau Datblygu Strategol a Lleol nodi rôl yr economi sylfaenol, ystyried sut y gall y system cynllunio defnydd tir ei chefnogi a datblygu polisïau priodol. Ymhlith y rhannau o'r economi sylfaenol y gall y system gynllunio eu cefnogi mae mentrau adfywio, iechyd a gofal cymdeithasol, tai cymdeithasol, twristiaeth a chamau i annog mwy o fanteision cymunedol yn sgil datblygiadau newydd.

Mewn ardaloedd trefol, gan gynnwys Ardal Dwf Genedlaethol Caerdydd, Casnewydd a'r Cymoedd, rhaid i'r gwaith o wella (mantais net) bioamrywiaeth a darparu seilwaith gwyrdd lywio strategaethau twf a chael ei integreiddio'n llawn fel rhan o ddatrysiadau lleoliad a dyluniad ar gyfer datblygiad arfaethedig.

Ar sail y map dangosol ym mholisi 9, ymddengys mai ardaloedd ucheldir yn rhannau deheuol a gogleddol y cymoedd sy'n cynnwys y rhwydweithiau ecolegol mwyaf cadarn yn fras, ond nid yw hyn yn golygu eu bod mor gadarn ag y dylent fod. Mae'r cymoedd eu hunain a'r ardaloedd ar hyd arfordir y de ac yn nwyrain y rhanbarth yn dueddol



Lluniwyd y ddogfen hon ym mis Medi 2020 i helpu'r Senedd i graffu ar y FfDC. Mae'n fersiwn weithredol ac nid yw'n derfynol. Bydd yn newid ar ôl i'r Senedd graffu arni.

o fod yn llai cadarn o ran rhwydweithiau ecolegol, gan adlewyrchu'r mathau o bwysau amaethyddol a datblygu sy'n eu hwynebu. Yr her yw nodi ffyrdd o gyflawni atebion yn seiliedig ar natur integredig ac arloesol a fydd yn gwella cadernid ecolegol a seilwaith gwyrdd ledled y rhanbarth.

Mae polisi 9 yn ei gwneud yn ofynnol i wella ac ehangu rhwydweithiau presennol. Yn yr un modd, rhaid nodi cyfleoedd i ddiogelu a chreu rhwydweithiau cadarn, a'r gwasanaethau ecosystem maent yn dibynnu arnynt, a'r manteision niferus sy'n deillio o seilwaith gwyrdd lle nad yw hyn yn wir ar hyn o bryd. Mae hyn yn cynnwys ystyried rôl tirweddau gwarchodedig a dynodiadau cadwraeth natur. Yn ogystal ag yn yr ardaloedd mwyaf trefol a'r cymoedd, mae polisïau 9 a 15 yn cydweithio â pholisïau 4 a 5 er mwyn ei gwneud yn ofynnol i ystyried y cydberthnasau rhwng pob math o ddefnydd tir a rheoli tir yn llawnach yn rhannau gwledig rhanbarth y De-ddwyrain, er mwyn mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd, gwrthdroi dirywiad mewn bioamrywiaeth a galluogi cymunedau i gael budd o fathau mwy cynaliadwy o reoli adnoddau naturiol.

Mae'n hanfodol bod y rhanbarth yn cyfrannu at ddatgarboneiddio ac yn helpu i wireddu'r weledigaeth ar gyfer ynni adnewyddadwy. Mae polisïau 17 a 18 yn amlinellu dull Cymru'r Dyfodol o gynhychu ynni adnewyddadwy ledled Cymru. Mae cryn botensial ar gyfer cynhyrchu ynni gwynt, ynni morol ac ynni solar a dylai Cynlluniau Datblygu Strategol a Lleol ddarparu fframwaith ar gyfer cynhyrchu ynni adnewyddadwy a seilwaith cysylltiedig. Mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i weld cynhyrchu, storio a rheoli ynni yn chwarae rôl yn y gwaith o gefnogi economi'r De-ddwyrain. Mae perchenogaeth a dosbarthu lleol yn bwysig er mwyn sicrhau bod cymunedau sy'n agos at ddatblygiadau ynni adnewyddadwy yn cael budd ohonynt a bod ein system ynni yn y dyfodol yn gwasanaethu Cymru'n well.

Mae'r gydberthynas agos rhwng y De-ddwyrain a Gorllewin Lloegr a phresenoldeb llain las fawr o amgylch Bryste yn golygu y daw pwysau datblygu hirdymor yn hannu o du Lloegr i ranbarth y De-ddwyrain. Mae'r agosatrwydd at ranbarth poblog mawr yn Lloegr yn cynnig cyfleoedd a all gefnogi'r De-ddwyrain, ond rhaid rheoli'r cyfleoedd hyn yn strategol ac yn rhanbarthol.



Rheoli Twf

Polisi 34 – Lleiniau Glas yn y De-Ddwyrain

Mae Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cynllun Datblygu Strategol nodi llain las i'r gogledd o Gaerdydd, Casnewydd a rhan ddwyreiniol y rhanbarth er mwyn rheoli ffurf a thwf trefol.

Rhaid i'r Cynllun Datblygu Strategol ystyried y gydberthynas rhwng lleiniau glas a'r llain las yng Ngorllewin Lloegr. Ni ddylai Cynlluniau Datblygu Lleol na phenderfyniadau rheoli datblygu ganiatáu datblygiadau mawr yn yr ardaloedd a ddangosir i'w hystyried ar gyfer lleiniau glas, ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol iawn, nes bod yr angen am leiniau glas a'u ffiniau wedi'i bennu gan Gynllun Datblygu Strategol mabwysiedig.

Dylai penderfyniadau strategol ynghylch lleoliad gwaith datblygu, gwasanaethau a seilwaith allweddol gefnogi ardaloedd adeiledig sy'n bodoli eisoes a chael eu gwneud ar lefel ranbarthol, gan sicrhau eu bod wedi'u lleoli yn y lleoedd mwyaf hygyrch a chynaliadwy, eu bod yn cefnogi camau gweithredu i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb ac amddifadedd a'u bod yn gwella cysylltiadau ag ardaloedd cyfagos yn Lloegr. Mae Polisi Cynllunio Cymru yn nodi'r cyd-destun ar gyfer sefydlu lleiniau glas.

Mae Llywodraeth Cymru, cymunedau a phartneriaid wedi datblygu fframwaith cadarnhaol drwy 'Ein Cymoedd, Ein Dyfodol' er mwyn ysgogi newid a llywio gweithgarwch adfywio. Nod Parc Rhanbarthol y Cymoedd yw manteisio i'r eithaf ar botensial cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol asedau naturiol ac asedau treftadaeth ddiwylliannol y Cymoedd ac mae'n bwysig bod y system gynllunio yn helpu i'w gyflawni.

Lluniwyd y ddogfen hon ym mis Medi 2020 i helpu'r Senedd i graffu ar y FfDC. Mae'n fersiwn weithredol ac nid yw'n derfynol. Bydd yn newid ar ôl i'r Senedd graffu arni.

Cefnogi Twf

Polisi 35 – Parc Rhanbarthol y Cymoedd

Mae Llywodraeth Cymru o blaid sefydlu Parc Rhanbarthol y Cymoedd.
Dylai Cynlluniau Datblygu Strategol a Lleol ymgorffori ei egwyddorion yn eu fframweithiau cynllunio. Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag awdurdodau lleol, y trydydd sector a phartneriaid allweddol i gefnogi Parc Rhanbarthol y Cymoedd a manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd ar gyfer datblygiadau newydd.

Mae gan y De-ddwyrain lawer o adnoddau hanesyddol a naturiol eithriadol sy'n rhan bwysig o'r gwead lleol ac yn helpu i adrodd hanes ei gymunedau nodedig ac unigryw. Ymhlith y lleoedd eithriadol mae ei draethau Baner Las ar hyd yr arfordir deheuol, Safle Treftadaeth y Byd Tirwedd Ddiwydiannol Blaenafon a Henebion Cofrestredig fel Caer Rufeinig a Baddonau Caerllion a chestyll niferus ledled y rhanbarth. Dylent gael eu diogelu er mwynhad cenedlaethau'r dyfodol a dylent helpu i ddarparu manteision economaidd i gymunedau'r rhanbarth. Dylai treftadaeth unigryw'r rhanbarth gael ei diogelu a'i gwella gan ddatblygiadau o ansawdd uchel.

Mae'r rhanbarth yn cael ei wasanaethu gan borthladdoedd yng Nghasnewydd, Caerdydd a'r Barri. Mae pob un ohonynt yn chwarae rôl economaidd bwysig a, gyda'i gilydd, maent yn seilwaith allweddol yn y rhanbarth. Dylai Cynlluniau Datblygu Strategol a Lleol ystyried rôl y porthladdoedd yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol a sefydlu fframweithiau i gefnogi'r porthladdoedd hyn ac, o bosibl, helpu i'w hehangu.

Mae poblogaeth ddwys y rhanbarth a'i dwf hanesyddol a'i dwf yn y dyfodol yn golygu ei fod yn defnyddio llawer o ddeunyddiau ac adnoddau naturiol. Mae'n hanfodol bod y rhanbarth yn gwneud y defnydd gorau o adnoddau materol ac yn hyrwyddo'r defnydd effeithlon o adnoddau a'i fod yn uchelgeisiol wrth gefnogi ffyrdd arloesol o hyrwyddo economi gylchol. Mae'r rhanbarth yn dibynnu'n fawr ar agregau morol o Fôr Hafren ac Aber Afon Hafren ac mae mwynau o'r ardal hon yn gwasanaethu marchnadoedd yng Nghymru a Lloegr.

Lluniwyd y ddogfen hon ym mis Medi 2020 i helpu'r Senedd i graffu ar y FfDC. Mae'n fersiwn weithredol ac nid yw'n derfynol. Bydd yn newid ar ôl i'r Senedd graffu arni.

Polisi 36 – Metro'r De-ddwyrain

Mae Llywodraeth Cymru o blaid datblygu Metro'r De-ddwyrain a bydd yn gweithio gyda Trafnidiaeth Cymru, awdurdodau lleol a phartneriaid eraill i'w gyflawni ac achub ar gyfleoedd cysylltiedig.
Rhaid i Gynlluniau Datblygu Strategol a Lleol gefnogi Metro'r De-ddwyrain. Dylai awdurdodau cynllunio gynllunio ar gyfer twf ac adfywio er mwyn achub ar y cyfleoedd sy'n deillio o well cysylltedd rhanbarthol, gan gynnwys nodi cyfleoedd am ddatblygiadau dwysedd uwch, defnydd cymysg a di-gar o amgylch gorsafoedd metro newydd a gwell.

Ledled Cymru a'r rhanbarthau, mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i weld gwaith datblygu yn digwydd mewn lleoliadau cynaliadwy, wedi'i gefnogi gan seilwaith a gwasanaethau teithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus sydd eu hangen i alluogi pobl i fyw bywydau iach ac actif. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod lefelau cyfartalog o lygredd aer a sŵn yn cael eu gostwng neu eu gwneud mor fach â phosibl o leiaf. Y nod cyffredinol yw lleihau'r angen i deithio, yn enwedig mewn cerbydau preifat, a chefnogi newid dulliau teithio i gerdded, beicio a defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus. Amlinella polisïau 11 a 12 y dull strategol o sicrhau cysylltedd cenedlaethol a rhanbarthol a sut y bydd Llywodraeth Cymru yn cefnogi ac yn buddsoddi mewn gwelliannau i deithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus

Mae Comisiwn Trafnidiaeth De-ddwyrain Cymru yn rhoi cyngor ar fynd i'r afael â thagfeydd ar yr M4 a bydd yn gwneud argymhellion i Lywodraeth Cymru ar atebion i'r broblem. Cafodd casgliadau cychwynnol y Comisiwn eu cyhoeddi ym mis Gorffennaf 2020.


Yn rhanbarth y De-ddwyrain, mae seilwaith a gwasanaethau'r rheilffyrdd yn greiddiol i rwydwaith trafnidiaeth effeithiol ac effeithlon, ac yn ganolog i wella cysylltedd rhanbarthol a chenedlaethol. Mae cynllun Metro'r De-ddwyrain yn cynnig cyfle strategol pwysig i wella seilwaith rheilffyrdd, bysiau, beicio a cherdded ledled y rhanbarth a darparu ffocws ar gyfer buddsoddi, adfywio a gwaith datblygu cysylltiedig. Mae'r boblogaeth uchel a'r rhwydwaith rheilffyrdd dwys yn y De-ddwyrain yn golygu bod y rhanbarth yn addas ar gyfer datblygiad sy'n canolbwyntio ar dramwy, fel y'i hyrwyddir ym mholisi 12. Bydd ansawdd, amrywiaeth ac amlder gwasanaethau trafnidiaeth yn amrywio ledled y rhanbarth a dylai awdurdodau cynllunio eu hystyried wrth lunio'r strategaeth ofodol ranbarthol. Yn unol â pholisi 19, mae'n rhaid i Gynlluniau Datblygu Strategol a Lleol sicrhau bod penderfyniadau strategol hirdymor yn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd mewn ardaloedd a fydd yn cael budd o well hygyrchedd a mwy o fuddsoddiad mewn gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus, gan gynnwys y Metro.

Lluniwyd y ddogfen hon ym mis Medi 2020 i helpu'r Senedd i graffu ar y FfDC. Mae'n fersiwn weithredol ac nid yw'n derfynol. Bydd yn newid ar ôl i'r Senedd graffu arni.


Bydd hwyluso mynediad i'r Metro drwy deithio llesol yn gwneud cyfraniad pwysig i newid dulliau teithio o'r car i drafnidiaeth gyhoeddus ar lefel ranbarthol. Er mwyn cyflawni hyn bydd angen llwybrau teithio llesol o ansawdd uchel sy'n cysylltu cymdogaethau a chyrchfannau teithio â gorsafoedd metro. Hefyd, bydd yn hanfodol darparu lleoedd parcio beic diogel o ansawdd uchel wrth gyfnewidfeydd. Gallai ehangu'r system llogi beiciau ar y stryd a ddatblygwyd yng Nghaerdydd ledled y rhanbarth ehangach hefyd helpu i ddatblygu'r defnydd o drafnidiaeth gyhoeddus. Gall integreiddio'r Metro â phrif linell reilffordd De Cymru mewn lleoliadau allweddol hefyd helpu i leihau traffig ar yr M4, gan gynnwys cymudwyr i'r De-ddwyrain ac oddi yno, i leoedd fel Bae Abertawe a Bryste.

Mae'r Metro yn adlewyrchu pwysigrwydd Caerdydd i'r rhanbarth ond mae hefyd yn cynnig y potensial a'r cyfle i rannau eraill o'r rhanbarth weithredu fel canolfannau allweddol. Bydd Merthyr Tudful, Pontypridd, Caerffili a Phen-y-bont ar Ogwr yn lleoliadau strategol bwysig ar system Metro'r De-ddwyrain. Bydd gweithgarwch adfywio a thwf economaidd cynaliadwy a chynhwysol yn y trefi hyn yn helpu i gyflawni uchelgeisiau prosiect Ein Cymoedd, Ein Dyfodol. Lle y caiff coridorau trafnidiaeth newydd eu creu gan gynllun y Metro, mae'n rhaid ymchwilio i'r posibilrwydd y gall y coridorau hyn ymgorffori seilwaith gwyrdd.

Y pellter cyfartalog a deithiwyd i'r gwaith (km) gan weithwyr 16–74 oed yn 2011, yn ôl awdurdod preswyl lleol



Lluniwyd y ddogfen hon ym mis Medi 2020 i helpu'r Senedd i graffu ar y FfDC. Mae'n fersiwn weithredol ac nid yw'n derfynol. Bydd yn newid ar ôl i'r Senedd graffu arni.



Lluniwyd y ddogfen hon ym mis Medi 2020 i helpu'r Senedd i graffu ar y FfDC. Mae'n fersiwn weithredol ac nid yw'n derfynol. Bydd yn newid ar ôl i'r Senedd graffu arni.



Lluniwyd y ddogfen hon ym mis Medi 2020 i helpu'r Senedd i graffu ar y FfDC. Mae'n fersiwn weithredol ac nid yw'n derfynol. Bydd yn newid ar ôl i'r Senedd graffu arni.

Y gydberthynas rhwng polisïau Cymru'r Dyfodol a'r 'Canlyniadau' y mae'n ceisio eu cyflawni.

CANLYNIADAU Cymru lle mae pobl yn byw ...	P1	P2	P3	P4	P5	P6	P7	P8	P9	P10	P11	P12	P13	P14	P15	P16	P17	P18	P19
ac yn gweithio mewn lleoedd cysylltiedig, cynhwysol ac iach	•	•	•	•	•	•		•	•	•	•	•	•	•	•	•	•	•	•
mewn llefydd gwledig llewyrchus lle y gallant gael cartrefi, gwaith a gwasanaethau	•	•	•	•	•	•	•		•		•	•	•	•	•		•	•	•
mewn rhanbarthau nodedig sy'n mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd ac anghydraddoldebau economaidd-gymdeithasol drwy dwf cynaliadwy	•	•	•	•	•	•	•	•	•		•	•	•	•	•	•	•	•	•
mewn lleoedd lle mae'r iaith Gymraeg yn ffynnu	•	•	•	•	•	•	•			•	•	•	•	•	•				•
ac yn gweithio mewn trefi a dinasoedd sy'n ganolbwynt ac yn sbardun i dwf cynaliadwy	•	•	•	•	•	•		•	•	•	•	•	•	•		•			•
mewn lleoedd lle y caiff ffyniant, arloesedd a diwylliant eu hyrwyddo	•	•	•	•	•	•		•	•	•	•	•	•	•	•	•	•	•	•
mewn lleoedd lle mae teithio yn gynaliadwy	•	•	•	•	•	•		•	•	•	•	•	•	•	•				•
mewn lleoedd â seilwaith digidol o'r radd flaenaf	•	•	•	•	•	•				•	•	•	•	•					•
mewn lleoedd sy'n rheoli eu hadnoddau naturiol yn gynaliadwy ac yn lleihau llygredd	•	•	•	•	•	•		•	•	•	•	•	•	•	•	•	•	•	•
mewn lleoedd ag ecosystemau bioamrywiol, cadarn a chysylltiedig	•	•	•	•	•	•		•	•		•	•			•		•	•	•
mewn lleoedd sydd wedi'u datgarboneiddio ac sy'n gallu gwrthsefyll yr hinsawdd	•	•	•	•	•	•		•	•	•	•	•	•	•	•	•	•	•	•

Lluniwyd y ddogfen hon ym mis Medi 2020 i helpu'r Senedd i graffu ar y FfDC. Mae'n fersiwn weithredol ac nid yw'n derfynol. Bydd yn newid ar ôl i'r Senedd graffu arni.

CANLYNIADAU Cymru lle mae pobl yn byw...	P20	P21	P22	P23	P24	P25	P26	P27	P28	P29	P30	P31	P32	P33	P34	P35	P36
ac yn gweithio mewn lleoedd cysylltiedig, cynhwysol ac iach	•	•	•	•	•	•	•	•	•	•	•	•	•	•	•	•	•
mewn llefydd gwledig llewyrchus lle y gallant gael cartrefi, gwaith a gwasanaethau	•	•	•	•	•	•	•	•	•	•	•	•	•	•	•	•	•
mewn rhanbarthau nodedig sy'n mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd ac anghydraddoldebau economaidd-gymdeithasol drwy dwf cynaliadwy	•	•	•	•	•	•	•	•	•	•	•	•	•	•	•	•	•
mewn lleoedd lle mae'r iaith Gymraeg yn ffynnu	•	•		•	•	•	•	•	•	•		•	•	•			•
ac yn gweithio mewn trefi a dinasoedd sy'n ganolbwynt ac yn sbardun i dwf cynaliadwy	•	•	•	•	•	•	•	•	•	•	•	•	•	•	•	•	•
mewn lleoedd lle y caiff ffyniant, arloesedd a diwylliant eu hyrwyddo	•	•	•	•	•	•	•	•	•	•	•	•	•	•	•	•	•
mewn lleoedd lle mae teithio yn gynaliadwye	•	•		•		•	•	•	•	•		•		•		•	•
mewn lleoedd â seilwaith digidol o'r radd flaenaf	•	•		•		•	•	•	•	•		•		•		•	•
mewn lleoedd sy'n rheoli eu hadnoddau naturiol yn gynaliadwy ac yn lleihau llygredd	•	•	•	•	•	•	•	•	•	•	•	•	•	•	•	•	•
mewn lleoedd ag ecosystemau bioamrywiol, cadarn a chysylltiedig	•	•	•	•		•	•	•	•	•	•	•		•	•	•	•
mewn lleoedd sydd wedi'u datgarboneiddio ac sy'n gallu gwrthsefyll yr hinsawdd	•	•	•	•	•	•	•	•	•	•	•	•	•	•	•	•	•

Lluniwyd y ddogfen hon ym mis Medi 2020 i helpu'r Senedd i graffu ar y FfDC. Mae'n fersiwn weithredol ac nid yw'n derfynol. Bydd yn newid ar ôl i'r Senedd graffu arni.